Cyngor Sir Powys

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Powys

## Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Atodiad A



808795-WSP---10_P05.01

Gorffennaf 2024

Cyhoeddus

Cyngor Sir Powys

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Powys

## Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Atodiad A

**Math o ddogfen (fersiwn) Cyhoeddus**

**Rhif y Prosiect 62280832**

**Ein Rhif Cyfeirnod 808795-WSP---10_P05.01**

**Dyddiad: Gorffennaf 2024**

WSP

Kings Orchard
1 Queen Street
Bryste
BS2 0HQ

Ffôn: +44 117 930 6200

WSP.com

## Cyngor Sir Powys

# Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o Gynllun Datblygu Lleol Newydd Powys

Adroddiad Cwmpasu ACI

[Type here]

Wood Environment & Infrastructure Solutions UK Limited – Rhagfyr 2023

## Adroddiad ar gyfer

Angharad Richards
Uwch-swyddog Cynllunio
Cyngor Sir Powys

## Y prif gyfranwyr

Adam Mealing
Daniel J Williams
Robert Deanwood
Alex Melling

## Cyhoeddwyd gan

..................................................................................
Robert Deanwood

## Cymeradwywyd gan

..................................................................................
Sean Nicholson

## Wood Environment & Infrastructure Solutions UK Limited

Nicholls House
Homer Close
Leamington Spa
Swydd Warwick CV34 6TT
Y Deyrnas Unedig
Ffôn +44 (0)1926 439 000

Cyfeirnod y Ddogfen 808795----1_P02.01

c:\temp\powys isa scoping report for consultation 05.09.22.docx

## Hawlfraint a rhybudd peidio â datgelu

Mae cynnwys a chynllun yr adroddiad hwn yn ddarostyngedig i hawlfraint y mae Wood (© Wood Environment & Infrastructure Solutions UK Limited 2022) yn berchen arni ac eithrio i'r graddau y mae hawlfraint wedi ei neilltuo gennym yn gyfreithiol i barti arall neu y'i defnyddir gan Wood o dan drwydded. I'r graddau yr ydym yn berchen ar yr hawlfraint yn yr adroddiad hwn, ni chaniateir ei gopïo na'i ddefnyddio at unrhyw ddiben heblaw'r pwrpas a nodir yn yr adroddiad hwn heb inni gytuno'n ysgrifenedig ymlaen llaw. Darperir y fethodoleg (os oes) sydd yn yr adroddiad hwn i chi yn gyfrinachol ac ni ddylid ei datgelu na'i chopïo i drydydd partïon heb gytundeb ysgrifenedig blaenorol gan Wood. Gallai datgelu'r wybodaeth honno ffurfio achos o dorri cyfrinachedd sy'n agored i gyfraith neu efallai y bydd fel arall yn gwneud niwed i'n buddiannau masnachol. Mewn unrhyw achos, bydd unrhyw drydydd parti sy'n cael gafael ar yr adroddiad hwn drwy unrhyw fodd yn ddarostyngedig i'r Ymwadiad Trydydd Partïon a nodir isod.

## Ymwadiad trydydd partïon

Mae unrhyw achos o ddatgelu'r adroddiad hwn i drydydd parti yn ddarostyngedig i'r ymwadiad hwn. Paratowyd yr adroddiad gan Wood yn unol â chyfarwyddiadau ein cleient a enwir ar flaen yr adroddiad, ac i'w ddefnyddio ganddo. Nid yw'n ffurfio cyngor mewn unrhyw ffordd i unrhyw drydydd parti sy'n gallu cael gafael arno drwy ba fodd bynnag. Mae Wood yn eithrio i'r graddau mwyaf posibl a ganiateir yn gyfreithlon unrhyw atebolrwydd o gwbl am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o ddibyniaeth ar gynnwys yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, nid ydym yn eithrio ein hatebolrwydd (os o gwbl) am anaf personol neu farwolaeth sy'n deillio o'n hesgeulustod, am dwyll nac unrhyw fater arall na allwn eithrio atebolrwydd rhagddo yn gyfreithiol.

## Systemau rheoli

Lluniwyd y ddogfen hon gan Wood Environment & Infrastructure Solutions UK Limited, gan gydymffurfio'n llawn â'n systemau rheoli sydd wedi eu hardystio i ISO 9001, ISO 14001 ac ISO 45001 gan Lloyd's Register.

## Diwygiadau'r ddogfen

| Rhif | Manylion | Dyddiad |
|---|---|---|
| **1** | Adroddiad Cwmpasu ACI Drafft ar gyfer ymgynghoriad | Medi 2022 |
| **2** | Adroddiad Cwmpasu Terfynol | Mawrth 2023 |
| **3** | Adroddiad Cwmpasu Terfynol – diweddariad | Rhagfyr 2023 |

# Crynodeb Annhechnegol

## Trosolwg

Mae'r Crynodeb Annhechnegol hwn yn rhoi trosolwg o'r Adroddiad Cwmpasu a gynhyrchir yn rhan o Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) 2022-2037 y mae Cyngor Sir Powys (y Cyngor) yn ei baratoi ar hyn o bryd. Cynhelir yr ACI ar ran y Cyngor gan Wood, a bydd yn gwerthuso perfformiad amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y Cynllun Datblygu Lleol ac unrhyw ddewisiadau rhesymol eraill, gan helpu i sicrhau ei gyfraniad tuag at gynaliadwyedd.

## Gofynion

Wrth gynnal yr ACI, mae'r Cyngor yn defnyddio proses sy'n ymgorffori Arfarniad o Gynaliadwyedd (AC), Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), Asesu'r Effaith ar Iechyd (AEI). Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Mae'r asesiadau hyn (a drafodir yn fanwl isod) yn rhan o'r uchelgais i lunio Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n helpu i hybu a gwireddu datblygiad cynaliadwy, sydd wrth wraidd proses y cynllun datblygu[1]. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (a gyhoeddwyd fel Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040) yn gofyn ymhellach i ddatblygiadau cynaliadwy ac i Gynlluniau Datblygu Lleol gyflawni hyn[2]. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried yr effeithiau hirdymor sy'n deillio o'u penderfyniadau ac i wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru, yn unol â diffiniad y Ddeddf hon o ddatblygu cynaliadwy[3]:

> "Y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant."

Y saith nod llesiant a nodir gan Ddeddf 2015 yw:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru iachach
- Cymru o gymunedau cydlynus

[1] Llywodraeth Cymru (2020) 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3)' Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf (llyw.cymru) tudalen 63.
[2] Llywodraeth Cymru (2021) 'Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040'. Ar gael yn: https://llyw.cymru/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040
[3] Llywodraeth Cymru (2015) 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'. Ar gael yn: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Adran 2) yn gorfodi ymhellach ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i gofynion datblygu cynaliadwy[4]. Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ddyletswydd uwch o ran bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (Dyletswydd Adran 6)

## Arfarniad o Gynaliadwyedd (AC)

O dan Adran 19(5) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal AC o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i helpu i lywio'r broses o ddethol a datblygu polisïau a chynigion o ran eu heffeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd posibl.

Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol[5] yn nodi: "dylai arfarniad cynaliadwyedd sy'n bodloni'r gofynion cyfreithiol perthnasol lywio cynlluniau lleol a strategaethau datblygu gofodol drwy gydol y broses o'u paratoi".

## Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Wrth gynnal yr AC, mae'n rhaid i'r Cyngor ymgorffori hefyd ofynion Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004[6] a Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni ac Amgylchedd a Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019[7] (Rheoliadau'r AAS). Cyfyngir yr AAS i ystyried effeithiau ar yr amgylchedd[8], ac mae'r broses AC yn ystyried pynciau ehangach ffactorau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd[9]. Felly, bydd prosesau'r AAS a'r AC yn cydweithio yn yr ACI hwn i sicrhau bod yr holl effeithiau posibl sy'n deillio o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cael eu hystyried. Cyhoeddodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru ganllawiau ar sut y dylid mynd i'r afael â phroses yr AAS a'r AC, a bydd y canllawiau hyn wedi yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o lunio unrhyw ddogfennau yn ystod oes proses yr ACI[10]. Mae'r canllawiau hyn yn ceisio sicrhau bod Adroddiadau Cwmpasu yn cynnwys gwybodaeth sy'n helpu i nodi ac i fesur materion sy'n bodoli ac nad dim ond dogfennau hir sy'n cynnwys gwybodaeth

[4] Llywodraeth Cymru (2015) Deddf 'Cynllunio (Cymru) 2015'. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/4/section/2/enacted
[5] MHCLG (2021) National Planning Policy Framework, paragraff 32 ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/national-planning-policy-framework--2
[6] Llywodraeth Cymru (2004) 'Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004'. Ar gael yn: Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (deddfwriaeth.gov.uk).
[7] Llywodraeth Cymru (2019) 'Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004'. Ar gael yn: Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni ac Amgylchedd a Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (deddfwriaeth.gov.uk) .
[8] [Saesneg yn unig.] "the likely significant effects on the environment, including on issues such as biodiversity, population, human health, fauna, flora, soil, water, air, climatic factors, material assets, cultural heritage including architectural and archaeological heritage, landscape and the interrelationship between the above factors" (SEA Directive 2001/42/EC, Annex I (f))
[9] Llywodraeth Cymru (2020) 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3)' Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf (llyw.cymru) tudalen 64.
[10] RTPI (2018) 'STRATEGIC ENVIRONMENTAL ASSESSMENT - Improving the effectiveness and efficiency of SEA/SA for land use plans'. Ar gael yn: https://www.rtpi.org.uk/research/2018/january/strategic-environmental-assessment-seasa-for-land-use-plans/, aed at y wefan 15.08.2022.

ydynt, gan sicrhau hefyd nad yw Adroddiad Cwmpasu yn annibynnol a bod effeithiau ar ardaloedd awdurdodau lleol eraill yn cael eu hystyried.

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

Mae'r ARhC yn gofyn am asesiad o'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar safleoedd Ewropeaidd ac mae'n ofynnol gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017[11].

Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys asesu effeithiau posibl cynlluniau defnydd tir ar rwydwaith Natura 2000 o safleoedd gwarchodedig Ewropeaidd (a elwir bellach yn Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol)[12] er mwyn penderfynu a fydd unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar unrhyw safle Ewropeaidd o ganlyniad i weithredu'r cynllun (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill); ac os felly, a fydd yr effeithiau hyn yn arwain at unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle hwnnw gan gyfeirio at amcanion cadwraeth y safle. Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 yn trosglwyddo swyddogaethau oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd i'r awdurdodau priodol yng Nghymru a Lloegr oherwydd bod y DU yn gadael yr UE[13]. Mae'r holl brosesau neu amodau eraill yn Rheoliadau 2017 yn parhau'n ddigyfnewid ac mae'r canllawiau presennol yn dal i fod yn berthnasol, a nod rheoliadau 2019 yw peidio â newid rheoliadau 2017 yn sylfaenol.

'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' (ARhC)[14] yw'r enw ar gyfer effeithiau cynllun neu raglen ar safleoedd Ewropeaidd.

Yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd, cynhelir yr hyn a gyfeirir ato'n gyffredin fel ymarfer sgrinio ar gyfer ARhC i nodi effeithiau tebygol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar safleoedd Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ac i ystyried a yw'r effeithiau hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol. Pan fo effeithiau arwyddocaol yn debygol, bydd angen Asesiad Priodol manylach.

Bydd yr ymarfer sgrinio ar gyfer ARhC yn cael ei adrodd ar wahân (fel y cynghorir mewn canllawiau cynllunio[15]) gan ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar y cam Materion a Dewisiadau ond, yn bwysig, bydd yn helpu i lywio'r broses arfarnu, yn enwedig o ran effeithiau posibl cynigion ar fioamrywiaeth.

---

[11] Llywodraeth EM (2017) 'The Conservation of Habitats and Species Regulations 2017'. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2017/1012/introduction/made.

[12] Yn fanwl gywir, 'safleoedd Ewropeaidd' yw unrhyw Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) o'r adeg pan fo'r Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth y DU yn cytuno bod y safle yn 'Safle o Bwys i'r Gymuned'; unrhyw Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) dosbarthedig; unrhyw ddarpar ACA ac (yn eithriadol) unrhyw safle neu ardal arall y mae'r Comisiwn yn credu y dylid ei hystyried yn ACA ond nad yw wedi ei hadnabod gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, defnyddir y term yn gyffredin hefyd wrth gyfeirio at AGAau posibl y cymhwysir darpariaethau Erthygl 4(4) o Gyfarwyddeb 2009/147/EC (y gyfarwyddeb newydd ar gyfer adar gwyllt) atynt; ac ar gyfer AGAau posibl a Safleoedd Ramsar rhestredig y cymhwysir darpariaethau Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) atynt yn fater o bolisi'r Llywodraeth wrth ystyried cynigion datblygu a allai effeithio arnynt. Felly, defnyddir 'safle Ewropeaidd' yn yr adroddiad hwn yn ei ystyr ehangaf, fel term cyffredinol ar gyfer yr holl safleoedd dynodedig uchod

[13] Llywodraeth EM (2021) 'Changes to the Habitats Regulations 2017'. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/changes-to-the-habitats-regulations-2017/changes-to-the-habitats-regulations-2017, aed at y wefan 15.08.2022.

[14] Defnyddiwyd 'Asesiad Priodol' yn hanesyddol fel term cyffredinol i ddisgrifio'r broses o gynnal asesiad yn ei gyfanrwydd. Erbyn hyn, gelwir y broses gyfan yn 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' (ARhC) fel arfer, a defnyddir 'Asesiad Priodol' i nodi cam penodol o'r ARhC.

[15] Llywodraeth Cymru (2020) 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3)' Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf (llyw.cymru)

## Asesu'r Effaith ar Iechyd (AEI)

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gofyn i gyrff cyhoeddus gynnal AEI er mwyn asesu'r effaith debygol, yn y tymor byr a'r hirdymor, ar iechyd corfforol a meddyliol[16,17].

Yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol, y nod yw asesu prif effeithiau iechyd a llesiant polisïau a chynigion er mwyn nodi unrhyw gyfleoedd i'r polisïau cynllunio sy'n dod i'r amlwg fanteisio ac osgoi unrhyw effeithiau andwyol posibl. Mae canllawiau ar y dull eang i'w gymryd wrth ei integreiddio â'r broses AC wedi ei gyhoeddi yn Asesu'r Effaith ar Iechyd: Pecyn Cymorth ar gyfer Ymarfer[18]. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi'r disgrifiad canlynol ar gyfer canlyniadau'r broses AEI[19]:

> *"Mae Asesu'r Effaith ar Iechyd yn broses sy'n ystyried sut y bydd camau arfaethedig yn effeithio ar iechyd a lles poblogaeth, boed yn bolisi, yn rhaglen, yn gynllun, yn brosiect neu'n newydd yn y ffordd y mae sefydliad yn darparu gwasanaeth cyhoeddus penodol."*

Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru yn darparu'r disgrifiad canlynol ar gyfer AEI a'i ganlyniadau[20]:

> *"cyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac offer ar gyfer barnu polisi, rhaglen neu brosiect o ran ei effeithiau posibl ar iechyd poblogaeth, a dosbarthu'r effeithiau hynny o fewn y boblogaeth."*

Darperir canllawiau penodol pellach sy'n ymwneud â'r broses CDLl yn Asesu'r Effaith ar Iechyd (AEI) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl): Pecyn Cymorth ar gyfer Ymarfer (Awst 2021), sy'n ceisio cefnogi cynllunwyr gofodol a swyddogion iechyd cyhoeddus i wneud y mwyaf o unrhyw gyfleoedd a allai ymddangos i alluogi cynllunio a datblygu iach yn rhan o'r broses paratoi CDLl

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEC)

Nid yw AEC yn ofyniad statudol ond mae'n offeryn i gynorthwyo'r Cyngor i gydymffurfio â gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb y DU 2010, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hybu cyfleoedd cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl wrth gynnal eu gweithgareddau. Mae deddfwriaeth yn nodi naw nodwedd warchodedig a bydd yr AEC yn ystyried yr effeithiau posibl ar y rhain. Hefyd, mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol, i roi sylw dyladwy i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol gyda'r nod o

---

[16] Llywodraeth Cymru (2020) 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3)' Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf (llyw.cymru) tudalen 72.
[17] Llywodraeth Cymru (2017) 'Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017'. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/contents/enacted
[18]Asesu'r Effaith ar Iechyd: Pecyn cymorth ar gyfer Ymarfer. Ar gael yn: https://phw.nhs.wales/publications/publications1/asesur-effaith-ar-iechyd-hia-a-chynlluniau-datblygu-lleol-cdll-pecyn-cymorth-ar-gyfer-ymarfer/
[19] Iechyd Cyhoeddus Cymru (Dim dyddiad) 'Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol'. Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/522/Whiasu%20Guidance%20Report%20%28Welsh%29%20WEB.pdf, tudalen 2.
[20] Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (2020) 'Health Impact Assessment (HIA) Overview'. Ar gael yn: https://phwwhocc.co.uk/whiasu/wp-content/uploads/sites/3/2021/05/WHIASU_HIA_Overview.pdf

helpu’r cyrff cyhoeddus hynny i gyflawni gofynion y ddyletswydd y mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus eu hystyried wrth benderfynu sut i gyflawni’r ddyletswydd.

## Y Gymraeg

Mae’n ofynnol ystyried effeithiau posibl y cynllun datblygu ar y defnydd o’r Gymraeg, sy’n sylfaenol i ddiwylliant Cymru[21]. Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 (TAN20): ‘Cynllunio a’r Gymraeg’[22] yn rhoi canllawiau ar ystyried y Gymraeg yn rhan o’r cynllun datblygu a phrosesau’r AC.

Cadw ac ehangu’r Gymraeg yw un o’r nodau llesiant a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015: “Diwylliant Bywiog Lle mae’r Gymraeg yn Ffynnu”[23].

Bydd proses yr ACI yn ystyried sut mae maint a lleoliad twf, y weledigaeth, amcanion, polisïau a chynigion y CDLl Newydd, yn unigol ac ar y cyd, yn effeithio ar y Gymraeg.

Nod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw sicrhau bod gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â’r Saesneg ac nad yw’n cael ei thrin yn llai ffafriol[24]. Sefydlodd hefyd Safonau’r Gymraeg, sy’n ei gwneud yn ofynnol i bolisïau newydd neu bolisïau a adolygir ystyried yn ofalus sut y gallent roi cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac i beidio ag arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Yn fwyaf diweddar, mae *Safonau Llunio Polisi (Dogfennau Ymgynghori) – arweiniad i sefydliadau cyhoeddus* Comisiynydd y Gymraeg fel y’u cyflwynwyd gan gynghorwyr cyfreithiol y Comisiynydd mewn seminar ar-lein ar 21 Tachwedd 2023[25] yn cyflwyno canllawiau ar sut y dylid trin y Gymraeg wrth lunio polisi:

- Mae’n rhaid i gyrff ddangos ”ymdrech gydbwybodol” a pheidio â mabwysiadu ‘dull blwch ticio’ o ystyried effeithiau posibl y penderfyniad polisi ar y Gymraeg.
- Bydd y trothwy ar gyfer ”ymdrech gydbwybodol” yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac yn gofyn am fwy o graffu:
  - mewn maes o sensitifrwydd neu arwyddocâd i’r Gymraeg
  - wrth i nifer a/neu faint yr effeithiau posibl ar y Gymraeg gynyddu
  - os oes polisi neu ganllawiau lleol (e.e. yn y cyd-destunau cynllunio neu addysg) sy’n gofyn am asesiad o’r effeithiau posibl ar y Gymraeg.
- Bydd ”ymdrech gydwybodol” yn fwy tebygol os caiff amrywiaeth eang o effeithiau cadarnhaol, negyddol a niwtral (uniongyrchol ac anuniongyrchol) eu hystyried.
- Disgwylir y bydd angen i gyrff cyhoeddus gryfhau canllawiau mewnol i gyfeirio at yr angen i wneud ”ymdrech gydwybodol” i ystyried yr effeithiau posibl.

---

[21] Llywodraeth Cymru (2020) ‘Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3)’ Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf (llyw.cymru), tudalen 72.
[22] Llywodraeth Cymru (2017) ‘Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: cynllunio a’r Gymraeg’. Ar gael yn: Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a’r Iaith Gymraeg | LLYW.CYMRU
[23] Llywodraeth Cymru (2015) ‘Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015’. Ar gael yn: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/
[24] Llywodraeth Cymru (2011) ‘Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011’. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted, aed at y wefan 15.08.2022.
[25] Mae recordiad o’r seminar ar Safonau Llunio Polisi - arweiniad i sefydliadau cyhoeddus a chopïau o’r sleidiau PowerPoint ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg yma: Dogfennau cyngor (comisiynyddygymraeg.cymru)


- Mae trin effeithiau ar y Gymraeg o dan un “pennawd” mewn asesiad effaith integredig yn annigonol. Dylai fod gan y Gymraeg yr un statws ag effeithiau amgylcheddol a chael ei chyflwyno mewn dogfen annibynnol ar wahân.
- Dylai cyrff symud oddi wrth y dull gor-syml o ofyn “beth yw’r effaith “net” ar y Gymraeg”? Mae’r effeithiau ar y Gymraeg yn gymhleth ac yn aml-ddimensiwn yn yr un modd ag effeithiau ar yr amgylchedd. O’r herwydd, mae angen ystyried y gwahanol effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y Gymraeg ar wahân bellach. Nid yw cyfuno’r rhain yn effaith net + neu – syml yn ddull priodol, gan fod gwneud hynny yn rhy syml.

## Integreiddio

Mae’r ACI yn dwyn ynghyd i un fframwaith yr AC, yr AAS, AEI, AEC ac Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg er mwyn cyflwyno asesiad cyffredin ac integredig o strategaeth a pholisïau’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (**Ffigur Crynodeb Annhechnegol 1**). Er mwyn dangos cydymffurfedd â’r gofynion unigol, bydd allbynnau ar wahân, a gyflwynir mewn Atodiadau i’r Adroddiad ACI yn cael eu cyhoeddi sy’n cynnwys yr AEC. Bydd yr ARhC yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad ar wahân.

Bydd yr ACI yn gwerthuso perfformiad amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ac unrhyw ddewisiadau eraill rhesymol. Wrth wneud hynny, bydd yn helpu i lywio’r broses o ddewis yr opsiynau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd o ran (yn benodol) cwantwm, dosbarthiad a lleoliad datblygiad y dyfodol ym Mhowys. Bydd proses yr ACI hefyd yn nodi mesurau er mwyn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl a allai godi wrth weithredu’r Cynllun yn ogystal â chyfleoedd i wella cyfraniad y Cynllun Datblygu Lleol tuag at gynaliadwyedd.

Ffigur Crynodeb Annhechnegol 1 Gorgyffyrddiad rhwng y gwahanol fathau o asesu yn yr ACI




## Diben yr Adroddiad Cwmpasu hwn

Yr Adroddiad Cwmpasu hwn yw allbwn ffurfiol cyntaf ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Diben yr Adroddiad Cwmpasu yw darparu digon o wybodaeth i ymgyngoreion i'w galluogi nhw i wneud sylwadau ar gwmpas arfaethedig yr ACI. Yn fwy penodol, mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn nodi:

- trosolwg o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd;
- adolygiad o raglenni a pholisïau rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol, is-ranbarthol a lleol perthnasol;
- gwybodaeth waelodlin ar gyfer ardal CDLl Powys ar draws pynciau cynaliadwyedd allweddol;
- materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol allweddol sy'n berthnasol i'r broses o arfarnu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd;
- y dull arfaethedig o arfarnu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd gan gynnwys Fframwaith ACI drafft (sy'n cynnwys amcanion arfarnu, cwestiynau arwain a matricsau arfarnu);
- trosolwg o'r camau nesaf ym mhroses yr ACI, gan gynnwys strwythur arfaethedig yr Adroddiadau ACI yn y dyfodol.

# Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Trosolwg

## Cwmpas a Chynnwys y Cynllun Datblygu Lleol

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cwmpasu Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys ac yn cynnwys blaenoriaethau strategol a gweledigaeth hirdymor ar gyfer Powys. Bydd yn cynnwys Strategaeth Ofodol sy'n nodi lleoliadau ar gyfer darparu tai ac anghenion datblygu strategol eraill megis cyflogaeth, manwerthu, hamdden, seilwaith gwyrdd a glas, a datblygu cymunedol. Bydd hefyd yn cynnwys polisïau strategol, polisïau dyrannu safleoedd, polisïau rheoli datblygiadau, a Map Cynigion ar gyfer penderfynu ar bob math o geisiadau cynllunio.

Bydd Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2022-2037 yn asesu ac yn gwneud newidiadau yn ôl yr angen er mwyn:

- sicrhau bod y Cynllun Lleol yn gyfredol a bod ganddo bwysau llawn wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio;
- darparu ar gyfer gofynion twf datblygiadau ychwanegol;
- ystyried deddfwriaeth newydd a gofynion polisïau cenedlaethol;
- sicrhau y byddai'r cynllun yn arwain at greu datblygiad cynaliadwy, llesiant ac yn cefnogi'r Gymraeg; ac
- adlewyrchu unrhyw flaenoriaethau strategol newydd.

## Camau yn y Broses Arfarnu Cynaliadwyedd

Mae pum cam allweddol yn y broses AC. Mae'r cam cyntaf wedi arwain at lunio'r Adroddiad Cwmpasu hwn.

Yn seiliedig ar yr adolygiad o gynlluniau a rhaglenni eraill, dadansoddiad gwaelodlin a materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd ar gyfer ardal y Cynllun, mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn cynnwys y dull arfaethedig o asesu'r Cynllun Datblygu Lleol yn integredig. Ar ôl i'r ymgynghoriad cwmpasu ddod i ben, bydd Fframwaith yr ACI yn cael ei ddiwygio er mwyn ystyried yr ymatebion ymgynghori fel y bo'n briodol.

Defnyddir Fframwaith yr ACI diwygiedig i arfarnu effeithiau'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n dod i'r amlwg o ran elfennau'r cynllun allweddol (gweledigaeth, amcanion, strategaeth ofodol y Cynllun, gan gynnwys lefel y twf, polisïau a safleoedd a ddyrennir, gan gynnwys dewisiadau eraill rhesymol) (Cam B). Mae'r cam hwn yn ailadroddol a bydd yn cynnwys datblygu a mireinio'r Cynllun Datblygu Lleol drwy brofi cryfderau cynaliadwyedd a gwendidau'r dewisiadau Cynllun sy'n dod i'r amlwg. Yn hyn o beth, cynhelir ACI drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd gan gyflwyno'r canfyddiadau mewn cyfres o Adroddiadau ACI interim i gyd-fynd â chyhoeddiad ac ymgynghoriad ar iteriadau amrywiol ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft.

Bydd Adroddiad ACI terfynol yn cael ei baratoi i gyd-fynd â chyflwyniad y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd yn cael ei baratoi i fodloni gofynion adrodd y Gyfarwyddeb AAS a bydd ar gael ar gyfer ymgynghoriad ochr yn ochr â drafft Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ei hun cyn ei ystyried gan arolygydd cynllunio annibynnol mewn Archwiliad Cyhoeddus

Yn dilyn Archwiliad Cyhoeddus, ac yn amodol ar unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft a allai fod angen arfarniad o ganlyniad i'r Archwiliad Cyhoeddus, bydd y Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Ôl-fabwysiadu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd hyn yn nodi canlyniadau'r broses ymgynghori ac ACI ac i ba raddau y darparwyd ar gyfer canfyddiadau'r ACI yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd mabwysiedig. Yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, bydd y Cyngor yn monitro ei weithrediad ac unrhyw effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol arwyddocaol

## Beth yw'r Fframwaith Arfarnu Arfaethedig?

Prif ddiben cam cwmpasu'r ACI yw nodi'r fframwaith ar gyfer arfarnu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae'r fframwaith yn cynnwys cyfres o amcanion a chwestiynau arwain a ddatblygwyd i adlewyrchu'r materion economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol cyfredol a allai effeithio ar (neu gael eu heffeithio gan) y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a'r amcanion a gynhwysir mewn cynlluniau a rhaglenni eraill. Crynhoir y pynciau, y materion allweddol a'r amcanion arfaethedig ar gyfer asesu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft isod. Darperir arwydd o'r nodau llesiant cenedlaethol perthnasol hefyd.

**<u>Pwnc AAS: Poblogaeth a Chymunedau</u>**

*Materion Allweddol:*

- Yn gyffredinol, yr angen i greu lleoedd cynaliadwy y mae pobl yn dymuno byw a gweithio ynddynt.
- Yr angen i alluogi twf tai ac i nodi isafswm y cartrefi y dylid cynllunio ar eu cyfer, a chynllunio ar gyfer cymysgedd o letyau sy'n gweddu i bob math o aelwyd.
- Yr angen i wneud y defnydd gorau o'r stoc dai presennol, a gwella ei hansawdd.
- Yr angen i gefnogi'r gwaith o ddarparu mathau arbenigol o dai i bobl hŷn a phobl sydd ag anableddau.
- Yr angen i ddarparu tai fforddiadwy i gyfrannu at y broses o fynd i'r afael ag anghenion a phwysau tai lleol.
- Yr angen i hybu ystod o swyddogaethau sy'n cyfrannu at fywiogrwydd canolfannau gwasanaeth lleol.
- Yr angen i ddiogelu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol ac i sicrhau bod cyfleusterau newydd yn cael eu darparu mewn pryd i ddiwallu anghenion sy'n deillio o ddatblygiadau newydd a fydd yn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy.

**Amcan 1 yr ACI: Darparu cartrefi o ansawdd da a seilwaith cymunedol i ddiwallu anghenion a nodwyd**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Diwallu'r anghenion tai a nodwyd, gan gynnwys gofynion fforddiadwy ac arbenigol?
- Sicrhau cymysgedd priodol o feintiau, mathau a deiliadaethau annedd sy'n diwallu anghenion pob sector o'r gymuned?

- Darparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n caniatáu mynediad rhwydd i amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau lleol?
- Hybu'r broses o ddatblygu amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol hygyrch o safon uchel, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal

---

**Pwnc AAS: Yr Economi a Chyflogaeth**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i ddarparu amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth er mwyn cefnogi twf economaidd.
- Yr angen i sicrhau cyflenwad hyblyg o dir ar gyfer datblygu cyflogaeth.
- Yr angen i gefnogi datblygiad economaidd ledled Powys.
- Yr angen i gynnal a gwella bywiogrwydd hierarchaeth aneddiadau Powys.
- Yr angen i gynnal a chynyddu cyrhaeddiad addysgol a sgiliau yn y gweithlu lleol.
- Yr angen i leihau teithiau o Bowys i'r gweithle drwy annog busnesau i fuddsoddi ac i sefydlu ym Mhowys.

**Amcan 2 yr ACI: Creu a chefnogi economi a gweithlu sy'n gryf, yn gydnerth ac yn gadarn**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Darparu digon o dir i fusnesau dyfu?
- Cefnogi'r broses o greu swyddi newydd sy'n hygyrch?
- Sicrhau bod capasiti cyfleusterau addysgol yn tyfu ar yr un raddfa â'r twf yn y boblogaeth?
- Gwella bywiogrwydd a chydnerthedd cymunedau?
- Diogelu'r ardaloedd cyflogaeth presennol?
- Creu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, gan ei hybu a manteisio'n sensitif ar asedau amgylcheddol, diwylliannol, treftadaeth a hamdden?
- Creu cyfleoedd ar gyfer gwelliannau i'r economi wledig a'r amrywiaeth wledig (gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth, busnesau bach a chanolig, busnesau micro a datblygu cysylltedd digidol)?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus

---

**Pwnc AAS: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a chynhwysiant**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i gynyddu incymau ac yn enwedig i'r rhai y mae eu hincwm yn y chwartel isaf.
- Yr angen i ddarparu cyfleoedd gwaith a hyfforddi cynaliadwy o ansawdd da.
- Yr angen i fynd i'r afael â phocedi o amddifadedd sy'n bodoli yn yr ardal.
- Yr angen i ddiogelu a chynnal a gwella mynediad at gyfleusterau diwylliannol a chymunedol sydd o fudd i gymunedau cynaliadwy ac yn eu cefnogi.
- Yr angen i wella ymwybyddiaeth pobl o wasanaethau a sut i gael mynediad atynt.

**Amcan 3 yr ACI: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Cynorthwyo i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i'r bobl fwyaf anghenus?
- Rhoi sylw, yn uniongyrchol ac anuniongyrchol, i ardaloedd sy'n dioddef oherwydd amddifadedd a/neu ddirywiad?
- Helpu i ddarparu gwell cyfleoedd a chyrhaeddiad addysgol?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus

**Pwnc AAS: Y Gymraeg**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i barhau i ennyn diddordeb ac i feithrin dysgu yn y Gymraeg (yn enwedig ymhlith pobl y tu allan i oedran ysgol).
- Yr angen i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Yr angen i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg.
- Yr angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- Yr angen i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Yr angen i ddiogelu hunaniaeth y cymunedau presennol.
- Yr angen i ddiogelu a chynnal a gwella mynediad at gyfleusterau diwylliannol a chymunedol sydd o fudd i gymunedau cynaliadwy ac yn eu cefnogi nhw.
- Yr angen i wella ymwybyddiaeth pobl o wasanaethau a sut i gael mynediad atynt.

**Amcan 4 yr ACI: Diogelu, hybu a gwella'r Gymraeg a diwylliant Cymru**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Effeithio ar y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg a/neu gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?
- Effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?
- Effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?
- Effeithio ar wasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati.)

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru o gymunedau cydlynus

---

**Pwnc AAS: Iechyd a Llesiant**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i ddiogelu iechyd a llesiant poblogaeth Powys.
- Yr angen i hybu ffyrdd iach o fyw ac yn benodol mynd i'r afael â gordewdra a lefelau o weithgarwch corfforol.
- Yr angen i gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.
- Yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd.
- Yr angen i ddiogelu a gwella'r ddarpariaeth mannau agored hygyrch.
- Yr angen i gefnogi dyluniadau o ansawdd uchel sy'n creu cymunedau sy'n saff ac yn ddiogel.
- Yr angen i ddiogelu cyfleusterau a gwasanaethau gofal iechyd presennol ac i sicrhau bod cyfleusterau a gwasanaethau newydd yn cael eu darparu mewn pryd i ddiwallu anghenion sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.
- Yr angen i sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio a'u hadeiladu i leihau troseddau ac ofn troseddau.

**Amcan 5 yr ACI: Gwella iechyd a llesiant pob sector o'r gymdeithas**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Cyfrannu at wella'r gallu i gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd ynysig/gwledig?
- Cyfrannu tuag at leihad mewn anghydraddoldeb iechyd ymhlith grwpiau gwahanol yn y gymuned, gan gynnwys plant a phobl hŷn yn benodol?

- Cyfrannu tuag at ffyrdd iach o fyw ac yn hybu llesiant, gan gynnwys cerdded a beicio?
- Cyfrannu tuag at wella mynediad i fannau gwyrdd naturiol, bywyd gwyllt, mannau agored, gan gynnwys cyfleoedd i chwarae, ac ar gyfer hamdden ac adloniant?
- Cyfrannu tuag at gynnydd mewn seilwaith gwyrdd?
- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio i leihau troseddau ac ofn troseddau.

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus

**Pwnc AAS: Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i wneud defnydd effeithlon ac effeithiol o dir.
- Yr angen i ddiogelu'r tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas.
- Yr angen i ddiogelu ac adfer adnoddau pridd a mawn fel dalfeydd carbon pwysig a'u rôl wrth gynyddu gwytnwch yr amgylchedd naturiol yn erbyn effeithiau newid hinsawdd.
- Gan adlewyrchu amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, yr angen i:
    - Gefnogi busnesau fferm drwy ffyrdd o weithio sy'n lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd
    - Cymryd camau i leihau achosion o lygredd drwy reoli ffynonellau llygredd posibl yn well (megis storfeydd slyri a thail yn well)
    - Gweithio gyda busnesau, cymunedau a llunwyr polisi i adolygu polisïau a chynlluniau amaethyddol presennol ac archwilio opsiynau newydd ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystemau

**Amcan 6 yr ACI: Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau presennol, a diogelu tir amaethyddol gradd uwch**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Creu cyfleoedd i ddatblygu tir a ddatblygwyd o'r blaen lle na fydd hyn yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar Gynefinoedd Mosaig Agored?
- Diogelu'r tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas rhag cael ei ddatblygu?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru iachach

**Pwnc AAS: Dŵr**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i ddiogelu a gwella ansawdd ffynonellau dŵr ledled Powys
- Yr angen i hybu'r defnydd effeithlon o adnoddau dŵr.

- Yr angen i sicrhau y darperir seilwaith o wasanaethau dŵr newydd mewn pryd i ateb y galw sy’n deillio o ddatblygiad newydd.
- Gan adlewyrchu amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, yr angen i:
    - Gefnogi busnesau fferm drwy ffyrdd o weithio sy'n lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd
    - Cymryd camau i leihau achosion o lygredd drwy reoli ffynonellau llygredd posibl yn well (megis storfeydd slyri a thail yn well)
    - Gweithio gyda busnesau, cymunedau a llunwyr polisi i adolygu polisïau a chynlluniau amaethyddol presennol ac archwilio opsiynau newydd ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystemau
    - Rheoli ein hadnoddau dŵr i wella ansawdd a faint o ddŵr sydd ar gael, heb achosi niwed i'r amgylchedd naturiol
    - Helpu i greu cymunedau addasol a gwydn mewn ymateb i dywydd garw a newid hinsawdd
    - Cefnogi syniadau newydd ynghylch datblygu Datrysiadau Seiliedig ar Natur - er enghraifft, defnyddio Rheoli Perygl Llifogydd Naturiol

**Amcan 7 yr ACI: Gwarchod, diogelu a gwella ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr**

*A fydd y polisi neu’r cynnig yn ...*

- Lleihau’r defnydd o ddŵr?
- Sicrhau y darperir cyflenwad digonol o ddŵr, gan ystyried y rhagamcanion cyfredol a’r rhagamcanion ar gyfer y dyfodol o’r dŵr sydd ar gael a’r defnydd o ddŵr?
- Cael ei gyflawni heb achosi dirywiad i ansawdd dŵr mewn afonydd a nentydd?
- Arwain at welliant i ansawdd dŵr yn nalgylchoedd afon ACA?
- Lleihau’r potensial i arferion amaethyddol gyfrannu tuag at lygru cyrsiau a chyrff dŵr â maethynnau?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru iachach

**<u>Pwnc AAS: Aer</u>**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i leihau allyriadau llygryddion i’r aer.
- Yr angen i wella ansawdd yr aer, yn enwedig mewn ardaloedd sy’n agored i lygredd.
- Gan adlewyrchu amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, yr angen i:
    - Gefnogi busnesau fferm drwy ffyrdd o weithio sy'n lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd

- Cymryd camau i leihau achosion o lygredd drwy reoli ffynonellau llygredd posibl yn well (megis storfeydd slyri a thail yn well)
- Gweithio gyda busnesau, cymunedau a llunwyr polisi i adolygu polisïau a chynlluniau amaethyddol presennol ac archwilio opsiynau newydd ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystemau

**Amcan 8 yr ACI: Minimeiddio neu leihau ffynonellau ac effeithiau llygredd aer**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Lleihau'r angen i deithio?
- Annog pobl i deithio drwy ddulliau cynaliadwy (teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus)?
- Osgoi unrhyw effeithiau andwyol ar ansawdd yr aer ac i bobl sy'n dod i gysylltiad ag ansawdd aer gwael?
- Gwella ansawdd yr aer mewn ardaloedd y nodir eu bod o bryder?
- Hybu a hwyluso'r defnydd o gerbydau trydan?
- Hybu a hwyluso gwelliannau i rwydweithiau seilwaith gwyrdd er mwyn hwyluso cynnydd o ran swm y NO2 a llygryddion eraill sy'n cael eu sugno a'u gwasgaru?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

---

**Pwnc AAS: Gwastraff a Defnyddio Adnoddau**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i leihau'r gwastraff sy'n codi ac annog ailddefnyddio ac ailgylchu.
- Yr angen i fynd i'r afael â bylchau capasiti er mwyn rheoli gwastraff cyfredol sy'n bodoli a gwastraff y rhagwelir y bydd yn bodoli yn y dyfodol.
- Yr angen i hybu'r defnydd effeithlon o adnoddau mwynol.
- Yr angen i sicrhau y diogelir adnoddau mwynol Powys rhag datblygiadau amhriodol.

**Amcan 9 yr ACI: Er mwyn lleihau'r gwastraff a gynhyrchir, annog pobl i ailddefnyddio ac ailgylchu a hybu defnydd effeithlon o adnoddau mwynol**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Hybu'r broses o adfer tir halogedig ac atal halogi pellach?
- Creu cyfleoedd i gynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu a'i ailddefnyddio?
- Hybu cyfleoedd i ddefnyddio deunyddiau sydd wedi eu hailgylchu ac eilaidd wrth adeiladu?
- Hybu'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy sydd o ffynonellau lleol?
- Diogelu adnoddau mwynol?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

---

**Pwnc AAS: Newid Hinsawdd**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gallu addasu i effeithiau newid hinsawdd.
- Yr angen i gynyddu coetiroedd a gorchuddion coed a mesurau eraill i helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd ac i addasu iddo.
- Yr angen i leoli datblygiadau newydd oddi wrth ardaloedd lle mae risg llifogydd, gan ystyried effeithiau newid hinsawdd.
- Yr angen i sicrhau y darperir seilwaith diogelu rhag/rheoli llifogydd mewn modd amserol.
- Yr angen i ddiogelu ac adfer adnoddau pridd a mawn fel dalfeydd carbon pwysig a'u rôl wrth gynyddu gwytnwch yr amgylchedd naturiol yn erbyn effeithiau newid hinsawdd.

**Amcan 10 yr ACI: Cefnogi cydnerthedd Powys i effeithiau posibl newid hinsawdd, gan gynnwys llifogydd a digwyddiadau eithafol eraill**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Osgoi datblygiadau mewn ardaloedd lle bo perygl o lifogydd, gan ystyried effeithiau tebygol newid hinsawdd yn y dyfodol?
- Cynyddu cydnerthedd yr amgylchedd adeiledig a naturiol i effeithiau newid hinsawdd?
- Sicrhau bod y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn cael eu hystyried mewn datblygiadau newydd?
- Gwella ac ehangu rhwydweithiau seilwaith gwyrdd er mwyn cefnogi'r broses o addasu i'r newid yn yr hinsawdd?
- Rheoli dŵr ffo yn gynaliadwy, gan leihau dŵr wyneb ffo?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

---

## Pwnc AAS: Newid Hinsawdd

**Materion Allweddol:**

- Yr angen i liniaru newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys drwy gynyddu'r ddarpariaeth ynni adnewyddadwy i'r eithaf ar safleoedd ac ar raddfeydd Powys gyfan.

**Amcan 11 yr ACI: Lleihau cyfraniad allyriadau nwyon tŷ gwydr i newid yn yr hinsawdd**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Cynyddu nifer y datblygiadau newydd sy'n bodloni neu'n rhagori ar y meini prawf dylunio cynaliadwy?
- Lleihau'r defnydd o ynni o ffynonellau nad ydynt yn adnewyddadwy?
- Cynhyrchu ynni o ffynonellau carbon isel neu ddi-garbon?
- Lleihau'r angen i deithio neu nifer y teithiau a wneir?
- Hybu'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy, gan gynnwys cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus?
- Sicrhau nad yw datblygiadau'n cyfrannu at gynnydd pellach mewn defnydd ynni uchel na theithiau nad ydynt yn gynaliadwy?
- Gwella'r ddarpariaeth o atebion sy'n seiliedig ar natur er mwyn addasu a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

---

**<u>Pwnc AAS: Trafnidiaeth a Symud</u>**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i wella cysylltedd yr aneddiadau sydd fwyaf anghysbell.
- Yr angen i annog dulliau teithio eraill, yn hytrach na cheir preifat.
- Yr angen i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol a swyddi yn hygyrch o ddatblygiadau newydd, er mwyn lleihau'r angen i deithio.

**Amcan 12 yr ACI: Hybu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Lleihau'r angen i deithio drwy batrymau defnydd tir a datblygu cynaliadwy?
- Annog newid moddol i fathau mwy cynaliadwy o deithio?
- Galluogi gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth?
- Hybu'r nifer sy'n manteisio ar drafnidiaeth carbon isel?
- Cyfrannu tuag at y rhwydwaith gwefru cerbydau trydan?
- Hwyluso gweithio gartref a gweithio o bell?
- Darparu gwelliannau i dagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd presennol a/neu eu lleihau nhw?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**Pwnc AAS: Yr Amgylchedd Hanesyddol**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i ddiogelu a gwella amgylchedd hanesyddol Powys, gan gynnwys ei amrywiaeth a'i arwahanrwydd lleol.
- Yr angen i osgoi niwed i asedau treftadaeth dynodedig a'u lleoliadau, ac i fynd i'r afael â threftadaeth sydd mewn perygl.
- Yr angen i gydnabod gwerth asedau treftadaeth nad ydynt wedi eu dynodi, gan eu diogelu pan fo hynny'n briodol a'u gwella pan fo hynny'n bosibl.
- Yr angen i gydnabod cyfraniad yr amgylchedd hanesyddol i gymeriad tirluniau a threfluniau, gan gynnwys y Gymraeg a diwylliant Cymru ac iechyd a llesiant.

**Amcan 13 yr ACI: Cadw a gwella adnoddau treftadaeth Powys, gan gynnwys asedau adeiledig ac archeolegol**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Gwarchod a gwella arwyddocâd adeiladau a strwythurau o ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys sydd wedi eu dynodi a rhai nad ydynt wedi eu dynodi, a'u lleoliad?
- Gwarchod ac yn gwella diddordeb arbennig, cymeriad ac ymddangosiad Ardaloedd Cadwraeth a'u lleoliadau?
- Sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu cydnabod fel nodweddion annatod o dirwedd ddiwylliannol a hanesyddol Cymru?
- Gwarchod ac yn gwella olion archeolegol, ac ardaloedd sy'n sensitif o safbwynt archeolegol?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**Pwnc AAS: Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Geoamrywiaeth**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i ddiogelu, gwella ac adfer bioamrywiaeth Powys drwy ddarparu cynnydd net mewn bioamrywiaeth pan fo hynny'n bosibl.
- Yr angen i gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys
- Yr angen i ddiogelu a gwella'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol, i fynd i'r afael â diffygion a bylchau, gwella hygyrchedd ac annog defnydd lluosog pan fo hynny'n briodol.

- Yr angen i ddiogelu a gwella safleoedd a ddynodwyd er eu diddordeb daearegol.
- Gan adlewyrchu amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, yr angen i:
    - nodi prif achosion yr argyfwng natur gan gynnwys beth sydd angen ei wneud, gan bwy a ble
    - gwella Statws Cadwraeth Ffafriol safleoedd dynodedig
    - nodi cyfleoedd ar gyfer cysylltedd rhwng y safleoedd hynny ac ardaloedd eraill
    - gwneud natur yn flaenoriaeth drwy gynllunio, polisi a chamau ymarferol

**Amcan 14 yr ACI: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth a hybu gwelliannau i'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Lleihau effeithiau ar fioamrywiaeth a darparu cynnydd net pan fo hynny'n bosibl?
- Diogelu a gwella rhwydweithiau ecolegol, gan gynnwys y rhai sy'n croesi ffiniau gweinyddol?
- Diogelu safleoedd sy'n werthfawr yn ddaearegol, gan gynnwys eu lleoliad?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru Gydnerth; Cymru Iachach; Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

---

**<u>Pwnc AAS: Tirwedd a Threflun</u>**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i warchod a phan fo hynny'n briodol gwella tirwedd a chymeriad treflun Powys.
- Yr angen i hybu dyluniad o ansawdd uchel sy'n parchu cymeriad lleol.
- Yr angen i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd er mwyn gwella cymeriad treflun ac ansawdd yr amgylcheddau adeiledig, a'r defnydd o enwau lleoedd hanesyddol, gan gynnwys enwau Cymraeg.
- Yr angen i ddiogelu tirweddau rhag datblygiadau nad ydynt yn gydnaws.

**Amcan 15 yr ACI: Gwarchod ansawdd ac amrywiaeth tirweddau a threfluniau'r Sir**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Sicrhau bod tirweddau a threfluniau gwerthfawr Powys yn cael eu gwarchod a'u gwella?
- Sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu cydnabod fel nodweddion annatod o dirwedd ddiwylliannol a hanesyddol Cymru?
- Sicrhau bod ansawdd y gwaith dylunio yn cael ei ystyried yn rhan o'r holl weithgareddau datblygu?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru Lewyrchus; Cymru Gydnerth; Cymru Iachach; Cymru sy'n Fwy Cyfartal; Cymru o Gymunedau Cydlynus; Cymru â Diwylliant Bywiog Lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu; Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

## Sut bydd yr ACI yn cael ei gyflawni?

Bydd yr ACI yn arfarnu'r rhannau canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft (a dewisiadau eraill rhesymol pan fo'r rhain yn bodoli):

- Gweledigaeth ac Amcanion;
- Strategaeth Ofodol (o ran nifer a dosbarthiad y datblygiadau);
- Polisïau (gan gynnwys polisïau strategol a pholisïau rheoli datblygiadau manwl); a
- Dyrannu Safleoedd (gan gynnwys safleoedd strategol a dyrannu ar raddfa lai).

Cynigir y dylid arfarnu pob rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd gan ddefnyddio Fframwaith yr ACI. Profir gweledigaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft am eu cydnawsedd â'r amcanion a gynhwysir yn Fframwaith yr ACI gan ddefnyddio matrics cydnawsedd. Bydd y strategaeth ofodol (gan gynnwys dewisiadau eraill rhesymol) a pholisïau cynllun (fesul pennod cynllunio) yn cael eu gwerthuso gan ddefnyddio matrics arfarnu. Bydd y matrics hwn yn cynnwys:

- amcanion yr ACI;
- sgôr sy'n nodi natur yr effaith ar gyfer pob dewis/polisi strategaeth ofodol;
- sylwebaeth ar yr effeithiau arwyddocaol tebygol (gan gynnwys ystyried yr effeithiau cronnol, synergyddol ac anuniongyrchol yn ogystal â daearyddiaeth, hyd, amser dros dro/parhad a thebygolrwydd unrhyw effeithiau) ac ar unrhyw ragdybiaethau neu ansicrwydd; ac
- argymhellion, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru neu welliannau.

Defnyddir diffiniadau o arwyddocâd i arwain yr arfarniad ac i bennu math a graddfa effeithiau Adolygiad cynigion y Cynllun Lleol Mabwysiedig ar amcanion yr ACI. Cyflwynir canfyddiadau'r arfarniadau mewn matrics.

Yn dilyn ymarfer sgrinio cychwynnol, bydd dyraniadau safleoedd (gan gynnwys dewisiadau eraill rhesymol) yn cael eu harfarnu gan ddefnyddio meini prawf arfarnu sydd wedi eu haddasu, gyda throthwy cysylltiedig ynghylch arwyddocâd, i bennu math a maint yr effaith o'u cymharu â phob amcan ACI. Gan adlewyrchu eu pwysigrwydd o ran cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft a'r gallu i gynhyrchu effeithiau arwyddocaol, bydd safleoedd strategol yn ddarostyngedig i arfarniad manylach, gan ddefnyddio matrics sy'n debyg i'r hyn a ddefnyddir wrth arfarnu'r strategaeth ofodol a pholisïau cynllun.

Bydd Asesu'r Effaith ar Iechyd (AEI), Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael eu hymgorffori yn yr ACI._Mae'r ARhC yn ddarostyngedig i broses ar wahân.

## Beth yw'r Camau Nesaf ym Mhroses yr ACI?

Mae'r Crynodeb Annhechnegol hwn a'r Adroddiad Cwmpasu cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad. Darperir manylion ar sut i ymateb i'r ymgynghoriad isod. Bydd y Cyngor yn

defnyddio'r sylwadau a'r ymatebion a dderbyniwyd ar yr Adroddiad Crynodeb Annhechnegol a Chwmpasu hwn i gwblhau dull ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Mewn proses ailadroddol y bydd yr arfarniad, a bydd yn cynnwys datblygu a mireinio'r Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd drwy brofi cryfderau a gwendidau cynaliadwyedd dewisiadau'r Cynllun sy'n dod i'r amlwg, a chyflwynir y canfyddiadau mewn cyfres o Adroddiadau ACI. Bydd pob Adroddiad ACI yn cynnwys:

- Crynodeb Annhechnegol;
- Pennod sy'n nodi cwmpas a diben yr arfarniad, gan gynnwys trosolwg o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n dod i'r amlwg;
- Pennod sy'n rhoi manylion cyfredol ar ddatblygiad y Cynllun Datblygu Lleol Newydd;
- Pennod sy'n crynhoi amcanion allweddol cynlluniau a rhaglenni eraill a materion economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol sy'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd;
- Pennod sy'n nodi'r dull arfarnu ac unrhyw anawsterau a gafwyd;
- Pennod sy'n amlinellu'r effeithiau sy'n debygol o ddeillio yn sgil gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd a dewisiadau eraill rhesymol, gan gynnwys effeithiau cronnol, mesurau lliniaru, ansicrwydd a risgiau. Esbonnir y rhesymau dros ddewis opsiynau a ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a thros wrthod opsiynau eraill;
- Pennod sy'n cyflwyno safbwyntiau ynghylch gweithredu a monitro.

## Eich sylwadau ar yr Adroddiad Cwmpasu hwn

Bydd y cyfnod ymgynghori pum wythnos ar Adroddiad Cwmpasu yr ACI yn dod i ben am 5pm, ddydd Llun, 10 Hydref 2022.

### Yr Ymgynghoriad Hwn: Sut i Roi Eich Safbwyntiau i Ni

Croesawn eich safbwyntiau ar unrhyw agwedd ar yr Adroddiad Cwmpasu hwn. Fodd bynnag, byddem ni'n croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol yn enwedig:

1. A ydych chi'n credu bod yr Adroddiad Cwmpasu hwn yn cynnwys digon o wybodaeth i gadarnhau'r cyd-destun ar gyfer ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft o ran adolygu cynlluniau a rhaglenni a thystiolaeth gwaelodlin a dadansoddiad? Os nad ydych, pa feysydd ydych chi'n meddwl sydd wedi eu colli ac ymhle y mae gwybodaeth am y pynciau hyn ar gael?
2. A ydych yn cytuno bod y prif faterion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a nodwyd yn berthnasol i ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft? Os nad ydych, pa faterion ydych yn meddwl y mae angen eu cynnwys neu eu hepgor?
3. A ydych yn cytuno â dull arfaethedig ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft? A yw amcanion yr ACI a chwestiynau arwain sy'n cynnwys Fframwaith yr ACI yn cwmpasu ystod ddigonol o bynciau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd? Os nad ydynt, pa amcanion y dylid eu diwygio a pha amcanion eraill y dylid eu cynnwys yn eich tyb chi?

# Cynnwys


**Crynodeb Annhechnegol** **iii**

Trosolwg iii

Gofynion iii

Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) **Error! Bookmark not defined.**

Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) **Error! Bookmark not defined.**

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) **Error! Bookmark not defined.**

Asesiad Effaith ar Iechyd (AEI) **Error! Bookmark not defined.**

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) **Error! Bookmark not defined.**

Y Gymraeg **Error! Bookmark not defined.**

Integreiddio **Error! Bookmark not defined.**

Diben yr Adroddiad Cwmpasu hwn ix

Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Trosolwg x

Cwmpas a Chynnwys y Cynllun Datblygu Lleol x

Camau yn y Broses Arfarnu Cynaliadwyedd x

Beth yw'r Fframwaith Arfarnu Arfaethedig? xi

Sut bydd yr ACI yn cael ei gyflawni? xxii

Beth yw'r Camau Nesaf ym Mhroses yr ACI? xxii

Eich sylwadau ar yr Adroddiad Cwmpasu hwn xxiii

**1. Cyflwyniad** **1**

1.1 Trosolwg 1

1.2 Gofynion 1

1.2 Diben yr Adroddiad Cwmpasu hwn 7

1.3 Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Trosolwg 8

Gofyniad i Baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd 8

Cwmpas a Chynnwys y Cynllun Datblygu Lleol 8

Paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd 8

1.4 Arfarniad o Gynaliadwyedd 12

Y Gofyniad am Arfarniad o Gynaliadwyedd 12

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3 2020 16

Camau yn y Broses Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig 16

1.5 Strwythur yr Adroddiad Cwmpasu 17

Eich sylwadau ar yr Adroddiad Cwmpasu hwn 19

**2. Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau** **20**

2.1 Cyflwyniad 20

2.2 Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau a Adolygwyd – Crynodeb o Amcanion, Negeseuon Polisi Allweddol a Goblygiadau i'r ACI 20

**3. Dadansoddiad Gwaelodlin** **34**

| | | |
|---|---|---|
| 3.1 | Cyflwyniad | 34 |
| 3.2 | Powys: Trosolwg | 35 |
| 3.3 | Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Mannau Agored | 42 |
| | Bioamrywiaeth | 42 |
| | Seilwaith Gwyrdd a Mannau Agored | 51 |
| | Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | 54 |
| | Crynodeb o Faterion Cynaliadwyedd Allweddol | 55 |
| 3.4 | Poblogaeth a Chymuned | 55 |
| | Demograffeg | 55 |
| | Amrywiaeth | 60 |
| | Amddifadedd | 62 |
| | Tai | 62 |
| | Yr Economi | 64 |
| | Sgiliau ac Addysg | 69 |
| | Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol | 70 |
| | Y Gymraeg | 71 |
| | Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | 72 |
| | Materion Cynaliadwyedd Allweddol | 73 |
| 3.5 | Iechyd a Llesiant | 74 |
| | Iechyd | 74 |
| | Trosedd | 81 |
| | Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | 83 |
| | Materion Cynaliadwyedd Allweddol | 84 |
| 3.6 | Trafnidiaeth a Hygyrchedd | 85 |
| | Seilwaith Trafnidiaeth | 85 |
| | Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | 89 |
| | Materion Cynaliadwyedd Allweddol | 92 |
| 3.7 | Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg | 92 |
| | Defnydd Tir a Phriddoedd | 92 |
| | Daeareg | 96 |
| | Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | 97 |
| | Materion Cynaliadwyedd Allweddol | 97 |
| 3.8 | Dŵr | 98 |
| | Ansawdd Dŵr | 98 |
| | Adnoddau Dŵr | 102 |
| | Risg Llifogydd | 104 |
| | Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | 105 |
| | Materion Cynaliadwyedd Allweddol | 106 |
| 3.9 | Ansawdd yr Aer | 106 |
| | Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | 109 |
| | Materion Cynaliadwyedd Allweddol | 111 |
| 3.10 | Newid Hinsawdd | 111 |
| | Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | 115 |
| | Materion Cynaliadwyedd Allweddol | 116 |
| 3.11 | Asedau Perthnasol | 116 |
| | Gwastraff | 117 |
| | Mwynau | 118 |
| | Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | 119 |
| | Materion Cynaliadwyedd Allweddol | 120 |
| 3.12 | Treftadaeth Ddiwylliannol | 120 |
| | Datblygiad Tebygol y Waelodlin heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | 125 |
| | Materion Cynaliadwyedd Allweddol | 126 |
| 3.13 | Tirwedd | 127 |
| | Datblygiad Tebygol y Waelodlin heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | 134 |
| | Materion Cynaliadwyedd Allweddol | 134 |

3.14 Crynodeb o Faterion Cynaliadwyedd Allweddol 135

**4. Dull yr Asesiad Cynaliadwyedd Integredig 142**

4.1 Cyflwyniad 142

4.2 Fframwaith Asesu ACI 142

Gweledigaeth ac Amcanion 153

Y Strategaeth Ofodol 154

Polisïau 155

Dyrannu Safleoedd 156

Effeithiau Eilaidd, Cronnol a Synergyddol 157

4.3 Anawsterau a Wynebwyd wrth Lunio’r Adroddiad Cwmpasu 157

**5. Y Camau Nesaf 158**

5.1 Ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu hwn 158

5.2 Y Camau Nesaf 158

Tabl 1.1 Paratoi Cerrig Milltir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd 9

Tabl 2.1 Crynodeb o Negeseuon Polisi Allweddol o’r Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau 21

Tabl 3.1 Safleoedd Ewropeaidd a Leolir yn gyfan gwbl neu’n rhannol o fewn Ffiniau Sir Powys 44

Tabl 3.2 Mannau Agored Presennol 51

Tabl 3.3 Grwpiau Crefyddol ym Mhowys 61

Tabl 3.4 Nifer Net y Tai a Gwblhawyd fesul Blwyddyn o’i gymharu â Ffigur y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol 63

Tabl 3.5 Saith Dangosydd Economaidd Allweddol – Canolbarth Cymru 65

Tabl 3.6 Cyflogaeth fesul galwedigaeth (Ionawr 2021–Rhagfyr 2021) – Powys 66

Tabl 3.7 Cyfrif Busnesau’r DU (2021) 67

Tabl 3.8 Cymwysterau ym Mhowys a Phrydain Fawr 2016 – 2021 69

Tabl 3.9 Nifer y Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu ym Mhowys 82

Tabl 3.10 Nifer yr anafiadau mewn damweiniau ffordd fesul difrifoldeb ym Mhowys 83

Tabl 3.11 Cnydau (Ha) yn ôl ardal – Powys 2007 a 2017 94

Tabl 3.12 Canran y Cyrff Dŵr sydd â statws ‘Da’ yn Ardal CDLl Powys 101

Tabl 3.13 Y deg cymuned sydd â’r perygl mwyaf o lifogydd ym Mhowys 104

Tabl 3.14 Y Crynodiadau Cymedrig Blynyddol o $NO_2$ (mewn µg/$m^3$) mewn Safleoedd Monitro ym Mhowys, fesul Blwyddyn ers 2013 111

Tabl 3.15 Allyriadau Carbon Deuocsid, a Fynegir ar ffurf KT $CO_2$, ym Mhowys ar gyfer Blwyddyn 2019 113

Tabl 3.16 Canran yr Adeiladau Rhestredig ym Mhowys fesul Sgôr Risg (2015) 120

Tabl 3.17 Cyfanswm y Dynodiadau Amgylchedd Hanesyddol ym Mhowys, 2021 i 2022 123

Tabl 3.1811 Canran yr Henebion Cofrestredig yn CDLl Powys sydd mewn Cyflwr Sefydlog neu’n Gwella 124

Tabl 3.1912 Canran yr Adeiladau Rhestredig ym Mhowys fesul Sgôr Risg (2015) 124

Tabl 3.20 Y Materion Cynaliadwyedd Allweddol a Nodwyd 135

Tabl 4.1 Fframwaith ACI Arfaethedig 142

Tabl 4.2 Matrics Cydnawsedd 154

Tabl 4.3 Matrics Arfarnu Arfaethedig – Y Strategaeth Ofodol 155

Tabl 4.4 System Sgorio Arfaethedig 155

Tabl 4.5 Matrics Arfarnu Arfaethedig – Polisïau 156

Tabl 4.6 Matrics Arfarnu Arfaethedig – Safleoedd Strategol 157

Ffigur Crynodeb Annhechnegol 1 Gorgyffyrddiad rhwng y gwahanol fathau o asesu viii

Ffigur 1.1 Gorgyffyrddiad rhwng y gwahanol fathau o asesu 6

Ffigur 1.2 Nodau Llesiant a Ffyrdd o Weithio, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 13

Ffigur 1.2 Canlyniadau Polisi Cynllunio Cymru 14

Ffigur 1.4 Y Broses o Baratoi’r Cynllun Datblygu Lleol 16

Ffigur 3.1 Daearyddiaeth Powys 36

Ffigur 3.2 Topograffeg Powys 38

Ffigur 3.1 Topograffeg Powys a Map Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru (1 mewn 1,000 o flynyddoedd) 40
Ffigur 3.2 Seilwaith Craidd ym Mhowys 41
Ffigur 3.3 Bywyd gwyllt yng Nghymru 1970 hyd yr Oes Bresennol 43
Ffigur 3.6 Safleoedd Cadwraeth Natur Dynodedig – Cymru 49
Ffigur 3.7 Safleoedd Cadwraeth Natur Dynodedig – Powys 50
Ffigur 3.4 Cyfansoddiad y Caeau Chwaraeon Awyr Agored 52
Ffigur 3.5 Categori Mannau Agored 53
Ffigur 3.10 Twf Poblogaeth Powys 56
Ffigur 3.11 Poblogaeth Powys sydd o dan 15 oed 57
Ffigur 3.6 Poblogaeth Powys sydd rhwng 15 a 64 oed (oedran gweithio) 58
Ffigur 3.13 Poblogaeth Powys sydd dros 65 oed 59
Ffigur 3.14 Newidiadau yn nifer yr aelwydydd rhwng 2011 a 2021 60
Ffigur 3.7 Busnesau a sefydlwyd ac a fethodd dros amser – Powys 68
Ffigur 3.16 Dalgylchoedd Ysgolion Powys 71
Ffigur 3.17 Cyfanswm nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghanolbarth Cymru 2011 72
Ffigur 3.8 Disgwyliad oes adeg geni dynion a menywod ym Mhowys 74
Ffigur 3.9 Disgwyliad oes iach adeg geni, dynion a menywod ym Mhowys 75
Ffigur 3.19 Oedolion oedran gweithio o bwysau iach yng Nghymru 2017/18-2019/20 77
Ffigur 3.20 Plant 5 oed o bwysau iach neu dan bwysau, 2017/18 77
Ffigur 3.21 Nifer y bobl sydd â Dementia yng Nghymru 79
Ffigur 3.22 Nifer y cartrefi gofal fesul ardal 81
Ffigur 3.23 Seilwaith Trafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru 86
Ffigur 3.24 Tlodi Tanwydd fesul Awdurdod Lleol, Cymru, 2018 87
Ffigur 3.25 Y newid ym mhoblogaethau awdurdodau lleol yng Nghanolbarth Cymru o ganlyniad i bobl yn cymudo i mewn i'r rhanbarth ac allan ohono, 2018 88
Ffigur 3.26 Pellter cyfartalog teithiau i'r gwaith (km) gan weithwyr 16–74 oed yn 2011, fesul yr awdurdod lleol lle maent yn preswylio 89
Ffigur 3.10 Teithiau rheilffordd a wnaed yng Nghanolbarth Cymru 2002/3 – 2017/18, fesul awdurdod lleol 89
Ffigur 3.11 Cais Cronfa Ffyniant Bro Powys – Map Cynigion Rownd 2 91
Ffigur 3.12 Map Mawn Cymru 95
Ffigur 3.13 Map yn dangos lleoliad safleoedd adfer yn 2020/21, a'r prif fath o weithgaredd adfer ym mhob un, wedi'u troshaenu ar y Map Mawn Unedig 96
Ffigur 3.14 Ardaloedd Basn Afon yng Nghymru 99
Ffigur 3.32 Crynodiadau Nitrogen Deuocsid (NO2) yng Nghymru 2007-2017 110
Ffigur 3.15 Cyfanswm yr Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (cilodunelli) yng Nghymru fesul Blwyddyn 113
Ffigur 3.35 Adeiladau Rhestredig yng Nghanolbarth Cymru 122
Ffigur 3.36 Map o ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol – Powys 130
Ffigur 3.37 Map Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig 132
Ffigur 3.38 Canran pob ardal weithredol Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n syrthio i bob band lliw 133
Ffigur 3.39 Awyr dywyll a llygredd golau mewn ardaloedd gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru 133

Atodiad A Rhestr Wirio Sicrwydd Ansawdd
Atodiad B Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau
Atodiad C Diffiniadau o Arwyddocâd
Atodiad D Cefndir i'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
Atodiad E Meini Prawf Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Atodiad F Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Trosolwg

1.1.1 Mae Cyngor Sir Powys (y “Cyngor”) yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd a fydd yn cynnwys y weledigaeth, yr amcanion, y polisïau cynllunio a’r dyraniadau safle a fydd yn arwain datblygiadau yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol hyd at 2037. Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun Datblygu Lleol presennol ym mis Ebrill 2018 sy’n cwmpasu cyfnod 2011-2026; mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod ei Gynllun Datblygu Lleol yn gyfredol ac mae’n ofynnol iddo adolygu ei Gynlluniau o leiaf unwaith bob pedair blynedd.

1.1.2 Comisiynwyd Wood gan y Cyngor i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd 2022-2037.

## 1.2 Gofynion

1.1.3 Wrth gynnal yr ACI, mae’r Cyngor yn defnyddio proses sy’n ymgorffori Arfarniad o Gynaliadwyedd (AC), Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), Asesu’r Effaith ar Iechyd (AEI). Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) ac Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg. Mae’r asesiadau hyn (a drafodir yn fanwl isod) yn rhan o’r uchelgais i lunio Cynlluniau Datblygu Lleol sy’n helpu i hybu a gwireddu datblygiad cynaliadwy, sydd wrth wraidd proses y cynllun datblygu[26]. Mae’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (a gyhoeddwyd fel Cymru’r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040) yn gofyn ymhellach i ddatblygiadau cynaliadwy ac i Gynlluniau Datblygu Lleol gyflawni hyn[27]. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i’r cyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried yr effeithiau hirdymor sy’n deillio o’u penderfyniadau ac i wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru, yn unol â diffiniad y Ddeddf hon o ddatblygu cynaliadwy[28]:

“Y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.”

1.1.4 Y saith nod llesiant a nodir gan Ddeddf 2015 yw:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru sy’n fwy cyfartal

[26] Llywodraeth Cymru (2020) ‘Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3)’ Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf (llyw.cymru) tudalen 69.
[27] Llywodraeth Cymru (2021) ‘Cymru’r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040’. Ar gael yn: https://llyw.cymru/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040
[28] Llywodraeth Cymru (2015) ‘Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015’. Ar gael yn: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

- Cymru iachach
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

1.1.5 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Adran 2) yn gorfodi ymhellach ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i gofynion datblygu cynaliadwy[29]. Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ddyletswydd uwch o ran bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (Dyletswydd Adran 6).

## Arfarniad o Gynaliadwyedd (AC)

1.1.6 O dan Adran 19(5) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal AC o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i helpu i lywio'r broses o ddethol a datblygu polisïau a chynigion o ran eu heffeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd posibl.

1.1.7 Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol[30] yn gofyn am yr hyn a ganlyn: "dylai arfarniad cynaliadwyedd sy'n bodloni'r gofynion cyfreithiol perthnasol lywio cynlluniau lleol a strategaethau datblygu gofodol drwy gydol y broses o'u paratoi".

## Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

1.1.8 Wrth gynnal yr AC, mae'n rhaid i'r Cyngor ymgorffori hefyd ofynion Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004[31] a Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni ac Amgylchedd a Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019[32] (Rheoliadau'r AAS). Cyfyngir yr AAS i ystyried effeithiau ar yr amgylchedd[33], ac mae'r broses AC yn ystyried pynciau ehangach ffactorau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd[34]. Felly, bydd prosesau'r AAS a'r AC yn cydweithio yn yr ACI hwn i sicrhau bod yr holl effeithiau posibl sy'n deillio o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cael eu hystyried. Cyhoeddodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru ganllawiau ar sut y dylid mynd i'r afael â phroses yr AAS a'r AC, a bydd y canllawiau hyn wedi yn cael eu defnyddio i

---

[29] Llywodraeth Cymru (2015) Deddf 'Cynllunio (Cymru) 2015'. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/4/section/2/enacted

[30] MHCLG (2021) National Planning Policy Framework, paragraff 32 ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/national-planning-policy-framework--2

[31] Llywodraeth Cymru (2004) 'Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004'. Ar gael yn: Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (deddfwriaeth.gov.uk).

[32] Llywodraeth Cymru (2019) 'Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004'. Ar gael yn: Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni ac Amgylchedd a Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (deddfwriaeth.gov.uk) .

[33] [Saesneg yn unig.] "the likely significant effects on the environment, including on issues such as biodiversity, population, human health, fauna, flora, soil, water, air, climatic factors, material assets, cultural heritage including architectural and archaeological heritage, landscape and the interrelationship between the above factors" (SEA Directive 2001/42/EC, Annex I (f))

[34] Llywodraeth Cymru (2020) 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3)' Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf (llyw.cymru) tudalen 69.

lywio'r gwaith o lunio unrhyw ddogfennau yn ystod oes proses yr ACI[35]. Mae'r canllawiau hyn yn ceisio sicrhau bod Adroddiadau Cwmpasu yn cynnwys gwybodaeth sy'n helpu i nodi ac i fesur materion sy'n bodoli ac nad dim ond dogfennau hir sy'n cynnwys gwybodaeth ydynt, gan sicrhau hefyd nad yw Adroddiad Cwmpasu yn annibynnol a bod effeithiau ar ardaloedd awdurdodau lleol eraill yn cael eu hystyried.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

1.1.9 Mae'r ARhC yn gofyn am asesiad o'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar safleoedd a warchodir ledled Ewrop ac mae'n ofynnol gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017[36].

1.1.10 Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys asesu effeithiau posibl cynlluniau defnydd tir ar rwydwaith Natura 2000 o safleoedd gwarchodedig Ewropeaidd (a elwir bellach yn Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol)[37] er mwyn penderfynu a fydd unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar unrhyw safle Ewropeaidd o ganlyniad i weithredu'r cynllun (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill); ac os felly, a fydd yr effeithiau hyn yn arwain at unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle hwnnw gan gyfeirio at amcanion cadwraeth y safle. Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 yn trosglwyddo swyddogaethau oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd i'r awdurdodau priodol yng Nghymru a Lloegr oherwydd bod y DU yn gadael yr UE[38]. Mae'r holl brosesau neu amodau eraill yn Rheoliadau 2017 yn parhau'n ddigyfnewid ac mae'r canllawiau presennol yn dal i fod yn berthnasol, a nod rheoliadau 2019 yw peidio â newid rheoliadau 2017 yn sylfaenol.

1.1.11 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' (ARhC)[39] yw'r enw ar gyfer effeithiau cynllun neu raglen ar safleoedd Ewropeaidd.

1.1.12 Yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd, cynhelir yr hyn a gyfeirir ato'n gyffredin fel ymarfer sgrinio ar gyfer ARhC i nodi effeithiau tebygol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar safleoedd Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ac i ystyried a yw'r effeithiau hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol. Pan fo effeithiau arwyddocaol yn debygol, bydd angen Asesiad Priodol manylach.

---

[35] RTPI (2018) 'STRATEGIC ENVIRONMENTAL ASSESSMENT - Improving the effectiveness and efficiency of SEA/SA for land use plans'. Ar gael yn: https://www.rtpi.org.uk/research/2018/january/strategic-environmental-assessment-seasa-for-land-use-plans/, aed at y wefan 15.08.2022.

[36] Llywodraeth EM (2017) 'The Conservation of Habitats and Species Regulations 2017'. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2017/1012/introduction/made

[37] Yn fanwl gywir, 'safleoedd Ewropeaidd' yw unrhyw Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) o'r adeg pan fo'r Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth y DU yn cytuno bod y safle yn 'Safle o Bwys i'r Gymuned'; unrhyw Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) dosbarthedig; unrhyw ddarpar ACA (ac (yn eithriadol) unrhyw safle neu ardal arall y mae'r Comisiwn yn credu y dylid ei hystyried yn ACA ond nad yw wedi ei hadnabod gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, defnyddir y term yn gyffredin hefyd wrth gyfeirio at AGAau posibl y cymhwysir darpariaethau Erthygl 4(4) o Gyfarwyddeb 2009/147/EC (y gyfarwyddeb newydd ar gyfer adar gwyllt) atynt; ac ar gyfer AGAau posibl a Safleoedd Ramsar rhestredig y cymhwysir darpariaethau Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) atynt yn fater o bolisi'r Llywodraeth wrth ystyried cynigion datblygu a allai effeithio arnynt. Felly, defnyddir 'safle Ewropeaidd' yn yr adroddiad hwn yn ei ystyr ehangaf, fel term cyffredinol ar gyfer yr holl safleoedd dynodedig uchod

[38] Llywodraeth EM (2021) 'Changes to the Habitats Regulations 2017'. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/changes-to-the-habitats-regulations-2017/changes-to-the-habitats-regulations-2017, aed at y wefan 15.08.2022.

[39] Defnyddiwyd 'Asesiad Priodol' yn hanesyddol fel term cyffredinol i ddisgrifio'r broses o gynnal asesiad yn ei gyfanrwydd. Erbyn hyn, gelwir y broses gyfan yn 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' (ARhC) fel arfer, a defnyddir 'Asesiad Priodol' i nodi cam penodol o'r ARhC.

1.1.13 Bydd yr ymarfer sgrinio ar gyfer ARhC yn cael ei adrodd ar wahân (fel y cynghorir mewn canllawiau cynllunio[40]) gan ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar y cam Materion a Dewisiadau ond, yn bwysig, bydd yn helpu i lywio'r broses arfarnu, yn enwedig o ran effeithiau posibl cynigion ar fioamrywiaeth.

Asesu'r Effaith ar Iechyd (AEI)

1.1.14 Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gofyn i gyrff cyhoeddus gynnal AEI er mwyn asesu'r effaith debygol, yn y tymor byr a'r hirdymor, ar iechyd corfforol a meddyliol[41,42].

1.1.15 Yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol, y nod yw asesu prif effeithiau iechyd a llesiant polisïau a chynigion er mwyn nodi unrhyw gyfleoedd i'r polisïau cynllunio sy'n dod i'r amlwg fanteisio ac osgoi unrhyw effeithiau andwyol posibl. Mae canllawiau ar y dull eang i'w gymryd wrth ei integreiddio â'r broses AC wedi ei gyhoeddi yn Asesu'r Effaith ar Iechyd: Pecyn Cymorth ar gyfer Ymarfer[43]. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi'r disgrifiad canlynol ar gyfer canlyniadau'r broses AEI[44]:

> "Mae Asesu'r Effaith ar Iechyd yn broses sy'n ystyried sut y bydd camau arfaethedig yn effeithio ar iechyd a lles poblogaeth, boed yn bolisi, yn rhaglen, yn gynllun, yn brosiect neu'n newydd yn y ffordd y mae sefydliad yn darparu gwasanaeth cyhoeddus penodol."

1.1.16 Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru yn darparu'r disgrifiad canlynol ar gyfer AEI a'i ganlyniadau[45]:

> "cyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac offer ar gyfer barnu polisi, rhaglen neu brosiect o ran ei effeithiau posibl ar iechyd poblogaeth, a dosbarthu'r effeithiau hynny o fewn y boblogaeth."

1.1.17 Darperir canllawiau penodol pellach sy'n ymwneud â'r broses CDLl yn Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl): Pecyn Cymorth ar gyfer Ymarfer (Awst 2021), sy'n ceisio cefnogi cynllunwyr gofodol a swyddogion iechyd cyhoeddus i wneud y mwyaf o unrhyw gyfleoedd a allai ymddangos i alluogi cynllunio a datblygu iach yn rhan o'r broses paratoi CDLl.

---

[40] Llywodraeth Cymru (2020) 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3)' Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf (llyw.cymru)
[41] Llywodraeth Cymru (2020) 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3)' Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf (llyw.cymru) tudalen 72.
[42] Llywodraeth Cymru (2017) 'Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017'. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/contents/enacted
[43]Asesu'r Effaith ar Iechyd (AEI) Pecyn Cymorth ar gyfer Ymarfer. Ar gael yn: https://phw.nhs.wales/publications/publications1/asesur-effaith-ar-iechyd-hia-a-chynlluniau-datblygu-lleol-cdll-pecyn-cymorth-ar-gyfer-ymarfer/
[44] Iechyd Cyhoeddus Cymru (Dim dyddiad) 'Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol'. Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/522/Whiasu%20Guidance%20Report%20%28Welsh%29%20WEB.pdf, tudalen 2.
[45] Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (2020) 'Health Impact Assessment (HIA) Overview'. Ar gael yn: https://phwwhocc.co.uk/whiasu/wp-content/uploads/sites/3/2021/05/WHIASU_HIA_Overview.pdf

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEC)

1.1.18 Nid yw AEC yn ofyniad statudol ond mae'n offeryn i gynorthwyo'r Cyngor i gydymffurfio â gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb y DU 2010, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hybu cyfleoedd cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl wrth gynnal eu gweithgareddau. Mae deddfwriaeth yn nodi naw nodwedd warchodedig a bydd yr AEC yn ystyried yr effeithiau posibl ar y rhain. Hefyd, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol, i roi sylw dyladwy i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol gyda'r nod o helpu'r cyrff cyhoeddus hynny i gyflawni gofynion y ddyletswydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu hystyried wrth benderfynu sut i gyflawni'r ddyletswydd.

## Y Gymraeg

1.1.19 Mae'n ofynnol ystyried effeithiau posibl y cynllun datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg, sy'n sylfaenol i ddiwylliant Cymru[46]. Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 (TAN20): 'Cynllunio a'r Gymraeg'[47] yn rhoi canllawiau ar ystyried y Gymraeg yn rhan o'r cynllun datblygu a phrosesau'r AC.

1.1.20 Cadw ac ehangu'r Gymraeg yw un o'r nodau llesiant a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: "Diwylliant Bywiog Lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu"[48].

1.1.21 Bydd proses yr ACI yn ystyried sut mae maint a lleoliad twf, y weledigaeth, amcanion, polisïau a chynigion y CDLl Newydd, yn unigol ac ar y cyd, yn effeithio ar y Gymraeg.

1.1.22 Nod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw sicrhau bod gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg ac nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol[49]. Sefydlodd hefyd Safonau'r Gymraeg, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bolisïau newydd neu bolisïau a adolygir ystyried yn ofalus sut y gallent roi cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio ag arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

1.1.23 Yn fwyaf diweddar, mae *Safonau Llunio Polisi (Dogfennau Ymgynghori) – arweiniad i sefydliadau cyhoeddus* Comisiynydd y Gymraeg fel y'u cyflwynwyd gan gynghorwyr cyfreithiol y Comisiynydd mewn seminar ar-lein ar 21 Tachwedd 2023[50] yn cyflwyno canllawiau ar sut y dylid trin y Gymraeg wrth lunio polisi:

- Mae'n rhaid i gyrff ddangos "ymdrech gydbwybodol" a pheidio â mabwysiadu 'dull

[46] Llywodraeth Cymru (2020) 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3)' Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf (llyw.cymru), tudalen 72.
[47] Llywodraeth Cymru (2017) 'Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: cynllunio a'r Gymraeg'. Ar gael yn: Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg | LLYW.CYMRU
[48] Llywodraeth Cymru (2015) 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'. Ar gael yn: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/
[49] Llywodraeth Cymru (2011) 'Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted, aed at y wefan 15.08.2022.
[50] Mae recordiad o'r seminar ar Safonau Llunio Polisi - arweiniad i sefydliadau cyhoeddus a chopïau o'r sleidiau PowerPoint ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg yma: Dogfennau cyngor (comisiynyddygymraeg.cymru)

blwch ticio' o ystyried effeithiau posibl y penderfyniad polisi ar y Gymraeg.


- Bydd y trothwy ar gyfer "ymdrech gydbwybodol" yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac yn gofyn am fwy o graffu:
  - mewn maes o sensitifrwydd neu arwyddocâd i'r Gymraeg
  - wrth i nifer a/neu faint yr effeithiau posibl ar y Gymraeg gynyddu
  - os oes polisi neu ganllawiau lleol (e.e. yn y cyd-destunau cynllunio neu addysg) sy'n gofyn am asesiad o'r effeithiau posibl ar y Gymraeg.
- Bydd "ymdrech gydwybodol" yn fwy tebygol os caiff amrywiaeth eang o effeithiau cadarnhaol, negyddol a niwtral (uniongyrchol ac anuniongyrchol) eu hystyried.
- Disgwylir y bydd angen i gyrff cyhoeddus gryfhau canllawiau mewnol i gyfeirio at yr angen i wneud "ymdrech gydwybodol" i ystyried yr effeithiau posibl.
- Mae trin effeithiau ar y Gymraeg o dan un "pennawd" mewn asesiad effaith integredig yn annigonol. Dylai fod gan y Gymraeg yr un statws ag effeithiau amgylcheddol a chael ei chyflwyno mewn dogfen annibynnol ar wahân.
- Dylai cyrff symud oddi wrth y dull gor-syml o ofyn "beth yw'r effaith "net" ar y Gymraeg"? Mae'r effeithiau ar y Gymraeg yn gymhleth ac yn aml-ddimensiwn yn yr un modd ag effeithiau ar yr amgylchedd. O'r herwydd, mae angen ystyried y gwahanol effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y Gymraeg ar wahân bellach. Nid yw cyfuno'r rhain yn effaith net + neu – syml yn ddull priodol, gan fod gwneud hynny yn rhy syml.

Integreiddio

1.1.24 Mae'r ACI yn dwyn ynghyd i un fframwaith yr AC, yr AAS, AEI, AEC ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg er mwyn cyflwyno asesiad cyffredin ac integredig o strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (**Ffigur 1.1**). Er mwyn dangos cydymffurfedd â'r gofynion unigol, bydd allbynnau ar wahân, a gyflwynir mewn Atodiadau i'r Adroddiad ACI yn cael eu cyhoeddi sy'n cynnwys yr AEC. Bydd yr ARhC yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad ar wahân.

1.1.25 Bydd yr ACI yn gwerthuso perfformiad amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ac unrhyw ddewisiadau eraill rhesymol. Wrth wneud hynny, bydd yn helpu i lywio'r broses o ddewis yr opsiynau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd o ran (yn benodol) cwantwm, dosbarthiad a lleoliad datblygiad y dyfodol ym Mhowys. Bydd proses yr ACI hefyd yn nodi mesurau er mwyn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl a allai godi wrth weithredu'r Cynllun yn ogystal â chyfleoedd i wella cyfraniad y Cynllun Datblygu Lleol tuag at gynaliadwyedd.

Ffigur 1.1 Gorgyffyrddiad rhwng y gwahanol fathau o asesu yn yr ACI




## 1.2 Diben yr Adroddiad Cwmpasu hwn

1.2.1 Yr Adroddiad Cwmpasu hwn yw allbwn ffurfiol cyntaf ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Diben yr Adroddiad Cwmpasu yw darparu digon o wybodaeth i ymgyngoreion i'w galluogi nhw i wneud sylwadau ar gwmpas arfaethedig yr ACI. Yn fwy penodol, mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn nodi:

- trosolwg o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd;
- adolygiad o raglenni a pholisïau rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol, is-ranbarthol a lleol perthnasol;
- gwybodaeth waelodlin ar gyfer ardal CDLl Powys ar draws pynciau cynaliadwyedd allweddol;
- materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol allweddol sy'n berthnasol i'r broses o arfarnu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd;
- y dull arfaethedig o arfarnu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd gan gynnwys Fframwaith ACI drafft (sy'n cynnwys amcanion arfarnu, cwestiynau arwain a matricsau arfarnu);
- trosolwg o'r camau nesaf ym mhroses yr ACI, gan gynnwys strwythur arfaethedig yr Adroddiadau ACI yn y dyfodol.

## 1.3 Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Trosolwg

### Gofyniad i Baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd

1.3.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Gael Cynllun Datblygu Lleol, ac iddo gael ei ddiweddaru neu ei ddisodli yn ôl yr angen. Diweddarodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Rhan 3, Adran 68A Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i'w gwneud yn ofynnol i ddiweddaru Cynlluniau Datblygu Lleol yng ngoleuni Fframweithiau Datblygu Cenedlaethol a Chynllun Datblygu Strategol newydd a luniwyd (os yn berthnasol), os oes angen (yn anghyson â gofynion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol neu'r Cynllun Datblygu Strategol)[51].

### Cwmpas a Chynnwys y Cynllun Datblygu Lleol

1.3.2 Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cwmpasu Ardal weinyddol CDLl Powys ac yn cynnwys blaenoriaethau strategol a gweledigaeth hirdymor ar gyfer Powys. Bydd yn cynnwys Strategaeth Ofodol sy'n nodi lleoliadau ar gyfer darparu tai ac anghenion datblygu strategol eraill megis cyflogaeth, manwerthu, hamdden, seilwaith gwyrdd a glas, a datblygu cymunedol. Bydd hefyd yn cynnwys polisïau strategol, polisïau dyrannu safleoedd, polisïau rheoli datblygiadau, Map Cynigion, Map Cyfyngiadau a Map Polisïau ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio.

1.3.3 Bydd Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2022-2037 yn asesu ac yn gwneud newidiadau yn ôl yr angen er mwyn:

- sicrhau bod y Cynllun Lleol yn gyfredol a bod ganddo bwysau llawn;
- darparu ar gyfer gofynion twf datblygiadau ychwanegol;
- ystyried deddfwriaeth newydd a gofynion polisïau cenedlaethol;
- sicrhau y byddai'r cynllun yn arwain at greu datblygiad cynaliadwy, llesiant ac yn cefnogi'r Gymraeg; ac
- adlewyrchu unrhyw flaenoriaethau strategol newydd.

### Paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd

1.3.4 Yn dilyn adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Powys[52] a nododd yr angen am Gynllun Datblygu Lleol Newydd, lluniodd y Cyngor Gytundeb Darparu (2022) Cynllun Datblygu Lleol Newydd Powys 2022-2037[53] er mwyn amlinellu sut y byddai'r Cyngor yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig. Nodir yr amserlen ar gyfer llunio Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn **Nhabl 1.1**.

[51] Llywodraeth Cymru (2015) 'Deddf Cynllunio (Cymru) 2015'. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/4/part/3/enacted
[52] Cyngor Sir Powys (2022) Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygiad Lleol Powys 2011-2026. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/12867/Cynllun-Datblygu-Lleol-Newydd-2022---2037
[53] Cyngor Sir Powys (2022) Cytundeb Cyflawni ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Powys (2022-2037). Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/12867/Cynllun-Datblygu-Lleol-Newydd-2022---2037 tudalen 38–43

1.3.5 Mae'r Rheoliadau yn cyfeirio at: Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015.

Tabl 1.1 Paratoi Cerrig Milltir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

| Cam | Manylion | Diben | Dyddiadau | Dogfennau Canlyniadol |
|---|---|---|---|---|
| **1** | Y Cytundeb Cyflawni (Rheoliadau 5–10) | Cytuno ar Amserlen a'r Cynllun Cynhwysiant Cymunedol priodol ar gyfer paratoi'r CDLl Newydd. Arfarniad o Gynaliadwyedd (AC/ACI) | Tachwedd 2021 hyd Mawrth 2022 i gynnwys: Ymgynghoriad cyhoeddus anstatudol am o leiaf tair wythnos Ionawr–Chwefror 2022 Proses gymeradwyo'r Cyngor Mawrth 2022 Cyflwyno i Lywodraeth Cymru Mehefin 2022 | Cytundeb Cyflawni Cymeradwy |
| **2** | Casglu Tystiolaeth a Chynnwys Rhanddeiliaid | Casglu gwybodaeth a thystiolaeth er mwyn deall cyd-destun mynd i'r afael â materion yn y CDLl Newydd, a'r materion eu hunain yn y CDLl Newydd y mae angen mynd i'r afael â nhw.<br><br>Gwneud Galwad am Ddarpar Safleoedd a pharatoi Cofrestr Darpar Safleoedd.<br><br>Creu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd<br><br>AC/ACI: Y cam cwmpasu: Gosod y cyd-destun, sefydlu'r waelodlin a phenderfynu ar gwmpas ac amcanion yr AC/ACI | Dechrau'n ffurfiol y broses o baratoi'r cynllun: 1 Gorffennaf 2022<br><br>Cynhelir Camau 2 a 3 rhwng Gorffennaf 2022 a Rhagfyr 2023, ac maent yn cynnwys:<br><br>Galwad am Safleoedd am o leiaf 6 wythnos o dymor yr hydref 2022<br><br>Ymgynghoriad statudol 5 wythnos gyda Chyrff Amgylcheddol ar yr Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin Integredig (sy'n cynnwys AC/ACI) | Papurau Tystiolaeth Gefndirol<br><br>Cofnodion/Nodiadau/Pwyntiau Gweithredu o'r Ymarferion Ymgysylltu â Rhanddeiliaid<br><br>Methodoleg Asesu Darpar Safleoedd a Phecyn Ymgeisio ar gyfer Darpar Safleoedd<br><br>Adroddiad Cwmpasu AC/ACI |
| **Yn ystod Cam 2** | Cyfranogiad Cyn-adneuo (Rheoliad 14) | Datblygu ac asesu dewisiadau strategol, profi dewisiadau eraill, a chytuno ar strategaeth a ffefrir ar | Cyfredol: Gorffennaf 2022 hyd Ebrill 2023 | Yn fewnol, bydd Strategaeth Ddrafft a Ffefrir yn cael ei pharatoi (ar gyfer prosesau cymeradwyo'r Cyngor i ddechrau) |

| Cam | Manylion | Diben | Dyddiadau | Dogfennau Canlyniadol |
|---|---|---|---|---|
| | | gyfer y CDLl Newydd, gan ddefnyddio'r holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod Cyfnod 2 | | |
| **3** | Ymgynghoriad Cyn-adneuo (Rheoliadau 15 a 16)<br><br>Ymgynghori ar Adroddiad AC Cychwynnol | Ymgynghori'n eang ar y strategaeth a ffefrir, y dewisiadau strategol a'u hasesiadau cysylltiedig.<br>AC/ACI: Y cam arfarnu dewisiadau eraill: Datblygu a mireinio dewisiadau eraill rhesymol ac asesu'r effeithiau, Paratoi'r Adroddiad AC Cychwynnol | Ymgynghoriad Cyhoeddus Statudol 6 wythnos Mai–Mehefin 2023 | Y Strategaeth a Ffefrir sy'n nodi'r weledigaeth, yr amcanion, y strategaeth a ffefrir a'r polisïau allweddol.<br>Y Gofrestr Darpar Safleoedd<br><br>Dogfennau ategol<br><br>Cyhoeddi AC/ACI o gynigion a dewisiadau eraill yn yr Adroddiad AC Cychwynnol |
| **4** | Cyhoeddi ac Ymgynghori ar y CDLl Adneuo a'r dogfennau ategol, eu darparu ar gyfer archwiliad. (Rheoliad 17)<br><br>Ymgynghori ar yr Adroddiad AC | Caniatáu i sylwadau ffurfiol ar gynigion y Cyngor.<br><br>AC/ACI: Asesu'r Cynllun Adneuo a pharatoi Adroddiad AC | Cynhelir y cam hwn rhwng Ionawr 2024 a Rhagfyr 2024, ac mae'n cynnwys:<br><br>Ymgynghoriad Cyhoeddus Statudol 6 wythnos Chwefror–Mawrth 2024 | Cynllun Adneuo a dogfennau ategol<br><br>Adroddiad Ymgynghoriad Cychwynnol<br><br>Bydd y Gofrestr Darpar Safleoedd Diweddaredig yn cynnwys safleoedd newydd ac eraill<br><br>Cyhoeddi AC/ACI o'r cynigion sydd yn yr Adroddiad AC |
| **5** | Cyflwyno CDLl i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio* ar gyfer Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 22)<br><br>Gwneud y Ddogfennaeth berthnasol ar gael<br><br>Bydd y Cyngor yn dilyn canllawiau cyhoeddedig ar baratoi/gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ac archwilio). | Darparu CDLl Newydd, barn y Cyngor ar sylwadau a wnaed yn ystod cyfnod 4 a dogfennau ategol eraill (gan gynnwys Adroddiad Ymgynghori diweddaredig) i Lywodraeth Cymru cyn archwiliad ffurfiol. | Ionawr 2025 | Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyflwyniad a sicrhau bod dogfennau ar gael |

| Cam | Manylion | Diben | Dyddiadau | Dogfennau Canlyniadol |
|---|---|---|---|---|
| **6** | Archwiliad Annibynnol a gynhaliwyd gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (Rheoliad 23) | Darparu safbwynt cynllunio diduedd ar gadernid y CDLl<br><br>Yn ystod y Cam Archwilio, mae'r AC/ACI'n parhau i sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir i'r cynllun adneuo (Newidiadau â Phwyslais, Newidiadau i Faterion sy'n Codi yn ystod archwiliad, neu'r rhai sy'n ofynnol gan yr Arolygydd) yn gynaliadwy. | Mae Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn nodi bod y broses Archwilio'n digwydd o fewn 11 mis i'r cyflwyniad | Yn ystod y Cam Archwilio, bydd unrhyw Newidiadau Ôl-adneuo Arfaethedig (Newidiadau i Faterion sy'n Codi) ar gael ar gyfer ymgynghoriad (gan gynnwys yr asesiad AC/ACI sy'n gysylltiedig â nhw). |
| **7** | Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad 24) | Derbyn canfyddiadau'r Arolygydd o'r Archwiliad Annibynnol. | Rhagfyr 2025 | Darperir Adroddiad yr Arolygydd i'r Cyngor a bydd yn cael ei gyhoeddi pan fo'r Cynllun yn cael ei fabwysiadu, neu cyn hynny. |
| **8** | Mabwysiadu (Rheoliad 25) | Gwneud y CDLl yn weithredol fel y Cynllun Datblygu statudol ar gyfer ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol (y CDLl a'r Datganiad Mabwysiadu a anfonir i Lywodraeth Cymru).<br>Gwneud y CDLl ar gael i'w archwilio, cynhyrchir a chyhoeddi datganiad mabwysiadu AC/ACI: Cwblhau<br><br>Adroddiad AC a /Datganiad Amgylcheddol | O fewn 8 wythnos i dderbyn yr Adroddiad (Cam 7) Chwefror 2026 | Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (2022-2037)<br><br>Y Datganiad Mabwysiadu<br><br>Yr Adroddiad AC/ACI Yr Adroddiad Ymgynghori<br>O fewn 6 wythnos i fabwysiadu: Datganiad Ôl-fabwysiadu ar fframwaith yr AC |
| **9** | Monitro ac Adolygu Blynyddol (Rheoliad 37 a 41(1)) | Llunio Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB)<br><br>Gan gynnwys Monitro o dan Reoliad 17 o Reoliadau AAS yr effeithiau amgylcheddol arwyddocaol a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru. | Cyflwyno'r AMB cyntaf ar sail y fframwaith monitro yn y CDLl Newydd: Ar/cyn 31 Hydref, yn y flwyddyn ar ôl mabwysiadu | Disgwylir yr AMB ar gyfer y CDLl Newydd yn 2027 (ar yr amod bod y CDLl Newydd mabwysiedig yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf, 1 Ebrill hyd 31 Mawrth) ac yn flynyddol ar ôl hynny.<br><br>Yr Adolygiad Statudol 1af o fewn 4 blynedd i'r dyddiad mabwysiadu, erbyn mis Ebrill 2030. |

| Cam | Manylion | Diben | Dyddiadau | Dogfennau Canlyniadol |
|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau adolygiad Cynllun Datblygu o leiaf bob 4 blynedd | | |

1.3.6 Bydd canlyniadau ymgynghoriadau ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn helpu i arwain a llywio'r dewisiadau pwysig y bydd y Cyngor yn eu gwneud mewn cysylltiad â datblygiad Powys yn y dyfodol. Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, bydd y Cyngor hefyd yn ystyried (ymhlith pethau eraill) polisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, sylfaen dystiolaeth y Cyngor a chanfyddiadau asesiadau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys ACI.

1.3.7 Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gael drwy wefan y Cyngor.

## 1.4 Arfarniad o Gynaliadwyedd

### Y Gofyniad am Arfarniad o Gynaliadwyedd

1.4.1 O dan Adran 19(5) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal AC o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i helpu i lywio'r broses o ddethol a datblygu polisïau a chynigion o ran eu heffeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd posibl. Wrth ymgymryd â'r gofyniad hwn, mae'n rhaid i'r awdurdodau cynllunio lleol ymgorffori hefyd ofynion Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004[54] a Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni ac Amgylchedd a Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019[55]. Mae rheoliadau AAS yn ceisio darparu lefel uchel o ddiogelwch i'r amgylchedd drwy integreiddio ystyriaethau amgylcheddol i'r broses o baratoi cynlluniau a rhaglenni penodol.

1.4.2 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[56] yw sicrhau bod yr holl ddatblygiadau yng Nghymru yn gynaliadwy ac yn cyd-fynd â'r pum ffordd o weithio a'r saith egwyddor cynaliadwyedd fel y nodir yn **Ffigur 1.2**.

---

[54] Llywodraeth Cymru (2004) 'Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004'. Ar gael yn: Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (deddfwriaeth.gov.uk).

[55] Llywodraeth Cymru (2019) 'Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004'. Ar gael yn: Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni ac Amgylchedd a Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (deddfwriaeth.gov.uk) .

[56] Llywodraeth Cymru (2015) 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'. Ar gael yn: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

Ffigur 1.2 Nodau Llesiant a Ffyrdd o Weithio, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[57]




1.4.3 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015[58] hefyd yn ceisio sicrhau bod datblygiadau yng Nghymru yn gynaliadwy, yn deg ac yn gydnerth.

1.4.4 Mae Cymru'r-Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040[59] yn sefydlu dyheadau llywodraethau Cymru o ran cynllunio a datblygiadau yng Nghymru. Mae datblygiadau cynaliadwy wrth ei wraidd a pholisïau'r ddogfen hon, sy'n ceisio sicrhau ei fod yn cael ei brofi ledled Cymru.

[57] Llywodraeth Cymru (2016) Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/spsf-1-canllaw-craidd.PDF

[58] Llywodraeth Cymru (2015) 'Deddf Cynllunio (Cymru) 2015'. https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/4/section/2/enacted

[59] Llywodraeth Cymru (2021) 'Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 https://llyw.cymru/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040

Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11)[60] hefyd yn darparu polisïau cynllunio ar gyfer Cymru ac mae **Ffigur 1.3** yn nodi'r canlyniadau cynaliadwy y mae polisïau o'r fath yn dymuno eu cyflawni.

Ffigur 1.2 Canlyniadau Polisi Cynllunio Cymru[61]




1.4.5 Oherwydd effeithiau tymor byr a hirdymor parhaus pandemig COVID-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol

---

[60] Llywodraeth Cymru (2021) 'Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11' https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-11.pdf
[61] Llywodraeth Cymru (2021) 'Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11' https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-11.pdf

Cydnerth a Mwy Disglair (Creu lleoedd a’r adferiad Covid-19)[62]. Mae’r ddogfen hon yn nodi y dylid diweddaru neu ddisodli Cynlluniau Lleol i adlewyrchu’r anghenion lleol sydd wedi codi yn sgil pandemig COVID-19. Mae’r ddogfen hon hefyd yn sefydlu’r wyth rhifyn canlynol:


1. Cadw’n lleol: creu cymdogaethau
2. Teithio llesol: ymarfer corff a dulliau teithio a ailddarganfyddir
3. Adfywio canol ein trefi
4. Lleoedd digidol – rhaff achub yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud
5. Newid arferion gwaith: ein hangen am dir cyflogaeth yn y dyfodol
6. Ailddeffro sector twristiaeth a sector diwylliannol Cymru
7. Seilwaith gwyrdd, iechyd a lles a chydnerthedd ecolegol
8. Gwella ansawdd aer a seinweddau er mwyn sicrhau gwell iechyd a lles

1.4.6 Felly, bydd AC yn rhan annatod o’r broses o baratoi’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, a bydd yn helpu i sicrhau bod effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tebygol y Cynllun yn cael eu nodi, eu disgrifio, eu harfarnu a’u cyfathrebu. Bydd hyn yn ffurfio rhan greiddiol o broses yr ACI. Lle nodir effeithiau negyddol, bydd mesurau’n cael eu cynnig i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau o’r fath. Pan fo unrhyw effeithiau cadarnhaol yn cael eu nodi, bydd mesurau’n cael eu hystyried a allai wella effeithiau o’r fath. Bydd AC hefyd yn helpu i lywio’r broses o ddewis opsiynau cynllun drwy arfarnu opsiynau eraill rhesymol mewn cysylltiad yn benodol â gwahanol feintiau o dwf, dosbarthiadau gofodol a dyraniadau safleoedd, gan helpu ar yr un pryd i wneud y broses o wneud penderfyniadau yn fwy tryloyw.

1.4.7 Mae **Ffigur 1.4** yn dangos camau’r broses o baratoi’r CDLl a’r berthynas barhaus ag ACI.

[62] Llywodraeth Cymru (2020) ‘Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair’. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/adeiladu-lleoedd-gwell-y-system-gynllunio-yn-sicrhau-dyfodol-cydnerth-a-mwy-disglair.pdf, tudalen 13.

Ffigur 1.4  Y Broses o Baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol[63]




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3 2020

## Camau yn y Broses Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig

1.4.8 Mae pum cam i broses yr ACI:

- A. Cwmpasu
- B. Datblygu a Mireinio Dewisiadau Eraill ac Asesu Effeithiau
- C. Paratoi Adroddiad ACI
- D. Ymgynghoriad ar Adroddiad ACI ac Asesu Newidiadau Sylweddol
- E. Monitro Effeithiau Arwyddocaol

1.4.9 Mae cam cyntaf (**Cam A**) proses yr ACI wedi arwain at lunio'r Adroddiad Cwmpasu hwn. Mae'r cam cwmpasu ei hun yn cynnwys y pum tasg a restrir isod:

[63] Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Rhifyn 3, 2020

1. Adolygu polisïau, cynlluniau, rhaglenni a strategaethau perthnasol eraill (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'cynlluniau a rhaglenni').
2. Coladu a dadansoddi gwybodaeth waelodlin.
3. Nodi materion cynaliadwyedd allweddol.
4. Datblygu Fframwaith yr ACI.
5. Ymgynghori ar gwmpas yr arfarniad (yr Adroddiad Cwmpasu hwn).

1.4.10 Yn seiliedig ar yr adolygiad o gynlluniau a rhaglenni eraill, dadansoddiad gwaelodlin a materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd ar gyfer ardal y Cynllun, mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn cynnwys y dull arfaethedig o asesu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn integredig. Ar ôl i'r ymgynghoriad cwmpasu ddod i ben, bydd Fframwaith yr ACI yn cael ei ddiwygio er mwyn ystyried yr ymatebion ymgynghori fel y bo'n briodol.

1.4.11 Defnyddir Fframwaith yr ACI diwygiedig i arfarnu effeithiau'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n dod i'r amlwg o ran elfennau'r cynllun allweddol (gweledigaeth, amcanion, strategaeth ofodol y Cynllun, gan gynnwys lefel y twf, polisïau a safleoedd a ddyrennir, gan gynnwys dewisiadau eraill rhesymol) (**Cam B**). Mae'r cam hwn yn ailadroddol a bydd yn cynnwys datblygu a mireinio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd drwy brofi cryfderau cynaliadwyedd a gwendidau'r dewisiadau Cynllun sy'n dod i'r amlwg. Yn hyn o beth, cynhelir AC drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd gan gyflwyno'r canfyddiadau mewn cyfres o Adroddiadau ACI interim i gyd-fynd â chyhoeddiad ac ymgynghoriad ar iteriadau amrywiol ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft.

1.4.12 Yng **Ngham C**, bydd Adroddiad AC terfynol yn cael ei baratoi i gyd-fynd â chyflwyniad y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft. Bydd yn cael ei baratoi i fodloni gofynion adrodd y Gyfarwyddeb AAS a bydd ar gael ar gyfer ymgynghoriad ochr yn ochr â drafft y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ei hun cyn ei ystyried gan arolygydd cynllunio annibynnol mewn Archwiliad (**Cam D**).

1.4.13 Yn dilyn Archwiliad, ac yn amodol ar unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft a allai fod angen arfarniad o ganlyniad i'r Archwiliad, bydd y Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Ôl-fabwysiadu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd hyn yn nodi canlyniadau'r broses ymgynghori ac AC ac i ba raddau y darparwyd ar gyfer canfyddiadau'r AC yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd mabwysiedig. Yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, bydd y Cyngor yn monitro ei weithrediad ac unrhyw effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol arwyddocaol (**Cam E**).

## 1.5 Strwythur yr Adroddiad Cwmpasu

1.5.1 Gan adlewyrchu'r pum tasg cwmpasu a nodir yn **Adran 1.4** uchod, mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn wedi ei strwythuro fel a ganlyn:

- **Crynodeb Annhechnegol** – Crynodeb o'r Adroddiad Cwmpasu, gan gynnwys gwybodaeth am y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a dull arfaethedig yr ACI;

- **Adran 1: Cyflwyniad** – Mae'n cynnwys crynodeb o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, trosolwg o ACI, cynnwys adroddiad ac amlinelliad o sut i ymateb i'r ymgynghoriad;
- **Adran 2: Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau** – Trosolwg o'r adolygiad o'r cynlluniau a'r rhaglenni hynny sy'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ac ACI a gynhwysir yn **Atodiad B**;
- **Adran 3: Dadansoddiad Gwaelodlin** – Dadansoddiad gwaelodlin o nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Powys ac yn nodi'r materion cynaliadwyedd allweddol sydd wedi llywio Fframwaith yr ACI;
  - Adran 3.5: Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd/Mannau Agored
  - Adran 3.6: Poblogaeth a Chymuned
  - Adran 3.7: Iechyd a Llesiant
  - Adran 3.8: Trafnidiaeth a Hygyrchedd
  - Adran 3.9: Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg
  - Adran 3.10: Dŵr
  - Adran 3.11: Ansawdd yr Aer
  - Adran 3.12: Newid Hinsawdd
  - Adran 3.13: Asedau Perthnasol
  - Adran 3.14: Treftadaeth Ddiwylliannol
  - Adran 3.15: Tirwedd
- **Adran 4: Dull Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** – Dull arfaethedig ar gyfer ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, gan gynnwys Fframwaith yr ACI;
- **Adran 5: Camau Nesaf** – Manylion y camau nesaf yn y broses arfarnu, gan gynnwys strwythur Adroddiad AC arfaethedig.

1.5.2 Paratowyd yr Adroddiad Cwmpasu hwn i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb AAS a'r Rheoliadau cysylltiedig. Mae'n cyflawni gofynion Cam A, fel yr amlinellir yn y Rhestr Wirio Sicrhau Ansawdd a gyflwynir yn **Atodiad A**.

## Eich sylwadau ar yr Adroddiad Cwmpasu hwn

Bydd y cyfnod ymgynghori pum wythnos ar Adroddiad Cwmpasu yr ACI yn dod i ben am 5pm, ddydd Llun,10 Hydref 2022.

### Yr Ymgynghoriad Hwn: Sut i Roi Eich Safbwyntiau I Ni

**Croesawn eich safbwyntiau ar unrhyw agwedd ar yr Adroddiad Cwmpasu hwn. Fodd bynnag, byddem ni'n croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol yn enwedig:**

4. **A ydych chi'n credu bod yr Adroddiad Cwmpasu hwn yn cynnwys digon o wybodaeth i gadarnhau'r cyd-destun ar gyfer ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft o ran adolygu cynlluniau a rhaglenni a thystiolaeth gwaelodlin a dadansoddiad? Os nad ydych, pa feysydd ydych chi'n meddwl sydd wedi eu colli ac ymhle y mae gwybodaeth am y pynciau hyn ar gael?**
5. **A ydych yn cytuno bod y prif faterion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a nodwyd yn berthnasol i ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft? Os nad ydych, pa faterion ydych yn meddwl y mae angen eu cynnwys neu eu hepgor?**
6. **A ydych yn cytuno â dull arfaethedig ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft? A yw amcanion yr ACI a chwestiynau arwain sy'n cynnwys Fframwaith yr ACI yn cwmpasu ystod ddigonol o bynciau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd? Os nad ydynt, pa amcanion y dylid eu diwygio a pha amcanion eraill y dylid eu cynnwys yn eich tyb chi?**

# 2. Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau

## 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae Rheoliadau AAS yn ei gwneud yn ofynnol i adolygu cynlluniau, rhaglenni a strategaethau er mwyn nodi'r amcanion amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach sy'n berthnasol i'r cynllun sy'n cael ei asesu. Yn benodol, dylai adroddiad amgylcheddol sy'n ofynnol o dan Reoliadau'r AAS gynnwys yn unol ag Atodlen 2, dylai Rheoliad 12(3) gynnwys:

> *"1. An outline of the contents and main objectives of the plan or programme, and of its relationship (if any) with other relevant plans and programmes.*
>
> *2. The relevant aspects of the current state of the environment and the likely evolution thereof without implementation of the plan or programme."*

2.1.2 Mae cynlluniau, rhaglenni a strategaethau sy'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cynnwys y rhai sydd ar lefel ryngwladol/Ewropeaidd, y DU, cenedlaethol, rhanbarthol, is-ranbarthol neu leol. Nod yr adolygiad o gynlluniau, rhaglenni a strategaethau perthnasol yw nodi'r berthynas rhwng y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a'r dogfennau eraill hyn, h.y. sut y gallai nodau, amcanion a/neu dargedau'r rhaglenni eraill effeithio ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, neu sut y gallai'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd gyfrannu at gyflawni eu hamcanion. Mae'r adolygiad hefyd yn sicrhau bod yr amcanion diogelu'r amgylchedd a chynaliadwyedd perthnasol wedi eu hintegreiddio i'r AAS. Hefyd, gall adolygu cynlluniau a rhaglenni ddarparu gwybodaeth briodol am y waelodlin ar gyfer ardal y cynllun a helpu i nodi'r materion amgylcheddol allweddol.

2.1.3 Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'r adolygiad o'r cynlluniau, y rhaglenni a'r strategaethau a sut maent yn cael eu hadlewyrchu yn amcanion asesu'r AAS (fel y nodir yn **Adran 5**).

## 2.2 Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau a Adolygwyd – Crynodeb o Amcanion, Negeseuon Polisi Allweddol a Goblygiadau i'r ACI

2.2.1 Cafodd dros 200 o bolisïau, cynlluniau a rhaglenni eu hadolygu yn rhan o'r gwaith o baratoi'r ACI. Roedd yr adolygiad hwn o bolisïau, cynlluniau a rhaglenni yn ystyried amcanion cynlluniau a rhaglenni ar lefel Rhyngwladol, Cymunedol, Aelod-wladwriaeth, Cymru a Phowys

2.2.2 Mae **Tabl 2.1** yn darparu crynodeb o'r amcanion allweddol sy'n deillio o'r adolygiad o gynlluniau, rhaglenni a strategaethau fel y nodir yn Atodiad B, a sut maent yn cael eu hadlewyrchu yn amcanion asesu yr AAS.

Tabl 2.1 Crynodeb o Negeseuon Polisi Allweddol o'r Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau

| Negeseuon Polisi Allweddol | Goblygiadau i'r ACI | Amcanion ACI Perthnasol Cymru'r Dyfodol |
|---|---|---|
| **Bioamrywiaeth (gan gynnwys Fflora a Ffawna)**<br>• Diogelu a gwella bioamrywiaeth[64], gan gynnwys safleoedd dynodedig, rhwydweithiau ecolegol, cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth[65].<br>• Wrth ymateb i'r argyfwng natur datganedig, defnyddio Datganiad Ardal Canolbarth Cymru[66] i helpu i gydlynu'r materion allweddol sy'n wynebu'r amgylchedd naturiol, chwilio am gyfleoedd pellach a chydweithio â phartneriaid a'r cyhoedd i wella adnoddau naturiol yn yr | Dylai'r ACI gynnwys amcan penodol i ddiogelu, gwella ac adfer pob safle cadwraeth natur dynodedig yn ardal y cynllun ac i ddiogelu a gwella'r holl rywogaethau a chynefinoedd, gan gynnwys eu cysylltedd fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Powys 2022-2032 a Datganiad Ardal Canolbarth Cymru. | 16. Creu cyfleoedd i gadw a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth |

[64] Mae Polisi Cynllunio Cymru Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru) yn cynnwys yr ymateb system gynllunio i'r Ddyletswydd Adran 6 trwy gyflwyno fframwaith i awdurdodau cynllunio gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau (gan sicrhau manteision net i fioamrywiaeth). "Er ei fod yn gysyniad tebyg i enillion net, mae manteision net i fioamrywiaeth yn cyfeirio'n benodol at gydnerthedd ecosystemau a pherthynas y safle â'r ecosystemau a'r bioamrywiaeth o'i gwmpas. O'r herwydd, mae'n annog cynigion i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau yn rhagweithiol, gyda ffocws ar osgoi, lleihau a lliniaru effeithiau yng nghyd-destun y safle, lle ystyrir mai'r dewis olaf yw cymryd camau lliniaru oddi ar y safle wrth ystyried cydnerthedd ecosystemau, eu hamrywiaeth, eu maint, eu cyflwr, eu cysylltedd a'u haddasrwydd" (Llythyr Gweinidogol, 20 Rhagfyr 2022)

[65] Dangos Manteision Net i Fioamrywiaeth
Mae'n rhaid i unrhyw gynnig cynllunio ddangos ei fod wedi cynnal a gwella bioamrywiaeth ac wedi creu rhwydweithiau ecolegol cydnerth. Mae'n rhaid i welliannau bioamrywiaeth sy'n sicrhau manteision bioamrywiaeth net gael eu darparu ar ôl (h.y. yn ychwanegol i) weithredu'r dull stepwise o osgoi effeithiau andwyol ar yr amgylchedd mewn datblygiad yn gyntaf, ac yna sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl, eu lliniaru ac fel dewis olaf gwneud iawn amdanynt. Yn olaf, pan fo'r effaith andwyol ar yr amgylchedd yn amlwg yn fwy nag ystyriaethau perthnasol eraill, dylid gwrthod y datblygiad. Nodir manylion y broses hon ym Mholisi Cynllunio Cymru (para. 6.4.21, t. 142). Gellir sicrhau manteision net i fioamrywiaeth trwy amrywiaeth o gamau, yn amrywio o focsys ystlumod ac adar i greu cynefinoedd ar raddfa fawr, a/neu eu hadfer neu eu rheoli ar sail hirdymor. Mae llythyr y Prif Gynllunydd yn nodi nad oes yn rhaid i hyn fod yn feichus, ac y dylai fod yn gymesur â maint ac effaith datblygiad, i gyfrannu at ddull mwy, gwell, mwy cydgysylltiedig o sicrhau rhwydwaith ecolegol cydnerth a bioamrywiol yng Nghymru. Bydd hyn yn golygu y gall rhai datblygiadau effaith fach neu isel sicrhau manteision net i fioamrywiaeth yn rhwydd, ond bydd angen i eraill fuddsoddi mewn darparu arwynebedd tir ar gyfer manteision net i fioamrywiaeth a chynnal cynefinoedd ar sail hirdymor. Ffynhonnell: Net-Benefits-briefing.pdf (cieem.net)

[66] Mae Datganiadau Ardal, sy'n cael eu llunio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn nodi'r adnoddau naturiol sy'n bresennol ym mhob un o'r saith ardal sy'n cwmpasu Cymru, mapiau cyfleoedd ar gyfer datblygu cydnerthedd ecosystemau lle maent ar gael, y manteision y mae'r rhain yn eu cynnig, a'r prif heriau a chyfleoedd ar gyfer yr adnoddau naturiol hyn. Gellid defnyddio Datganiadau Ardal i hysbysu'n fras pa fath o dir y gellid ei gwmpasu i'w brynu, wedi'i ddilyn gan archwiliadau o safleoedd dynodedig, cynefinoedd lled naturiol, Asesiadau Seilwaith Gwyrdd a rhwydweithiau cynefinoedd, i nodi tir sy'n gallu cynnig y mwyaf o fanteision i fioamrywiaeth neu wasanaethau ecosystem eraill a lleihau risgiau o effeithiau negyddol ar ardaloedd gwerth gwasanaeth bioamrywiaeth/ecosystem uchel presennol. Ffynhonnell: Net-Benefits-briefing.pdf (cieem.net)

| Negeseuon Polisi Allweddol | Goblygiadau i'r ACI | Amcanion ACI Perthnasol Cymru'r Dyfodol |
|---|---|---|
| ardal. Bydd y mesurau'n cynnwys: nodi prif achosion yr argyfwng natur gan gynnwys yr hyn sydd angen ei wneud, gan bwy a ble; gwella Statws Cadwraeth Ffafriol safleoedd dynodedig; nodi cyfleoedd ar gyfer cysylltedd rhwng y safleoedd hynny ac ardaloedd eraill; gwneud natur yn flaenoriaeth drwy gynllunio, polisi a mesurau ymarferol. | | |
| **Poblogaeth ac Iechyd Dynol**<br>• Mynd i'r afael â'r angen am dai marchnad, fforddiadwy ac anghenion arbennig sy'n lleoli cyfleoedd tai ledled Powys yn unol â'r hierarchaeth anheddu cynaliadwy.<br>• Mynd i'r afael â'r angen am welliannau i'r seilwaith trafnidiaeth, gan alluogi ffyrdd o fyw egnïol, darparu cyfleoedd tai, gwasanaethau a chyfleusterau.<br>• Mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu ynni ac egwyddorion dylunio da.<br>• Cefnogi mesurau i wella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig drwy ddiogelu a hybu mynediad at wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth.<br>• Galluogi ffyrdd egnïol o fyw a gwella mynediad | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ceisio gwella'r ddarpariaeth o dai, cyflogaeth a gwasanaethau cymunedol i ddiwallu anghenion y boblogaeth ac mewn ymateb i newidiadau demograffig (e.e. y boblogaeth sy'n heneiddio a'r angen i gadw'r boblogaeth oedran gweithio ifanc).<br><br>Dylid nodi'r cysylltiadau rhwng iechyd a llesiant a chyfleoedd i hybu ffyrdd mwy cynaliadwy o fyw.<br>Hefyd, dylai amcanion yr ACI hybu:<br>• Gwelliant mewn diogelwch cymunedol.<br>• Gwelliant mewn iechyd dynol a chyfleoedd i fyw'n iach.<br>• Atal neu leihau amlygiad i ffynonellau posibl o niwsans a risg i iechyd dynol. | 1. Annog a chefnogi gwelliannau mewn cyrhaeddiad addysgol i bob grŵp oedran a phob sector o'r gymdeithas er mwyn helpu i wella cyfleoedd i fywyd<br><br>2. Cyfrannu at welliant mewn iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb, gan gynnwys cyfrannu at ostyngiad mewn anghydraddoldeb iechyd ledled Cymru<br><br>3. Creu cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ledled y wlad ac i hybu cynhwysiant economaidd<br><br>4. Creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy, amrywiaeth a chystadleuaeth fasnachol<br>10. Creu cyfleoedd ar gyfer gwell cysylltedd rhwng cymunedau a mynediad cynaliadwy at |

| Negeseuon Polisi Allweddol | Goblygiadau i'r ACI | Amcanion ACI Perthnasol Cymru'r Dyfodol |
|---|---|---|
| at wasanaethau, swyddi a chyfleusterau.<br>• Cynnal a gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig Powys.<br>• Galluogi cyfleoedd hyfforddi a dysgu o ansawdd uchel i gael eu darparu.<br>• Caniatáu i drigolion Powys gael mynediad at ddewis o wasanaethau gan amrywiaeth o asiantaethau integredig a sefydliadau cymunedol.<br>• Sicrhau bod Powys yn lleoliad deniadol ar gyfer graddedigion a theuluoedd ifanc.<br>• Sicrhau cydraddoldeb cymdeithasol a ffyniant i bawb.<br>• Sicrhau bod cyflenwad digonol o dir cyflogaeth i ddiwallu anghenion lleol ac i ddenu mewnfuddsoddiad.<br>• Annog amrywiaeth wledig a chefnogi twf economaidd gwledig.<br>• Hybu gwelliannau i iechyd a llesiant.<br>• Hybu ffyrdd iachach o fyw.<br>• Cydnabod pwysigrwydd y CDLl o ran cefnogi gwelliannau iechyd a galluogi'r ddarpariaeth o gyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol. | | nwyddau sylfaenol, gwasanaethau ac amwynderau i bob grŵp<br><br>11. Creu'r cyfleoedd y gellir cyflawni gwelliant mewn cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb ynddynt<br><br>12. Creu cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy, diogel, o ansawdd da sy'n diwallu'r anghenion a nodir |

| Negeseuon Polisi Allweddol | Goblygiadau i'r ACI | Amcanion ACI Perthnasol Cymru'r Dyfodol |
|---|---|---|
| • Gwella'r ddarpariaeth tai, cyflogaeth a chyfleoedd addysgol er mwyn lleihau anghydraddoldeb ym maes iechyd.<br>• Diogelu a gwella'r broses o ddatblygu ardaloedd mannau agored ar gyfer adloniant, amwynder neu gadwraeth.<br>• Cynyddu'r cyfleoedd i gerdded a beicio.<br>• Mynd i'r afael â chyfleoedd i ailgysylltu pobl a lleoedd trwy Ddatganiad Ardal Canolbarth Cymru. | | |
| **Pridd**<br>• Annog y defnydd o dir (llwyd) a ddatblygwyd o'r blaen lle na fydd hyn yn effeithio'n niweidiol ar .Gynefinoedd Mosaig Agored.<br>• Hybu'r defnydd o dir sydd wedi ei adael ac adeiladau adfeiliedig.<br>• Lleihau'r tir a halogir.<br>• Diogelu ansawdd y pridd a lleihau'r Tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas a gollir.<br>• Hybu dyluniadau o ansawdd uchel.<br>• Lleihau maint y mawndiroedd a gollir a chynyddu'r gwaith o adfer mawndiroedd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu priddoedd a ddosberthir fel priddoedd sy'n bwysig ar gyfer storio carbon ac amaethyddiaeth, ac atal tir rhag cael ei halogi hefyd (cefnogaeth i adfer tir yn rhan o ddatblygiad newydd). | 17. Creu cyfleoedd ar gyfer rheolaeth a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, sy'n ystyried eu manteision a'u gwerth cynhenid |

| Negeseuon Polisi Allweddol | Goblygiadau i'r ACI | Amcanion ACI Perthnasol Cymru'r Dyfodol |
|---|---|---|
| • Mynd i'r afael â'r gwaith o ddiogelu a gwella adnoddau naturiol trwy fecanwaith Datganiad Ardal Canolbarth Cymru.<br>• Ymateb i amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru gan gynnwys:<br>  ○ Cefnogi busnesau fferm trwy ffyrdd o weithio sy'n lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd<br>  ○ Cymryd camau i leihau achosion o lygredd drwy reoli ffynonellau llygredd posibl yn well (fel storfeydd slyri a thail)<br>  ○ Gweithio gyda busnesau, cymunedau a llunwyr polisi i adolygu'r polisïau a'r cynlluniau amaethyddol presennol ac archwilio opsiynau newydd o ran Talu am Wasanaethau Ecosystem<br>  ○ Helpu i greu cymunedau ymaddasol a gwydn mewn ymateb i dywydd garw a newid hinsawdd<br>  ○ Cefnogi syniadau newydd ynghylch datblygu Atebion | | |

| Negeseuon Polisi Allweddol | Goblygiadau i'r ACI | Amcanion ACI Perthnasol Cymru'r Dyfodol |
|---|---|---|
| Seiliedig ar Natur - er enghraifft, defnyddio Rheoli Perygl Llifogydd Naturiol | | |
| **Dŵr**<br>• Hybu datblygiad mewn aneddiadau cynaliadwy, lle bydd lefelau'r twf o fewn terfynau amgylcheddol a byddent yn cael eu hamseru i gyd-fynd â gwelliannau i'r seilwaith yn ôl yr angen.<br>• Gwella ansawdd ac effeithlonrwydd dŵr<br>• Defnyddio mapiau cyngor datblygu wrth ystyried pa dir i'w neilltuo yn rhan o'r CDLl.<br>• Ystyried effaith y CDLl Newydd ar AGA a safle Ramsar Aber Afon Dyfi, ACA Afonydd Gwy a Wysg a AGA a safle Ramsar Aber Hafren.<br>• Ystyried yr Asesiad Risg Llifogydd Strategol a baratowyd yn rhan o'r CDLl.<br>• Hybu'r defnydd o Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy.<br>• Sicrhau buddsoddiad amserol mewn rhwydweithiau rheoli dŵr er mwyn darparu ar gyfer datblygiadau newydd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion penodol sy'n ymwneud â chynnal a gwella ansawdd a chyfaint y dŵr yn ogystal â: buddsoddi mewn atal llifogydd. | 9. Creu cyfleoedd i ddiogelu ac i wella ansawdd a chyfaint y nodweddion a'r adnoddau dŵr<br><br>17. Creu cyfleoedd i reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ystyried eu manteision a'u gwerth cynhenid |

| Negeseuon Polisi Allweddol | Goblygiadau i'r ACI | Amcanion ACI Perthnasol Cymru'r Dyfodol |
|---|---|---|
| • Osgoi datblygu mewn ardaloedd lle bo risg llifogydd.<br>• Lleihau'r risg o lifogydd sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.<br>• Mynd i'r afael â diogelu a gwella adnoddau naturiol trwy fecanwaith Datganiad Ardal Canolbarth Cymru.<br>• Ymateb i amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru gan gynnwys:<br>o Cefnogi busnesau fferm trwy ffyrdd o weithio sy'n lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd<br>o Cymryd camau i leihau achosion o lygredd drwy reoli ffynonellau llygredd posibl yn well (fel storfeydd slyri a thail)<br>o Gweithio gyda busnesau, cymunedau a llunwyr polisi i adolygu polisïau a chynlluniau amaethyddol cyfredol ac archwilio opsiynau newydd ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystem<br>o Helpu i greu cymunedau ymaddasol a gwydn mewn ymateb i | | |

| Negeseuon Polisi Allweddol | Goblygiadau i'r ACI | Amcanion ACI Perthnasol Cymru'r Dyfodol |
|---|---|---|
| dywydd garw a newid hinsawdd<br>◦ Cefnogi syniadau newydd ynghylch datblygu Atebion Seiliedig ar Natur - er enghraifft, defnyddio Rheoli Perygl Llifogydd Naturiol | | |
| **Aer**<br>• Sicrhau bod ansawdd yr aer yn cael ei gynnal neu ei wella a bod allyriadau llygryddion yr aer yn cael eu cadw mor isel â phosibl.<br>• Mynd i'r afael â'r gwaith o ddiogelu a gwella adnoddau naturiol trwy fecanwaith Datganiad Ardal Canolbarth Cymru.<br>• Ymateb i amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru gan gynnwys:<br>◦ Cefnogi busnesau fferm trwy ffyrdd o weithio sy'n lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd<br>◦ Cymryd camau i leihau achosion o lygredd drwy reoli ffynonellau llygredd posibl yn well (fel storfeydd slyri a thail)<br>◦ Gweithio gyda busnesau, cymunedau a | Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcan penodol i ddiogelu ac i wella ansawdd yr aer ym Mhowys. | 8. Creu cyfleoedd i annog y broses o ddiogelu a gwella ansawdd yr aer |

| Negeseuon Polisi Allweddol | Goblygiadau i’r ACI | Amcanion ACI Perthnasol Cymru’r Dyfodol |
|---|---|---|
| llunwyr polisi i adolygu polisïau a chynlluniau amaethyddol cyfredol ac archwilio opsiynau newydd ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystem<br>o Helpu i greu cymunedau ymaddasol a gwydn mewn ymateb i dywydd garw a newid hinsawdd<br>o Cefnogi syniadau newydd ynghylch datblygu Atebion Seiliedig ar Natur - er enghraifft, defnyddio Rheoli Perygl Llifogydd Naturiol | | |
| **Ffactorau Hinsoddol**<br>• Hybu mesurau sy’n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a sicrhau bod datblygiadau newydd yn ymateb i’r gofynion addasu a lliniaru newid hinsawdd.<br>• Ystyried problemau llifogydd.<br>• Bod yn ymwybodol o’r costau lliniaru a’r angen i osgoi effeithiau mwyaf difrifol y newid yn yr hinsawdd.<br>• Annog y ddarpariaeth o ynni adnewyddadwy.<br>• Symud tuag at economi carbon isel. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â’r angen i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd drwy liniaru ac addasu, gan ymgysylltu â’r agenda carbon sero net. | 6. Creu cyfleoedd lle gellir lleihau a chyfyngu ar ollyngiadau nwyon tŷ gwydr, gan annog dylunio cynaliadwy sy'n effeithlon o ran<br>ynni<br><br>7. Cyfrannu at y broses o leihau a<br>rheoli risg llifogydd |

| Negeseuon Polisi Allweddol | Goblygiadau i'r ACI | Amcanion ACI Perthnasol Cymru'r Dyfodol |
|---|---|---|
| • Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd datganedig trwy fecanwaith Datganiad Ardal Canolbarth Cymru.<br>• Ymateb i amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru gan gynnwys:<br>  ○ Cefnogi busnesau fferm trwy ffyrdd o weithio sy'n lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd<br>  ○ Cymryd camau i leihau achosion o lygredd drwy reoli ffynonellau llygredd posibl yn well (fel storfeydd slyri a thail)<br>  ○ Gweithio gyda busnesau, cymunedau a llunwyr polisi i adolygu polisïau a chynlluniau amaethyddol cyfredol ac archwilio opsiynau newydd ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystem<br>  ○ Rheoli ein hadnoddau dŵr i wella ansawdd a swm y dŵr sydd ar gael, heb achosi niwed i'r amgylchedd naturiol<br>  ○ Helpu i greu cymunedau ymaddasol a gwydn mewn ymateb i dywydd garw a newid hinsawdd<br>  ○ Cefnogi syniadau newydd ynghylch datblygu Atebion Seiliedig ar Natur - er enghraifft, defnyddio Rheoli Perygl Llifogydd Naturiol | | |
| **Asedau Perthnasol**<br>• Hybu defnydd effeithlon a chynaliadwy o adnoddau mwynol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion i ddiogelu adnoddau mwynol rhag datblygiadau a fyddai'n atal echdynnu a hefyd amcanion i ddiogelu asedau perthnasol pwysig, gan gynnwys seilwaith | 17. Creu cyfleoedd i reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ystyried eu manteision a'u gwerth cynhenid |

| Negeseuon Polisi Allweddol | Goblygiadau i’r ACI | Amcanion ACI Perthnasol Cymru’r Dyfodol |
|---|---|---|
| • Sicrhau bod darpariaeth ddigonol o gyfleusterau rheoli gwastraff.<br>• Sicrhau y darperir seilwaith amserol i gefnogi datblygiadau newydd.<br>• Sicrhau bod seilwaith sy'n benodol i leoliad yn cael ei ddiogelu rhag datblygiadau anghydnaws.<br>• Hybu’r hierarchaeth wastraff fel y’i nodir yn Strategaeth Wastraff Powys. | sy’n benodol i strategaeth, trafnidiaeth a lleoliad penodol rhag datblygiadau nad ydynt yn gydnaws<br>a allai niweidio eu swyddogaeth/gweithrediad neu brosiectau yn y dyfodol sy'n allweddol i sicrhau twf. | |
| **Treftadaeth Ddiwylliannol**<br>• Cydnabod pwysigrwydd ac ansawdd amgylchedd hanesyddol Powys ac y dylai datblygiadau ddiogelu, gwarchod a, phan fo hynny’n bosibl, ei gwella, gan roi sylw penodol i arwahanrwydd, synnwyr o le a lleoliad.<br>• Ystyried treftadaeth archeolegol.<br>• Ystyried yr amgylchedd hanesyddol trefol ym Mhowys drwy warchod ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig a ddynodir, a thrwy ddiogelu parciau a gerddi cofrestredig.<br>• Ystyried y Gymraeg a materion diwylliannol.<br>• Annog twristiaeth. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion penodol i ddeall, gwerthfawrogi, diogelu a gwella amgylchedd hanesyddol Powys, gan gynnwys ei hamrywiaeth, ei harwahanrwydd lleol a’i threftadaeth.<br><br>Dylid cynnwys amcanion penodol a/neu gwestiynau arwain sy’n ymwneud â diogelu a gwella’r Gymraeg a diwylliant Cymru. | 5. Cyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol<br><br>14. Creu cyfleoedd i ddiogelu, cadw a gwella’r amgylchedd hanesyddol,<br>asedau hanesyddol a’u lleoliadau<br><br>15. Creu cyfleoedd i ddiogelu a hybu diwylliant Cymru |

| Negeseuon Polisi Allweddol | Goblygiadau i'r ACI | Amcanion ACI Perthnasol Cymru'r Dyfodol |
|---|---|---|
| • Cynnal asedau treftadaeth ddiwylliannol a gwella'r gallu i gael gafael arnynt.<br>• Gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig. | | |
| **Tirwedd**<br>• Rheoli datblygiadau sy'n effeithio ar gymeriad y dirwedd yn ofalus.<br>• Hybu'r defnydd o LANDMAP ac Asesiad Cymeriad Tirwedd Powys wrth asesu cynigion datblygu.<br>• Ystyried tirweddau o werth hanesyddol a/neu archeolegol arbennig wrth asesu cynigion datblygu newydd.<br>• Hybu mynediad i gefn gwlad.<br>• Hybu dyluniadau o ansawdd uchel sy'n parchu ac yn gwella'r cymeriad lleol.<br>• Ystyried tirweddau dynodedig ac ardaloedd awyr dywyll.<br>• Mynd i'r afael â'r gwaith o ddiogelu a gwella adnoddau naturiol trwy fecanwaith Datganiad Ardal Canolbarth Cymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu a gwella'r dirwedd naturiol gyfoethog ym Mhowys. | 13. Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella arwahanrwydd lleol ein tirweddau, ein trefluniau a'n morluniau |
| **Geoamrywiaeth** | Dylai'r ACI gynnwys amcan penodol sy'n ymwneud â diogelu Safleoedd Daearegol a | 16. Creu cyfleoedd i gadw a gwella bioamrywiaeth a |

| Negeseuon Polisi Allweddol | Goblygiadau i'r ACI | Amcanion ACI Perthnasol Cymru'r Dyfodol |
|---|---|---|
| • Cydnabod pwysigrwydd tirluniau a geoamrywiaeth Powys.<br>• Cydnabod y dylid rheoli datblygiadau sy'n effeithio ar y dirwedd yn ofalus.<br>• Diogelu tirwedd Powys.<br>• Asesu Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol yn rhan o broses y CDLl.<br>• Osgoi niwed i safleoedd sy'n bwysig yn ddaearegol a'u diogelu. | Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol rhag datblygiadau nad ydynt yn gydnaws. | geoamrywiaeth |

# 3. Dadansoddiad Gwaelodlin

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Rhan hanfodol o broses yr ACI yw adnabod amodau gwaelodlin cyfredol a'u datblygiad tebygol. Dim ond gyda gwybodaeth o'r amodau presennol ac wrth ystyried eu datblygiad tebygol y gellir nodi ac arfarnu effeithiau'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, a monitro ei lwyddiant dilynol neu fel arall. Mae Rheoliadau'r AAS hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i nodi, disgrifio ac ystyried datblygiad yr amodau gwaelodlin ar gyfer ardal y cynllun (a fyddai'n digwydd heb y cynllun na'r rhaglen).

3.1.2 Mae'r adran hon o'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi ac yn disgrifio amodau economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys iechyd a chydraddoldeb) a gwaelodlin amgylcheddol cyfredol ar gyfer Powys, ynghyd â sut mae'r rhain yn debygol o newid yn y dyfodol. Cyflwynir y dadansoddiad gwaelodlin ar gyfer y meysydd pwnc canlynol:

- Adran 3.3: Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Mannau Agored
- Adran 3.4: Poblogaeth a Chymuned
- Adran 3.5: Iechyd a Llesiant
- Adran 3.6: Trafnidiaeth a Hygyrchedd
- Adran 3.7: Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg
- Adran 3.8: Dŵr
- Adran 3.9: Ansawdd yr Aer
- Adran 3.10: Newid Hinsawdd
- Adran 3.11: Asedau Perthnasol
- Adran 3.12: Treftadaeth Ddiwylliannol
- Adran 3.13: Tirwedd

3.1.3 Hefyd, mae'r adran hon yn cyflwyno trosolwg lefel uchel o ardal CDLl Powys.


3.1.4 I lywio'r dadansoddiad, defnyddiwyd data o amrywiaeth o ffynonellau.

3.1.5 Crynhoir y materion cynaliadwyedd allweddol sy'n deillio o'r adolygiad o amodau gwaelodlin ar ddiwedd pob pwnc.

## 3.2 Powys: Trosolwg

3.2.1 Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o gyd-destun amgylcheddol Powys. Adwaenir Powys fel calon werdd Cymru, sy'n cwmpasu oddeutu chwarter màs tir Cymru ac yn rhannu ffin â deg awdurdod cynllunio lleol arall, gan gynnwys Swydd Henffordd a Swydd Amwythig yn Lloegr (gweler **Ffigur 3.1)**.

Ffigur 3.1 Daearyddiaeth Powys[67]





67 Llywodraeth Cymru MapDataCymru yn: Hafan | MapDataCymru (llyw.cymru)

3.2.2 Sir ucheldir a gwledig yw Powys i raddau helaeth, sy’n cwmpasu dros 5,000 o gilomedrau sgwâr. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cwmpasu oddeutu 16% o ardal Powys, ac mae’n awdurdod cynllunio lleol yn ei rinwedd ei hun.

3.2.3 Mae **Ffigur 3.2** yn dangos topograffeg Powys ac mae’n dangos sut y dyrennir ardaloedd ucheldir Powys megis Mynydd y Berwyn a Mynyddoedd Cambria gan gymoedd nifer o afonydd, gan gynnwys Afon Hafren, Afon Efyrnwy, Afon Tanat, Afon Gwy, Afon Wysg, Afon Irfon, Afon Ieithon, Afon Dyfi, Afon Tefeidiad, Afon Tawe ac Afon Llugwy.

Ffigur 3.2 Topograffeg Powys[68]





3.2.4 Mae topograffeg Powys yn golygu bod llawer o'i haneddiadau a'i phrif lwybrau cludiant mewn dyffrynnoedd ar groesfannau afonydd pwysig ac o ganlyniad i hynny, mae'r risg llifogydd wedi cyfyngu yn rhannol ar lawer o aneddiadau (gweler **Ffigur 3.3** ac asesiad manwl yn **Adran 3.8**). Nodir seilwaith Powys yn **Ffigur 3.4** isod:

3.2.5 Y trefi mwyaf ym Mhowys yw'r Drenewydd, Ystradgynlais, Aberhonddu, y Trallwng, Llandrindod a Threfyclo. Gan adlewyrchu maint Powys, topograffeg y rhanbarth a'i natur/cymunedau gwledig, gwasgerir poblogaeth Powys yn eang ar ei thraws mewn trefi

68 Cyngor Sir Powys (2018) Cynllun Datblygu Lleol Powys yn: https://cy.powys.gov.uk/article/4900/CDLI-Mabwysiedig-2011---2026


bach ac aneddiadau. Mae pentrefi ac aneddiadau Powys yn fach o'u cymharu i'r norm ar gyfer amgylcheddau adeiledig o'r fath yng ngweddill Cymru a Lloegr.

Ffigur 3.3 Parthau Llifogydd 2 a 3 ym Mhowys[69]




69 CNC (2022) Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn: https://naturalresources.wales/flooding/flood-map-for-planning-development-advice-map/?lang=cy

Ffigur 3.4 Seilwaith Craidd ym Mhowys[70]




3.2.6 Ynghyd â chryfderau allweddol Powys – ei lleoliad wrth galon Cymru, rhyng-gysylltedd â gweddill Cymru, economi wledig gref a mynediad parod i gefn gwlad a llawer o dirweddau unigryw – ceir materion y mae angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr ardal, gan gynnwys: pocedi difreintiedig, poblogaeth wasgaredig iawn, topograffeg, maint Powys, lefelau cymudo uchel a chyfyngiadau amgylcheddol megis risg llifogydd. Trafodir y cryfderau a'r materion hyn yn fanylach yn yr adrannau canlynol.

[70] Cyngor Sir Powys (2018) Cynllun Datblygu Lleol Powys yn: https://cy.powys.gov.uk/article/4900/CDLI-Mabwysiedig-2011---2026

## 3.3 Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Mannau Agored

### Bioamrywiaeth

3.3.1 Diffinnir bioamrywiaeth fel yr amrywiaeth o blanhigion (fflora) ac anifeiliaid (ffawna) mewn ardal, a'u cynefinoedd cysylltiedig. Cydnabyddir pwysigrwydd cadw bioamrywiaeth o lefel ryngwladol i leol. Mae bioamrywiaeth yn bwysig yn ei rhinwedd ei hun ac mae ganddi werth o ran ansawdd bywyd ac amwynder.

3.3.2 Mae gan Bowys amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol, gan gynnwys amrywiaeth o safleoedd sydd wedi eu dynodi am eu cynefin a'u gwerth cadwraeth. Fel calon werdd Cymru, ac oherwydd maint llwyr y Sir, mae'n elwa o feddu ar nifer fawr o goetiroedd collddail a chonifferaidd, coedwrychoedd, rhostir, tir parc, nentydd, afonydd, camlesi, llynnoedd, pyllau, corsydd mawn, clogwyni a cherrig brig, dolydd a glaswelltir, tir amaethyddol âr, ac amgylcheddau trefol hefyd. Er ei bod yn dirgaeedig, mae'r Sir hefyd yn elwa o ddarn bach o arfordir ar hyd glannau'r afon lanwol ar ben aber Afon Dyfi. Ochr yn ochr â'r amgylchedd naturiol cyfoethog hwn, mae'r Sir yn elwa ar amrywiaeth eang o asedau a chynefinoedd bioamrywiaeth. Mae'r cyfoeth hwn o adnoddau naturiol yn golygu bod y cynefinoedd ym Mhowys yn gysylltiedig ac yn cydgymysgu, er eu bod wedi eu rhyngdorri am ychydig gan ambell seilwaith a datblygiadau adeiledig eraill.

3.3.3 Mae llawer o afonydd yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys Afon Gwy, Afon Hafren ac Afon Efyrnwy, sy'n tarddu o fynyddoedd ym Mhowys.

3.3.4 Mae'r Sir yn gartref i amrywiaeth sylweddol o fywyd gwyllt, gan gynnwys rhywogaethau gwarchodedig megis y pathew, y dyfrgi, y barcud, eog yr Iwerydd a'r gronnell, ynghyd â rhywogaethau llai cyfarwydd megis morgrug coch, ffyngau cap cŵyr, cimwch yr afon a chen gludiog yr afon. Mae llawer o gynefinoedd a rhywogaethau yn cael eu gwarchod ar lefel y DU gyfan o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

3.3.5 Ond mae Powys yn gweld problemau sydd yn gyffredin ledled Cymru ehangach a'r DU gyfan, sef dirywiad cynefinoedd a cholli rhywogaethau, yn ogystal â chyflwyno Rhywogaethau Goresgynnol ac Estron (INNS). Fel y noda **Ffigur 3.5** isod, ers y 1970au, bu gostyngiad mewn bywyd gwyllt yng Nghymru, er bod rhai rhywogaethau yn gwneud yn well nag oeddent ym 1970. Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys (2022)[71], yn nodi: *Yng Nghymru, amcangyfrifodd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020[72] fod 1 o bob 6 o rywogaethau Cymru mewn perygl o ddiflannu. Ers i waith monitro gwyddonol ddechrau yn y 1970au, mae 73 o rywogaethau eisoes wedi diflannu yng Nghymru ac mae 666 o rywogaethau eraill dan fygythiad o ddiflannu*."

[71] https://cy.powys.gov.uk/article/2899/Cynllun-Gweithredu-Adfer-Natur-Powys

[72] Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2020 Ar gael yn: https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/?lang=cy

Ffigur 3.5 Bywyd gwyllt yng Nghymru 1970 hyd yr Oes Bresennol[73]




3.3.6 Noda Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNARR) (2020) (crynodeb Gweithredol tt41/42) o dan Nod 2, Ecosystemau gwydn: "*Mae'r rhan fwyaf o fathau o gynefinoedd wedi gweld gostyngiad mewn amrywiaeth dros y 100 mlynedd diwethaf, gyda chyfradd y dirywiad yn cynyddu o'r 1970au ymlaen. Mae hyn yn dangos nad yw ecosystemau'n wydn, ac nad yw llawer o rywogaethau'n adfer. Os bydd amrywiaeth yn parhau i gael ei cholli, yna gallai arwain at fethiant ecosystemau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu*."
Mae tystiolaeth ategol yn nodi'r canlynol:

- *"Dim ond 31% o Gymru sy'n cael ei ystyried yn gynefin lled-naturiol. Mae o leiaf 40% o gynefinoedd Cymru wedi'u gwasgaru mewn lleiniau mor fach eu bod yn awgrymu gwydnwch isel.*
- *Ychydig iawn o gynefinoedd yng Nghymru sydd mewn cyflwr da oherwydd nifer o fathau gwahanol o bwysau. Effeithir yn bennaf ar gynefinoedd dŵr croyw, er enghraifft, gan orfaethu ac addasiadau ffisegol.*
- *Yng Nghymru mae cysylltedd [cynefinoedd] ar ei isaf mewn cynefinoedd iseldir lle mae'r dirwedd wedi'i symleiddio drwy golled cynefinoedd lled-naturiol a lle rheolir y tir yn ddwys.*

3.3.7 Mae **Ffigur 3.6** yn dangos safleoedd cadwraeth natur dynodedig yng Nghymru, ac mae **Ffigur 3.7** yn dangos safleoedd o'r fath ym Mhowys.

3.3.8 Dynodwyd safleoedd o bwysigrwydd Ewropeaidd (Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau)) i warchod cynefinoedd naturiol a rhywogaethau bywyd gwyllt sy'n brin, mewn perygl neu sy'n agored i niwed yn y Gymuned Ewropeaidd (CE). Yn y DU, ffurfiodd y rhain ran ffurfiol o rwydwaith safleoedd 'Natura 2000' a ddiogelid o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC) ac sydd bellach yn rhan o rwydwaith safleoedd cenedlaethol y DU yn sgil ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

3.3.9 Mae Powys hefyd yn elwa o gynnwys neu gynnwys yn rhannol y Safleoedd Dynodedig Statudol a'r Safleoedd Dynodedig Anstatudol[74] canlynol:

---

[73] Ibid.
[74] Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) 'Ardaloedd o Dir a Môr Gwarchodedig'. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/find-protected-areas-of-land-and-sea/?lang=cy aed at y wefan ar 08.07.2022.

Safleoedd Statudol:

- 17 ACA
- 3 AGA
- 267 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- 1 Ramsar
- 12 Gwarchodfa Natur Genedlaethol

Safleoedd Anstatudol:

- Safleoedd Bywyd Gwyllt a darpar Safleoedd Bywyd Gwyllt y Sir
- 1 Gwarchodfa Biosffer Gwarchodfa Biosffer Dyfi UNESCO
- 2 Warchodfa RSPB
- Gwarchodfeydd Natur/Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol

3.3.10 Amlyga **Tabl 3.1** isod y safleoedd Ewropeaidd a leolir yn neu'n rhannol ym Mhowys ac o 2020, yn ôl gwybodaeth gwaelodlin safleoedd gwarchodedig Cyfoeth Naturiol Cymru, roedd y 162 o nodweddion cadwraeth cysylltiedig sydd yn y dynodiadau hyn yn y cyflwr canlynol[75]:

- Ffafriol 20%
- Anffafriol 53%
- Anhysbys 27%

Tabl 3.1 Safleoedd Ewropeaidd a Leolir yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn Ffiniau Sir Powys[76]

| **Safleoedd Ewropeaidd a Leolir yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn Ffiniau Sir Powys** |
|---|
| ACA y Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd |
| AGA y Berwyn |
| ACA Bannau Brycheiniog |
| ACA Coedydd Llawr-y-glyn |
| ACA Coedydd Nedd a Mellte |
| Cors Fochno a Ramsar Dyfi |
| ACA Glan Drostre |
| AGA Aber Afon Dyfi |

[75] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2022', tudalen 174. I'w gyhoeddi ym mis Hydref 2022.
[76] Cyngor Sir Powys (2018) 'Cynllun Datblygu Lleol Powys'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/4900/CDLl-Mabwysiedig-2011---2026

| Safleoedd Ewropeaidd a Leolir yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn Ffiniau Sir Powys |
|---|
| ACA Coetiroedd Cwm Elan |
| ACA Elenydd |
| AGA Elenydd – Malláen |
| ACA Granllyn |
| ACA Llyn Syfaddon |
| ACA Penrhyn Llŷn a'r Sarnau |
| ACA Camlas Trefaldwyn |
| ACA Mynydd Epynt |
| ACA Rhos Goch |
| ACA Afon Wysg |
| ACA Afon Gwy |
| ACA Safleoedd Ystlumod Tanat ac Efyrnwy |
| ACA Safleoedd Ystlumod Brynbuga |

3.3.11 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy ac yn nodi cynefinoedd a rhywogaethau pwysig iawn (rhestrau Adran 7) sy'n disodli'r ddyletswydd i nodi a gwarchod asedau o'r fath a ymgorfforwyd yn wreiddiol yn Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

3.3.12 Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys Rhan 3 – Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau, Amffibiaid ac Ymlusgiaid yn datgan yr hyn a ganlyn[77]:

> *"Mae gan y DU chwe rhywogaeth amffibiad frodorol (heb gynnwys broga'r dŵr a ailgyflwynwyd yn ddiweddar) a chwe rhywogaeth ymlusgiad frodorol. O'r rhain, mae naw rhywogaeth wedi'u cadarnhau ym Mhowys ac mae wyth wedi'u cadarnhau yn rhywogaethau o Bwysigrwydd Lleol gan arbenigwyr lleol:*
>
> - *Gwiber*
> - *Madfall Gyffredin*
> - *Llyffant Dafadennog*

[77] Partneriaeth Natur Powys (Dim dyddiad) 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys Rhan 3 – Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau, Amffibiaid ac Ymlusgiaid'. Ar gael yn: Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys – Cyngor Sir Powys, aed at y wefan ar 16.08.2022, tudalen 2.

- *Neidr y Gwair*
- *Madfall Ddŵr Gribog*
- *Madfall Ddŵr Balfog*
- *Neidr Ddefaid*
- *Madfall Ddŵr Gyffredin"*

3.3.13 O ran yr amffibiaid a'r rhywogaethau ymlusgol ar restrau Adran 7 y mae'n ofynnol eu diweddaru a'u hadolygu i sicrhau bod cynefinoedd o bwysigrwydd allweddol yn cael eu nodi a'u cynnal, mae gan Bowys chwe rhywogaeth a nodir yn rhywogaethau â blaenoriaeth ar hyn o bryd[78]:

Llyffant Dafadennog

Madfall Gyffredin

Neidr y Gwair

Madfall Ddŵr Gribog

Neidr Ddefaid

Gwiber

3.3.14 O ran ystlumod, mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys Rhan 3 – Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau, Ystlumod yn datgan yr hyn a ganlyn[79]:

> *"Yn y DU, mae 18 o rywogaethau ystlumod hysbys, ac mae'n hysbys bod 17 ohonynt yn bridio. O'r rhain, mae 12 o rywogaethau wedi'u cofnodi ym Mhowys, a phob un wedi'i hystyried yn rhywogaeth o Bwysigrwydd Lleol hefyd ac eithrio Ystlum y Dŵr a'r Ystlum Mawr ...:*

- *Ystlum Du*
- *Ystlum Brandt*
- *Ystlum Hirglust*
- *Ystlum Lleiaf*
- *Ystlum y Dŵr*
- *Ystlum Pedol Mwyaf*
- *Ystlum Pedol Lleiaf*
- *Ystlum Lleiaf Nathusius*
- *Ystlum Natterer*

---

[78] Ibid, tudalen 2.
[79] Partneriaeth Natur Powys (Dim dyddiad) 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys Rhan 3 – Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau, Ystlumod'. Ar gael yn: Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys – Cyngor Sir Powys, aed at y wefan ar 16.08.2022, tudalen 2.

- *Ystlum Mawr*
- *Soprano Pipistrelle*
- *Ystlum Barfog"*

3.3.15 Dosberthir y rhywogaethau ystlumod canlynol ym Mhowys yn rhywogaethau â blaenoriaeth[80]:

Ystlum Du

Ystlum Mawr

Ystlum Lleiaf

Soprano Pipistrelle

Ystlum Hirglust

Ystlum Pedol Mwyaf

Ystlum Pedol Lleiaf

3.3.16 Nodir y deuddeg Gwarchodfa Natur Genedlaethol ym Mhowys isod ac maent yn rhychwantu ardal sylweddol o'r Sir, ac yn croesi ffiniau awdurdodau lleol yn aml:

- Gwarchodfa Natur Genedlaethol y Berwyn
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Bryn Roundton
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Creigiau Stanner
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Rhos Goch
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Craig y Cilau
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ogof Ffynnon Ddu
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dan yr Ogof
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Craig Cerrig Gleisiad a Fan Frynych
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors y Llyn
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Nant Irfon
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Claerwen
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Gregynog

3.3.17 Mae Powys yn cynnwys 18 o Warchodfeydd yr Ymddiriedolaeth Natur, ac mae llawer ohonynt yn rhoi mynediad i'r cyhoedd fel y gallant brofi byd natur. Mae nifer o'r Gwarchodfeydd Natur hyn nad ydynt yn agored i'r cyhoedd er mwyn helpu i gynnal y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n eu defnyddio yn well a sicrhau nad ydynt yn cael eu cyfaddawdu. Mae'r safleoedd hyn yn amrywio o 2 hectar i dros 17 hectar o faint ac maent yn cynnwys hen fryngaerau, hen safle gwaith trin carthion i goetir hynafol 400 mlwydd


[80] Ibid, tudalen 2.

oed, pyllau dŵr a dolydd sy'n adlewyrchu natur amrywiol ecoleg a bioamrywiaeth y Sir. Rhestrir y 18 Gwarchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt isod:

- Coed Pendugwm
- Cors Dyfi
- Cwm y Wydden
- Coed Dolforwyn
- Dolydd Hafren
- Dolydd Dyfnant
- Glaslyn
- Graean Llandinam
- Maes Llanmerewig
- Llyn Coed y Dinas
- Llyn Coed y Dinas
- Morfa Dyfi William Condry
- Pwll Penarth
- Tŷ Coch
- Bryn Roundton
- Pwll Fferm Hafren
- Tŷ Brith


3.3.18 Ym Mhowys, mae 106 o Safleoedd Bywyd Gwyllt Sirol a 45 o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol. Mae safleoedd o'r fath yn safleoedd anstatudol sy'n bwysig o ran gwerth cadwraeth natur, ond maent yn chwarae swyddogaeth sylfaenol wrth warchod bioamrywiaeth yr ardal.

Ffigur 3.6 Safleoedd Cadwraeth Natur Dynodedig – Cymru[81]




[81] Llywodraeth Cymru (2020) 'Ystadegau cryno fesul rhanbarth Cymru 2020'. Ar gael yn: https://llyw.cymru/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-cymru-2020

Ffigur 3.7 Safleoedd Cadwraeth Natur Dynodedig – Powys[82]




[82] Llywodraeth Cymru (2020) 'Ystadegau cryno fesul rhanbarth Cymru 2020'. Ar gael yn: https://llyw.cymru/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-cymru-2020

## Seilwaith Gwyrdd a Mannau Agored

3.3.19 Mae seilwaith gwyrdd yn cwmpasu'r holl asedau "gwyrdd" mewn ardal awdurdod, gan gynnwys parciau, coridorau afonydd, coed stryd, safleoedd a reolir a safleoedd nas rheolir, a mannau agored sy'n cael eu dylunio a'u plannu.

3.3.20 Mae Astudiaeth Llecynnau Agored Cyngor Sir Powys[83] wedi nodi bod y ddarpariaeth bresennol o fannau agored ym Mhowys fel y nodir yn **Nhabl 3.2**.

Tabl 3.2 Mannau Agored Presennol[84]

| Teipoleg | Y ddarpariaeth bresennol (hectarau) | Y ddarpariaeth a argymhellir (hectarau) |
|---|---|---|
| Mannau Chwarae â Chyfarpar Dynodedig | 12.09 | 16.46 |
| Caeau Chwaraeon Awyr Agored | 79.50 | 79.02 |
| Mannau Agored Anffurfiol (pob un) | 553.85 | 131.70 |
| Mannau Agored Anffurfiol – Parciau a Gerddi Cyhoeddus | 51.78 | Amh. |
| Mannau Agored Anffurfiol – Mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol | 326.46 | Amh. |
| Mannau Agored Anffurfiol – Mannau gwyrdd amwynder | 130.02 | Amh. |
| Mannau Agored Anffurfiol – Claddfeydd a Mynwentydd | 45.6 | Amh. |
| Rhandiroedd | 8 | Amh. |


3.3.21 O 2018 ymlaen, mae 63% o drigolion aneddiadau ardal CDLl Powys yn byw o fewn y pellter a argymhellir i ardal chwarae â chyfarpar[85]. Nodwyd bod gan 73% o aneddiadau Powys ardaloedd chwarae â chyfarpar digonol[86]. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer caeau chwaraeon awyr agored yn ardal CDLl Powys yn sylweddol. Mae 29 (51%) o aneddiadau lle mae pob aelwyd o fewn y pellter a argymhellir at gae chwaraeon awyr agored, ac mae 39 (68%) o aneddiadau lle mae 75% o'r boblogaeth o fewn yr argymhellion[87]. Dim ond ar

[83] Cyngor Sir Powys (2018) 'Astudiaeth Llecynnau Agored Cynllun Datblygu Lleol Powys'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/5620/Asesiad-Llecynnau-Agored-2018, aed at y wefan ar 11.07.2022.
[84] Ibid, amrywiol.
[85] Ibid, tudalen 13.
[86] Ibid, tudalen 13.
[87] Ibid, tudalen 23

gyfer un anheddiad y sgoriwyd bod 50% o'i breswylwyr o fewn cyrhaeddiad i gae chwaraeon awyr agored, gyda 18 o aneddiadau heb fynediad at un o gwbl[88].

3.3.22 Nodir cyfansawdd gwahanol gaeau chwaraeon awyr agored yn **Ffigur 3.8**, er y dylid nodi mai dim ond prif ddefnydd y cae y mae'r ffigur hwn yn ei nodi, ac mewn gwirionedd, gellir defnyddio cae ar gyfer llawer o wahanol fathau o chwaraeon a gweithgareddau.


Ffigur 3.8 Cyfansoddiad y Caeau Chwaraeon Awyr Agored[89]




3.3.23 Mae Powys yn elwa ar nifer sylweddol o fannau agored anffurfiol a cheir cyfansawdd y math hwn o fannau yn **Ffigur 3.9** isod. Fodd bynnag, mae 17 o aneddiadau Powys sydd ond yn elwa ar fynediad rhwydd i fannau agored anffurfiol o deipoleg claddfa a mynwent, sy'n deipoleg lle yr ystyrid llawer o weithgareddau egnïol yn annerbyniol[90]. Hefyd, mae 4 anheddiad nad oes ganddynt fan agored anffurfiol, er y dylid nodi mai dim ond ar amwynderau sy'n fwy na 0.2 hectar o ran maint yr edrychodd Astudiaeth Llecynnau Agored 2018, sy'n golygu y gallai'r aneddiadau hyn fod â mynediad presennol i ardaloedd o fannau agored anffurfiol bach[91].

88 Ibid, tudalen 24.
89 Ibid, tudalen 20.
90 Ibid, tudalen 31.
91 Ibid, tudalen 31.

Ffigur 3.9 Categori Mannau Agored[92]




3.3.24 Mae galw nas diwellir am randiroedd yn ardal CDLl Powys, a dim ond 18 (32%) o aneddiadau sydd â mynediad at randiroedd presennol a sefydledig[93].

3.3.25 Defnyddir cynllun Gwobr y Faner Werdd i gydnabod parciau a mannau gwyrdd a reolir yn dda.

3.3.26 Yn 2022, roedd gan Bowys y Gwobrau Cymunedol Baner Werdd canlynol[94]:

- Gardd Goffa Llangatwg.
- Perllan Llandrindod.
- Gerddi Bro Ddyfi.
- Gwarchodfa Natur Pyllau Fferm Hafren.
- Cymdeithas Rhandiroedd Watton.
- Y Warden.
- Caeau Dolwen, Llanwrtyd.

3.3.27 Mae Camlas Maldwyn, ynghyd â'i llwybr halio, yn darparu mynediad cyhoeddus uniongyrchol i rwydweithiau seilwaith gwyrdd a glas. Mae’r gamlas a’r llwybr halio yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd hamdden, gyda’r gamlas ei hun ar gael ar gyfer canŵio ac amrywiaeth o weithgareddau dŵr eraill, a’r llwybr halio’n darparu cyfleoedd teithio llesol helaeth megis cerdded a beicio. Mae'r gweithgareddau hyn yn hybu iechyd a lles y

92 Ibid, tudalen 26.
93 Ibid, tudalen 34.
94 Green Flag Award (2021) ‘Green Flag Award Winners 2021’. Ar gael yn: https://www.greenflagaward.org/media/2048/2021-green-flag-award-winners-november-europe-announced.pdf, aed at y wefan ar 11.07.2022.

gymuned leol, trwy gefnogi ffyrdd iach o fyw. Yn ogystal â helpu i fynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol a gordewdra, mae mynediad i ddyfrffyrdd yn hybu iechyd a chynhwysiant cymdeithasol trwy ddarparu man tawel a all helpu i fyfyrio'n bersonol a lleddfu straen.

## Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

3.3.28 Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig presennol bolisïau sy'n diogelu safleoedd cadwraeth natur dynodedig a gefnogir gan y Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol.

3.3.29 Yn absenoldeb Cynllun Datblygu Lleol Newydd, bydd polisïau cenedlaethol a deddfwriaeth cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer gwarchod safleoedd bioamrywiaeth pwysig yn parhau i ddiogelu llawer o safleoedd dynodedig. Fodd bynnag, bydd Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn gallu diogelu'r yr ystod amrywiol a chynyddol o safleoedd o bwysigrwydd lleol.

3.3.30 Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Powys roi sylw i Ddatganiad Ardal Canolbarth Cymru[95] o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r Datganiad Ardal yn eang ei gwmpas, gan gwmpasu'r pedair thema a ganlyn: bioamrywiaeth, tirwedd, tir cynaliadwy, dŵr ac aer, adnoddau coedwigaeth ac ailgysylltu pobl a lleoedd, yn gysylltiedig â'r angen i addasu a lliniaru mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a ddatganwyd.

3.3.31 O ran bioamrywiaeth, mae Datganiad Ardal Canolbarth Cymru'n ceisio gwneud y canlynol:

- nodi prif achosion yr argyfwng natur gan gynnwys yr hyn sydd angen ei wneud, gan bwy a ble
- gwella Statws Cadwraeth Ffafriol safleoedd dynodedig
- nodi cyfleoedd ar gyfer cysylltedd rhwng y safleoedd hynny ac ardaloedd eraill
- gwneud byd natur yn flaenoriaeth trwy gynllunio, polisi, a mesurau ymarferol.

3.3.32 Mae bioamrywiaeth Powys mewn perygl o ddatblygu oherwydd bod yn rhaid i Gyngor Sir Powys barhau i ddyrannu safleoedd ar gyfer tai a chyflogaeth. Mae'n debygol y bydd angen i ddatblygiadau ymledu i gefn gwlad agored i ddarparu ar gyfer twf poblogaeth a thwf economaidd Powys.

3.3.33 Hefyd, byddai Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn gallu adlewyrchu'n well y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng natur ym mis Mehefin 2021[96] ac adlewyrchu ymrwymiadau eraill Llywodraeth Cymru yn well, megis y rhai a gynhwysir yn Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040[97].

3.3.34 Byddai Cynllun Datblygu Lleol Newydd hefyd yn gallu manteisio ar ymgyrch y Cyngor i sicrhau mai Powys yw calon werdd Cymru a sicrhau bod darpariaeth o fannau agored hygyrch yn cyd-fynd â datblygiadau pan fo hynny'n briodol.

---

[95] Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/strategies-and-plans/area-statements/mid-wales-area-statement/introduction-to-mid-wales-area-statement/?lang=cy
[96] Llywodraeth Cymru (2021) 'Wales Declares Nature Emergency'. Ar gael yn: https://cynnalcymru.com/wales-declares-nature-emergency/ aed at y wefan ar 08.07.2022.
[97] Llywodraeth Cymru (2021) 'Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040'. Ar gael yn: https://cynnalcymru.com/wales-declares-nature-emergency/ aed at y wefan ar 08.07.2022.

### Crynodeb o Faterion Cynaliadwyedd Allweddol

- Yr angen i warchod a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys safleoedd a ddynodwyd am eu gwerth cadwraeth natur.
- Yr angen i gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd dynodedig a chynefinoedd nas dynodwyd.
- Yr angen i barhau i fynd i'r afael â dirywiad mewn rhywogaethau.
- Yr angen i fynd i'r afael ag amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, yn benodol gwella statws cadwraeth safleoedd dynodedig, nodi cyfleoedd ar gyfer cysylltedd rhwng y safleoedd hynny ac ardaloedd eraill a gwneud byd natur yn flaenoriaeth trwy gynllunio, polisi, a mesurau ymarferol.
- Yr angen i fonitro'r nifer fawr o asedau bioamrywiaeth dynodedig a'r asedau bioamrywiaeth nas dynodwyd a leolir yn y Sir.
- Yr angen i ddarparu mannau chwarae mwy agored (yn enwedig rhai â chyfarpar) mewn aneddiadau presennol.
- Yr angen i ddarparu mwy o randiroedd.
- Yr angen i fonitro ansawdd mannau gwyrdd sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn y Sir, y gellid ei asesu yn ôl i ba raddau y mae safle sydd wedi ennill Gwobr y Faner Werdd neu Wobr Gymunedol y Faner Werdd o fewn pellter cerdded hawdd i bob cartref mewn aneddiadau mawr, gan ddefnyddio'r fethodoleg yn y Pecyn Cymorth Mannau Gwyrdd (gweler TAN 16 para 2.18).

## 3.4 Poblogaeth a Chymuned


Noder: ar adeg llunio'r Adroddiad Cwmpasu hwn, nid oedd canlyniadau llawn Cyfrifiad 2021 ar gael (fe'u disgwylir yn nhymor yr hydref 2022).
https://cy.ons.gov.uk/releases/initialfindingsfromthe2021censusinenglandandwales

### Demograffeg

3.4.1 Noda Cyfrifiad 2021 gynnydd o 44,000 ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru ers Cyfrifiad 2011 (y cyfrifiad diwethaf), pan oedd y boblogaeth yn 3,063,456. Noda **Ffigur 3.10** fod poblogaeth Powys wedi tyfu 0.2%, o 132,976 yn 2011 i 133,200 yn 2021. Twf bychan yw hwn, ond nid yw'n anarferol i Gymru ac mae hefyd yn dangos nad yw poblogaeth Powys yn profi dirywiad mewn poblogaeth fel y mae rhai rhannau o Gymru. Gwnaeth 5,500 o bobl fudo allan o Bowys yn 2015, a mudodd 5,900 o bobl i Bowys[98].

[98] Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (2022) 'Integrated Medium Term Plan 2020/2021-2022/2023'. Ar gael yn: https://pthb.nhs.wales/about-us/key-documents/strategies-and-plans/powys-teaching-health-board-integrated-medium-term-plan-2020-2021-to-2022-2023/, aed at y wefan ar 18.07.2022. Tudalen 10


Ffigur 3.10  Twf Poblogaeth Powys




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Cyfrifiad 2021

3.4.2 Noda **Ffigur 3.11** ganran poblogaeth Powys a oedd o dan 15 oed yn 2021 (14.4%), a noda **Ffigur 3.12** ganran poblogaeth Powys a oedd rhwng 15 a 64 oed yn 2021 (57.7%). Amlyga **Ffigur 3.13** faint o bobl oedd dros 65 oed ym Mhowys (27.8%) yn 2021. Er bod gan Bowys sylfaen poblogaeth gref yn y dosbarth oedran 15 i 64 (oedran gweithio), mae gan y Sir boblogaeth fawr sydd dros 65 oed hefyd, sy'n debygol o beidio â gweithio, ac mae'r ddemograffeg hon yn tyfu. Powys yw'r ardal y mae'r gyfran fwyaf o'i phoblogaeth dros 65 oed, gyda Chonwy yn ail agos iddi ar 27.4% o'i phoblogaeth ac Ynys Môn yn drydydd ar 26.4%. Yn 2021, roedd 21.3% o boblogaeth Cymru dros 65 oed.


Ffigur 3.11  Poblogaeth Powys sydd o dan 15 oed




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Cyfrifiad 2021


Embed code

Ffigur 3.12 Poblogaeth Powys sydd rhwng 15 a 64 oed (oedran gweithio)




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Cyfrifiad 2021

Ffigur 3.13 Poblogaeth Powys sydd dros 65 oed




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Cyfrifiad 2021


3.4.3 Yng Nghymru yn 2021, roedd 1,586,600 o fenywod (51.1% o'r boblogaeth gyffredinol) a 1,521,000 o ddynion (48.9%). Mae hyn yn debyg iawn i'r gymhareb rhwng menywod (51.0%) a dynion (49.0%) yn Lloegr. Mae hefyd yn debyg i'r gymhareb yng Nghymru yn 2011, pan oedd 50.9% (1,559,228) o'r boblogaeth yn fenywod a 49.1% (1,504,228) yn wrywod[99].

3.4.4 Er bod poblogaeth Powys wedi tyfu rhywfaint, mae dwysedd poblogaeth gyffredinol y Sir (26 person fesul km sgwâr) wedi aros bron yn union yr un fath â'r hyn a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011.

3.4.5 Noda **Ffigur 3.14** gynnydd yn nifer yr aelwydydd ym Mhowys, o 58,345 yn 2011 i 60,200 yn 2021.

[99] SYG (2022) 'Cyfrifiad 2021'. Ar gael yn: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationandhouseholdestimateswales/census2021#oedran-a-rhyw-y-boblogaeth, aed at y wefan ar 11.07.2022.

Ffigur 3.14 Newidiadau yn nifer yr aelwydydd rhwng 2011 a 2021




3.4.6 Amcangyfrifon canol-blwyddyn Powys yn 2018, 2019 a 2020 ar gyfer y mewnlif net o oedolion iau (rhwng 20 a 34 oed) oedd +46, +58 ac +58 yn y drefn honno[100]. Mae hyn yn golygu, yn ystod y cyfnod hwn, fod +162 o bobl o'r grŵp oedran hwn wedi symud i'r sir, sy'n bwysig ac mae mawr eu hangen o ystyried poblogaeth y sir sy'n heneiddio.

## Amrywiaeth

### Ethnigrwydd

3.4.7 Gan ddefnyddio disgrifiadau categorïau y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gwyn yw poblogaeth Powys yn bennaf (98.38% o'r boblogaeth)[101].

### Cred Grefyddol

3.4.8 Cristnogaeth yw'r brif grefydd ym Mhowys (61.8%) (gweler **Tabl 3.3**). Ar ôl Cristnogaeth, Bwdhaeth yw'r grefydd fwyaf nesaf ym Mhowys (0.4%), er bod nifer fawr o bobl nad oes ganddynt grefydd (27.9%).

---

[100] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2022', tudalen 182. I'w gyhoeddi ym mis Hydref 2022.
[101] Cyngor Sir Powys (2013) 'Ystadegau Powys 2011'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/6033/Gwybodaeth-2011-y-Cyfrifiad, aed at y wefan ar 11.07.2022

Tabl 3.3 Grwpiau Crefyddol ym Mhowys[102]

| Crefydd | Niferoedd Powys | (%) Powys |
|---|---|---|
| **Nifer y Trigolion** | 132,976 | 100.0 |
| **Cristnogaeth** | 82,120 | 61.8 |
| **Bwdhaeth** | 567 | 0.4 |
| **Hindŵaeth** | 324 | 0.2 |
| **Iddewiaeth** | 80 | 0.1 |
| **Islam** | 235 | 0.2 |
| **Siciaeth** | 49 | 0.0 |
| **Crefydd arall** | 798 | 0.6 |
| **Dim crefydd** | 37,050 | 27.9 |
| **Crefydd heb ei nodi** | 11,753 | 8.8 |

### Partneriaethau Sifil a Phriodas

3.4.9 O ystyried poblogaeth Powys sy'n 16 oed neu'n hŷn yng Nghyfrifiad 2011, mae 20.8% o'r boblogaeth yn sengl (erioed wedi priodi), mae 61.9% yn briod/cyd-fyw, mae 1.1% mewn partneriaeth sifil un rhyw gofrestredig, mae 1.7% wedi gwahanu (ond yn dal yn briod yn gyfreithiol neu mewn partneriaeth sifil un rhyw cofrestredig), mae 6.6% wedi ysgaru neu wedi cofrestru partneriaeth sifil un rhyw yn ffurfiol sydd bellach wedi ei diddymu'n gyfreithiol ac mae 7.9% yn weddw neu'n bartner sydd wedi goroesi o bartneriaeth sifil un rhyw.[103]

### Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol

3.4.10 Yn 2011, nododd 52 o aelwydydd (128 o unigolion) eu bod yn Sipsiwn, yn Deithwyr Gwyddelig, neu'n Deithwyr Cymreig, er y dylid gwerthfawrogi ei bod yn anodd cael gafael ar ddata poblogaeth cywir am y grwpiau hyn. Mae poblogaeth grwpiau o'r fath wedi tyfu ers 2011, ac mae angen 15 llain arall (13 yn ardal CDLl Powys a dau yn y Parc Cenedlaethol) i ddarparu ar gyfer y twf hwn[104].

[102] SYG (2011) 'Cyfrifiad 2011'. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/reports/localarea?compare=W06000023, aed at y wefan ar 11.07.2022.
[103] SYG (2011) 'Cyfrifiad 2011'. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/reports/localarea?compare=W06000023, aed at y wefan ar 11.07.2022.
[104] Cyngor Sir Powys (2022) 'Y cyngor yn gorffen ei asesiad ar lety i Sipsiwn a Theithwyr'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/12390/Y-cyngor-yn-gorffen-ei-asesiad-ar-lety-i-Sipsiwn-a-Theithwyr, aed at y wefan ar 11.07.2022.

## Amddifadedd

3.4.11 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ei nod yw dangos yr ardaloedd bach hynny lle mae'r crynodiadau uchaf o nifer o wahanol fathau o amddifadedd. Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gallem eu disgwyl yn ein cymdeithas. Gall hyn fod yn nhermau nwyddau perthnasol neu allu unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned[105].

3.4.12 Mae rhanbarth y Canolbarth yn cynnwys 125 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is. Mae hyn yn 7 y cant o'r holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n nifer gymharol isel. Wrth edrych ar y 191 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ledled Cymru yn 2019 - sef y 10 y cant mwyaf difreintiedig, mae 2 ohonynt yng Nghanolbarth Cymru. Mae hyn 2 y cant o'r holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y rhanbarth, ac yn 1 y cant o'r 10 y cant o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig ledled Cymru gyfan, sy'n golygu bod rhanbarth y Canolbarth yn dioddef llai o amddifadedd nag ardaloedd eraill yng Nghymru, er y dylid mynd i'r afael ag amddifadedd mewn unrhyw le[106].

## Tai

3.4.13 Yng Nghyfrifiad 2011, roedd gan Sir Powys gyfanswm o 63,446 o anheddau. Mae Adroddiad Monitro diweddaraf yr Awdurdod ar gyfer 2020–21[107] yn nodi bod 315 o anheddau a gwblhawyd rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Noda **Tabl 3.4** gynnydd CDLl Powys o gymharu â'i nod o ddarparu 300 o anheddau bob blwyddyn. Mae'r tabl hwn yn amlygu bod rhanbarth Powys wedi cael trafferth bodloni ei gofynion o ran y nifer a gwblheir fesul blwyddyn ers nifer o flynyddoedd ac, yn gronnol, mae hi ar ei hôl hi o ran darparu tai i'w thrigolion, er ei bod wedi perfformio'n well o gymharu â'r targedau hyn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

3.4.14 Mae Adroddiad Monitro diweddaraf yr Awdurdod ar gyfer 2020-21[108] yn nodi y dylid cwblhau 352.5 (sy'n cael ei dalgrynnu i 353 o anheddau) bob blwyddyn er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hirdymor hwn yn y ddarpariaeth tai.

---

105 Llywodraeth Cymru (2020) 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru'. Ar gael yn: https://llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru, aed at y wefan ar 11.07.2022.
106 Llywodraeth Cymru (2020) 'Ystadegau cryno fesul rhanbarth Cymru: 2020' ar gael yn https://llyw.cymru/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-cymru-2020, aed at y wefan ar 11.07.2022.
107 Cyngor Sir Powys (2021) 'Adroddiad Monitro Blynyddol 2021'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/5543/Adroddiadau-monitro-blynyddol, aed at y wefan ar 11.07.2022.
108 Cyngor Sir Powys (2021) 'Adroddiad Monitro Blynyddol 2021'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/5543/Adroddiadau-monitro-blynyddol, aed at y wefan ar 11.07.2022, tudalen 39.

Tabl 3.4 Nifer Net y Tai a Gwblhawyd fesul Blwyddyn o'i gymharu â Ffigur y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol[109]

| Blwyddyn | Nifer y Tai a Gwblhawyd | O'u Cymharu â'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol (300 uned) | Canran | O'u Cymharu â'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol (353 uned) | Canran |
|---|---|---|---|---|---|
| **2011-2015** | 622 | -578 | -48% | Amh. | Amh. |
| **2015-2016** | 316 | +16 | +5% | -38 | -10% |
| **2016-2017** | 253 | -47 | -13% | -93 | -28% |
| **2017-2018** | 195 | -105 | -38% | -167 | -45% |
| **2018-2019** | 163 | -137 | -52% | -208 | -54% |
| **2019-2020** | 237 | -63 | -23% | -123 | -33% |
| **2020-2021** | 315 | +15 | +5% | -38 | -11% |
| **2021-2022**[110] | 369 | +69 | +23% | +16 | +5% |

3.4.15 O ran y math o annedd, roedd 72.4% o aelwydydd Powys yn dai sengl neu'n dai pâr yng Nghyfrifiad 2011. O ran deiliadaeth, roedd perchen-feddianwyr yn cyfrif am oddeutu 68.7% o stoc Powys, roedd 24.8% mewn rhanberchnogaeth, 14% yn dai rhent cymdeithasol, 14.8% yn dai rhent preifat ac roedd 2.2% yn byw heb dalu rhent[111].

3.4.16 Ym mis Ebrill 2022, y pris tŷ cyfartalog o ystyried pob eiddo ym Mhowys oedd £238,189, sy'n gynnydd o £51,330 (21.55%) ers 2019 (£186,859). Darperir prisiau cyfartalog y mathau canlynol o gartrefi o fis Ebrill 2022 isod:

- Tŷ sengl: £321,612
- Tŷ pâr: £210,554
- Tŷ teras: £163,316
- Fflatiau: £97,005

[109] Cyngor Sir Powys (2021) 'Adroddiad Monitro Blynyddol 2021'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/5543/Adroddiadau-monitro-blynyddol, aed at y wefan ar 11.07.2022, tudalen 38.
[110] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2022', tudalen 44. I'w gyhoeddi ym mis Hydref 2022.
[111] SYG (2011) 'Cyfrifiad 2011'. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/reports/localarea?compare=W06000023, aed at y wefan ar 11.07.2022.

3.4.17 Mae Prosbectws Cynllun Cyflawni Rhaglen Cyngor Sir Powys 2022/23 yn nodi mai blaenoriaethau tai strategol Powys (yn seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth), yn nhrefn blaenoriaeth, yw:

- Llety Gofal Ychwanegol (Aberhonddu, Machynlleth, Llanfair-ym-Muallt)
- Cartrefi rhent cymdeithasol anghenion cyffredinol, yn enwedig cartrefi 1 gwely; mae hyn yn cynnwys cartrefi sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn (ym mwyafrif y trefi a'r pentrefi mawr)
- Llety cefnogaeth 24/7 i'r rhai sy'n profi digartrefedd (Y Drenewydd, Llandrindod, Ystradgynlais)
- Tai â chymorth i fynd i'r afael ag amrywiaeth o anghenion gofal a chymorth (Y Trallwng, Y Drenewydd, Llandrindod, Aberhonddu ac Ystradgynlais)
- Cyfleoedd 'Perchentyaeth Tai Cost Isel' yn rhan o gynllun deiliadaeth cymysg
- Llety 'Seibiant byr' ar gyfer gofal seibiant
- Ailfodelu cartrefi presennol, heb greu anheddau ychwanegol

3.4.18 Mae'r angen am dai 1 gwely yn uchel ym mhob ardal; mae'r galw am dai 2 wely yn uchel ym Machynlleth a'r Trallwng, yn isel yn Nhrefyclo/Llanandras; a chanolig yw'r gweddill; am dai 3 gwely, mae'r galw'n isel ym mhob ardal, heblaw am Grucywel sy'n ganolig; ac mae'r galw am dai 4 gwely a mwy yn uchel ym mhob ardal.

3.4.19 Dengys amcanestyniadau cartrefi Powys ar sail 2018 y rhagwelir cynnydd mewn aelwydydd sy'n cynnwys 1 a 2 o bobl rhwng 2022 a 2027, a gostyngiad mewn aelwydydd sy'n cynnwys 3 neu fwy o bobl. Disgwylir y bydd hyn yn cyfrannu ymhellach at yr angen am gartrefi llai yn y sector rhentu cymdeithasol.

## Yr Economi

3.4.20 Mae economi Powys a'r Canolbarth (Powys a Cheredigion) yn cynnwys cyfleoedd cyflogaeth gwledig ac amaethyddol yn bennaf. Noda **Tabl 3.5** saith dangosydd economaidd allweddol ar gyfer ardal Canolbarth Cymru, sy'n rhoi trosolwg da o economi Powys, hyd yn oed os yw'n cynnwys data o Geredigion.

3.4.21 Mae **Tabl 3.5** hefyd yn nodi bod Aelwydydd y Canolbarth yn profi llai o Incwm Gwario Gros na chyfartaledd y DU, ond maent yn fwy na'r hyn ar gyfer Cymru. Mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd yn bwysig er mwyn cadw economïau yn weithredol ac mae'n bwysig i economi dyfu oherwydd y gall pobl wario mwy o arian ar wahanol nwyddau a gwasanaethau. Gellir gweld hyn hefyd oherwydd bod gan Ganolbarth Cymru a Chymru brif incwm is fesul pen ac enillion wythnosol llawn amser sy'n llai na'r DU, sy'n amlygu eto sut y gallai incwm gwario fod yn gyfyngedig yn yr ardaloedd hyn, gan nodi bod swyddi sy'n talu llai yn dominyddu'r ardal.

3.4.22 Mae'r Gwerth Ychwanegol Gros yn y Canolbarth cryn dipyn yn is na'r hyn ar gyfer Cymru, ac mae hyd yn oed yn fwy felly o'i gymharu â'r DU. Mae Gwerth Ychwanegol Gros yn fesur pwysig o gynhyrchiant, ac mae'n golygu bod economi Canolbarth Cymru yn llai cynhyrchiol nag economïau ehangach Cymru a'r DU. Nid yw hyn yn syndod o ystyried

natur wledig y Canolbarth, sy'n golygu ei bod yn llai abl i fanteisio ar arbedion maint neu gynhyrchu/gwasanaethau torfol o'i chymharu ag ardaloedd eraill.

3.4.23 Yn debyg i Gymru a'r DU, mae'r Canolbarth yn elwa ar ddiweithdra isel a chyfradd cyflogaeth gref, sy'n pwysleisio bod cyfleoedd cyflogaeth newydd yn cael eu creu yn gyson yn y rhanbarthau hyn.

3.4.24 Er gwaethaf y ffactorau hyn, yn 2019, amcangyfrifwyd bod 24.6% o boblogaeth Powys yn byw ar gyflog nad ystyriwyd yn gyflog byw (£9.00 yr awr yw cyflog byw yn 2019, fel y'i diffinnir gan Living Wage Foundation)[112]. O 2021, yr incwm cyfartalog ar gyfer aelwyd ym Mhowys yw £33,458 (Cymru: £34,700, y DU: £40,257). Mae 55% (33,149) o'r aelwydydd ym Mhowys yn ennill llai na chyfartaledd Cymru (£34,700) ac mae 37% (22,162) o'r aelwydydd yn ennill mwy na'r cyfartaledd[113].

Tabl 3.5 Saith Dangosydd Economaidd Allweddol – Canolbarth Cymru[114]

| Dangosydd Economaidd | Y Canolbarth | Cymru | Y DU |
|---|---|---|---|
| **Incwm Gwario Gros Aelwydydd fesul pen (2019)** | £17,854 | £17,263 | £21,433 |
| **Gwerth Ychwanegol Gros fesul pen (2020)** | £17,818 | £21,842 | £29,909 |
| **Y gyfradd cyflogaeth (2021)** | 75.2% | 73.1% | 74.7% |
| **Y gyfradd anweithgarwch economaidd (2021)** | 21.6% | 23.6% | 21.8% |
| **Prif incwm fesul pen (2019)** | £17,118 | £17,972 | £24,392 |
| **Enillion wythnosol llawn amser (2021)** | £553.90 | £562.80 | £610.70 |
| **Y gyfradd diweithdra (2021)** | 3.9% | 4.2% | 4.4% |

3.4.25 Noda **Tabl 3.6** y mathau o gyflogaeth ym Mhowys yn 2021. Dengys Powys farchnad swyddi gref a chytbwys, ac nid oes un band galwedigaeth yn dominyddu ei heconomi.

112 Ibid.
113 Cyngor Sir Powys (2022) 'Asesiad Llesiant Powys'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 28.
114 Llywodraeth Cymru (2022) 'Economi Cymru mewn rhifau: dangosfwrdd rhyngweithiol'. Ar gael yn: https://llyw.cymru/economi-cymru-mewn-rhifau-dangosfwrdd-rhyngweithiol, aed at y wefan ar 12.07.2022.

Fodd bynnag, roedd 20% o boblogaeth oedran gweithio Powys (pobl 16–64 oed) yn economaidd anweithgar yn 2020[115].

Tabl 3.6 Cyflogaeth fesul galwedigaeth (Ionawr 2021-Rhagfyr 2021) – Powys[116]

| 2021 | Powys (Niferoedd) | Powys (%) | Cymru (%) | Prydain Fawr (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2010 Grŵp Mawr 1–3** | | | | |
| Rheolwyr ac uwch-swyddogion / galwedigaethau proffesiynol / proffesiynol cyswllt a thechnegol | 26,900 | 45.0 | 44.7 | 49.7 |
| **Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2010 Grŵp Mawr 4–5** | | | | |
| Gweinyddol ac ysgrifenyddol / crefftau medrus | 13,500 | 22.6 | 20.3 | 19.0 |
| **Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2010 Grŵp Mawr 6–7** | | | | |
| Galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill / gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid | 10,200 | 17.0 | 17.9 | 16.2 |
| **Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2010 Grŵp Mawr 8–9** | | | | |

115 Ibid, tudalen 28.
116 Nomis (2022) 'Labour Market Profile – Powys'. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157389/report.aspx?town=powys, aed at y wefan ar 12.07.2022.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithredwyr ffatrïoedd a pheiriannau / galwedigaethau elfennol | 9,200 | 15.4 | 17.1 | 15.1 |

3.4.26 Mae'r ffigyrau dwysedd swyddi yn dangos y gymhareb o gymharu cyfanswm y swyddi â'r boblogaeth rhwng 16–64 oed (oedran gweithio). Sgoriodd Powys sgôr dwysedd swyddi 0.87 yn 2020, sy'n uwch na Chymru (0.76) a Phrydain Fawr (0.84), gan bwysleisio bod nifer fawr o gyfleoedd swyddi i bob un o drigolion Powys[117].

3.4.27 Amlyga **Tabl 3.7** faint a graddfa'r busnesau sy'n gweithredu ym Mhowys a Chymru drwy nodi nifer y busnesau a oedd yn yr ardaloedd hyn yn 2021. Fel y dengys y tabl hwn, mae Powys yn cynnwys mentrau micro a busnesau ar raddfa unedau lleol yn bennaf, sy'n debyg i Gymru gyfan.

Tabl 3.7 Cyfrif Busnesau'r DU (2021)[118]

| Maint Busnes | Powys (Niferoedd) | Powys (%) | Cymru (Niferoedd) | Cymru (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Mentrau** | | | | |
| Micro 0 i 9 | 8,035 | 92.8 | 95,995 | 89.6 |
| Bach 10 i 49 | 545 | 6.3 | 9,305 | 8.7 |
| Canolig 50 i 249 | 70 | 0.8 | 1,470 | 1.4 |
| Mawr 250+ | 10 | 0.1 | 315 | 0.3 |
| Cyfanswm | 8,660 | - | 107,085 | - |
| **Unedau Lleol** | | | | |
| Micro 0 i 9 | 8,645 | 89.7 | 108,110 | 83.6 |
| Bach 10 i 49 | 865 | 9.0 | 17,400 | 13.5 |
| Canolig 50 i 249 | 110 | 1.1 | 3,270 | 2.5 |
| Mawr 250+ | 10 | 0.1 | 510 | 0.4 |
| Cyfanswm | 9,635 | - | 129,295 | - |


117 Ibid.
118 Nomis (2022) 'Labour Market Profile – Powys'. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157389/report.aspx?town=powys, aed at y wefan ar 12.07.2022.

3.4.28 Yn 2022, mae oddeutu 71,500 o bobl yn rhyngweithio'n ffurfiol neu'n anffurfiol ag economi iechyd a gofal Powys[119].

3.4.29 Sefydlwyd Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn 2015 ac mae'n cyfuno grwpiau sector cyhoeddus a phreifat ac unigolion i dyfu economi ardal Canolbarth Cymru, a nododd y cryfderau a'r prif sbardunau a ganlyn ar gyfer economi Canolbarth Cymru[120]:

- Amaethyddiaeth
- Bwyd a Diod
- Twristiaeth
- Gweithgynhyrchu gwerth uwch
- Amddiffyn ac asedau diogelwch

Ffigur 3.15 Busnesau a sefydlwyd ac a fethodd dros amser – Powys[121]




3.4.30 Noda **Ffigur 3.15** nifer y busnesau newydd a sefydlwyd ym Mhowys ochr yn ochr â nifer y busnesau a fethodd. Mae'n pwysleisio, dros y 4–5 mlynedd ddiwethaf, fod nifer y busnesau a sefydlwyd ac a fethodd yn y Sir wedi bod yn gymharol sefydlog.

[119] Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (2022) 'Integrated Medium Term Plan 2020/2021-2022/2023'. Ar gael yn: https://pthb.nhs.wales/about-us/key-documents/strategies-and-plans/powys-teaching-health-board-integrated-medium-term-plan-2020-2021-to-2022-2023/, aed at y wefan ar 18.07.2022, tudalen 8.
[120] Tyfu Canolbarth Cymru (2015) 'Economi cipolwg sydyn'. Ar gael yn: http://tyfucanolbarth.cymru/einheconomi, aed at y wefan ar 12.07.2022.
[121] Cyngor Sir Powys (2022) 'Nifer a maint busnesau ym Mhowys. Nifer y busnesau a sefydlwyd, a fethodd ac sy'n dal i fodoli dros amser'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/11182/Cronfa-Wybodaeth-Llesiant-Gweld-gwybodaeth-ynglyn-ag-ystadegau-busnes, aed at y wefan ar 12.07.2022.

## Sgiliau ac Addysg

3.4.31 Mae trigolion Powys wedi cael addysg dda (gyda 40.7% yn cyrraedd NVQ 4 ac uwch) ac mae ganddynt lefel uchel o ryw fath o gyrhaeddiad addysgol (94.3%) fel y noda **Tabl 3.8**.

3.4.32 Mae cyrhaeddiad addysgol ym Mhowys wedi parhau i wella, yn gyffredinol, bob blwyddyn. Dim ond 5.6% o boblogaeth Powys sydd heb unrhyw fath o addysg, sy'n is na'r sgôr ar gyfer Cymru (8.2%) a Phrydain Fawr (6.6%) yn 2021, a llwyddodd Powys i gyflawni lleihad o 2.8% yn nifer y rhai nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau o gymharu â 2016. Mae Powys wedi gallu tyfu, addysgu ac uwchsgilio ei phoblogaeth ers 2016, ac mae'n cymharu'n well, neu'n ffafriol o leiaf, na Chymru a Phrydain Fawr o ran cyrhaeddiad addysgol.

Tabl 3.8 Cymwysterau ym Mhowys a Phrydain Fawr 2016 – 2021[122]

| Lefel | Powys (niferoedd) | Powys (%) | Cymru (%) | Prydain Fawr (%) |
|---|---|---|---|---|
| **2016** | | | | |
| NVQ 4 ac uwch | 29,500 | 38.9 | 35.2 | 38.2 |
| NVQ 3 ac uwch | 44,200 | 58.4 | 54.3 | 56.9 |
| NVQ 2 ac uwch | 58,600 | 77.4 | 73.4 | 74.3 |
| NVQ 1 ac uwch | 65,800 | 86.9 | 84.3 | 85.3 |
| Cymwysterau eraill | 3,600 | 4.8 | 6.1 | 6.6 |
| Dim cymwysterau | 6,300 | 8.4 | 9.6 | 8.1 |
| **2021** | | | | |
| NVQ 4 ac uwch | 29,500 | 40.7 | 38.7 | 43.5 |
| NVQ 3 ac uwch | 44,200 | 60.9 | 58.2 | 61.5 |
| NVQ 2 ac uwch | 58,000 | 80.0 | 75.4 | 78.2 |
| NVQ 1 ac uwch | 64,700 | 89.2 | 85.8 | 87.6 |
| Cymwysterau eraill | 3,700 | 5.1 | 5.9 | 5.9 |
| Dim cymwysterau | 4,100 | 5.6 | 8.2 | 6.6 |

122 Nomis (2022) 'Labour Market Profile – Powys'. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157389/report.aspx?town=powys, aed at y wefan ar 12.07.2022.

## Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol

3.4.33 Oherwydd natur wledig a gwasgaredig poblogaeth Powys, mae ei chyfleusterau a'i gwasanaethau cymunedol yn wasgaredig iawn ledled y Sir hefyd, sy'n eithaf mawr. Ond oherwydd hyn, mae'n gallu bod yn anodd i bob cymuned ym Mhowys gael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau angenrheidiol. Gall topograffeg y Sir hefyd wneud y broses o ddatblygu gwasanaethau a chyfleusterau, a'u hygyrchedd, yn anodd. Mae'r rhan fwyaf o Bowys yn wael o ran y gallu i gael gafael ar wasanaethau (mae ychydig o dan hanner ardaloedd Powys ymhlith yr 20% gwaethaf yng Nghymru o ran y gallu i gael gafael ar wasanaethau[123].

3.4.34 Mae 16 o ganolfannau hamdden ym Mhowys sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleusterau a dosbarthiadau i'r cyhoedd i'w helpu i gynnal ffordd iach o fyw, er nad yw hyn yn ddigon i gwmpasu'r Sir gyfan oherwydd ei maint[124].

3.4.35 Mae Powys yn elwa ar ddiwylliant cryf oherwydd ei thrigolion sy'n gwirfoddoli, ac mae 32.1% (bron i draean) o'i thrigolion yn gwirfoddoli[125]. Mae'r gwirfoddolwyr hyn yn helpu i greu amrywiaeth o gymunedau, grwpiau cymorth a chyfleusterau, sy'n cwmpasu popeth o grwpiau chwaraeon i grwpiau cymorth iechyd meddwl. Mae mentrau cludo cymunedol yn gyffredin ym Mhowys i gynorthwyo'r rhai sydd â phroblemau symudedd neu'r rhai nad oes ganddynt fodd o gludo, sy'n cael eu cludo gan wirfoddolwyr.

3.4.36 Ym Mhowys, mae 77 o ysgolion cynradd sydd wedi eu rhannu yn 13 dalgylch. Nodir dalgylchoedd ysgolion Powys yn **Ffigur 3.16.** Mae 15% o'r disgyblion ym Mhowys yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22%. Nid yw 33% o blant a phobl ifanc Powys sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn eu derbyn ar hyn o bryd (Cymru 35%)[126]. Mae Powys hefyd yn cynnwys 11 ysgol uwchradd, tair ysgol arbennig a 214 o ddisgyblion sydd ar Addysg Ddewisol yn y Cartref (addysgu gartref)[127]. Roedd naw o'r 11 ysgol uwchradd ym Mhowys yn is na chyfartaledd Cymru yn 2021, fel yr adroddir yn yr Asesiad Llesiant a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022[128].

3.4.37 Mae llawer o fanciau bwyd ym Mhowys. Cynhelir rhai ohonynt gan Ymddiriedolaeth Trussell, ac arweinir rhai eraill gan y gymuned. Nododd y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant y ffigyrau canlynol ar gyfer Powys o ran y defnydd o fanciau bwyd[129]:

- Rhoddwyd 2,065 o barseli i oedolion yn 2019/20 a 3,871 o barseli yn 2020/21. Mae hyn yn gynnydd o 87% (+1,806 o barseli) yn 2020/21.
- Rhoddwyd 971 o barseli i blant yn 2019/20 a 2,883 o barseli yn 2020/21. Mae hyn yn gynnydd o 197% (+1,912 o barseli) yn 2020/21.

[123] Ibid, 142.
[124] Ibid, 141.
[125] Ibid, 141.
[126] Cyngor Sir Powys (2022) 'Asesiad Llesiant Powys'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 70.
[127] Ibid, tudalen 68.
[128] Cyngor Sir Powys (2022) 'Asesiad Llesiant Powys'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 67.
[129] Ibid, tudalen 123-124.

- Rhoddwyd cyfanswm o 3,306 o barseli yn 2019/20 a 6,754 o barseli yn 2020/21. Mae hyn yn gynnydd o 84% (+3,718 o barseli) yn 2020/21.

Ffigur 16 Dalgylchoedd Ysgolion Powys[130]




## Y Gymraeg

3.4.38 Mae'r Gymraeg yn bwysig i ddiwylliant a hanes Cymru. Noda **Ffigur 3.17** gyfanswm y siaradwyr Cymraeg yn y canolbarth yn 2021. Gostyngodd nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a hŷn ym Mhowys 2.1% rhwng 2011 a 2021, ac roedd y gostyngiad hwn fwyaf yn y grŵp oedran tair i 15 oed, sef 7%[131].

3.4.39 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol diweddaraf Powys yn nodi bod cyfran ganlynol o boblogaeth ardal CDLl Powys yn gallu siarad Cymraeg (pobl tair oed a hŷn)[132]:

[130] Cyngor Sir Powys (2022) 'Asesiad Llesiant Powys'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 67.
[131] Llywodraeth Cymru (2022) Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021). Ar gael yn: Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU,
[132] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2022', tudalen 240. I'w gyhoeddi ym mis Hydref 2022.

2018 – 29.9%

2019 – 27.3%

2020 – 23.3%


2021 – 27.0%

2022 – 30.7%

3.4.40 Canran gyfartalog y myfyrwyr a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion cynradd Powys yw 21%, a 12% mewn ysgolion uwchradd[133]. Mynychodd tua 28.9% (422) o'r plant a oedd yn defnyddio Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn 2020/21 ddarpariaeth blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg[134].

3.4.41 Mae gan blant well mynediad a gallu i ddysgu Cymraeg. Mae hyn yn golygu yr amcangyfrifir y bydd cynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys a Chymru erbyn 2050, yn enwedig o ystyried y bydd yr iaith yn cael ei throsglwyddo yn o genhedlaeth i genhedlaeth wrth i'r plant presennol gael teuluoedd.

Ffigur 3.17 Cyfanswm nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghanolbarth Cymru 2011[135]




3.4.42 Mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2017-2022 yn cynnig amlinelliad o sut yr oedd Cyngor Sir Powys yn bwriadu adfer a chryfhau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod amser hwn. Mae'n amlinellu nodau i hybu a chefnogi'r iaith, ei gwneud yn haws i drigolion ddefnyddio'r iaith, ac i sicrhau ei bod yn cael ei hystyried wrth ddatblygu polisïau136. Bydd cyflawniadau hwn a'r cynllun newydd yn cael eu hamlinellu yn Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2023-27 newydd Cyngor Sir Powys.

[133] Cyngor Sir Powys (2022) 'Asesiad Llesiant Powys'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 68.
[134] Cyngor Sir Powys (2022) 'Asesiad Llesiant Powys'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 76.
[135] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) '*Welsh language skills (speaking)*'. Ar gael yn: *Welsh language skills (speaking)* - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk).
[136] Cyngor Sir Powys (2017) Strategaeth Hybu'r Gymraeg. Ar gael yn: Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2017-22 - Cyngor Sir Powys

## Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

3.4.43 Mae poblogaeth Powys yn tyfu, er mai'n araf y mae hynny'n digwydd. Yn 2018, rhagwelwyd y byddai gan Bowys boblogaeth o 132,836, er i boblogaeth Powys basio hyn yn 2021 mewn gwirionedd (133,200)[137]. Fodd bynnag, amcangyfrifir bod poblogaeth Powys yn aros ar oddeutu 130,000 i 135,000 o bobl.

3.4.44 Mae cyrhaeddiad addysgol yn gryf ym Mhowys ac mae'r Sir yn elwa ar ystod eang o ysgolion a leolir ledled y Sir i wasanaethu anghenion ei phoblogaethau. Fodd bynnag, ni chyrhaeddodd naw o'r 11 ysgol uwchradd ym Mhowys safon gyfartalog Cymru yn 2021. Byddai'r dirywiad hwn yn parhau heb Gynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n newydd, er y gallai Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n newydd helpu i fynd i'r afael yn well â'r dirywiad hwn drwy ddarparu cyfleusterau ysgolion uwchradd wedi'u diweddaru.

3.4.45 Dim ond dwy o'r 191 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru sydd ym Mhowys. Nid yw Powys yn profi amddifadedd eang na llawer o ardaloedd sy'n eithriadol o ddifreintiedig. Byddai Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n newydd yn sicrhau bod yr ychydig ardaloedd difreintiedig sydd ym Mhowys yn fwy tebygol o gael eu hadfywio ac yn rhwystro ardaloedd eraill rhag mynd i amddifadedd.

3.4.46 Er bod economi a chyfleoedd gwaith ym Mhowys yn gryf, mae cynhyrchiant y Sir yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU ac mae cyflogau'r Sir yn is na chyfartaledd y DU. Busnesau ar raddfa fach sydd ym Mhowys yn bennaf ac, o 2020, roedd gan y Sir gymhareb sefydlu busnesau cadarnhaol o gymharu â busnesau sy'n methu (er nad yw hyn yn ystyried effeithiau llawn COVID-19).

3.4.47 Mae Powys yn gweld twf parhaus o ran siarad a deall y Gymraeg a rhagwelir y bydd y twf hwn yn parhau.

## Materion Cynaliadwyedd Allweddol

- Yn gyffredinol, yr angen i greu lleoedd cynaliadwy y mae pobl yn dymuno byw, gweithio, ac ymlacio ynddynt.
- Yr angen i alluogi twf tai, sy'n diwallu anghenion tai a chynllunio ar gyfer cymysgedd o letyau sy'n gweddu i bob math o aelwyd.
- Yr angen i ddarparu amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth er mwyn cefnogi twf economaidd.
- Yr angen i sicrhau cyflenwad hyblyg o dir ar gyfer datblygu cyflogaeth, sy'n gweddu i anghenion poblogaeth wledig y Sir.
- Yr angen i fynd i'r afael â chyfran poblogaeth oedran gweithio'r Sir nad ydynt yn gweithio.
- Yr angen i gynyddu incymau ac yn enwedig i'r rhai y mae eu hincwm yn y chwartel isaf.

---

[137] Llywodraeth Cymru (2018) 'Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn'. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based/populationprojections-by-localauthority-year, aed at y wefan ar 12.07.2022.

- Yr angen i fynd i'r afael â phocedi o amddifadedd sy'n bodoli yn yr ardal.
- Yr angen i gynnal y cyrhaeddiad addysgol cryf yn y Sir, gan fynd i'r afael â materion â'i hysgolion uwchradd.
- Yr angen i ddiogelu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol ac i sicrhau bod cyfleusterau newydd yn cael eu darparu mewn pryd i ddiwallu anghenion sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.
- Yr angen i ddiogelu hunaniaeth y cymunedau presennol.
- Yr angen i ddiogelu a chynnal a gwella mynediad at gyfleusterau diwylliannol a chymunedol sydd o fudd i gymunedau cynaliadwy ac yn eu cefnogi nhw.
- Yr angen i barhau i ennyn diddordeb ac i feithrin dysg yn y Gymraeg (yn enwedig ymhlith pobl y tu allan i oedran ysgol).


## 3.5 Iechyd a Llesiant

### Iechyd

Iechyd y Boblogaeth


3.5.1 Fel y nodir gan **Ffigur 3.18**, mae disgwyliad oes adeg geni dynion a menywod Powys ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae gan Bowys lefelau cymharol uchel ar gyfer disgwyliad oes iach hefyd **(Ffigur 3.19)**.

Ffigur 3.18 Disgwyliad oes adeg geni dynion a menywod ym Mhowys[138]




[138] Cyngor Sir Powys (2022) 'Asesiad Llesiant Powys'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 49.

Ffigur 3.19 Disgwyliad oes iach adeg geni, dynion a menywod ym Mhowys[139]




3.5.2 Er nad yw Powys yn dioddef lefelau uchel o amddifadedd o'i chymharu â llawer o rannau eraill o Gymru, mae pocedi o amddifadedd sy'n dal i effeithio ar ddisgwyliad oes ei phoblogaeth. Gall byw mewn ardal ddifreintiedig gael effeithiau sylweddol ar iechyd. Amcangyfrifir y gall menyw sy'n cael ei geni yn y rhannau lleiaf cyfoethog o Bowys ddisgwyl byw 5.6 mlynedd yn llai, a 6.5 mlynedd yn llai ar gyfer gwryw, na rhywun nad yw'n cael ei eni yn yr ardaloedd hyn[140].

## Ymddygiad o ran ffordd o fyw a llesiant

3.5.3 Yn 2014, dosbarthwyd 78% o'r plant 11 i 16 oed fel rhai yr oedd eu hiechyd yn rhagorol neu'n dda[141]. Roedd oddeutu 24.5% o'r plant 5 oed ym Mhowys yn rhy drwm ac yn ordew yn 2017/18; yr un gyfradd â Chymru. Ym Mhowys, amcangyfrifir bod bron i 6 o bob 10 oedolyn yn ordew a rhagwelir y bydd y tuedd hwn yn parhau, ac ochr yn ochr â hyn, mae plant yn mynd yn fwy gordew hefyd.

3.5.4 Yn 2021–22, roedd 69% o'r oedolion 16+ oed ym Mhowys yn egnïol am o leiaf 150 munud yn ystod yr wythnos flaenorol. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru (56%), a dyma'r uchaf yng Nghymru ochr yn ochr ag ardal Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. O ran gweithgaredd chwaraeon, cymerai 29.2% o'r oedolion ran mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos (sy'n is na chyfartaledd Cymru, 32.2%) yn ystod 2019-20. Cymerai oddeutu 48% o blant a phobl ifanc ran mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos yn ystod 2019-20. Mae menywod yn tueddu i gymryd rhan mewn chwaraeon yn llai na dynion[142]. Mae Powys yn elwa ymhellach ar ei natur wledig, gan sicrhau bod gan ei phoblogaeth fynediad parod a rhwydd at fannau

[139] Cyngor Sir Powys (2022) 'Asesiad Llesiant Powys'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 50.
[140] Ibid, tudalen 51-52.
[141] Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (2014) 'The Health and Wellbeing of Children and Young People in Powys'. Ar gael yn: http://www.powysthb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1145/Powys%20Public%20Health%20Annual%20Report%202013-2014.pdf, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 36.
[142] Cyngor Sir Powys (2022) 'Asesiad Llesiant Powys'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 141-142.

naturiol i fwynhau ffordd o fyw egnïol. Mae ffordd o fyw egnïol yn bwysig ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol.


3.5.5 Pymtheg a phedwar ugain y cant yw'r targed ar gyfer yr holl frechlynnau plant yng Nghymru er mwyn sicrhau lefelau da o ddiogelwch.[143] Yn 2021/22, erbyn eu pen-blwydd yn bedair oed, roedd 87.0% o blant Cymru yn gyfredol â'u brechlynnau; 89.2% oedd hyn ym Mhowys.


3.5.6 Yn 2021–22, roedd 11% o oedolion Powys yn ysmygwyr (Cymru 13%) ac roedd 35% o'r oedolion yn gyn-ysmygwyr (Cymru 29%)[144].Mae 16% o'r oedolion ym Mhowys yn yfed symiau o alcohol fesul wythnos sy'n fwy na'r canllawiau (mwy na 14 uned), mae 15% yn yfed symiau peryglus o alcohol (14–50 uned), ac mae 2% yn yfed symiau niweidiol o alcohol fesul wythnos (mwy na 50 uned)[145]. Gall ysmygu ac yfed gormodol gael effeithiau negyddol tymor byr a hirdymor difrifol ar iechyd.

3.5.7 Nodir hyn ymhellach yn **Ffigur 3.20** a **Ffigur 3.21**, sy'n dangos oedolion oedran gweithio o bwysau iach a phlant o dan bwysau iach neu dan bwysau (5 oed).


[143] Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (2014) 'The Health and Wellbeing of Children and Young People in Powys'. Ar gael yn: http://www.powysthb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1145/Powys%20Public%20Health%20Annual%20Report%202013-2014.pdf, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 30.
[144] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (2022) 'Asesiad o Anghenion y Boblogaeth'. Ar gael yn: Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (powysrpb.org), aed at y wefan ar 18.07.2022, tudalen 49–50.
[145] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (2022) 'Asesiad o Anghenion y Boblogaeth'. Ar gael yn: Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (powysrpb.org), aed at y wefan ar 18.07.2022, tudalen 50.

Ffigur 3.20 Oedolion oedran gweithio o bwysau iach yng Nghymru 2017/18-2019/20[146]




Ffigur 3.21 Plant 5 oed o bwysau iach neu dan bwysau, 2017/18[147]




| Area | Value | 95% Confidence Interval | Count |
|---|---|---|---|
| Cardiff and Vale UHB | 78.9 | (77.7 to 80.0) | 3,811 |
| Powys THB | 75.5 | (72.8 to 78.0) | 793 |
| Aneurin Bevan UHB | 74.9 | (73.9 to 76.0) | 4,908 |
| Hywel Dda UHB | 74.4 | (72.9 to 75.8) | 2,671 |
| Swansea Bay UHB | 74.0 | (72.6 to 75.4) | 2,890 |
| Cwm Taf Morgannwg UHB | 71.2 | (69.9 to 72.4) | 3,523 |
| Betsi Cadwaladr UHB | 69.7 | (68.7 to 70.8) | 5,078 |
| Wales | 73.6 | (73.1 to 74.1) | 23,674 |

## Iechyd Meddwl

3.5.8 Ar gyfer iechyd cyffredinol yn yr hirdymor, mae iechyd meddwl rhywun yr un mor bwysig ag iechyd corfforol. Mae gwella iechyd meddwl ar bob lefel o gymdeithas ac ar bob oedran yn arwain at welliant cyffredinol yn iechyd y boblogaeth.

3.5.9 Mae poblogaethau Powys, y DU a’r byd yn profi effeithiau sylweddol oherwydd effeithiau parhaus a hirdymor COVID-19. Ym mis Ionawr 2022, mae gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol, gan gynnwys gofal a chymorth sylfaenol, eilaidd a’r Trydydd Sector, yn profi ceisiadau digynsail am gymorth ledled Cymru, ar gyfer iselder ysgafn i gymedrol, pryder, profedigaeth ac effeithiau hir-barhaol galar, ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. Mae nifer y bobl sy’n defnyddio gwasanaethau argyfwng yn cynyddu hefyd, ac mae anghenion yn dod i’r amlwg sy’n ymwneud ag anhwylderau bwyta, seicosis, ac anghenion cymhleth

[146] Ibid, tudalen 65.
[147] Ibid, tudalen 66.

(gan gynnwys camddefnyddio sylweddau a risg o ddigartrefedd a dyled) i gyd yn dod yn fwy cyffredin[148].

3.5.10 Gorbryder ac iselder yw'r anhwylderau iechyd meddwl mwyaf cyffredin a brofir gan y boblogaeth oedran gweithio[149]. Iselder yw'r cyflwr mwyaf cyffredin i bobl hŷn ac mae nifer yr achosion yn codi gydag oed. Cynhaliodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys asesiad o anghenion fferyllol i anghenion fferyllol Powys, a daethpwyd o hyd i'r canlynol[150]:

- Mae gan 25% o'r oedolion hŷn iselder sydd angen triniaeth
- Mae iselder yn effeithio ar dros 40% o'r rhai sydd yn eu 80au
- Iselder yw prif achos hunanladdiadau yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn
- Mae hunanladdiad yn fwy cyffredin ymhlith dynion
- Mae camddefnyddio sylweddau yn fwy cyffredin ymhlith dynion


3.5.11 Powys sydd â'r gyfradd hunanladdiad uchaf yng Nghymru, ac mae rhywun yn cymryd ei fywyd bob 3.5 wythnos yn yr ardal y CDLl, a dynion rhwng 40 a 44 oed oedd y ddemograffeg fwyaf tebygol o gyflawni hunanladdiad[151].

3.5.12 Er gwaethaf y materion hyn, mae gan Bowys lefel isel o dderbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl (250) ar gyfer blynyddoedd 2019-2020, sy'n ostyngiad o 23% ers 2014-2015 ac sy'n cyd-fynd â gostyngiad yn nifer y derbyniadau o'r fath ledled Cymru gyfan yn ystod yr un cyfnod[152].

3.5.13 Oherwydd bod poblogaeth y sir yn heneiddio, mae dementia'n dod yn fwy o broblem ledled y sir (y nifer uchaf o drigolion sydd â dementia yng Nghymru yn 2010-2018) yn ogystal ag yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, fel y nodir yn **Ffigur 3.22**[153].

[148] Ibid, tudalen 53.
[149] Ibid, tudalen 53.
[150] Ibid, tudalen 54.
[151] Samaritans (Dim dyddiad) 'Suicide in Powys'. Ar gael yn: Suicide in Powys | Samaritans, aed at y wefan ar 16.08.2022.
[152] Ibid, tudalen 54.
[153] Ibid, tudalen 55.

Ffigur 3.22 Nifer y bobl sydd â Dementia yng Nghymru[154]




## Anabledd

3.5.14 Mae'r rhai sydd â math o anabledd yn haeddu'r gefnogaeth a'r cymorth y bo eu hangen arnynt, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu byw bywydau boddhaus. Amcangyfrifwyd yn 2019 fod gan 35.67 o bobl fesul 1,000 anabledd corfforol ym Mhowys, ac amcangyfrifwyd mai 9.17 fesul 1,000 oedd y gymhareb ar gyfer Cymru[155] Felly mae gan Bowys gyfartaledd sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o ran pobl ag anabledd corfforol sy'n byw yn y Sir, a Chonwy yn unig sy'n debyg iddi (35.97 o drigolion am bob 1,000 o'r boblogaeth)[156].

3.5.15 Yn 2021, roedd 2,577 o drigolion Powys yn hawlio Lwfans Byw i'r Anabl, ac roedd 6,270 o drigolion yn hawlio Taliad Annibyniaeth Personol[157]. Mae'r rhai sydd ar system Taliad Annibyniaeth Personol wedi profi gwasanaeth ingol a gwael.

3.5.16 Powys hefyd sydd â'r gyfradd uchaf o bobl sydd wedi cofrestru fel rhai â nam difrifol ar eu golwg (3.56 o bobl fesul pob 1,000 o'r boblogaeth), sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (2.07 o bobl fesul pob 1,000 o'r boblogaeth)[158]. Powys hefyd sy'n sgorio uchaf o ran nifer y bobl sydd â rhyw fath o nam ar y synhwyrau sy'n byw yn y Sir (22.36 o bobl fesul pob 1,000 o'r boblogaeth), sydd hefyd yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru (11.83 o bobl fesul pob 1,000 o'r boblogaeth)[159].

## Y Ddarpariaeth Gofal Iechyd

3.5.17 Oherwydd natur wledig a gwasgaredig poblogaeth Powys, mae ei chyfleusterau a'i gwasanaethau cymunedol hefyd wedi eu gwasgaru'n eang ledled y Sir sy'n golygu y gall fod yn anodd i bob cymuned ym Mhowys gael gafael ar y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt. Gall maint a thopograffeg y Sir hefyd wneud y broses o ddatblygu gwasanaethau a chyfleusterau, a'u hygyrchedd, yn anodd. Gellir dangos hyn â thrigolion

[154] Ibid, tudalen 55.
[155] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (2022) 'Asesiad o Anghenion y Boblogaeth'. Ar gael yn: Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (powysrpb.org), aed at y wefan ar 18.07.2022, tudalen 59.
[156] Ibid, tudalen 59.
[157] Ibid, tudalen 60-61.
[158] Ibid, tudalen 63.
[159] Ibid, tudalen 63.

Powys nad oes ganddynt fynediad at ysbyty cyffredinol dosbarth a thrigolion y mae'n ofynnol iddynt deithio allan o'r Sir i siroedd cyfagos i gael mynediad at y math hwn o wasanaeth iechyd[160]. Mae hyn hefyd yn achosi cryn wahaniaethau o ran pa mor hir y byddai'n cymryd i gael gafael ar wasanaethau ysbyty. Byddai trigolion Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Bugeildy yn cymryd oddeutu 86 munud i gyrraedd ysbyty, ond mae'n bosibl y byddai trigolion Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Crucywel yn gallu cael mynediad i ysbyty mewn oddeutu 9 munud[161].

3.5.18 Mae'r gwasanaethau gofal iechyd presennol yn y Sir o dan bwysau, ac mae effeithiau parhaus pandemig COVID-19 yn cyfrannu'n fawr tuag at hynny. Oherwydd amryw o gyfyngiadau symud, awydd pobl i beidio â rhoi pwysau ar y GIG yn ystod brig y pandemig (2020-2021) a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol, oedodd pobl cyn ymweld â gwasanaethau iechyd, sef yr hyn y maent yn ei wneud yn awr[162].


3.5.19 Mae 29 o gartrefi gofal ym Mhowys sydd wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru y mae 12 ohonynt yn gartrefi sy'n eiddo i'r Cyngor a gynhelir gan Shaw Homes, cynhelir 17 ohonynt yn breifat, ac mae 1 uned ailalluogi a gynhelir gan Shaw Homes[163]:

- Mae tri chartref sydd ond yn darparu gofal nyrsio
- Mae 18 cartref sydd ond yn darparu gofal preswyl
- Mae wyth cartref sy'n darparu gofal preswyl a nyrsio
- Un darparwr ailalluogi

3.5.20 Noda **Ffigur 3.23** ddwysedd cartrefi gofal a'u hardaloedd. Yn 2022, mae 16,154 o ofalwyr ym Mhowys, sy'n gynnydd o 14% o gymharu â 2001 ac sy'n adlewyrchu'r galw cynyddol am wasanaethau gofal iechyd oherwydd poblogaeth y Sir sy'n heneiddio[164].

[160] Cyngor Sir Powys (2022) 'Asesiad Llesiant Powys'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 43.
[161] Ibid, tudalen 43.
[162] Ibid, tudalen 50.
[163] Ibid, tudalen 38.
[164] Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (2022) 'Integrated Medium Term Plan 2020/2021-2022/2023'. Ar gael yn: https://pthb.nhs.wales/about-us/key-documents/strategies-and-plans/powys-teaching-health-board-integrated-medium-term-plan-2020-2021-to-2022-2023/, aed at y wefan ar 18.07.2022, tudalen 11.

Ffigur 3.23 Nifer y cartrefi gofal fesul ardal[165]




## Trosedd

3.5.21 Yn ystod 2020, cyflawnwyd 6,906 o droseddau ym Mhowys, sy'n gyfystyr â 375 o droseddau fesul pob 10,000 o'r boblogaeth. Y math uchaf o drosedd a gofnodwyd oedd trais yn erbyn unigolyn (113 fesul pob 10,000 o'r boblogaeth) a'r lleiaf oedd troseddau ag arfau (3 fesul pob 10,000 o'r boblogaeth), ac ar y gwaelod o ran y mathau o droseddau a gyflawnwyd ceir Lladradau (0 fesul pob 10,000 o'r boblogaeth)[166].

3.5.22 Bu cynnydd o 81% yn nifer y troseddau ym Mhowys rhwng mis Ionawr 2018 a mis Gorffennaf 2021. Ym mis Mehefin 2021 y cofnodwyd y nifer uchaf o droseddau (996), ac ym mis Ionawr 2018 y cofnodwyd y nifer isaf o droseddau (476)[167]. Pedwar ar bymtheg pwynt un y cant yw'r gyfradd aildroseddu ym Mhowys, ac yng Nghymru, 1 o bob 4 (25.2%) yw'r gyfradd aildroseddu, sy'n duedd at i lawr[168]. Noda **Tabl 3.9** hanes nifer y troseddau a gyflawnwyd ym Mhowys bob blwyddyn ac mae'n dangos cynnydd cyson dros amser.

[165] Ibid, tudalen 38.
[166] Cyngor Sir Powys (2022) 'Asesiad Llesiant Powys'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 133-134.
[167] Ibid, tudalen 134.
[168] Ibid, tudalen 136.

Tabl 3.9 Nifer y Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu ym Mhowys[169]

| | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 (mis Medi) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y troseddau a gofnodwyd** | 4,263 | 4,799 | 5,396 | 5,979 | 6,060 | 6,959 | 6,906 | 9,221 |

3.5.23 O dan Ddeddf Troseddu ac Anhrefn 1998, mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol o dan adran 17 o'r Ddeddf i ystyried yr angen i atal a rhwystro troseddu wrth gyflawni ei holl gyfrifoldebau, sy'n cynnwys cynllunio. O'i defnyddio'n sensitif, gall y system gynllunio fod yn ddylanwadol wrth gynhyrchu amgylcheddau gweithgar a gaiff eu rheoli'n dda sy'n helpu i atal troseddu ac anhrefn trwy annog datblygwyr i fabwysiadu cynlluniau ar gyfer datblygiadau newydd.

3.5.24 Cyn cyflwyno cynigion manwl, anogir datblygwyr i ofyn am gyngor trwy gynnal trafodaethau cyn-ymgeisio gyda Swyddog Dylunio er mwyn Atal Troseddu Heddlu Dyfed Powys, gyda cheisiadau cynllunio yn pwysleisio ac yn dangos yn glir y mesurau arfaethedig a gymerir i ddylunio er mwyn atal troseddu, gan gymhwyso egwyddorion ac ymarfer sy'n:

- Gwneud y mwyaf o wyliadwriaeth naturiol o ardaloedd a allai fod yn agored i drosedd megis mannau sydd ar gael i'r cyhoedd, mannau agored, meysydd parcio a llwybrau troed.
- Bod â llwybrau, mannau a mynedfeydd wedi'u diffinio'n dda sy'n darparu symudiad cyfleus heb beryglu diogelwch.
- Cynnal gwahaniaeth canfyddadwy rhwng mannau cyhoeddus a phreifat trwy ffiniau sydd wedi'u diffinio'n dda a mannau amddiffynadwy.
- Darparu goleuadau o safon dda i fannau a llwybrau cyhoeddus wrth leihau'r defnydd o ynni a llygredd golau.
- Cael eu dylunio gyda rheolaeth a chynnal a chadw mewn golwg, i atal troseddu yn y presennol a'r dyfodol, yn arbennig trwy egwyddorion Diogelu Drwy Ddylunio.

3.5.25 Mae Nodyn Cyngor Technegol 12 Llywodraeth Cymru yn nodi’r canlynol yn 5.17.3: *“Mae Mannau mwy Diogel a Diogelu Trwy Ddylunio yn darparu safonau cydnabyddedig, y profwyd eu bod yn lleihau troseddu (yn enwedig byrgleriaeth mewn eiddo preswyl) ac effaith troseddu ar gymdogaethau. Byddai’n ddymunol sefydlu safonau mesuradwy ar gyfer pob datblygiad tai, adeiladau cyhoeddus a phob adeilad a gyllidir gan gyrff cyhoeddus.”*

Damweiniau

3.5.26 Roedd 358 o danau ym Mhowys (rhwng mis Ebrill 2018 a mis Gorffennaf 2021), tanau glaswellt oedd 48% o’r rhain ac roedd 82% ohonynt yn danau bwriadol. Profodd Powys 9% (216) o’r holl wrthdrawiadau a ddigwyddodd yng Nghymru (2,864) yn 2020, sy’n

[169] Cyngor Sir Powys (2022) ‘Adroddiad Monitro Blynyddol 2022’, tudalen 198.

ostyngiad o 135 o gymharu â nifer y gwrthdrawiadau yn 2019 (351). Erbyn Medi 2021, bu 223 gwrthdrawiad ym Mhowys[170].

3.5.27 O ystyried maint Powys, y natur wledig a'r angen i bobl gymudo drwy'r Sir, mae 9% o'r holl wrthdrawiadau yng Nghymru yn isel[171]. Amlyga **Tabl 3.10** nifer yr anafiadau mewn damweiniau ffordd ym Mhowys fesul eu difrifoldeb.

Tabl 3.10 Nifer yr anafiadau mewn damweiniau ffordd fesul difrifoldeb ym Mhowys[172]

| Difrifoldeb yr Anaf | 2019 | 2020 | 2021 (mis Medi) |
|---|---|---|---|
| **Mân-anafiadau** | 230 | 207 | 210 |
| **Anafiadau difrifol** | 107 | 81 | 75 |
| **Marwolaethau** | 14 | 4 | 3 |

## Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

3.5.28 Mae Strategaeth Iechyd a Gofal i Bowys yn ceisio sicrhau bod ei phreswylwyr yn dechrau'n dda, byw yn dda ac yn heneiddio'n dda. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n nodi'r pedwar maes allweddol canlynol sy'n hanfodol i iechyd hirdymor y Sir[173][174]:

- hybu llesiant
- cynnig cymorth a chefnogaeth gynnar i bobl
- mynd i'r afael â'r pedwar clefyd mawr sy'n cyfyngu ar fywyd (canser, clefydau cylchredol, iechyd meddwl, clefydau anadlol)
- darparu gofal cydgysylltiedig

3.5.29 Mae gan boblogaeth Powys fynediad parod at natur a mannau agored, ond mae'n dal i ddioddef problem gordewdra cynyddol. Mae'r tuedd hwn yn debygol o barhau, a gallai Cynllun Lleol newydd helpu i annog teithio llesol a ffordd iachach o fyw. Mae angen sylweddol i fynd i'r afael â'r effeithiau corfforol a meddyliol hirdymor yn sgil COVID-19. Er bod gan y Sir wasanaethau iechyd sylweddol a gall ddibynnu ar wasanaethau ysbytai cyfagos, mae gwasanaethau iechyd dan straen oherwydd bod y boblogaeth yn aros i gael gafael ar wasanaethau o'r fath oherwydd gwahanol gyfyngiadau symud a pholisïau llywodraeth.

[170] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol 2022', tudalen 195.
[171] Ibid, tudalen 137.
[172] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol 2022', tudalen 196.
[173] Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (2017) 'Strategaeth Iechyd a Gofal i Bowys – Gweledigaeth Hyd 2027 a Thu Hwnt'. Ar gael yn: https://www.powysrpb.org/_files/ugd/33b29e_42600f6f44384e46992b3d891a9a50cb.pdf, aed at y wefan ar 12.07.2022.
[174] Mae'r strategaeth gyfredol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal wedi'i chynnwys yn Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Powys. Ar gael yn: Microsoft Word – Drafft Terfynol Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Gorffennaf 2022 (moderngov.co.uk), aed at y wefan ar 14.10.2022.

3.5.30 Mae iechyd meddwl, yn enwedig gorbryder ac iselder, yn parhau i fod yn broblem ym Mhowys, yng Nghymru ac yn y DU yn ehangach, ac mae'n bosibl y gallai Cynllun Lleol newydd helpu i dynnu sylw at yr anghenion a'r cymorth wrth ddarparu rhagor o wasanaethau iechyd meddwl.

3.5.31 Mae trosedd ym Mhowys yn gostwng, er bod y Sir yn parhau i ddioddef lefel uchel o danau/tanau bwriadol. Mae gan Cynllun Heddlu a Throseddu Powys 2021-2025[175] y blaenoriaethau/nodau canlynol:

- Nod 1: Ein bod yn cadw ein cymunedau'n ddiogel, gan eu cefnogi pan fydd achosion o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Nod 2: Bod ein gwasanaethau o fewn cyrraedd i bob cymuned, gan gydnabod amrywiaeth a'r iaith Gymraeg.
- Nod 3: Ein bod yn ymdrin â phroblemau sy'n achosi niwed cymunedol sylweddol, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod a merched ac iechyd meddwl, o safbwynt iechyd cyhoeddus.
- Nod 4: Ein bod yn darparu system blismona a chyfiawnder sy'n diwallu anghenion ein cymunedau o ran atal troseddu, yn diogelu'r cyhoedd ac yn adeiladu gwydnwch.
- Nod 5: Bod ein hymgysylltiad ystyrlon, pellgyrhaeddol â'r cyhoedd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol.
    - Blaenoriaeth 1: Cefnogi dioddefwyr
    - Blaenoriaeth 2: Atal niwed
    - Blaenoriaeth 3: Sicrhau system cyfiawnder mwy effeithiol

## Materion Cynaliadwyedd Allweddol

- Yr angen i ddiogelu iechyd a llesiant poblogaeth Powys.
- Yr angen i hybu ffyrdd iach o fyw ac yn benodol lleihau gordewdra a chynyddu lefelau o weithgarwch corfforol.
- Yr angen i gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.
- Yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd, yn enwedig i'r rhai sydd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Yr angen i ddiogelu cyfleusterau a gwasanaethau gofal iechyd presennol ac i sicrhau bod cyfleusterau a gwasanaethau newydd yn cael eu darparu mewn pryd i ddiwallu anghenion sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.
- Yr angen i fynd i'r afael â phryderon iechyd meddwl ymhlith poblogaeth y Sir, yn enwedig ymhlith y rhai sydd dros 80 oed a mynd i'r afael ag achosion o iselder ymhlith pob oedran.

[175] Comisiynydd Heddlu a Throseddu (2021) 'Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-2025 Dyfed-Powys: Cadw Cymunedau Dyfed-Powys yn Ddiogel'. Ar gael yn: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-comisiynydd/cynllun-heddlu-a-throseddu/, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 4.

- Yr angen i sicrhau bod egwyddorion ac arferion Diogelu Drwy Ddylunio’n cael eu hymgorffori ym mhob datblygiad newydd, gan roi polisi Cynllun Datblygu Lleol ar waith.

## 3.6 Trafnidiaeth a Hygyrchedd


### Seilwaith Trafnidiaeth

3.6.1 Mae Powys yn elwa ar ystod eang o seilwaith a leolir ynddi. Oherwydd lleoliad y Sir, mae ganddi nifer fawr o gefnffyrdd sy’n rhedeg trwyddi, sy’n cydgysylltu â’r awdurdodau lleol cyfagos ac sy’n croesi’r ffin i Loegr. Mae Powys yn cynnwys y rhwydwaith ffyrdd mwyaf ymhlith awdurdodau lleol Cymru. Mae ganddi’r gyfran uchaf o’r holl gefnffyrdd (27.3 y cant), ffyrdd B ac C (21.1 y cant) ac is-ffyrdd ag wyneb caled (12.1 y cant) ac mae’n cyfrif am 15.8 y cant o gyfanswm hyd ffyrdd Cymru[176].

3.6.2 Felly, mae seilwaith Powys yn bwysig er mwyn rhedeg a gweithredu’r Sir, ond mae’n hanfodol hefyd er mwyn cludo nwyddau a phobl ledled Cymru, ac Ynysoedd Prydain ac Ewrop yn ehangach fel y noda **Ffigur 3.24**.

[176] Llywodraeth Cymru (2020) ‘Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarth canolbarth Cymru, 2020’. Ar gael yn: https://llyw.cymru/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-cymru-2020, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 16.


Ffigur 3.24 Seilwaith Trafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru[177]




3.6.3 Canran yr aelwydydd ym Mhowys sy'n profi tlodi tanwydd oedd 17% (cyfartaledd Cymru: 12%). Powys yw'r trydydd uchaf ymhlith holl awdurdodau lleol Cymru (Gwynedd sydd uchaf (23%) a Cheredigion yw'r ail uchaf (21%) (Llywodraeth Cymru, 2018)[178]. Amlyga **Ffigur 3.25** dlodi tanwydd ym Mhowys a Chymru. Mae tlodi tanwydd yn enwedig o bwysig ym Mhowys o ystyried pa mor anghysbell yw cymunedau'r Sir a'r defnydd o geir fel y prif fodd o gludiant.

[177] Llywodraeth Cymru (2020) 'Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru 2020'. Ar gael yn: https://llyw.cymru/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-cymru-2020, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 16.
[178] Ibid, tudalen 176.


Ffigur 3.25 Tlodi Tanwydd fesul Awdurdod Lleol, Cymru, 2018[179]




3.6.4 Pwysleisia **Ffigur 3.26**, yn 2018, fod mwy o drigolion yn cymudo allan o'r Sir i awdurdodau lleol cyfagos nag oedd yn cymudo i mewn i Bowys.

[179] Ibid, tudalen 177.

Ffigur 3.26 Y newid ym mhoblogaethau awdurdodau lleol yng Nghanolbarth Cymru o ganlyniad i bobl yn cymudo i mewn i'r rhanbarth ac allan ohono, 2018[180]





3.6.5 Mae oddeutu 68% (65,000) o'r bobl o oedran gweithio yn teithio i'r gwaith gan ddefnyddio eu cerbyd eu hunain, mae 16% ohonynt (15,000 o bobl) yn cerdded neu'n beicio ac mae 2% ohonynt (2,000 o bobl) yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus (SYG, 2011)[181]. Rhwng 2018-2019, amcangyfrifir bod oddeutu hanner trigolion Powys wedi cerdded am fwy na 10 munud fel ffordd o deithio unwaith y mis a bod 8% ohonynt wedi defnyddio beic fel modd o gludiant unwaith y mis[182].

3.6.6 Pwysleisia Cyfrifiad 2011 fod gan drigolion Powys y pellter teithio cyfartalog uchaf i drigolion rhanbarth y Canolbarth fynd i weithio yn ogystal ag amseroedd teithio sy'n fwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (**Ffigur 3.27**).


[180] Ibid, tudalen 14.
[181] Cyngor Sir Powys (2022) 'Asesiad Llesiant Powys'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles, aed at y wefan ar 12.07.2022, tudalen 41.
[182] Ibid, tudalen 17.

Ffigur 3.27 Pellter cyfartalog teithiau i'r gwaith (km) gan weithwyr 16–74 oed yn 2011, fesul yr awdurdod lleol lle maent yn preswylio[183]




3.6.7 Mae teithio ar y rheilffyrdd yn fodd pwysig o deithio i boblogaeth Powys. Amlyga **Ffigur 3.28** nifer y teithiau rheilffordd a wnaed rhwng 2002 a 2018. Pwysleisia'r ffigur fod y tuedd cyffredinol o ddefnyddio teithiau rheilffordd fel ffordd o gludo yn cynyddu. Mae 19 o orsafoedd rheilffordd yn y Canolbarth. Arweiniodd pandemig Covid-19 at bobl yn rhoi'r gorau i deithio ar y rheilffyrdd yn ysbeidiol rhwng 2020 a 2021, ac mae'n debyg bod nifer y teithwyr yn parhau i gynyddu yn sgil codi'r holl gyfyngiadau sy'n ymwneud â Covid-19.

Ffigur 3.21 Teithiau rheilffordd a wnaed yng Nghanolbarth Cymru 2002/3 – 2017/18, fesul awdurdod lleol[184]




3.6.8 Mae cyfleoedd ar gyfer teithio llesol ym Mhowys yn cynnwys Camlas Maldwyn a'i llwybr halio, y gellir ei ddefnyddio ar gyfer cerdded, beicio, canŵio a dulliau eraill o deithio. Mae'r

[183] Ibid, tudalen 15.
[184] Ibid, tudalen 18.

fan hon yn darparu llwybrau diogel, di-draffig i bobl deithio a gwneud ymarfer corff. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Adrannau 3.3 a 3.12.

## Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd


3.6.9 Yn 2021, cyflwynodd Cyngor Sir Powys gais i Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU er mwyn caffael arian i hybu teithio llesol, i wella sawl Hawl Dramwy Gyhoeddus (a nodir isod) ac i gwblhau'r gwaith o roi wyneb newydd ar briffyrdd eang ledled y Sir fel y nodir yn **Ffigur 3.29**. Bu cais Powys am yr arian hwn (£27 miliwn) yn llwyddiannus. Mae'r broses hon wedi nodi sawl mater hirdymor â seilwaith Powys y mae'r Cyngor yn ceisio eu cywiro yn weithredol. Gallai Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n newydd ymgorffori'r nodau hyn, gan gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses o'u rhoi ar waith a chaniatáu i'r cyngor nodi ffynonellau eraill o fuddsoddiad er mwyn darparu manteision lluosog sy'n gysylltiedig â'r seilwaith/amgylchedd adeiledig ar yr un pryd. O ystyried pwysigrwydd seilwaith Powys o ran cysylltedd Cymru (yn enwedig o ran cysylltu Cymru a Lloegr), mae'n bwysig rhoi sylw i'r gwelliannau/atgyweiriadau a bwysleisir gan y cais hwn ac unrhyw faterion sydd eisoes yn bodoli.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus y mae angen eu hatgyweirio

- Pont Afon Gam, Llangadfan
- Pompren Du, Aberriw
- Pompren Fron, Garthmyl
- Pompren Gŵyl, Caersŵs
- Ceunant y Diafol (Cwm Elan)
- Pompren Pont y Milgu, Cwm Twrch

3.6.10 Mae'n bosibl y dylid gwneud mwy i sicrhau nad oes rhaid i fwy o weithwyr gymudo allan o Bowys i weithio, er bod gallu Cynllun Lleol newydd i gyflawni hyn yn gyfyngedig, (yn enwedig o ystyried maint y Sir) oherwydd na all unrhyw un awdurdod lleol wasanaethu anghenion cyflogaeth ei boblogaeth yn llwyr. Fodd bynnag, gallai creu mwy o gyfleoedd ym Mhowys helpu i leihau'r amseroedd teithio cyfartalog i'r gwaith yn y Sir a gwneud teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn ddulliau cludo mwy rhesymol. Yn yr un modd, mae gallu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r tuedd hwn yn gyfyngedig oherwydd bod y materion yn ganlyniad i dopograffeg, maint a natur wasgaredig poblogaeth y Sir.

Ffigur 3.22 Cais Cronfa Ffyniant Bro Powys – Map Cynigion Rownd 2[185]




185 Dweud Eich Dweud Powys (2022) Cais Cronfa Ffyniant Bro Powys - Rownd 2 yn: https://www.haveyoursaypowys.wales/powys-levelling-up-fund-bid-round-2

Materion Cynaliadwyedd Allweddol

- Yr angen i sicrhau buddsoddiadau amserol mewn seilwaith a gwasanaethau cludiant.
- Yr angen i annog dulliau eraill o deithio yn hytrach na cheir, gan gynnwys safleoedd parcio a theithio, teithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.
- Yr angen i sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol a swyddi yn hygyrch o ddatblygiadau newydd, er mwyn lleihau'r angen i deithio.
- Yr angen i leihau cymudo allan o'r sir drwy greu marchnad gyflogaeth gryfach ym Mhowys.
- Yr angen i annog pobl i gerdded a beicio.
- Yr angen i annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ac yn benodol, cyfnewidfeydd trafnidiaeth allweddol rhwng gwahanol ddulliau trafnidiaeth, sef bysiau a threnau.
- Yr angen i gefnogi'r cynlluniau rhannu ceir sydd eisoes yn bodoli.
- Yr angen i ymchwilio i ffyrdd mwy arloesol a chreadigol o fynd i'r afael â newid ymddygiad, yn hytrach na monitro patrymau teithio yn unig.

## 3.7 Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg

### Defnydd Tir a Phriddoedd

3.7.1 Mae pridd yn adnodd pwysig. Dylid diogelu priddoedd y mae DEFRA yn nodi eu bod o ansawdd uchel at ddibenion amaethyddiaeth a phriddoedd y cydnabyddir eu bod yn bwysig ar gyfer storio carbon rhag datblygiadau nad ydynt yn gydnaws. Hefyd, dylid adfer bygythiadau i bridd drwy ddirywiad, gan gynnwys drwy erydiad, halogiad a thrwy golli maetholion.

3.7.2 Mae System Dosbarthiad Tir Amaethyddol Cymru a Lloegr[186] yn nodi mai Graddau 1, 2 a 3a yw'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. Dywed Polisi Cynllunio Cymru na ddylid datblygu tir yng Ngraddau 1, 2, a 3a oni bai bod angen o'r pwys mwyaf am ddatblygiad ac nad yw tir a ddatblygwyd o'r blaen na thir amaethyddol o ansawdd gwaeth ar gael. Os oes angen datblygu tir yng Ngraddau 1, 2 neu 3a, a bod dewis rhwng safleoedd o wahanol raddau, dylid cyfeirio'r datblygiad at y tir o'r radd isaf.

3.7.3 Mae ochr ddwyreiniol Powys yn cynnwys pedair ardal ansawdd tir Gradd 2 a nifer o ardaloedd ansawdd tir Gradd 3. Mae cyfran uchel o dir Powys o ansawdd amaethyddol gwael iawn – mae 95% yn radd 4 neu 5 (sy'n fwy nag unrhyw Sir wledig arall yng Nghymru) ac mae 86% dan anfantais ddifrifol, lefel y mae dau awdurdod o gymoedd y de yn unig yn mynd y tu hwnt iddi. Yn 2017, roedd Powys yn cynnwys yr hectarau canlynol ar gyfer tir amaethyddol a oedd yn fwy addas ar gyfer pori da byw na thyfu cnydau[187]:

[186] https://llyw.cymru/dosbarthiad-tir-amaethyddol-y-map-rhagweld
[187] StatsCymru (2017) 'Math o dir Amaethyddol yn (Ha) ôl ardal'. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Agriculture/Agricultural-Survey/Area-Survey-Results/type-of-agricultural-land-to-area, aed at y wefan ar 16.06.2022.

- Glaswellt Newydd = 32,985
- Glaswellt Parhaol = 281,247
- Pori garw = 68,153
- Coetir = 25,094
- Pob Tir Arall = 3,167

3.7.4 Yn 2017, roedd Powys yn cynnwys y symiau canlynol o dda byw[188]:

- Cyfanswm y Lloi a Gwartheg 194,070
- Cyfanswm y Moch 6,273
- Cyfanswm y Defaid ac Ŵyn 3,928,913
- Cyfanswm yr Adar 3,777,970

3.7.5 O holl ranbarthau Cymru, Powys sy'n cynnwys y nifer mwyaf o dda byw, gan ragori'n sylweddol ar y rhanbarthau eraill ym mhob categori a nodir.

3.7.6 Noda **Tabl 3.11** yr hectarau o dir a ddefnyddir ar gyfer gwahanol fathau o gnydau ym Mhowys ac mae'n amlygu bod maint y tir a ddefnyddir ar gyfer cnydau wedi cynyddu rhwng y cyfnod o 2007 hyd 2017.

3.7.7 Mae gan ardal y Canolbarth rai o'r priddoedd mwyaf dwys yng Nghymru o ran carbon, ac mae diogelu'r priddoedd hyn yn bwysig er mwyn diogelu storfeydd carbon a chyfyngu ar allyriadau $CO_2$.

3.7.8 Dylai'r defnydd o fapio carbon yn y pridd lywio dosbarthiad gofodol datblygiadau mewn CDLlau (tudalen 94, Low Carbon Wales Resource Bank) yn ogystal â blaenoriaethu meysydd i'w cadw a'u hadfer. Gwnaed gwaith mapio carbon gan Cyfoeth Naturiol Cymru y gellir ei ddefnyddio i helpu yn y broses CDLl.

3.7.9 Mae gan Ganolbarth Cymru (a Phowys) adnodd coedwigaeth fasnachol sylweddol, y mae ardaloedd sylweddol ohono mewn perchnogaeth gyhoeddus[189], sydd yn ei thro wedi ymrwymo i egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR)[190].

3.7.10 Gall halogi tir ddigwydd o ganlyniad i ddefnydd diwydiannol blaenorol a gall ddeillio hefyd o ffynonellau naturiol yn ogystal â gweithgareddau dynol. Gall presenoldeb halogiad olygu risgiau i iechyd dynol, eiddo a'r amgylchedd, gan gynnwys cyfyngiadau hirdymor ar y defnydd o briddoedd.

---

[188] StatsCymru (2017) 'Cyfanswm y da byw yng Nghymru yn ôl ardal'. Ar gael yn:
[188]https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Agriculture/Agricultural-Survey/Area-Survey-Results/total-livestock-in-wales-by-area, aed at y wefan ar 18.07.2022.
[189] Gweler https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/691525/niwt_mid.pdf
[190] https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/strategies-and-plans/area-statements/mid-wales-area-statement/forestry-resources/?lang=cy


Tabl 3.11 Cnydau (Ha) yn ôl ardal – Powys 2007 a 2017[191]

| Math o Gnwd | 2007 | 2017 |
|---|---|---|
| **Gwenith** | 2,872 | 3,938 |
| **Haidd y Gaeaf** | 1,118 | 1,165 |
| **Haidd y Gwanwyn** | 1,282 | 1,892 |
| **Ceirch** | 996 | 1,210 |
| **Grawnfwydydd eraill i'w cyfuno** | 217 | 178 |
| **Tatws a gynaeafwyd erbyn 31 Gorffennaf** | 21 | 4 |
| **Tatws a gynaeafwyd ar ôl 31 Gorffennaf** | 343 | 322 |
| **Cnydau ar gyfer Bwydo Stoc** | 1,342 | 4,161 |
| **Ffa Meysydd a Phys** | 78 | 174 |
| **India-corn** | 1,017 | 1,653 |
| **Rêp had olew** | 490 | 349 |
| **Cnydau Eraill** | 231 | 364 |
| **Braenar Noeth** | 202 | 262 |
| **Cyfanswm y Cnydau Âr a'r Braenarau Noeth** | 10,211 | 15,671 |

3.7.11 Mae mawn yn adnodd pridd pwysig ochr yn ochr â bod yn storfa Carbon Deuocsid pwysig, ac mae **Ffigur 3.30** yn nodi lleoliad mawn ym Mhowys a'r awdurdodau lleol o'i chwmpas. Mae mawndiroedd Cymru mewn gwahanol gyflyrau o ran pydredd, a noda **Ffigur 3.31** pa ardaloedd o fawndir a gafodd ofal adferol yn 2021-2021 y mae llawer ohonynt ym Mhowys.


[191] StatsCymru (2017) 'Cnydau (Ha) yn ôl ardal'. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Agriculture/Agricultural-Survey/Area-Survey-Results/crops-in-hectares-by-area, aed at y wefan ar 18.07.2022.

Ffigur 3.3 Map Mawn Cymru[192]




[192] Cyfoeth Naturiol Cymru (2021) 'Porth Data Mawndiroedd Cymru'. Ar gael yn: Porth Data Mawndiroedd Cymru | Wales Environmental Information Portal (arcgis.com), aed at y wefan ar 18.07.2022.

Ffigur 3.4 Map yn dangos lleoliad safleoedd adfer yn 2020/21, a'r prif fath o weithgaredd adfer ym mhob un, wedi'u troshaenu ar y Map Mawn Unedig[193]




## Daeareg

3.7.12 Mae Powys yn elwa ar adnoddau daearegol sylweddol o ystyried maint y Sir a'i natur mynyddig a bryniog. Mae Powys yn cynnwys 78 o Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol, sy'n bwysig i'r ardal leol, hyd yn oed os nad oes ganddynt ddiogelwch statudol. Yn aml, maent yn gartref i asedau naturiol a ddiogelir yn statudol (megis Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig). Mae'r Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol a leolir yn y Canolbarth mewn safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol[194] o gyflwr da ar y cyfan, ac mae llawer ohonynt wedi eu dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

[193] Cyfoeth Naturiol Cymru (2021) 'Rhaglen Weithredu genedlaethol ar Fawndiroedd: Adroddiad Blwyddyn 1 2020-2021'. Ar gael yn: Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, 2020-2025 (cyfoethnaturiol.cymru), aed at y wefan ar 18.07.2022.
[194] http://lle.gov.wales/catalogue/item/GCRSiteBoundaries/?lang=cy

3.7.13 Mae Geology Wales yn darparu asesiad o'r holl Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol yng nghanolbarth Cymru ac mae'n darparu'r crynodeb canlynol am ddaeareg yr ardal hon[195]:

> *"Mae llawer o Ganolbarth Cymru yn cynnwys creigiau gwaddodol morol Ordofigaidd a Silwraidd, a ddyddodwyd ym Masn Cymru y Paleosöig Isaf pan oedd Cymru, yn rhan o Afalonia, yn gorwedd o dan fôr bas ar ochr de-ddwyrain cefnfor mawr Iapetws. Ar ei hochr draw, roedd yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhan o gyfandir Lawrensia.*
>
> *Dominyddir y creigiau a osodwyd ym Masn Cymru gan ddilyniannau o dywodfaen, lleidfaen a cherrig llaid. Cyfeirir at lawer o'r dilyniannau hyn fel tyrbiditau, oherwydd eu bod wedi eu dyddodi o gerhyntau aflonydd tanforol wedi eu llwytho â gwaddodion, a lifodd oddi ar yr ardaloedd ysgafell basach i lawr dwfn y basn.*
>
> *Bu gweithgarwch folcanig yn lleol, yn nodedig yn ardaloedd y Trallwng a Llanfair-ym-Muallt. Cynhyrchodd y gweithgarwch hwn lifau lafa basaltaidd a mewnwthiadau dolerit y mai rhai ohonynt wedi eu chwarelu am gerrig adeiladu a chlobynfeini."*

## Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

3.7.14 Mae ffermio yn rhan allweddol o economi, diwylliant a thirwedd Powys. Nid yw adnoddau pridd yn ddiderfyn, ac mae angen sicrhau y'u defnyddir effeithiol i greu twf economaidd, gan warchod yr amgylchedd naturiol ar yr un pryd. Byddai Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn gallu diogelu adnoddau pridd pwysig Powys ymhellach a sicrhau bod y math cywir o dir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer datblygiad.

3.7.15 Ni fydd gan Bowys ddigon o safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen i ddarparu ar gyfer ei thwf economaidd a thwf ei phoblogaeth, yn bennaf oherwydd bod safleoedd o'r fath eisoes wedi eu datblygu a natur wasgaredig amgylchedd adeiledig y Sir.

3.7.16 Oherwydd mwyngloddio a hanes amaethyddol y Sir, mae'n cynnwys llawer o safleoedd halogedig hirdymor. Gallai Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n newydd ddarparu'r weledigaeth strategol angenrheidiol i gywiro rhai o'r safleoedd halogedig hyn.

3.7.17 Byddai cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n newydd hefyd yn gallu darparu polisïau cyfoes yn well sy'n diogelu priddoedd, tir, mawn ac asedau daearegol y Sir.

## Materion Cynaliadwyedd Allweddol

- Yr angen i annog datblygiadau ar dir (llwyd) a ddatblygwyd yn flaenorol yn dilyn asesiad o'i werth bioamrywiaeth.
- Yr angen i ddiogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.
- Yr angen i ddiogelu a gwella safleoedd a ddynodwyd er eu diddordeb daearegol.
- Yr angen i ddiogelu adnoddau mawndir y Sir.

[195] Geology Wales (2022) 'About Geodiversity'. Ar gael yn: http://www.geologywales.co.uk/central-wales-rigs/geol.htm, aed at y wefan ar 18.07.2022.

## 3.8 Dŵr

### Ansawdd Dŵr

3.8.1 Mae ansawdd dŵr yn cefnogi bioamrywiaeth ac iechyd; ac mae afonydd, llynnoedd, nentydd a mannau glas iach eraill yn amwynder adloniadol pwysig, sy'n gwella llesiant ac yn hybu'r economi. Mae ansawdd dŵr, adnoddau a llifogydd yn dod yn fater cynyddol bwysig yng ngoleuni'r newid yn yr hinsawdd.

3.8.2 Mae'r prif afonydd sy'n llifo drwy Bowys yn cynnwys afonydd Hafren, Efyrnwy, Tanat, Gwy, Wysg, Irfon, Ieithon, Dyfi, Tawe a Llugwy[196].

3.8.3 Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ceisio gwella ansawdd dŵr ledled yr UE. Mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn darparu gwybodaeth am ansawdd dyfroedd. Mae gan Bowys ddyfroedd yn ardal Cynllun Rheoli Basn Afon Ardal Hafren ac yn ardal Cynllun Rheoli Basn Afon gorllewin Cymru. Cyhoeddwyd y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd diweddaraf yn 2015, cyhoeddwyd drafftiau ar gyfer y rownd nesaf o gynlluniau er mwyn ymgynghori rhwng mis Hydref 2021 a mis Ebrill 2022, gyda gwelliannau i'w gwneud yn seiliedig ar y sylwadau a geir.

3.8.4 Mae'r ardaloedd yng Nghynllun Rheoli Basn Afon Ardal Hafren yn cynnwys:

- Ucheldir Hafren;
- Gwy;
- Wysg;
- Llugwy / Tefediad


3.8.5 Mae'r ardal yng Nghynllun Rheoli Basn Afon Ardal Gorllewin Cymru yn cynnwys:

- Crynoadau Gogledd-orllewin Cymru
- Dalgylch Afon Ogwr i Afon Tawe

3.8.6 Noda **Ffigur 3.32** isod ardaloedd basn afon yng Nghymru.

[196] Cyngor Sir Powys (2019) Cynllun Datblygu Lleol Powys (2011-2026) Canllawiau Cynllunio Ategol. Ar gael yn: Land Drainage and Flooding SPG WG Dec 2019.pdf (moderngov.co.uk), aed at y wefan ar 08.07.2022.

Ffigur 3.32 Ardaloedd Basn Afon yng Nghymru[197]




[197] Cyfoeth Naturiol Cymru (2021) 'Atodiad Trosolwg Cynlluniau Rheoli Basn Afon Cymru'. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/river-basin-management-plans/river-basin-management-plans-published/?lang=cy, aed at y wefan ar 11.07.2022.

3.8.7 Ystyrir ansawdd dŵr ar gyfer dyfroedd wyneb a daear. Caiff ansawdd dŵr wyneb ei fonitro am ei statws ecolegol a'i statws cemegol. Ceir pum categori: Drwg, Gwael, Cymedrol, Da, ac Uchel. Ar gyfer dyfroedd wyneb, mae dau ddosbarthiad ar wahân ar gyfer cyrff dŵr: ecolegol a chemegol. I gorff dŵr gael statws da cyffredinol, mae'n rhaid i'r statws ecolegol a chemegol fod yn 'dda', o leiaf.

3.8.8 Mae'r ystyriaeth ansawdd dŵr daear yn seiliedig ar yr egwyddor ragofalus gyda'r nod o leihau'r effaith anthropogenig cymaint â phosibl, gyda rhagdybiaeth o'i chymharu â gollwng yn uniongyrchol i ddŵr daear. Mae gofyniad i'r dŵr a dynnir fod yn llai na'r gyfradd ail-lenwi.

3.8.9 Mesurir y nifer ar statws da neu ddrwg. Mae dau ddosbarthiad ar wahân ar gyfer cyrff dŵr daear: statws cemegol a statws meintiol. Mae'n rhaid adrodd pob un yn ogystal â statws cyffredinol y corff dŵr daear. I gorff dŵr daear gael statws da yn gyffredinol, mae'n rhaid i'r statws cemegol a'r statws meintiol fod yn dda. Yn ogystal ag asesu'r statws, mae'n ofynnol hefyd nodi ac adrodd ble mae ansawdd y dŵr daear yn dirywio oherwydd llygredd, a allai arwain at ddirywiad mewn statws yn y dyfodol.

3.8.10 Mae Cynllun rheoli basn afon ardal basn Afon Hafren (2015) yn nodi sawl mater rheoli dŵr sylweddol sy'n wynebu ardal Basn Afon Hafren[198]:

- Addasiadau ffisegol – sy'n effeithio ar 27% o gyrff dŵr yn yr ardal basn afon hon
- Llygredd o ddŵr gwastraff – sy'n effeithio ar 29% o gyrff dŵr yn yr ardal basn afon hon
- Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth – sy'n effeithio ar 12% o gyrff dŵr yn yr ardal basn afon hon
- Newidiadau i lif naturiol a lefel y dŵr – sy'n effeithio ar 7% o gyrff dŵr yn yr ardal basn afon hon
- Effeithiau negyddol rhywogaethau anfrodorol ymledol – sy'n effeithio ar <1% o gyrff dŵr yn yr ardal basn afon hon
- Llygredd o ardaloedd gwledig – sy'n effeithio ar 40% o gyrff dŵr yn yr ardal basn afon hon
- Llygredd o fwyngloddiau sydd wedi eu gadael – sy'n effeithio ar 2% o gyrff dŵr yn yr ardal basn afon hon

3.8.11 O 2015, o'r 755 o gyrff dŵr wyneb sy'n ffurfio Ardal Basn Afon Hafren, sgoriodd 8 yn ddrwg, sgoriodd 134 yn wael, sgoriodd 462 yn gymedrol a sgoriodd 151 yn dda o ran eu statws ecolegol neu eu potensial[199]. Mae statws cemegol y cyrff dŵr hyn wedi ei rannu rhwng 35 yn methu a 720 yn cael sgôr da[200]. O ran dyfroedd daear (sy'n cynnwys 42 o gyrff dŵr), sgoriodd 9 yn wael a sgoriodd 33 yn dda o ran eu statws meintiol[201]. O ran eu statws cemegol, sgoriodd 15 yn wael a sgoriodd 27 yn dda[202].

[198] Asiantaeth yr Amgylchedd (2015) Cynllun rheoli basn afon ardal basn Afon Hafren. Ar gael yn: Cynllun rheoli basn afon ardal basn Afon Hafren – GOV.UK (www.gov.uk), aed at y wefan ar 08.07.2022.
[199] Ibid, tudalen 24.
[200] Ibid.
[201] Ibid.
[202] Ibid.

3.8.12 Noda Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2022203 fod 40% o’r cyrff dŵr yn ardaloedd rheoli basnau gorllewin Cymru wedi cyflawni’n dda neu’n well yn gyffredinol yn 2015, gyda chanlyniadau diweddaraf dosbarthiad 2021 yn dangos bod 42% o’r cyrff dŵr wedi cyflawni statws da neu well yn gyffredinol. Dengys data ar gyfer 2021, ar gyfer afonydd (heb gynnwys camlesi), fod 94% o’r elfennau mewn statws da neu well, 89% ar gyfer llynnoedd, 88% ar gyfer dyfroedd trosiannol, 92% ar gyfer dyfroedd arfordirol, 69% ar gyfer camlesi a 93% ar gyfer dŵr daear.

3.8.13 Mae Materion Rheoli Dŵr Sylweddol sy’n ymwneud â’r hyn a ganlyn:

- Addasiadau ffisegol. Newidiadau o waith dyn i’r cynefin naturiol, er enghraifft amddiffynfeydd rhag llifogydd a choredau sydd wedi eu dylunio’n wael neu sy’n segur, a newidiadau i’r sianeli afonydd naturiol ar gyfer draenio tir a mordwyo a physgodfeydd pysgod cregyn ar aberoedd ac mewn dyfroedd arfordirol. Gall yr addasiadau hyn achosi newidiadau i lefelau llif naturiol, gwaddodion sy’n cronni’n ormodol, a chynefin a gollir sydd ei angen ar fywyd gwyllt i ffynnu.
- Llygredd o garthion a dŵr gwastraff. Gall dŵr gwastraff gynnwys llawer o faetholion (megis ffosfforws a nitradau), amonia, bacteria a sylweddau niweidiol eraill.
- Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth. Dŵr glaw sy’n rhedeg dros wynebau o waith dyn ac sy’n cario llygryddion i ddyfroedd, sylweddau gwenwynig o dir halogedig, llygredd atmosfferig sy’n achosi asideiddio a charthion o dai sydd wedi eu camgysylltu i ddraeniau dŵr wyneb yn hytrach na charthffosydd.
- Llygredd o ardaloedd gwledig. Gall arferion amaethyddol a choedwigaeth wael arwain at faetholion a gwaddodion sy’n effeithio ar yr amgylchedd dŵr (a elwir hefyd yn lygredd gwledig gwasgaredig.
- Llygredd o fwyngloddiau. Dŵr halogedig sy’n draenio o fwyngloddiau y mae’r mwyafrif ohonynt wedi eu gadael bellach.

3.8.14 Noda **Tabl 3.12** ansawdd cyrff dŵr ym Mhowys ar gyfer 2019.

Tabl 3.12 Canran y Cyrff Dŵr sydd â statws ‘Da’ yn Ardal CDLl Powys[204]

| Dosbarthiad y cyrff dŵr | 2019 |
|---|---|
| Dyfroedd wyneb – statws ‘da’ | 45.2% |
| Dyfroedd wyneb – statws ‘cymedrol’ | 43.1% |
| Dyfroedd wyneb – statws ‘gwael’ | 10.5% |
| Dyfroedd wyneb – statws ‘drwg’ | 1.2% |

[203] https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/river-basin-management-plans/river-basin-management-plans-2021-2027/?lang=cy
[204] Cyngor Sir Powys (2022) ‘Adroddiad Monitro Blynyddol 2022’, tudalen 210.

| Dosbarthiad y cyrff dŵr | 2019 |
|---|---|
| Dyfroedd daear – statws 'da' | 41.2% |
| Dyfroedd daear – statws 'gwael' | 58.8% |

3.8.15 Mae cyrff dŵr dynodedig afonol ACA yn ACA Afon Gwy wedi bod yn methu â chyrraedd terfynau ffosfforws ers iddynt gael eu tynhau yn 2016 gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Mae'r crynhoad hwn yn cwmpasu llawer iawn o hanner deheuol ardal Powys, sy'n arwain at effeithiau ar ddatblygiadau[205].

*3.8.16* Mae Asesiad Llesiant Powys 2022[206] yn nodi: *"mae amrywiaeth o bwysau yn peryglu iechyd ein hecosystemau dŵr croyw, gan gynnwys newid hinsawdd, llygredd gwasgaredig a llygredd o darddle penodol, addasu ffisegol, tynnu dŵr, a rhywogaethau estron goresgynnol. Mae cyrsiau dŵr lleol, yn nalgylch Afon Gwy yn enwedig, yn dioddef o gynnydd mewn llygredd maethynnau sy'n deillio o amaethyddiaeth a datblygu. Mae planhigion estron goresgynnol hefyd yn bygwth cynefinoedd ledled Powys."* O ganlyniad, *"mae angen mynd i'r afael â materion ansawdd dŵr drwy ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:*

- *cefnogi busnesau fferm i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd*
- *cymryd camau i leihau achosion o lygredd drwy reoli ffynonellau llygredd posibl yn well (megis storfeydd slyri a thail)*
- *gweithio gyda busnesau, cymunedau a llunwyr polisi er mwyn adolygu polisïau a chynlluniau amaethyddol cyfredol ac archwilio dewisiadau newydd ar gyfer talu am Wasanaethau Ecosystem*
- *rheoli ein hadnoddau dŵr i wella ansawdd a chyfaint y dŵr sydd ar gael, heb achosi niwed i'r amgylchedd naturiol"*

## Adnoddau Dŵr

3.8.17 Mae Hafren Dyfrdwy yn cyflenwi dŵr o'r prif gyflenwad i ogledd Powys o dyniad dŵr daear mawr yn nyffryn Hafren. Mae Dŵr Cymru yn cyflenwi prif bibellau i'r dwyrain o Bowys o dyniad dŵr daear mawr yn Nyffryn Llugwy, a chyflenwad hefyd o'r prif gyflenwad dŵr o nifer o dyniadau dŵr daear llai ledled y Sir. Hefyd, mae'r Sir yn cynnal nifer o gronfeydd dŵr y mae dau ohonynt yn cyflenwi dŵr i ddinasoedd Birmingham a Lerpwl.

3.8.18 Yr adnoddau dŵr cynhenid ym Mhowys yw afonydd Hafren, Efyrnwy, Tanat, Gwy, Wysg, Irfon, Ieithon, Dyfi, Tawe a Llugwy, yn ogystal ag amryw o gronfeydd dŵr gan gynnwys Brynbuga, Cwm Elan, Llyn Efyrnwy a Phontsticill.

---

[205] Cyngor Sir Powys (2022) Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Powys 2022
[206] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys (2022) Asesiad Llesiant. Ar gael yn: Asesiad Llesiant Llawn – Mawrth 2022, tud.151.

3.8.19 Mae 6 pharth adnoddau dŵr yn ardal Powys. Gorchuddir ardal fawr o Bowys gan Barth Adnoddau Dŵr Elan – Llanfair-ym-Muallt. Mae Dŵr Cymru yn cyflenwi'r ardal hon o ddwy ffynhonnell, Cronfeydd Dŵr Cwm Elan a thyniad o Afon Gwy yn Llanfair-ym-Muallt[207].

3.8.20 Mae 3 pharth adnoddau dŵr arall ym Mhowys a gyflenwir gan Dŵr Cymru: Llys-wen, Pyllalai ac Aberhonddu – Portis. Mae Llys-wen yn cwmpasu nifer o gymunedau bychain o amgylch y Gelli Gandryll drwy dyniad o Afon Gwy. Nid oes mewnforion i'r parth adnoddau dŵr, fodd bynnag, mae'n allforio i Barth Adnoddau Dŵr Vowchurch yn ôl yr angen[208]. Mae Parth Adnoddau Dŵr Pyllalai yn cyflenwi'r ardal o amgylch Llanandras a thref gyfagos Trefyclo. Fe'i cyflenwir gan 4 twll turio yn y ddyfrhaen raean ger Afon Llugwy ym Mhyllalai ac nid oes mewnforion nac allforion dŵr[209]. Mae ardal Aberhonddu – Portis yn cwmpasu blaenddyfroedd Afon Wysg, ger Cronfa Wysg, Aberhonddu a Phontsenni. Mae Cronfa Wysg yn cyflenwi Gwaith Trin Dŵr Bryngwyn a Phortis yn uniongyrchol ac mae'n cefnogi tyniadau dŵr yn yr Wysg isaf pan fo sychder. Hefyd, mae 3 thwll turio yn y ddyfrhaen raean yn Aberhonddu, gerllaw Brynbuga, i fodloni gweddill y galw yn yr ardal. Does dim mewnforion, fodd bynnag, allforir o Gronfa Ddŵr Wysg i Fryngwyn i gefnogi CUS Tywi[210].

3.8.21 Mae pob un o'r 4 parth adnoddau dŵr hyn yn rhagweld cynnydd yn y boblogaeth, a serch hynny, gostyngiad yn y galw am ddŵr ar ôl 2030. Maen nhw i gyd wedi eu hasesu fel rhai sy'n weddol gydnerth i effeithiau newid hinsawdd, ac mae gan Pyllalai ac Aberhonddu – Portis wargedion mawr o ddŵr. Disgwylir y bydd y cyflenwad yn parhau i ateb y galw ac y bydd yn dechrau troi'r fantol yn erbyn hyn ymhellach erbyn 2050[211].

3.8.22 Mae Llandinam a Llanwrin, a Llanfyllin ill dau yn barthau adnoddau dŵr ym Mhowys a gyflenwir gan Hafren Dyfrdwy[212]. Parth adnoddau dŵr, dŵr daear yn unig, yw'r blaenorol, sy'n dibynnu ar dyniadau dŵr o dyllau turio sy'n gysylltiedig â dyfrhaenau sy'n ddibynnol ar Afon Hafren. Mae'r parth adnoddau dŵr yn defnyddio mewnforion ac allforion rhwng Parthau Adnoddau Dŵr Shelton a Bishop's Castle[213]. Parth adnoddau dŵr mewnforio swmp yw Llanfyllin, sy'n ddibynnol ar drosglwyddiadau gan Severn Trent. Nid oes ganddi unrhyw ffynonellau dŵr ei hun yn yr ardal, yn lle hynny, mae'n derbyn trosglwyddiadau o Shelton a Maerdy[214].

3.8.23 Gallai Llandinam a Llanwrin fod yn sensitif i effeithiau newid hinsawdd oherwydd bod y tyllau turio mewn parhad hydrolig ag Afon Hafren. Fodd bynnag, defnyddir Cronfa Ddŵr Clywedog i fyny'r afon i reoli llifau yn ystod cyfnodau sych, felly aseswyd bod ei bregusrwydd i newid yn yr hinsawdd yn isel, a bod ganddi ostyngiad sero i isel yn yr allbwn y gellir ei ddefnyddio[215]. Oherwydd bod Llanfyllin yn ddibynnol ar drosglwyddiadau, bydd y cwmni dŵr cyfrannol neu'r parth adnoddau dŵr yn ystyried yr effeithiau newid hinsawdd[216].

[207] Dŵr Cymru (2019) Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol 2019.
[208] Ibid, tudalen 164.
[209] Ibid, tudalen 168.
[210] Ibid, tudalen 170.
[211] Ibid.
[212] Hafren Dyfrdwy (2019) Water Resources Management Plan: Appendix A – How much water do we have available? Ar gael yn: Appendix-A-Supply-fWRMP.pdf (hdcymru.co.uk), aed at y wefan ar 08.07.2022.
[213] Ibid, tudalen 20.
[214] Ibid, tudalennau 12 a 30.
[215] Ibid, tudalen 20.
[216] Ibid, tudalen 21.

## Risg Llifogydd

3.8.24 Ym Mhowys, mae 9,613 eiddo mewn perygl o lifogydd[217]:

- 5,700 risg isel
- 1,429 risg ganolig
- 2,484 risg uchel

3.8.25 Mewn rhai ardaloedd, llifogydd afonol o afonydd Hafren, Efyrnwy, Tanat, Gwy, Wysg, Irfon, Ieithon, Dyfi, Tawe a Llugwy yw'r prif darddiad risg llifogydd; mae hyn yn cynnwys aneddiadau Llanidloes, y Drenewydd, Meifod a Llanfair-ym-Muallt. Mae trefi ym Mhowys sy'n agored i lifogydd dŵr wyneb yn cynnwys y Trallwng, Talgarth (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) a'r Drenewydd. Nid oes unrhyw wybodaeth leol am lifogydd hanesyddol sy'n deillio o ddŵr daear, sy'n awgrymu bod y perygl o lifogydd sy'n deillio o ddŵr daear yn isel ym Mhowys. Amlyga **Ffigur 3.3** (uchod) yr ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ym Mhowys[218]. Noda **Tabl 3.13** y cymunedau sydd yn y perygl mwyaf o lifogydd ym Mhowys.

Tabl 3.13 Y deg cymuned sydd â'r perygl mwyaf o lifogydd ym Mhowys[219]

| Awdurdod Lleol | Afon | Llanw | Glaw | Cyfunol | Ardal sydd mewn Perygl Sylweddol oherwydd Llifogydd 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Powys** | Llanfyllin<br>Carno Plas Llysyn<br>Aberhonddu<br>Trefyclo<br>Cilcewydd<br>Llanfrynach<br>Llanandras<br>Llandiloes<br>Llangatwg | Amherthnasol | Ystradgynlais, Y Drenewydd, Llandrindod, Aberhonddu, Y Trallwng, Llanidloes, Machynlleth, Penrhos, Llanllwchaearn, Llanfair Caereinion | Ystradgynlais, Y Drenewydd, Aberhonddu, Llanfyllin, Llandrindod, Carno, Llanidloes, Y Trallwng, Plas Llysyn, Trefyclo, Llanfair Caereinion | Dim |

[217] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys (2022) Asesiad Llesiant. Ar gael yn: FULL_Well-being_Assessment_-_March_2022 (1).pdf, aed at y wefan ar 12.07.2022.
[218] Cyngor Sir Powys (2019) Cynllun Datblygu Lleol Powys (2011-2026) Canllawiau Cynllunio Atodol. Ar gael yn: Land Drainage and Flooding SPG WG Dec 2019.pdf (moderngov.co.uk), aed at y wefan ar 08.07.2022.
[219] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys (2022) Well-Being Assessment. Ar gael yn: FULL_Well-being_Assessment_-_March_2022 (1).pdf, aed at y wefan ar 12.07.2022.

3.8.26 Bydd TAN 15 diwygiedig ynghyd â'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn dod i rym ym mis Mehefin 2023. Yn ei ffurf bresennol, mae'r TAN diwygiedig yn mynnu bod pob datblygiad newydd yn rhydd o lifogydd yn y digwyddiad Newid Hinsawdd 100/200 mlynedd + ((yn hytrach na'i leihau o fewn ardaloedd risg uchel o lifogydd), ac nid yw'n caniatáu Datblygiadau Agored Iawn i Niwed ym mharth 3. Bydd angen i ddatblygiadau a gynigir ym Mharth 2 fodloni'r profion cyfiawnhad a'r maen prawf derbynioldeb canlyniadau (ynghylch bregusrwydd defnyddiau a thir a ddatblygwyd o'r blaen).

3.8.27 Bydd gwybodaeth fanylach ar gael yn yr SFCA (Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd), a fydd yn brif ffynhonnell tystiolaeth i lywio'r cynllun a pholisïau perygl llifogydd penodol lleol, a gwaith dalgylchoedd cyfle'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sy'n dod i'r amlwg.

## Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

3.8.28 Cafodd Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd y cofnodir yr wybodaeth waelodlin ohoni eu cwblhau yn 2015. Mae Cynllun rheoli basn afon ardal basn Afon Hafren (2015) yn pwysleisio bod buddsoddiad sylweddol wedi mynd i gadw Ardal Basn Afon Hafren, sydd wedi creu llawer o fanteision. Fodd bynnag, mae’r ddogfen hefyd yn nodi y bu gostyngiad yng nghyfanswm y cyrff dŵr sydd â statws da ers 2009, er ei bod yn bwysig nodi bod dogfen 2015 yn cynnwys monitro llymach a mwy cadarn na dogfen 2009, sy’n golygu efallai nad oes unrhyw newid/dewteradu go iawn mewn cyrff dŵr oherwydd eu bod ond yn cael eu dal i safon fwy newydd ac uwch[220].

3.8.29 Mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd Ardal Gorllewin Cymru (2015) yn nodi bod nifer y cyrff dŵr sydd wedi sgorio’n dda neu’n well wedi codi o 30% i 38% ers 2009. Disgwylir i’r tuedd hwn o gyrff dŵr yng Nghynllun Rheoli Basn Afon Ardal Gorllewin Cymru barhau[221].

3.8.30 Mae datblygiadau newydd yn debygol o roi pwysau ychwanegol ar yr amgylchedd dŵr drwy’r lefelau galw a gollwng, sydd wedi ysgogi canllawiau CNC ar ymdrin â cheisiadau cynllunio a allai effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonydd sy’n sensitif i ffosfforws[222] [223]. Yn y cyd-destun hwn, mae Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru (2015) yn rhagweld y bydd Parth Adnoddau Dŵr Aberhonddu yn parhau i fod yn warged hyd at 2050[224].

3.8.31 Mae’n debygol y bydd statws ecolegol a chemegol dŵr wyneb yn gwella. Mae’n debygol hefyd y bydd cyfaint y dŵr daear yn gwella. Y rheswm am hyn yw bod trwyddedau Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod tyniadau a gollyngiadau ffynhonnell dŵr ac ymyriadau eraill yn cael eu gwneud i gyflawni targedau y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr erbyn 2027, er enghraifft Cynllun Rheoli Maetholion Afon Gwy (2014) ac Adolygu prosesau Cydsyniadau.

---

[220] Asiantaeth yr Amgylchedd (2015) Cynllun rheoli basn afon ardal basn Afon Hafren. Ar gael yn: Cynllun rheoli basn afon ardal basn Afon Hafren – GOV.UK (www.gov.uk), aed at y wefan ar 08.07.2022.
[221] Asiantaeth yr Amgylchedd (2015) Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2015-2021 Crynodeb. Ar gael yn: Crynodeb Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru (cyfoethnaturiol.cymru), aed at y wefan ar 08.07.2022.
[222] CNC (2022): https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/our-role-in-planning-and-development/advice-to-planning-authorities-for-planning-applications-affecting-phosphorus-sensitive-river-special-areas-of-conservation/?lang=cy
[223] Deall ffynonellau ffosfforws yn ein hafonydd | Dŵr Cymru Welsh Water (dwrcymru.com)
[224] Dŵr Cymru (2019) Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol 2019.

3.8.32 Er y gall datblygiadau nad ydynt wedi eu cynllunio arwain at y posibilrwydd o orlwytho rhywfaint o'r seilwaith gan arwain at ddigwyddiadau o lygredd, ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cwmnïau Dŵr ar bob cais ac maent yn cael cyfle i wrthwynebu datblygiadau pan fyddai hyn yn digwydd.

3.8.33 Yn yr un modd, gall datblygiad nad yw wedi ei gynllunio roi pwysau annisgwyl ar dyniad dŵr. Unwaith eto, ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cwmnïau Dŵr ar bob cais ac maent yn cael cyfle i wrthwynebu datblygiadau.

3.8.34 Bydd risg llifogydd yn y dyfodol yn cael ei ddylanwadu gan y modd y mae'r tir wedi ei ddatblygu/rheoli ynghyd ag arferion amaethyddol a newid hinsawdd. Y disgwyl yw mai newid hinsawdd yw'r sbardun newid mwyaf, a gallai newidiadau i ddefnydd tir gwledig megis gostyngiad mewn gorchudd coedwigoedd gael rhywfaint o effaith hefyd.

3.8.35 Mae modelu a wnaed i gefnogi cynlluniau rheoli llifogydd y crynhoad wedi bod yn seiliedig ar gynnydd o 20% yn llif uchaf yr afon ym mhob cwrs dŵr a chyfanswm o un i ddau fetr o gynnydd yn lefel y môr erbyn 2100. Bydd newid hinsawdd yn golygu y bydd rhai ardaloedd sydd eisoes mewn perygl o lifogydd yn cael mwy o lifogydd, a hynny'n amlach, a bydd nifer cynyddol o eiddo yn canfod eu hunain mewn ardal lle mae risg llifogydd.

### Materion Cynaliadwyedd Allweddol

- Yr angen i ddiogelu a gwella ansawdd ffynonellau dŵr yn ardal Powys
- Yr angen i hybu'r defnydd effeithlon o adnoddau dŵr.
- Yr angen i sicrhau y darperir seilwaith o wasanaethau dŵr newydd mewn pryd i ateb y galw sy'n deillio o ddatblygiad newydd.
- Yr angen i leoli datblygiadau newydd oddi wrth ardaloedd lle mae risg llifogydd, gan ystyried effeithiau newid hinsawdd.
- Yr angen i ddod yn fwy addasol a chydnerth i ddigwyddiadau llifogydd.

## 3.9 Ansawdd yr Aer

3.9.1 Mae fframweithiau a chanllawiau deddfwriaethol mewn cysylltiad ag ansawdd yr aer wedi eu sefydlu ar lefel Ewrop a'r DU. Nod polisïau yw lleihau amlygiad i lygryddion penodol drwy leihau allyriadau a phennu targedau ar gyfer ansawdd yr aer. Sbardunir y polisïau gan nodau Cyfarwyddeb Ansawdd Aer yr UE (2008/50/EC)[225]. Yr amcan allweddol yw helpu i leihau gymaint â phosibl yr effeithiau negyddol ar iechyd dynol a'r amgylchedd. Mae'r Gyfarwyddeb yn pennu canllawiau fel y gall aelod-wladwriaethau weithredu targedau ansawdd yr aer yn effeithiol.

[225] European Commission (2008) Directive 2008/50/EC on ambient air quality and cleaner air for Europe. Ar gael yn: http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=celex:32008L0050, aed at y wefan ar 08.07.2022.

3.9.2 Pennodd Strategaeth Ansawdd Aer Cenedlaethol y DU[226] safonau ar sail iechyd ar gyfer wyth llygrydd allweddol ac amcanion er mwyn eu cyflawni nhw. Pwrpas hyn yw sicrhau lefel o ansawdd aer amgylchynol mewn mannau cyhoeddus sy'n ddiogel i iechyd dynol ac ansawdd bywyd. Mae'n cydnabod hefyd efallai y bydd angen gweithredu penodol ar y lefel leol, gan ddibynnu ar raddfa a natur y broblem ansawdd aer. Ers hynny mae Strategaeth Aer Glân 2019[227], sy'n nodi nodau newydd i leihau amlygiad y cyhoedd i lygredd deunydd gronynnol, wedi adeiladu ar hyn.

3.9.3 Mae Cynllun Aer Glân Cymru[228] yn nodi cynllun i wella ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd dynol, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'r economi yng Nghymru.

3.9.4 Trafnidiaeth ar y ffyrdd yw prif achos allyriadau $NO_2$ yng Nghymru. Mae prosesau diwydiannol a chynhyrchu pŵer yn cyfrannu at hyn hefyd, ond mae trafnidiaeth ar y ffyrdd yn cyfrif am draean o'r allyriadau $NO_2$[229]. Ym Mhowys, allyriadau cerbydau yw prif achos llygredd aer. Mae'r economi'n seiliedig ar amaethyddiaeth a thwristiaeth, sy'n gysylltiedig â'i leoliad gwledig a'i boblogaeth brin. Er hyn, mae gan Bowys rwydwaith ffyrdd helaeth, gan gynnwys rhai prif ffyrdd megis yr A470, yr A483 a'r A44[230]. Mae crynodiadau o $PM_{10}$ a $PM_{2.5}$ wedi gostwng ers 2007, o 13.33 i 10.25 ac o 7.43 i 6.53 yn y drefn honno[231].

3.9.5 Mae Asesiad Llesiant Powys[232] yn nodi: *"Mae'r rhan fwyaf o lygryddion aer wedi gostwng yng Nghymru yn ystod y degawdau diwethaf. Fodd bynnag, mae crynodiadau o amonia yn codi ac yn effeithio ar ecosystemau sensitif. Mae allyriadau amonia o'r DU ac Ewrop yn parhau i fod yn uwch na'r trothwyon difrod, gan arwain at fynd y tu hwnt i'r llwythi critigol (dyddodion) yn eang a lefelau critigol (crynodiadau atmosfferig) o ran asidedd ac amonia. Mae'r llygredd hwn hefyd yn cyfrannu at y broses o gynhyrchu osôn, sy'n niweidio llystyfiant yn ogystal ag iechyd dynol."*

3.9.6 Mae allyriadau amaethyddol o ffynonellau amonia newydd yn bryder allweddol ym Mhowys a ledled Cymru[233], a nodwyd yn Asesiad Llesiant Powys eu bod yn gysylltiedig ag *"effeithiau lleol ffynonellau amonia newydd sy'n gysylltiedig ag ehangu datblygiadau dofednod dwys yn gyflym."* Hefyd, *"Mae'r rhan fwyaf o lygryddion aer wedi gostwng yng Nghymru yn ystod y degawdau diwethaf. Fodd bynnag, mae crynodiadau o amonia yn codi ac yn effeithio ar ecosystemau sensitif. Mae allyriadau amonia o'r DU ac Ewrop yn parhau i*

---

[226] Department for Environment, Food and Rural Affairs in partnership with the Scottish Executive, Welsh Assembly Government and Department of the Environment Northern Ireland (2007) The Air Quality Strategy for England, Scotland, Wales and Northern Ireland, Volume 1. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69336/pb12654-air-quality-strategy-vol1-070712.pdf, aed at y wefan ar 08.07.2022.

[227] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2019) Clean Air Strategy 2019. Ar gael yn: Clean Air Strategy 2019 (publishing.service.gov.uk). aed at y wefan ar 20.10.2022

[228] Llywodraeth Cymru (2020) Cynllun Aer Glân Cymru. Ar gael yn: 40794 Cynllun Aer Glan i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach (llyw.cymru), aed at y wefan ar 8.07.2022.

[229] Llywodraeth Cymru (2020) Cynllun Aer Glân i Gymru. Ar gael yn: 40794 Cynllun Aer Glân i Gymru (llyw.cymru), aed at y wefan ar 08.07.2022.

[230] Cyngor Sir Powys (2021) 2021 Adroddiad ar Gynnydd Ansawdd yr Aer. Ar gael yn: Air_Quality_Progress_Report_2021.pdf, aed at y wefan ar 08.07.2022

[231] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys (2022) Asesiad Llesiant. Ar gael yn: Asesiad Llesiant Llawn - Mawrth 2022, aed at y wefan ar 12.07.2022.

[232] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys (2022) Asesiad Llesiant. Ar gael yn: Asesiad Llesiant Llawn - Mawrth 2022, tud. 155.

[233] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys (2022) Asesiad Llesiant. Ar gael yn: Asesiad Llesiant Llawn - Mawrth 2022

*fod yn uwch na'r trothwyon difrod, gan arwain at fynd y tu hwnt i'r llwythi critigol (dyddodion) yn eang a lefelau critigol (crynodiadau atmosfferig) o ran asidedd ac amonia. Mae amonia a llygredd nitrogen o amaethyddiaeth yn effeithio ar 59% o arwynebedd tir Cymru. Yn 2018, roedd 88% o'r cynefinoedd sensitif wedi mynd y tu hwnt i'w llwyth critigol ar gyfer nitrogen atmosfferig (i lawr o 98% yn 2009). Ar hyn o bryd, mae'n cael effaith andwyol ar 29% o'r cynefinoedd sydd fwyaf sensitif o ran planhigion a bywyd gwyllt (Guthrie et al., 2018)."*

3.9.7 Mae amaethyddiaeth yn cyfrannu tua 85% o'r allyriadau amonia yng Nghymru, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn dod o ffermio gwartheg. Y drefn gyffredinol o bwysigrwydd ar gyfer allyriadau amonia yw[234]:

- taenu slyri a thail
- tai da byw
- gwrtaith, yn enwedig wrea
- pori
- storio tail a slyri

3.9.8 Ym Mhowys, mae allyriadau amonia o ffermio dofednod yn broblem benodol. Mae ymchwiliad gan Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dangos bod unedau dofednod llai o faint anrheoleiddiedig, ond a gwmpesir o dan gynllunio, yn cael mwy o effaith ar yr amgylchedd nag unedau rheoleiddiedig dwys mwy o faint, ac y gallai unedau fferm bach achosi niwed sylweddol i'r amgylchedd[235].

3.9.9 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal ymchwiliadau sy'n cadarnhau difrifoldeb y broblem. Mae fframwaith wedi cael ei ddatblygu sy'n caniatáu i'r safleoedd mwyaf sensitif gael eu diogelu'n briodol ac i effeithiau cronnol datblygiadau presennol a newydd gael eu hasesu. Mae'r canllawiau, GN020, sydd wedi'u cyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu defnyddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac ACLlau at ddibenion caniatáu a chynllunio. Mae'r canllawiau hyn yn adlewyrchu cyfraith achosion cyfredol Ewropeaidd ac yn y DU. Mae hyn yn golygu bod amodau amgylcheddol cyfredol (h.y. crynodiadau amonia cefndirol) yn rhan o'r broses asesu ac y byddant yn cael eu hystyried yn yr asesiad gwaelodlin, gan y byddai hyd yn oed ychwanegiad cymharol fach yn cael ei ystyried yn annerbyniol pe bai'n mynd y tu hwnt i'r trothwy amgylcheddol neu'n mynd hyd yn oed yn uwch na throthwy y rhagorwyd arno eisoes (lefelau critigol amonia).

3.9.10 Mae gwaith gwyddonol ychwanegol[236] ar ddangosydd allweddol cennau yn argymell (a.7.4.2): *"The statistically significant link between ammonia concentrations and the decline in Bryoria fuscescens in Wales indicates that this distinctive lichen can be used to indicate areas where ammonia levels are currently very low. Such areas are now rare in Wales, and require protection from the ongoing national increase in ammonia. It is suggested that NRW*

---

[234] Llywodraeth Cymru (2020) Cynllun Aer Glân i Gymru. Ar gael yn: Cynllun Aer Glân i Gymru (llyw.cymru), aed at y wefan ar 20.10.2022

[235] Cyfoeth Naturiol Cymru (2015) Astudiaeth Beilot Dofednod Powys. Ar gael yn: Powys Poultry Pilot Study 2015 (cyfoethnaturiol.cymru), aed at y wefan ar 20.10.2022

[236] https://cdn.naturalresources.wales/media/689206/nrw-evidence-report-no-298-lichen-surveys-to-investigate-ammonia-impacts.pdf

*and other bodies should use the presence of Bryoria lichens as a key indicator of sites that are highly vulnerable to ecological damage from intensive agriculture."*

## Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

3.9.11 Nid oedd data'r crynodiadau cymedrig blynyddol o $NO_2$, a gasglwyd ar gyfer 2020, yn mynd tu hwnt i'r lefel wrthrychol gymedrig flynyddol ar gyfer Ansawdd Aer, sef 40µg/m[237]. Gwelwyd gostyngiadau sylweddol o ran crynodiadau cymedrig o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Gwelir y tuedd hwn ledled Cymru fel y dengys **Ffigur 3.33** a **Thabl 3.15**.

3.9.12 Mae allyriadau amonia yng Nghymru wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 2008, gan aros yn gyson rhwng 2016 a 2019 fel y dangosir yn **Ffigur 3.34**.

3.9.13 Disgwylir gwelliant parhaus o ran Ansawdd Aer ledled Sir Powys heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd wrth i bolisïau a strategaethau eraill gael eu rhoi ar waith i gynnal a chyfrannu at y gostyngiad mewn allyriadau[238].

3.9.14 Mae Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Powys 2011 – 2026 yn gweithredu i atal datblygiadau lle bydd llygredd aer cysylltiedig yn achosi niwed i iechyd dynol neu'r amgylchedd[239].

3.9.15 Disgwylir i Gynllun Trafnidiaeth Lleol Canolbarth Cymru 2015 arwain at welliant yn ansawdd yr aer drwy annog y rhai sy'n byw ym Mhowys i deithio yn fwy drwy gerdded a beicio ac integreiddio rhwydweithiau trafnidiaeth cyhoeddus[240]. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn barod i gael ei adolygu fel y cynghorir gan y strategaeth trafnidiaeth genedlaethol newydd, Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021[241].

3.9.16 Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013[242] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella llwybrau a chyfleusterau teithio llesol yn flynyddol, gan gyfrannu ymhellach at y gostyngiad mewn allyriadau trafnidiaeth.

3.9.17 Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu uchelgais i'r sector cyhoeddus gyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2030, fel y gwna Cyngor Powys. Cyflawnir hyn trwy ddatblygu Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru, gan symud tuag at ffynonellau ynni mwy cynaliadwy, a gwella effeithlonrwydd ynni ymhlith mentrau eraill[243]. Bydd y camau hyn yn gweithio


---

[237] Cyngor Sir Powys (2021) 2021 Adroddiad ar Gynnydd Ansawdd yr Aer. Ar gael yn: Air_Quality_Progress_Report_2021.pdf, aed at y wefan ar 08.07.2022
[238]Ibid.
[239] Cyngor Sir Powys (2018) Cynllun Datblygu Lleol Powys (2011 – 2026). Ar gael yn: file:///C:/Users/gwynd/Downloads/Cynllun_Datblygu_Lleol_Powys__2011-2026__Cynllun_Adnau_Drafft_2015_-_Datganiad_Ysgrifenedig.pdf, aed at y wefan ar 08.07.2022.
[240] Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Gwynedd (2015) Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru. Ar gael yn: file:///C:/Users/gwynd/Downloads/Cynllun_Trafnidiaeth_Lleol_ar_y_Cyd_Canolbarth_Cymru_2015.pdf, aed at y wefan ar 08.07.2022.
[241] Llywodraeth Cymru (2021) 'Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021'. Ar gael yn: Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 [HTML] | LLYW.CYMRU, aed at y wefan ar 16.08.2022.
[242] Llywodraeth Cymru (2013) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Ar gael yn: Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (deddfwriaeth.gov.uk), aed at y wefan ar 08.07.2022.
[243] [243]Cyngor Sir Powys (2021) 2021 Adroddiad ar Gynnydd Ansawdd yr Aer. Ar gael yn: Air_Quality_Progress_Report_2021.pdf, aed at y wefan ar 08.07.2022.


tuag at welliant yn ansawdd yn aer drwy leihau'r allyriadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a defnyddio ynni.

3.9.18 Disgwylir y bydd crynodiadau Deunydd Gronynnol$_{10}$ a Deunydd Gronynnol$_{2.5}$ ym Mhowys yn parhau i leihau.

Ffigur 3.33 Allyriadau Ocsidau Nitrogen yng Nghymru 2005-2019[244]




Ffigur 3.34 Allyriadau Amonia yng Nghymru 2005-2019[245]




[244] National Atmospheric Emissions Inventory: Air Pollutant Inventories for England, Scotland, Wales, and Northern Ireland: 2005-2019 . Ar gael yn: Air Pollutant Inventories for England, Scotland, Wales, and Northern Ireland: 2005-2019 (defra.gov.uk), aed at y wefan ar 14.10.2022.
[245] Ibid.

Tabl 3.14 Y Crynodiadau Cymedrig Blynyddol o $NO_2$ (mewn µg/$m^3$) mewn Safleoedd Monitro ym Mhowys, fesul Blwyddyn ers 2013[246]

| Cyfeirnod y Safle | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **POW (M) 1** | 31.9 | 28.8 | 29 | 31 | 38 | 38 | 26 | 21.6 |
| **POW (M) 2** | 32.9 | 33.9 | 29 | 32 | 37 | 29 | 22 | 18.8 |
| **POW (M) 3,4, & 5** | 39.5 | 38.1 | 38 | 39 | 36 | 37 | 24 | 19.7 |
| **POW (M) 6** | 36.6 | 33 | 30 | 32 | 33 | 30 | 22 | 18.2 |
| **POW (M) 7** | 10.4 | 9.4 | 9 | 11 | 9 | 9 | 8 | 6.8 |
| **WG 6-7** | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | 11.1 |
| **WG 8** | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | 13.1 |

### Materion Cynaliadwyedd Allweddol

- Yr angen i leihau allyriadau llygryddion i’r aer.
- Yr angen i fonitro allyriadau $NO_2$ yn Watergate, Aberhonddu.
- Yr angen i barhau i nodi ac asesu, a ffynonellau newydd posibl a allai gael effaith andwyol ar ansawdd yr aer.

## 3.10 Newid Hinsawdd

3.10.1 Bydd cynnydd mewn tymheredd byd-eang yn dod â newidiadau mewn patrymau tywydd, yn codi lefelau’r môr ac yn cynyddu amlder a dwyster tywydd eithafol. Bydd effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cael eu profi yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol, a bydd rhai rhanbarthau yn enwedig o agored i niwed.

3.10.2 Sefydlwyd y cyd-destun polisi a deddfwriaethol mewn cysylltiad â newid yn yr hinsawdd ar lefel ryngwladol (Cytundeb Kyoto), ac mae wedi ei drosi’n ddeddfwriaeth, strategaethau a pholisïau Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol. Mae lleihau allyriadau carbon deuocsid ($CO_2$) i’r atmosffer yn amcan cenedlaethol, er mwyn cyfrannu at leihau cyfradd y newid yn yr hinsawdd a’i oblygiadau hirdymor. Sbardunir hyn yn y DU gan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, sy’n pennu targed a rwymir mewn cyfraith am ostyngiad o 34% o leiaf yn allyriadau’r DU erbyn 2020, sydd bellach wedi ei gyflawni, a gostyngiad o 80% o leiaf erbyn 2050 o’i gymharu â gwaelodlin 1990.

3.10.3 Ledled Cymru yn gyffredinol, mae’r tymereddau cyfartalog yn cynyddu. Bu tuedd cynhesu eithaf cyson ers dechrau’r 1900au. Mae’r tymereddau cymedrig blynyddol lleiaf yn dilyn yr un tuedd â’r tymheredd blynyddol cymedrig, gan donni ychydig, ond maent yn cynyddu’n

[246] Cyngor Sir Powys (2022) ‘Adroddiad Monitro Blynyddol 2022’, tudalen 237.

gyson. Mae'r tymereddau cymedrig blynyddol uchaf hefyd yn dilyn yr un tuedd, gan gynyddu'n gyson.

3.10.4 Gan ddefnyddio Llandrindod fel procsi ar gyfer ardal Powys gyfan, y tymheredd cyfartalog blynyddol yw 5.5 – 13.6°C dros gyfnod 1991 – 2020, i fyny o 5.2 – 13.2°C ar gyfer cyfnod 1981 – 2010. Mae cynnydd cyson yn amlwg o 4.7 – 12.5°C o 1961 – 1990[247].

3.10.5 Mae glawiad yn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn ac mae digwyddiadau tywydd eithafol yn digwydd yn amlach. Er bod amrywioldeb mawr o flwyddyn i flwyddyn, mae tuedd o gynnydd yng ngwlybaniaeth y gaeaf. Mae tuedd cyffredinol o wlybaniaeth sy'n gostwng yn yr haf ers i gofnodion ddechrau, er bod amrywioldeb mawr o flwyddyn i flwyddyn.

3.10.6 Ers canol y 1900au, bu cynnydd cyffredinol mewn gwlybaniaeth yn Llandrindod, a ddefnyddir fel procsi ar gyfer Powys unwaith eto, o 1019.04mm ar gyfer y cyfnod rhwng 1961 – 1990 i 1096.14mm ar gyfer 1991 – 2020[248].

3.10.7 O ran gwlybaniaeth eithafol, o 1961-2006, bu cynnydd yng nghyfraniad digwyddiadau gwlybaniaeth trwm tuag at lawiad y gaeaf, a bu gostyngiad yn y cyfraniad at lawiad yr haf[249].

3.10.8 Datganodd Cyngor Sir Powys argyfwng hinsawdd ar 24 Medi 2020. Yn rhan o Strategaeth ar gyfer Newid Hinsawdd – Powys Positif-Net 2021–30, dywedodd Cyngor Sir Powys fod angen lleihad o 95% o leiaf mewn allyriadau yng Nghymru erbyn 2050 ac y byddent yn sicrhau bod sector cyhoeddus Powys yn garbon sero net[250].

3.10.9 O 2020, mae Cymru wedi llwyddo i gyflawni lleihad o 31% yn ei gyfraniad tuag at nwyon tŷ gwydr o'i gymharu â'r lefelau a gynhyrchir gan y flwyddyn waelodlin (1990)[251]. Fesul pen, yn 2019, cynhyrchodd Cymru 7.6 t$CO_2$, sef yr uchaf o holl ranbarthau'r DU, oherwydd ei lefel gymharol uchel o ddiwydiant[252]. Amlyga **Ffigur 3.34** gyfanswm yr allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yng Nghymru, a noda **Tabl 3.15** gyfanswm y $CO_2$ a allyrrir ym Mhowys.

[247] Met Office UK Climate Averages. Ar gael yn: Llandrindod Wells (Powys) UK climate averages - Met Office, aed at y wefan ar 11.07.2022

[248] Ibid.


[249] Osborn, Timothy a Maraun, Douglas (2008) Changing intensity of rainfall over Britain

[250] Cyngor Sir Powys (2021) 'Strategaeth ar gyfer Newid Hinsawdd'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/10317/Beth-maer-Cyngor-yn-ei-wneud-ar-Newid-Hinsawdd, aed at y wefan ar 11.07.2022.

[251] Llywodraeth Cymru (2021) Lleihau allyriadau yng Nghymru: adroddiad cynnydd 2020. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/lleihau-allyriadau-yng-nghymru-adroddiad-cynnydd.pdf (llyw.cymru), aed at y wefan ar 11.07.2022

[252] Department for Business, Energy & Industrial Strategy (2021) 2019 Local Authority Carbon dioxide Emissions. Ar gael yn: 2019 Local Authority Carbon Dioxide Emissions (publishing.service.gov.uk), aed at y wefan ar 11.07.2022

Ffigur 3.35 Cyfanswm yr Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (cilodunelli) yng Nghymru fesul Blwyddyn[253]




Tabl 3.15 Allyriadau Carbon Deuocsid, a Fynegir ar ffurf KT $CO_2$, ym Mhowys ar gyfer Blwyddyn 2019[254]

| Sector | 2018** | 2019 | Newid +/- o'r flwyddyn flaenorol | Newid Canran o'r flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Diwydiannol a Masnachol** | 288.9 | 290.6 | +1.7 | +0.58% |
| **Domestig** | 267.4 | 261.2 | -6.2 | -2.31% |
| **Trafnidiaeth** | 344.9 | 344.5 | -0.4 | -0.11% |
| **Defnyddio Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth** | -104.8 | -109.4 | -4.6 | -4.38% |
| **Cyfanswm** | 796.4 | 786.9 | -9.5 | -1.19% |

**; Ers eu dyddiadau cyhoeddi gwreiddiol, mae'r ffigurau ar gyfer pob blwyddyn yn amodol ar ddiwygiad gan DEFRA, felly mae'n bosibl y byddant yn wahanol i'r rhai a ddyfynnir yn yr AMB blaenorol.

3.10.10 Yng Nghymru, cynhyrchodd y diwydiannau canlynol y canrannau canlynol o allyriadau yn 2019[255]:

[253] Llywodraeth Cymru (2022) Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn ôl Blwyddyn. Ar gael yn: Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn ôl Blwyddyn (llyw.cymru), aed at y wefan ar 11.07.2022

[254] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol 2022', tudalen 209.

[255] Llywodraeth Cymru (2019) 'Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yng Nghymru 2019'. Ar gael yn: Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yng Nghymru 2019 (llyw.cymru), aed at y wefan ar 11.07.2022

- Diwydiant a Busnes 38%.
- Cynhyrchu trydan a gwres 19%.
- Cludiant 17%.
- Amaethyddiaeth 14%.
- Adeiladau Preswyl 10%.
- Rheoli Gwastraff 3%.
- Y Sector Gyhoeddus 1%.
- Dalfeydd yn sector LULUCF (Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth) (coedwigaeth yn bennaf) Cymru wedi'u dileu – 1% o gyfanswm allyriadau Cymru.

3.10.11 Bydd defnydd doeth o danwydd ffosil a lleihau lefelau'r ynni a ddefnyddir yn helpu i gyflawni allyriadau $CO_2$ is. Rhwng 2005 a 2017, gostyngodd y defnydd o ynni yng Nghymru ym mhob rhanbarth awdurdod lleol, o 111.2 terawat-awr i 90.5 terawat-awr, sef gostyngiad o 19% dros 12 mlynedd[256].

3.10.12 Mae'r mesurau i atal neu leihau effeithiau andwyol newid hinsawdd yn cynnwys: defnydd effeithlon o adnoddau dŵr prin; addasu codau adeiladu i amodau hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol yn y dyfodol; meithrin cydnerthedd i effeithiau newid hinsawdd drwy gynyddu'r seilwaith gwyrdd a dalfeydd carbon; annog effeithlonrwydd o ran adnoddau; adeiladu amddiffynfeydd llifogydd a chodi lefelau deiciau; detholiad cnydau sy'n fwy cydnerth i'r hinsawdd (e.e. rhywogaethau sy'n gallu goddef sychder). Mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod datblygu economi carbon isel ynghyd â chynhyrchu cyfran uwch o ynni drwy ddulliau adnewyddadwy yn hanfodol.

3.10.13 Mae gwyrddu trefol yn adnodd pwysig wrth helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd, gan gyfrannu'n sylweddol hefyd at wella ansawdd bywyd. Mae ymchwil ar orchudd coed mewn amgylcheddau trefol ym Mhowys[257] yn awgrymu bod angen mynd i'r afael â'r amrywiad cyfredol a'r gostyngiad parhaus mewn gorchudd coed trefol drwy wneud y canlynol:

- Pennu targedau ar gyfer brigdwf.
- Nodi trefi â blaenoriaeth ar gyfer mabwysiadu dull strategol o gynyddu brigdwf.
- Gwneud y mwyaf o adnoddau ariannu i hwyluso'r gwaith.

3.10.14 Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru darged o gyflawni cyfwerth â 70% o alw trydan Cymru o ffynonellau trydan adnewyddadwy Cymru erbyn 2030. Yn 2019, amcangyfrifir mai 51% yw'r ffigur hwn. Ers 2019, mae Cymru wedi cynhyrchu 7.5 terawat-awr o drydan o ffynonellau adnewyddadwy, sy'n gynnydd o 7.4 terawat-awr o gymharu â'r flwyddyn flaenorol gan gyfrif am 27% o'r holl drydan a gynhyrchir yng Nghymru, ond nid yw hyn i gyd yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru gan ei bod yn allforiwr net o ynni. Cafodd 145MW o gapasiti trydanol adnewyddadwy newydd ei gomisiynu yng Nghymru yn 2019,

[256] Llywodraeth Cymru (2020) Defnydd o Ynni yng Nghymru 2018. Ar gael yn: Defnydd o Ynni yng Nghymru 2018 (llyw.cymru), aed at y wefan ar 11.07.2022
[257] Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Town Tree Cover in Powys. Ar gael yn: https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/682947/powys-tcwtc3-technical-annex.pdf

gan ddod â chyfanswm y capasiti i 3,372MW[258]. Bydd parhau i wella seilwaith ynni adnewyddadwy, ynghyd â datgomisiynu pob ffynhonnell pŵer glo a gostyngiad mewn tanwyddion ffosil eraill yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac i liniaru effeithiau newid hinsawdd.

3.10.15 Yn ystod cyfnod monitro 2021-2022, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 1.433MW o drydan adnewyddadwy, di-garbon neu garbon isel. Ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu (2018), rhoddwyd caniatâd cynllunio i gynhyrchu ynni ar gyfer cyfanswm o 38.164MW, sy'n cyfateb i 62%, sef 61.7MW, o'r cyfraniad ynni disgwyliedig a fanylir yn y CDLl. Yn ogystal â'r 1.433MW a ganiatawyd, cymeradwyodd yr Ysgrifennydd Gwladol gais am fferm wynt yn Llanbrynmair ym mis Rhagfyr 2021 (BERR/2009/0004), sy'n cynnwys 30 o dyrbinau gwynt ac sydd â'r potensial i gynhyrchu 90MW o drydan[259].

## Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

3.10.16 Nid yw'r Cynllun Lleol Mabwysiedig yn dylanwadu nac yn effeithio ar ffactorau hinsoddol. Bydd hinsawdd Powys yn parhau i newid o ganlyniad i niferoedd y tu hwnt i amgyffred rhywun o gyfuniadau o resymau. Heb weithredu'r cynllun bydd yr hinsawdd yn parhau i newid.

3.10.17 Bydd ffactorau hinsoddol yn parhau i newid fel y rhagwelir o dan y gwahanol Senarios a fodelir gan United Kingdom Climate Impacts Program (UKCIP) and Wales: Changing Climate, Challenging Choices (2000) – a scoping study of the possible impacts on Wales of climate change over the next 100 years. Disgwylir y bydd hyn yn cynnwys:

- Hafau sychach a phoethach
- Gaeafau gwlypach a chynhesach
- Digwyddiadau tywydd mwy eithafol

3.10.18 Yn ogystal â'r rhain, cadarnha dogfen Strategaeth ar gyfer Newid Hinsawdd Cyngor Powys yr effeithiau newid hinsawdd canlynol hefyd a brofir ym Mhowys a ledled y Byd:

- Mwy o sychder a thanau gwyllt
- Stormydd cryfach
- Mwy o dywydd poeth
- Llifogydd
- Cwrelau wedi'u difrodi
- Llai o eira a rhew ac iâ parhaol yn toddi
- Newidiadau mewn cylchoedd bywyd planhigion
- Newidiadau i ymfudiadau anifeiliaid a chylchoedd bywyd

[258] Llywodraeth Cymru (2020) Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2019. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/cynhyrchu-ynni-yng-nghymru-2019.pdf (llyw.cymru), aed at y wefan ar 11.07.2022
[259] Cyngor Sir Powys (2022) Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Powys 2022

3.10.19 Mae newid yn yr hinsawdd yn digwydd a bydd yn parhau i ddigwydd, heb ystyried ymyrraeth polisïau lleol. Fodd bynnag, bydd polisi cenedlaethol ar newid hinsawdd, polisi Cynllun Lleol mabwysiedig a chynlluniau a rhaglenni eraill ochr yn ochr â thynhau Rheoliadau Adeiladu yn gynyddol yn helpu i sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu lleoli a'u cynllunio i addasu i effeithiau newid hinsawdd a bod mesurau ar waith i liniaru newid hinsawdd. Er hynny, heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, mae'r Cyngor yn debygol o fod â llai o reolaeth dros leoliadau datblygiadau newydd, yn benodol, a allai waethygu effeithiau newid hinsawdd, a allai olygu methu cyfleoedd i liniaru effeithiau (er enghraifft, drwy leihau symudiadau trafnidiaeth, plannu coed a datrysiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa ardal).

**Materion Cynaliadwyedd Allweddol**

- Yr angen i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gallu addasu i effeithiau newid hinsawdd.
- Yr angen i gynyddu coetiroedd a gorchudd coed i helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd ac i addasu iddo, gan ganolbwyntio ar sicrhau brigdwf o 20% ym mhob prif anheddiad ac anelu at sicrhau brigdwf o 40% ar strydoedd siopa a strydoedd preswyl.
- Yr angen i liniaru newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys drwy ragor o ddarpariaeth ynni adnewyddadwy.
- Yr angen i liniaru newid hinsawdd drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Yr angen i gynyddu cydnerthedd i effeithiau newid hinsawdd drwy amddiffynfeydd llifogydd gwell a thrwy sicrhau bod seilwaith yn gallu ymdopi â newidiadau mewn tymheredd ac amrywiad tywydd tymhorol.

## 3.11 Asedau Perthnasol

3.11.1 Mae Powys yn cynnwys llawer o asedau perthnasol o bwysigrwydd cenedlaethol a rhanbarthol y dylid eu diogelu. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau mwynol, trafnidiaeth strategol a seilwaith cyfleustodau a seilwaith sy'n benodol i leoliadau, yn ogystal â chyfleusterau gwastraff a phriddoedd. Crynhoir manylion yr asedau perthnasol hyn a materion amgylcheddol allweddol isod.

3.11.2 Mae Powys yn cynnwys llawer iawn o adnoddau mwynol – glo, creigiau caled, tywod a graean – a allai fod o fudd i genedlaethau'r dyfodol. Gellir echdynnu peth o hyn drwy'r cydsyniadau presennol. Mae Powys hefyd yn cyfrannu at y cyflenwad rhanbarthol o agregau.

3.11.3 Mae Powys yn cynnwys cryn dipyn o seilwaith y gellir ei ystyried yn asedau perthnasol. Caiff rhai o'r rhain eu rhestru a'u grwpio isod:

- Seilwaith cyfleustodau (e.e. amddiffynfeydd llifogydd, cronfeydd dŵr, argaeau, piblinellau (cyflenwad dŵr), tir mynediad agored, trin dŵr gwastraff, safleoedd gwaredu gwastraff, seilwaith ynni).

- Seilwaith Trafnidiaeth (e.e. cefnffyrdd a ffyrdd A, gan gynnwys llwybrau a ddiogelwyd, rheilffyrdd, Hawliau Tramwy, Llwybrau Cenedlaethol, Rhwydwaith Beicio).
- Seilwaith sy'n benodol i leoliadau (e.e. Ardal Hyfforddi Pontsenni, Maes Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Camlas Trefaldwyn.

3.11.4 Nododd Bargen Tyfu Canolbarth Cymru welliannau a buddsoddiadau sylweddol mewn llawer o brosiectau amrywiol hefyd, rhai o'r rhai allweddol oedd Cwm Elan, Camlas Trefaldwyn a'r gwaith o'i hadfer, Canolfan y Dechnoleg Amgen ym Machynlleth, Cynefin – Calon Werdd Cymru, prif Ganolfan Arloesi Gweithgynhyrchu Bwyd Canolfan Bwyd Cymru, Campus Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru a Chanolfan Sbectrwm Genedlaethol i enwi rhai ohonynt[260]. Pwysleisir hefyd ar wella cysylltedd digidol yn ardal y CDLl. Mae cyfeiriad penodol (t.15) at y sector amaethyddiaeth, bwyd a diod yn cynnwys: *"sector amaethyddol cryf a bywiog sy'n creu cyflogaeth arwyddocaol ac sy'n cynhyrchu i safon a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ar y cyd â chryfderau mewn diwydiant ac arloesi yn cynnig cyfle i dyfu'r sylfaen economaidd yn sylweddol ac i arwain ym maes datblygu bwyd uchel ei werth newydd."*

3.11.5 O dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd, 1990, dosberthir Cyngor Sir Powys fel Awdurdod Casglu a Gwaredu Gwastraff, ac o'r herwydd, o dan adran 45 (1), mae ganddo ddyletswydd statudol i gasglu gwastraff cartref o bob eiddo domestig yn y Sir[261].

3.11.6 Sefydlwyd system Dosbarthiad Amaethyddol Cymru gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cadarnhau'r categorïau canlynol ar gyfer tir amaethyddol, gyda Graddau 1, 2 a 3a yn cael eu dosbarthu fel y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas[262]:

- gradd 1: tir amaethyddol o ansawdd rhagorol
- gradd 2: tir amaethyddol o ansawdd da
- gradd 3a: tir amaethyddol o ansawdd da i gymedrol
- gradd 3b: tir amaethyddol o ansawdd cymedrol
- gradd 4: tir amaethyddol o ansawdd gwael
- gradd 5: tir amaethyddol o ansawdd gwael iawn

## Gwastraff

3.11.7 Mae lefelau cynyddol o wastraff a nifer o offerynnau cyllidol wedi arwain awdurdodau i ailgylchu a chompostio mwy o wastraff, i dirlenwi llai ac i ddefnyddio gwastraff fel modd o gynhyrchu pŵer. Fodd bynnag, bydd angen cyfraddau ailgylchu a chompostio cynyddol yn ogystal â chyfraddau adfer ynni yn y blynyddoedd i ddod os bydd gostyngiad yng nghyfaint y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yn digwydd. Noda Mesur Gwastraff

[260] Tyfu Canolbarth Cymru (2022) 'Bargen Twf Canolbarth Cymru – Cytundeb Bargen Derfynol'. Ar gael yn: http://tyfucanolbarth.cymru/article/10704/Bargen-Dwf-Canolbarth-Cymru, aed at y wefan ar 16.08.2022, tudalennau 36–38.
[261] Cyngor Sir Powys (2022) Polisi Casglu Gwastraff ac Ailgylchu o Ddrws i Ddrws. Ar gael yn: Polisi Casglu Gwastraff ac Ailgylchu o Ddrws i Ddrws – Cyngor Sir Powys
[262] Llywodraeth Cymru (Dim dyddiad) 'Dosbarthiad tir amaethyddol: y map rhagweld'. Ar gael yn: https://llyw.cymru/dosbarthiad-tir-amaethyddol-y-map-rhagweld, aed at y wefan ar 16.08.2022.

(Cymru) 2010 dargedau ailgylchu ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, sef 64% erbyn 2019/20 a 70% erbyn 2024/25[263]. Syrthiodd Powys ychydig yn fyr o hyn yn 2019/20 gyda chyfradd ailgylchu o 63%, ond mae ar y trywydd iawn i gyflawni ei tharged 2024/25, gyda chyfradd o 66% yn 2020/21[264].

3.11.8 Cafodd 37,000 o dunelli o wastraff eu hailgylchu ym Mhowys yn y flwyddyn 2019/20. Trwy ailgylchu'r gwastraff hwn, arbedwyd £4 miliwn a llwyddwyd i osgoi 17,000 o dunelli o allyriadau $CO_2$[265].

3.11.9 O 2012/13 i 2016/17, cynyddodd canran y gwastraff a ailgylchwyd ym Mhowys o 51% i 65%, cyn gostwng i 60% yn 2017/18 ac yna cynyddu'n raddol eto[266].

3.11.10 Ledled Cymru, bu gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm y gwastraff trefol a gynhyrchwyd rhwng 2012/13 a 2020/21, o 1,553,512 i 1,488,253 o dunelli[267].

## Mwynau

3.11.11 Mae polisi'r llywodraeth yn hybu cadwraeth mwynau yn gyffredinol gan sicrhau ar yr un pryd fod cyflenwad digonol ar gael i ddiwallu anghenion. Ni ddosberthir adnoddau mwynau yn gyfartal ledled y wlad ac mae rhai ardaloedd yn gallu darparu symiau mwy o fwynau penodol na'r hyn a ddefnyddir ganddynt.

3.11.12 Nifer y safleoedd mwynau gweithredol ym Mhowys yw 15[268].

3.11.13 Gwerthwyd oddeutu 2.88 miliwn o dunelli o greigiau mâl rhwng 2011 a 2013. Cynhyrchwyd 0.27 miliwn o dunelli o dywod a graean rhwng 2011 a 2013.

3.11.14 Gan ei fod yn Awdurdod Cynllunio Mwynau, mae'n rhaid i'r Cyngor Sir gyfrannu 2.51 miliwn o dunelli y flwyddyn o greigiau caled i gyflenwad agregau rhanbarthol y De. Nid oes gofyniad i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau gyfrannu tywod a graean i'r cyflenwad rhanbarthol.

3.11.15 Nid oes gan Bowys ddosraniad o dywod na graean a enillwyd o'r tir, a chyfanswm y dosraniad o agregau creigiau mâl dros gyfnod o 25 mlynedd yw 87.98 miliwn o dunelli. Pan fynegir hyn fel dosraniad blynyddol, mae'n cyfateb â 3.519 miliwn o dunelli fesul blwyddyn[269].

3.11.16 Ceir mapiau perthnasol o adnoddau mwynol yn y Canolbarth yn:

MidWalesNorth.pdf (bgs.ac.uk) a MidWalesSouth.pdf (bgs.ac.uk)

---

263 Llywodraeth Cymru (2010) Mesur Gwastraff (Cymru) 2010. Ar gael yn: Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 – Nodiadau Esboniadol (deddfwriaeth.gov.uk), aed at y wefan ar 12.07.2022.
264 Llywodraeth Cymru, Fy Ailgylchu Cymru. Ar gael yn: Data ailgylchu Powys | Fy Ailgylchu Cymru, aed at y wefan ar 12.07.2022.
265 Ibid.
266 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys (2022) Asesiad Llesiant. Ar gael yn: FULL_Well-being_Assessment_–_March_2022 (1).pdf, aed at y wefan ar 12.07.2022.
267 Llywodraeth Cymru, Nifer blynyddol o wastraff wedi'u generadu (tunnell fetrig) gan ffynhonnell. Ar gael yn: Nifer blynyddol o wastraff wedi'u generadu (tunnell fetrig) gan ffynhonnell (llyw.cymru), aed at y wefan ar 13.07.2022.
268 Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol 2022', tudalen 223.
269 Cyngor Sir Powys (2022) Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Powys 2022, tudalen 156.

## Datblygiad Tebygol y Waelodlin Heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Seilwaith

3.11.17 Gallai twf a datblygiadau cysylltiedig ledled y Sir roi pwysau ar seilwaith safle-benodol, gan beri anfantais i'w swyddogaeth/gweithrediad neu brosiectau yn y dyfodol sy'n allweddol i sicrhau twf. Byddai Cynllun Datblygu Lleol newydd yn helpu i ddiogelu rhag effeithiau negyddol o'r fath drwy bolisïau a lleoli datblygiadau yn ofalus.

Gwastraff

3.11.18 Ar y cyfan, bu gostyngiad o 4% yn swm y gwastraff trefol a gynhyrchwyd yng Nghymru rhwng 2012/13 a 2020/21. Disgwylir y gwelid y tuedd hwn hefyd ym Mhowys ac y bydd yn parhau.

3.11.19 Mae cyfraddau ailgylchu ym Mhowys wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf hefyd. Y disgwyl yw y bydd y tuedd hwn yn parhau gyda'r CDLl, neu hebddo, oherwydd ei fod yn cael ei sbarduno gan dargedau cenedlaethol a nodir ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

3.11.20 Gallai cynnydd mewn poblogaethau a nifer yr aelwydydd arwain at gynnydd mewn gwastraff heb fentrau eraill i leihau'r swm a gynhyrchir. Byddai hyn yn rhoi pwysau ar y cyfleusterau gwastraff presennol ym Mhowys, er y disgwylir na fyddai hyn yn effeithio ar dueddiadau o ran cynhyrchu gwastraff a chyfraddau ailgylchu.

3.11.21 Bydd Cyngor Sir Powys yn gweithio tuag at strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yn unol â'r hierarchaeth wastraff er mwyn atal cynnydd mewn gwastraff gweddilliol drwy ysgogi rhagor o fentrau ailgylchu a chompostio, a thrwy gymeradwyo mentrau atal gwastraff sydd â nod hirdymor o ddyfodol diwastraff[270].

3.11.22 Byddai Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn gallu cyflawni dymuniadau sero net Cyngor Sir Powys yn well a darparu polisïau rheoli gwastraff wedi'u diweddaru, a allai sicrhau bod llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu yn y Sir.

Mwynau

3.11.23 Caiff adnoddau mwynol pwysig eu diogelu gan Bolisi Cynllunio Mwynau Cymru Llywodraeth Cymru. Byddai'n parhau mewn grym fel ystyriaeth cynllunio perthnasol pe na byddai'r CDLl ar waith.

3.11.24 Gan ei fod yn Awdurdod Cynllunio Mwynau, byddai Cyngor Sir yn parhau i gyfrannu creigiau caled i gyflenwad agregau rhanbarthol y De. Nid oes gofyniad i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau gyfrannu tywod a graean i'r cyflenwad rhanbarthol.

3.11.25 Gallai datblygiadau newydd ym Mhowys roi pwysau ar asedau mwynol lleol i gefnogi'r gwaith adeiladu. Pe byddai hyn yn cael ei ganiatáu, gallai arwain at ddirywiad mewn stociau mwynol ym Mhowys, a gallai Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n newydd liniaru effeithiau negyddol o'r fath yn well drwy bolisïau a thrwy leoli datblygiadau'n ofalus.

[270] Cyngor Sir Powys (2014) Strategaeth Wastraff 2014/15. Ar gael yn: Microsoft Word - C83 App PCC Waste Strategy Draft 2014 - v5 (moderngov.co.uk), aed at y wefan ar 13.07.2022.

### Materion Cynaliadwyedd Allweddol

- Yr angen i leihau'r gwastraff sy'n codi ac annog ailddefnyddio ac ailgylchu.
- Yr angen i barhau i weithredu seilwaith asedau perthnasol a sicrhau nad yw'n cael ei rwystro gan ddatblygiadau.
- Yr angen i ddiogelu adnoddau Powys rhag datblygiadau parhaol a allai ddiffrwytho ei allu i echdynnu.
- Yr angen i hybu'r defnydd effeithlon o adnoddau mwynol.
- Yr angen i ddiogelu seilwaith safle-benodol rhag datblygiadau amhriodol a allai beri anfantais i'w swyddogaeth/gweithrediad neu brosiectau yn y dyfodol sy'n allweddol i sicrhau twf.

## 3.12 Treftadaeth Ddiwylliannol

3.12.1 Mae'r Gymraeg yn bwysig i ddiwylliant a hanes Cymru. Mae Adroddiad Monitro Blynyddol diweddaraf Powys yn nodi fod y gyfran ganlynol o boblogaeth ardal CDLl Powys yn gallu siarad Cymraeg (pobl tair oed a hŷn)[271]:

- 2018 – 29.9%.
- 2019 – 27.3%.
- 2020 – 23.3%.
- 2021 – 27.0%.
- 2022 – 30.7%

3.12.2 Gostyngodd nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a hŷn ym Mhowys 2.1% rhwng 2011 a 2021, ac roedd y gostyngiad hwn fwyaf yn y grŵp oedran tair i 15 oed, sef 7%[272].

3.12.3 Mae gan Bowys amgylchedd hanesyddol eithriadol ac mae'n cynnwys 13% o Adeiladau Rhestredig Cymru a 22% o Henebion Cofrestredig Cymru[273]. Noda **Tabl 3.16** ganran Adeiladau Rhestredig Powys sydd mewn perygl, yn agored i niwed neu nad ydynt mewn perygl yn 2015. Ar y cyfan, yn 2015, nodwyd nad oedd 81.64% o adeiladau rhestredig Powys mewn perygl[274].

Tabl 3.16 Canran yr Adeiladau Rhestredig ym Mhowys fesul Sgôr Risg (2015)[275]


| Asesiad Risg | Sgôr Risg | Canran |
|---|---|---|
| **Mewn Perygl** | 1 – Mewn Perygl Dirfawr | 2.02 |

[271] Cyngor Sir Powys (2023) Adroddiad Monitro Blynyddol 2023. Ar gael yn: Adroddiad Monitro Blynyddol 2023.pdf,
[272] Llywodraeth Cymru (2022) Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021). Ar gael yn: Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU,
[273] Cyngor Sir Powys (2010) Strategaeth Treftadaeth Adeiledig. Ar gael yn: Powys_Built_Heritage_Strategy_2010.pdf,
[274] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2022', tudalen 234. I'w gyhoeddi ym mis Hydref 2022.
[275] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2022', tudalen 234. I'w gyhoeddi ym mis Hydref 2022.

| | | |
|---|---|---|
| **Mewn Perygl** | 2 – Mewn Perygl Difrifol | 0.26 |
| **Mewn Perygl** | 3 – Mewn Perygl | 5.32 |
| **Yn Agored i Niwed** | 4 – Yn Agored i Niwed | 10.76 |
| **Ddim mewn Perygl** | 5 – Ddim mewn Perygl | 31.83 |
| **Ddim mewn Perygl** | 6 – Ddim mewn Perygl | 49.81 |

3.12.4 Dengys **Ffigur 3.35** ddosbarthiad adeiladau rhestredig a safleoedd treftadaeth eraill ledled canolbarth Cymru. Mae rhai safleoedd archeolegol a'u lleoliadau, yn nodedig Clawdd Offa, sy'n cael eu herydu a'u peryglu gan ddatblygiadau. Mae'n bosibl mai Henebion Cofrestredig Powys yw'r asedau hanesyddol mwyaf agored i niwed ym Mhowys, oherwydd nad oes gan lawer ohonynt ddefnydd economaidd a'u bod o fewn ffiniau aneddiadau neu'n agos atynt.

Ffigur 3.36 Adeiladau Rhestredig yng Nghanolbarth Cymru[276]




3.12.5 Mae Powys yn ardal o amrywiaeth hanesyddol mawr a chanddi nifer o safleoedd a henebion sydd uwchben ac islaw'r ddaear o bob cyfnod hanesyddol, gan gynnwys gweddillion Neolithig, ac Oes Efydd a Haearn sylweddol.

3.12.6 Yn 2021, roedd gan ardal gynllunio Powys y nifer canlynol o ddynodiadau amgylchedd hanesyddol[277]:

- Adeiladau Rhestredig – 3,935
- Ardaloedd Cadwraeth – 55
- Henebion Cofrestredig – 730

[276] Llywodraeth Cymru (2020) Ystadegau Cryno ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru: 2020. Ar gael yn: Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru: 2020 (llyw.cymru), aed at wefan ar 13.07.2022.
[277] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2022', tudalen 230. I'w gyhoeddi ym mis Hydref 2022.

- Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig – 10
- Gerddi a Pharciau Hanesyddol Cofrestredig – 37

3.12.7 Mae nifer yr Adeiladau Rhestredig ym Mhowys yr ystyrir eu bod mewn perygl wedi gostwng i 19% erbyn 2021. Noda'r Adroddiad Monitro Blynyddol diweddaraf y canlynol ynghylch cyflwr Henebion Cofrestredig[278]:

- "Yn sir Powys, mae 952 o Henebion Cofrestredig a nifer yr Henebion Cofrestredig yr ymwelwyd â nhw yn ystod y rownd monitro cyflwr presennol (5ed) yw 877 (92%), ac o'r 877 hyn, aseswyd nad oedd 775 (88%) ohonynt 'Mewn Perygl' a bod 583 (66%) ohonynt mewn cyflwr sefydlog neu'n gwella.
- Yn ardal CDLl Powys, mae 730 o Henebion Cofrestredig a nifer yr Henebion Cofrestredig yr ymwelwyd â nhw yn ystod y rownd monitro cyflwr presennol (5ed) yw 655 (89%). O'r 655 yr ymwelwyd â nhw, aseswyd nad oedd 590 (90%) ohonynt 'Mewn Perygl' a bod 439 (67%) o'r rhai hynny mewn cyflwr sefydlog neu'n gwella."

3.12.8 Noda **Tabl 3.17** nifer y dynodiadau hanesyddol ym Mhowys a sut mae'r niferoedd hyn wedi newid ers i'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei fabwysiadu.

3.12.9 Amlyga **Tabl 3.18** gyflwr Henebion Cofrestredig ym Mhowys, a dengys **Tabl 3.19** gyflwr adeiladau rhestredig.

3.12.10 Mae gan Bowys (ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) y nodweddion Diwylliannol canlynol (fel y nodir gan haen tirwedd Ddiwylliannol Landmap Mai 2014):

- 34 Ardal o gymeriad eithriadol.
- 38 Ardal o gymeriad uchel.
- 15 Ardal o gymeriad cymedrol.
- 1 Ardal o gymeriad isel.

Tabl 3.17 Cyfanswm y Dynodiadau Amgylchedd Hanesyddol ym Mhowys, 2021 i 2022[279]

| Dynodiad Amgylchedd Hanesyddol | Ar Adeg Mabwysiadu'r CDLl | 2018/ 2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | Yr enillion neu'r colledion net Dros y llynedd (ers mabwysiadu) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adeiladau Rhestredig** | 3931 | 3934 | 3932 | 3935 | 3935 | 0 (+4) |

[278] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2022', tudalen 231. I'w gyhoeddi ym mis Hydref 2022.
[279] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2022', tudalen 230. I'w gyhoeddi ym mis Hydref 2022.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Henebion Cofrestredig** | 717 | 718 | 719 | 719 | 730 | 0 (+13) |
| **Ardaloedd Cadwraeth** | 55 | 55 | 55 | 55 | 55 | 0 (0) |
| **Gerddi a Pharciau Hanesyddol Cofrestredig** | 37 (gan gynnwys 22 Gradd II, 10 Gradd II*, a 5 Gradd I) | 37 | 37 | 37 | 37 | 0 (0) |
| **Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig** | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 0 (0) |

Tabl 3.18 Canran yr Henebion Cofrestredig yn CDLl Powys sydd mewn Cyflwr Sefydlog neu'n Gwella [280]

| Cyflwr yr Henebion Cofrestredig | 2019/2020 | 2021/2022 |
|---|---|---|
| **Nifer yr henebion cofrestredig** | 719 | 730 |
| **% a aseswyd** | 77% | 89% |
| **% a aseswyd nad oeddent 'Mewn Perygl'** | 91% | 90% |
| **% a aseswyd a oedd 'mewn cyflwr sefydlog neu'n gwella'** | 69% | 67% |

Tabl 3.19 Canran yr Adeiladau Rhestredig ym Mhowys fesul Sgôr Risg (2015) [281]

| Asesiad Risg | Sgôr Risg | Canran |
|---|---|---|
| **Mewn Perygl** | 1 – Mewn Perygl Dirfawr | 2.02 |
| **Mewn Perygl** | 2 – Mewn Perygl Difrifol | 0.26 |

[280] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol 2022', tudalen 232.
[281] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol 2022', tudalen 234.

| | | |
|---|---|---|
| **Mewn Perygl** | 3 – Mewn Perygl | 5.32 |
| **Yn Agored i Niwed** | 4 – Yn Agored i Niwed | 10.76 |
| **Ddim mewn Perygl** | 5 – Ddim mewn Perygl | 31.83 |
| **Ddim mewn Perygl** | 6 – Ddim mewn Perygl | 49.81 |

3.12.11 Mae rhai asedau hanesyddol yn torri ar draws ffiniau daearyddol a chategorïau swyddogaethol, fel Camlas Trefaldwyn sydd wrthi'n cael ei hadfer ac sy'n adnodd amlswyddogaethol sydd ag ystod o ddynodiadau bioamrywiaeth a chadwraeth. Bydd y gwaith o adfer y Gamlas yn darparu cysylltiad â Chamlas Llangollen a'r rhwydwaith dyfrffyrdd mewndirol ehangach yn Lloegr ac yn darparu adnodd arwyddocaol ar gyfer hybu iechyd a lles.

3.12.12 Yn yr un modd, mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan annatod o dirwedd ddiwylliannol a hanesyddol Cymru.

## Datblygiad Tebygol y Waelodlin heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

3.12.13 Er ei bod yn rhesymol tybio y byddai'r mwyafrif o asedau treftadaeth dynodedig Powys yn cael eu diogelu heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (oherwydd bod angen caniatâd yn ddieithriad i wneud gwaith arnynt), nodwyd bod erydiad cymeriad ardaloedd hanesyddol Powys yn destun pryder i Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae'r pryder yn ymwneud ag erydu manylion mewn aneddiadau hanesyddol, atgyweiriadau amhriodol neu amnewid nodweddion i adeiladau rhestredig a dirywiad ardaloedd cadwraeth o ddiddordeb arbennig.

3.12.14 Mae adeilad newydd nad yw'n adlewyrchu arwahanrwydd lleol aneddiadau hanesyddol Powys yn fater penodol. Gellid lleoli'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn well drwy bolisïau cynllunio i'w gwneud yn ofynnol i ddatblygiad newydd (yn enwedig datblygiad tai newydd) roi mwy o ystyriaeth a gofal i gymeriad a lleoliad eu hamgylchoedd. Dylai hyn gynnwys cydnabyddiaeth benodol a defnydd o enwau lleoedd Cymraeg sy'n nodweddion annatod o dirwedd ddiwylliannol a hanesyddol Cymru.

3.12.15 Er bod canran o'r adeiladau rhestredig mewn perygl yn sgil diffyg cynnal a chadw neu oherwydd eu bod yn wag, mae rhywfaint o'r archeoleg mewn perygl oherwydd datblygiad tameidiog. Heneb Gofrestredig Clawdd Offa yw'r mwyaf nodedig, a nodir ym menter Clawdd Offa fel un sydd mewn perygl o erydiad oherwydd datblygiad(au), i'r heneb ei hun a thrwy effeithio ar ei lleoliad.

3.12.16 Mae Clawdd Offa a Chamlas Trefaldwyn wedi eu nodi fel treftadaeth linellol y gellid eu gwella er mwyn cynhyrchu manteision i bobl leol a thwristiaid. Pryderon bod cymeriad asedau hanesyddol Powys yn erydu, er mai'r tuedd presennol yw bod nifer yr asedau hanesyddol ym Mhowys yn cynyddu a bod llai o'i Hadeiladau Rhestredig mewn perygl. Er gwaethaf hyn, ymddengys fod tuedd cynyddol at i lawr yn nifer o Henebion Cofrestredig ym Mhowys, gan nodi o bosibl yr angen i wneud mwy i ddiogelu'r asedau treftadaeth hyn. Gallai'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ailgadarnhau'r angen i ddiogelu a gwella asedau

hanesyddol, er mwyn atal (yn ddelfrydol) a gwrthdroi'r tuedd at i lawr yng nghyflwr Henebion Cofrestredig.

3.12.17 Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a'i bolisïau yn helpu i gyflawni dyluniad o ansawdd da, i sicrhau bod treftadaeth Powys yn cael ei diogelu a'i gwella ac i sicrhau bod datblygiadau newydd yn adlewyrchu amrywiaeth, gwerth ac ansawdd eu hamgylchoedd ac yn adlewyrchu'r arwahanrwydd lleol.

3.12.18 Bydd y cyfeiriad at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys[282] yn rhan bwysig o asesu effeithiau lleol posibl datblygiadau.

## Materion Cynaliadwyedd Allweddol

- Yr angen i ddiogelu a gwella asedau treftadaeth ddiwylliannol Powys a'u lleoliadau.
- Yr angen i osgoi niwed i asedau treftadaeth dynodedig a threftadaeth sydd mewn perygl ac atal y tuedd o roi mwy o asedau treftadaeth ar y rhestr hon.
- Yr angen i gydnabod gwerth asedau treftadaeth nad ydynt wedi eu dynodi a diogelu'r rhain pan fo hynny'n bosibl.
- Yr angen i gydnabod cyfraniad yr amgylchedd hanesyddol at gymeriad tirluniau a threfluniau, gan gynnwys y Gymraeg a diwylliant Cymreig a dyheadau iechyd a lles.

[282] https://archaeologydataservice.ac.uk/archives/view/1785/

## 3.13 Tirwedd

3.13.1 Powys yw'r sir fwyaf yng Nghymru, sy'n cwmpasu oddeutu 5,196 cilometr sgwâr (2,000 milltir sgwâr), sydd bron yn 25% o gyfanswm tir Cymru yn union. Sir wledig yw Powys i raddau helaeth, ac mae cyfran uchel o'i thir o ansawdd amaethyddol gwael iawn – mae 95% yn radd 4 neu 5 (sy'n fwy nag unrhyw Sir wledig arall yng Nghymru) ac mae 86% dan anfantais ddifrifol, lefel y mae dau awdurdod o gymoedd y de yn unig yn mynd y tu hwnt iddi.

3.13.2 Ar wahân i ddyffrynnoedd llydan Afon Hafren, Afon Gwy ac Afon Wysg a'u hisafonydd, ardal mynydd ucheldir a rhostir yw Powys, sy'n addas iawn ar gyfer pori da byw, gweithgareddau awyr agored a choedwigaeth, ond cyfyngedig yw'r posibiliadau ar gyfer mathau eraill o ddatblygiadau economaidd. Fodd bynnag, mae'r nodweddion hyn hefyd yn cyfuno i ddarparu tirwedd o ansawdd uchel ledled yr ardal, un sy'n ddeniadol i dwristiaid ac ymwelwyr dydd yr un fath oherwydd ei harddwch naturiol anghysbell a garw yn ogystal â'i threfi marchnad nodedig a'i phentrefi anghysbell.

3.13.3 Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cwmpasu oddeutu 17.2% o Bowys, gyda de ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys yn cyfrannu at ei leoliad. Mae'r Parc Cenedlaethol wedi ei ddynodi'n Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol [283]ac mae'r hanner orllewinol yn cynnwys Geoparc Byd-eang UNESCO Fforest Fawr[284].

3.13.4 Yn union i'r gogledd-orllewin o Bowys mae ail barc cenedlaethol (Eryri), sydd hefyd wedi'i ddynodi'n Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol.[285] Wedi'i leoli hanner ffordd rhwng y Gwarchodfeydd Awyr Dywyll dynodedig hyn mae Parc Awyr Dywyll Rhyngwladol Ystad Cwm Elan, sydd cynnwys cyfres o gronfeydd dŵr cysylltiedig ac sydd wedi'i leoli yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys.[286]

3.13.5 Yn ogystal, mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Swydd Amwythig yn ffinio ag ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys i'r dwyrain a'r de o Drefaldwyn.[287] Mae Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi'u lleoli o fewn ychydig filltiroedd i ffin orllewinol ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys.[288]

3.13.6 Mae'r ardaloedd hyn, ynghyd â Fforest Clud, Mynydd y Berwyn, Dyffryn Tanat, Llyn Efyrnwy, Dyffryn Dyfi, Bryniau dwyrain Sir Drefaldwyn a llawer iawn o ddynodiadau cadwraeth hanesyddol, archeolegol a natur cenedlaethol, yn dangos y dirwedd a'r amgylchedd deniadol a gwerthfawr sy'n bodoli ym Mhowys.

3.13.7 Tirwedd Powys yw un o'i hasedau pwysicaf ac mae'n gynnyrch o hanes naturiol Powys, ei daeareg, ac yn ddylanwad gweithgarwch dynol. Mae cynnal arwahanrwydd tirwedd Powys yn ffactor pwysig wrth ddiogelu ansawdd ei hamgylchedd a sicrhau llesiant economaidd yr ardal. Gall helpu i ddenu mewnfuddsoddiad a chyfleoedd cyflogaeth, wrth ddatblygu'r diwydiant twristiaeth ac wrth ddarparu lleoliad deniadol y gall pobl leol fyw a gweithio

[283] Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Cymru) – Y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (darksky.org)
[284] Geoparc Byd-eang UNESCO Fforest Fawr. Ar gael yn: Geoparc Byd-eang UNESCO Fforest Fawr - Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cymru
[285] Parc Cenedlaethol Eryri (Cymru) – Y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (darksky.org)
[286] Ystad Cwm Elan (Cymru) – Y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (darksky.org)
[287] Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Swydd Amwythig
[288] Hafan AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

ynddo. Mae hefyd yn ddymunol diogelu cefn gwlad er ei fwyn ei hun pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

3.13.8 O ganlyniad i hynny, mae'r Cyngor Sir yn cydnabod bod angen cysoni'r gwrthdaro sy'n bodoli rhwng datblygu a'r angen i ddiogelu'r dirwedd.

3.13.9 Nid oes gan ardal gynllunio Powys ddynodiadau tirwedd a gydnabyddir yn genedlaethol (DU). Fodd bynnag, mae LANDMAP a Chofrestrau Tirweddau Eithriadol ac Arbennig sydd o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn cydnabod bod gan Bowys ardaloedd penodol sydd o bwysigrwydd tirweddol ar lefel genedlaethol (Cymru). Mae'n rhaid ystyried y Parciau Cenedlaethol a'r Tirweddau Cenedlaethol wrth ystyried unrhyw gynigion datblygu a allai effeithio ar rinweddau arbennig ardal ddynodedig neu'r rhesymau dros ei dynodi a'i chymeriad a'i lleoliad.

3.13.10 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gynlluniau i ddynodi Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn bedwerydd Parc Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol. Mae ymgyrch barhaus gan Gymdeithas Mynyddoedd Cambria yn ceisio sicrhau bod Mynyddoedd Cambria yn cael eu dynodi'n Dirwedd Genedlaethol a fyddai'n cynnwys rhannau o Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys[289].

3.13.11 Mae Categori % Gweledol a Synhwyraidd Landmap (o eithriadol i isel) yn dangos 316 Safleoedd Gweledol a Synhwyraidd ym Mhowys y mae 67 ohonynt yn gorwedd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, felly mae 249 ohonynt yn Ardal Gynllunio Powys. Dyma ddosbarthiadau'r safleoedd hyn[290]:

- Eithriadol – 11.
- Uchel – 91.
- Cymedrol – 123.
- Isel – 22.
- Heb eu Hasesu – 2.

3.13.12 O ran ansawdd, mae canran y Meysydd Agwedd o fewn Ardal y Cynllun, neu sy'n croesi ar draws Ardal y Cynllun, sydd o Ansawdd 'Uchel' neu 'Eithriadol' fel a ganlyn:[291]

- Tirwedd ddaearegol 34%
- Cynefinoedd tirwedd 45%
- Tirwedd hanesyddol 55%
- Tirwedd gweledol a synhwyraidd 38%


289 Statws Tirwedd Ddynodedig – Cymdeithas Mynyddoedd Cambria (cambrian-mountains.co.uk)
290 Cyfoeth Naturiol Cymru, LANDMAP. Ar gael yn: Environmental data – Map Series Builder StoryMap | Wales Environmental Information Portal (arcgis.com), aed at y wefan ar 13.07.2022.
291 Cyngor Sir Powys (2022) Adroddiad Monitro Blynyddol Tabl 47. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/5543/Adroddiadau-monitro-blynyddol

3.13.13 Mae Datganiad Tirwedd Canolbarth Cymru[292] yn cyflwyno mapio thematig, gan gynnwys ardaloedd gweledol a synhwyraidd, a all helpu i lywio asesiad manwl o berfformiad polisïau a chynigion y cynllun o ran cynaliadwyedd.

3.13.14 Mae Cymru'n cynnwys 48 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol, ac mae 13 ohonynt yn gorwedd ym Mhowys ac fe'u nodir yn **Ffigur 3.37.** Gan ategu'r rhain, nodweddir Powys hefyd gan amrywiaeth o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig (**Ffigur 3.38**) a ganolir yn ne, canol a gogledd y sir, y rhennir rhai ohonynt ag awdurdodau cyfagos.


[292] https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/685441/as-mid-wales-landscape-final-april-2018.pdf?mode=pad&rnd=131722327710000000

Ffigur 3.37 Map o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol – Powys[293]



[293] Cyngor Sir Powys (2019) 'Canllawiau Cynllunio Atodol Tirwedd'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/5526/Canllawiau-Cynllunio-Atodol-y-CDLl-a-Pholisiau-Ategol, aed at y wefan ar 18.07.2022, tudalen 43.


Ffigur 3.38 Map Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig[294]





3.13.15 Noda **Ffigur 3.39** y llygredd golau a brofir gan wahanol ranbarthau yng Nghymru ac mae'n dangos bod y Canolbarth yn profi peth o'r llygredd golau isaf a'r Awyr Dywyll gorau, sy'n bwysig ar gyfer llonyddwch a chymeriad lleoedd, ac fe'u mapir yn **Ffigur 3.40.**

[294] Cyngor Sir Powys (2019) 'Canllawiau Cynllunio Atodol Tirwedd'. Ar gael yn: https://cy.powys.gov.uk/article/5526/Canllawiau-Cynllunio-Atodol-y-CDLl-a-Pholisiau-Ategol, aed at y wefan ar 18.07.2022, tudalen 42.

Ffigur 3.39 Canran pob ardal weithredol Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n syrthio i bob band lliw[295]




Ffigur 3.40 Awyr dywyll a llygredd golau mewn ardaloedd gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru[296]




[295] Cyfoeth Naturiol Cymru (Dim dyddiad) 'Tranquillity and Place – Dark Skies'. Ar gael yn: Headline figures and statistics – Tranquillity and Place – Dark Skies (lucmaps.co.uk), aed at y wefan ar 16.08.2022.

[296] Cyfoeth Naturiol Cymru (Dim dyddiad) 'Tranquillity and Place – Dark Skies'. Ar gael yn: Headline figures and statistics – Tranquillity and Place – Dark Skies (lucmaps.co.uk), aed at y wefan ar 16.08.2022.

## Datblygiad Tebygol y Waelodlin heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

3.13.16 Mae datblygiadau newydd yn debygol o roi pwysau ar dirwedd Powys. Byddai polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn parhau i gynnig rhywfaint o ddiogelwch a chanllawiau, er bod posibilrwydd y byddai datblygiad yn cael ei leoli'n amhriodol a'i ddylunio heb Gynllun Datblygu Lleol Newydd. Gallai hyn effeithio'n andwyol ar gymeriad tirwedd a threflun yr ardal. Hefyd, mae'n bosibl na ellir gwireddu cyfleoedd i wella cymeriad tirwedd a threflun, er enghraifft, drwy ddarparu seilwaith gwyrdd neu drwy fabwysiadu safonau dylunio o ansawdd uchel.

3.13.17 Roedd 99.28% o geisiadau a ganiatawyd rhwng 2021-2022 yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn ardal y gwerthuswyd ei bod o werth uchel neu eithriadol, nad yw'n syndod o gofio bod 97% o'r tir ym Mhowys yn perthyn i un o'r categorïau hynny[297]. Mae hyn yn golygu ei bod hi bron yn amhosibl lleoli datblygiad newydd ym Mhowys y tu allan i ardaloedd o'r fath.

3.13.18 Heb y CDLl, gallai'r dosbarthiadau a ddyfernir trwy LANDMAP ddirywio er bod effaith ar dirwedd yn ystyriaeth berthnasol ni waeth a oes cynllun datblygu ar waith ai peidio. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cyfeirio datblygiadau i leoliadau priodol.

3.13.19 Hefyd, gallai Cynllun Datblygu Lleol Newydd barhau i ddiogelu a manteisio ar yr Awyr Dywyll a brofir gan drigolion Powys.

## Materion Cynaliadwyedd Allweddol

- Yr angen i warchod a phan fo hynny'n briodol gwella tirwedd a chymeriad treflun Powys.
- Yr angen i hybu dyluniad o ansawdd uchel sy'n parchu cymeriad lleol.
- Yr angen i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd er mwyn gwella cymeriad treflun ac ansawdd yr amgylcheddau adeiledig, a'r defnydd o enwau lleoedd hanesyddol, gan gynnwys enwau Cymraeg.
- Yr angen i ddiogelu tirweddau rhag datblygiadau nad ydynt yn gydnaws.
- Yr angen i barhau i ddiogelu'r Awyr Dywyll a brofir gan drigolion Powys.
- Yr angen i hyrwyddo dewis 'safle da' a phenderfyniadau ynghylch graddfa datblygiadau er mwyn sicrhau nad yw effeithiau gweledol datblygiadau yn amharu ar ardaloedd a werthfawrogir oherwydd ansawdd y golygfeydd, eu tawelwch a'u huniondeb.

[297] Cyngor Sir Powys (2022) 'Adroddiad Monitro Blynyddol 2022', tudalen 238.

## 3.14 Crynodeb o Faterion Cynaliadwyedd Allweddol

3.14.1 O'r dadansoddiad o'r waelodlin a gyflwynir yn yr adrannau blaenorol, nodir nifer o faterion cynaliadwyedd allweddol sy'n effeithio ar Bowys. Crynhoir y materion hyn yn **Nhabl 3.20**.

Tabl 3.20 Y Materion Cynaliadwyedd Allweddol a Nodwyd

| Pwnc | Materion Cynaliadwyedd Allweddol |
|---|---|
| Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd | • Yr angen i warchod a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys safleoedd a ddynodwyd am eu gwerth cadwraeth natur.<br>• Yr angen i gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd dynodedig a chynefinoedd nas dynodwyd.<br>• Yr angen i barhau i fynd i'r afael â dirywiad mewn rhywogaethau.<br>• Yr angen i fonitro'r nifer fawr o asedau bioamrywiaeth dynodedig a'r asedau bioamrywiaeth nas dynodwyd a leolir yn y Sir.<br>• Yr angen i ddarparu mannau chwarae mwy agored (yn enwedig rhai â chyfarpar) mewn aneddiadau presennol.<br>• Yr angen i ddarparu mwy o randiroedd.<br>• Yr angen i fonitro ansawdd mannau gwyrdd sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn y Sir, a allai gael eu hasesu o ran y graddau y mae safle Baner Werdd neu Gymuned Baner Werdd llwyddiannus o fewn pellter cerdded hawdd i bob cartref mewn aneddiadau mawr, gan ddefnyddio'r fethodoleg ym Mhecyn Offer Greenspace (gweler TAN 16 para 2.18). |

| Pwnc | Materion Cynaliadwyedd Allweddol |
|---|---|
| Poblogaeth a Chymuned | • Yn gyffredinol, yr angen i greu lleoedd cynaliadwy y mae pobl yn dymuno byw, gweithio, ac ymlacio ynddynt.<br>• Yr angen i alluogi twf tai, sy'n diwallu anghenion tai a chynllunio ar gyfer cymysgedd o letyau sy'n gweddu i bob math o aelwyd.<br>• Yr angen i ddarparu amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth er mwyn cefnogi twf economaidd.<br>• Yr angen i sicrhau cyflenwad hyblyg o dir ar gyfer datblygu cyflogaeth, sy'n gweddu i anghenion poblogaeth wledig y Sir.<br>• Yr angen i fynd i'r afael â chyfran poblogaeth oedran gweithio'r Sir nad ydynt yn gweithio.<br>• Yr angen i gynyddu incymau ac yn enwedig i'r rhai y mae eu hincwm yn y chwartel isaf.<br>• Yr angen i fynd i'r afael â phocedi o amddifadedd sy'n bodoli yn yr ardal.<br>• Yr angen i gynnal y cyrhaeddiad addysgol cryf yn y Sir, gan fynd i'r afael â materion â'i hysgolion uwchradd.<br>• Yr angen i ddiogelu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol ac i sicrhau bod cyfleusterau newydd yn cael eu darparu mewn pryd i ddiwallu anghenion sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.<br>• Yr angen i ddiogelu hunaniaeth y cymunedau presennol.<br>• Yr angen i ddiogelu a chynnal a gwella mynediad at gyfleusterau diwylliannol a chymunedol sydd o fudd i gymunedau cynaliadwy ac yn eu cefnogi nhw.<br>• Yr angen i barhau i ennyn diddordeb ac i feithrin dysg yn y Gymraeg (yn enwedig ymhlith pobl y tu allan i oedran ysgol).<br>• Yr angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol. |
| Iechyd a Llesiant | • Yr angen i ddiogelu iechyd a llesiant poblogaeth Powys.<br>• Yr angen i hybu ffyrdd iach o fyw ac yn benodol lleihau gordewdra a chynyddu lefelau o weithgarwch corfforol.<br>• Yr angen i gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio. |

| Pwnc | Materion Cynaliadwyedd Allweddol |
|---|---|
| | • Yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd, yn enwedig i'r rhai sydd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.<br>• Yr angen i ddiogelu cyfleusterau a gwasanaethau gofal iechyd presennol ac i sicrhau bod cyfleusterau a gwasanaethau newydd yn cael eu darparu mewn pryd i ddiwallu anghenion sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.<br>• Yr angen i fynd i'r afael yn well â chynnydd mewn troseddau (targedu achosion trosedd ac anghydraddoldeb systemig).<br>• Yr angen i fynd i'r afael â phryderon iechyd meddwl ymhlith poblogaeth y Sir, yn enwedig ymhlith y rhai sydd dros 80 oed a mynd i'r afael ag achosion o iselder ymhlith pob oedran.<br>• Yr angen i sicrhau bod egwyddorion ac ymarfer Diogelu drwy Ddylunio yn cael eu hymgorffori ym mhob datblygiad newydd, gan roi polisi'r Cynllun Datblygu Lleol ar waith. |
| Trafnidiaeth a Hygyrchedd | • Yr angen i sicrhau buddsoddiadau amserol mewn seilwaith a gwasanaethau cludiant.<br>• Yr angen i annog dulliau eraill o deithio yn hytrach na cheir, gan gynnwys safleoedd parcio a theithio, teithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Yr angen i sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol a swyddi yn hygyrch o ddatblygiadau newydd, er mwyn lleihau'r angen i deithio.<br>• Yr angen i leihau cymudo allan o'r sir drwy greu marchnad gyflogaeth gryfach ym Mhowys.<br>• Yr angen i annog pobl i gerdded a beicio.<br>• Yr angen i annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ac yn benodol, cyfnewidfeydd trafnidiaeth allweddol rhwng gwahanol ddulliau trafnidiaeth, sef bysiau a threnau.<br>• Yr angen i gefnogi'r cynlluniau rhannu ceir sydd eisoes yn bodoli. |

| Pwnc | Materion Cynaliadwyedd Allweddol |
|---|---|
| | • Yr angen i ymchwilio i ffyrdd mwy arloesol a chreadigol o fynd i'r afael â newid ymddygiad, yn hytrach na monitro patrymau teithio yn unig. |
| Defnydd Tir, Daeareg a Phridd | • Yr angen i annog datblygiadau ar dir (llwyd) a ddatblygwyd o'r blaen yn dilyn asesiad o'i werth o ran bioamrywiaeth.<br>• Yr angen i ddiogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.<br>• Yr angen i ddiogelu a gwella safleoedd a ddynodwyd er eu diddordeb daearegol.<br>• Yr angen i ddiogelu ac adfer adnoddau pridd a mawndir fel dalfeydd carbon pwysig a'u rôl o ran gwella cydnerthedd yr amgylchedd naturiol yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd. |
| Dŵr | • Yr angen i ddiogelu a gwella ansawdd ffynonellau dŵr yn ardal Powys<br>• Yr angen i hybu'r defnydd effeithlon o adnoddau dŵr.<br>• Yr angen i sicrhau y darperir seilwaith o wasanaethau dŵr newydd mewn pryd i ateb y galw sy'n deillio o ddatblygiad newydd.<br>• Yr angen i leoli datblygiadau newydd oddi wrth ardaloedd lle mae risg llifogydd, gan ystyried effeithiau newid hinsawdd.<br>• Yr angen i ddod yn fwy addasol a chydnerth i ddigwyddiadau llifogydd |
| Ansawdd yr Aer | • Yr angen i leihau allyriadau llygryddion i'r aer.<br>• Yr angen i barhau i nodi ac asesu, a ffynonellau newydd posibl a allai gael effaith andwyol ar ansawdd yr aer. |
| Newid Hinsawdd | • Yr angen i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gallu addasu i effeithiau newid hinsawdd.<br>• Yr angen i gynyddu coetiroedd a gorchudd coed er mwyn helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, gan ganolbwyntio ar sicrhau 20% o frigdwf ym mhob anheddiad mawr a 40% o frigdwf ar strydoedd siopa a strydoedd preswyl. |

| Pwnc | Materion Cynaliadwyedd Allweddol |
|---|---|
| | • Yr angen i liniaru newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys drwy ragor o ddarpariaeth ynni adnewyddadwy.<br>• Yr angen i liniaru newid hinsawdd drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.<br>• Yr angen i gynyddu cydnerthedd i effeithiau newid hinsawdd drwy amddiffynfeydd llifogydd gwell a thrwy sicrhau bod seilwaith yn gallu ymdopi â newidiadau mewn tymheredd ac amrywiad tywydd tymhorol.<br>• Yr angen i ddiogelu ac adfer adnoddau pridd a mawndir fel dalfeydd carbon pwysig a'u rôl o ran gwella cydnerthedd yr amgylchedd naturiol yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd. |
| Asedau Perthnasol | • Yr angen i leihau'r gwastraff sy'n codi ac annog ailddefnyddio ac ailgylchu.<br>• Yr angen i barhau i weithredu seilwaith asedau perthnasol a sicrhau nad yw'n cael ei rwystro gan ddatblygiadau.<br>• Yr angen i ddiogelu adnoddau mwynol Powys rhag datblygiadau parhaol a allai ddiffrwytho ei allu i echdynnu.<br>• Yr angen i hybu'r defnydd effeithlon o adnoddau mwynol. |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | • Yr angen i ddiogelu a gwella asedau treftadaeth ddiwylliannol Powys a'u lleoliadau.<br>• Yr angen i osgoi niwed i asedau treftadaeth dynodedig a threftadaeth sydd mewn perygl ac atal y tuedd tuag at ragor o asedau treftadaeth yn bod yn lleoedd ar y rhestr hon.<br>• Yr angen i gydnabod gwerth asedau treftadaeth nad ydynt wedi eu dynodi a diogelu'r rhain pan fo hynny'n bosibl.<br>• Yr angen i gydnabod cyfraniad yr amgylchedd hanesyddol i gymeriad tirluniau a threfluniau, gan gynnwys y Gymraeg a diwylliant Cymreig. |

| Pwnc | Materion Cynaliadwyedd Allweddol |
|---|---|
| Tirwedd a Threflun | • Yr angen i warchod a phan fo hynny'n briodol gwella tirwedd a chymeriad treflun Powys.<br>• Yr angen i hybu dyluniad o ansawdd uchel sy'n parchu cymeriad lleol.<br>• Yr angen i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd er mwyn gwella cymeriad treflun ac ansawdd yr amgylcheddau adeiledig, a'r defnydd o enwau lleoedd hanesyddol, gan gynnwys enwau Cymraeg.<br>• Yr angen i ddiogelu tirweddau rhag datblygiadau nad ydynt yn gydnaws.<br>• Yr angen i barhau i ddiogelu'r Awyr Dywyll a brofir gan drigolion Powys.<br>• Yr angen i hyrwyddo dewis 'safle da' a phenderfyniadau ynghylch graddfa datblygiadau er mwyn sicrhau nad yw effeithiau gweledol datblygiadau yn amharu ar ardaloedd a werthfawrogir oherwydd ansawdd y golygfeydd, eu tawelwch a'u huniondeb. |

# 4. Dull yr Asesiad Cynaliadwyedd Integredig

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae'r adran hon yn disgrifio dull arfaethedig yr ACI ar gyfer creu Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n newydd. Yn benodol, mae'n defnyddio'r wybodaeth sydd yn Adrannau 2 a 3 i ddatblygu'r fframwaith arfarnu (Fframwaith yr ACI) ac mae'n nodi sut y bydd y Fframwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r broses o arfarnu elfennau allweddol o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n newydd (gan gynnwys dewisiadau eraill rhesymol).

## 4.2 Fframwaith Asesu ACI

4.2.1 Mae sefydlu amcanion asesu priodol a chwestiynau arwain yn ganolog i arfarnu effeithiau cynaliadwyedd wrth greu Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n newydd. Yn fras, mae'r amcanion ACI yn diffinio'r dyheadau hirdymor ar gyfer Sir Powys o ran ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ac yn erbyn yr amcanion hyn y bydd perfformiad cynnig Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cael ei arfarnu.

4.2.2 Cyflwyna **Tabl 4.1** Fframwaith yr ACI arfaethedig gan gynnwys amcanion a chwestiynau arweiniol cysylltiedig i'w defnyddio wrth arfarnu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n newydd. Mae'r amcanion a'r cwestiynau arweiniol yn adlewyrchu'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni (**Adran 2**) a'r materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd trwy ddadansoddi amodau gwaelodlin economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol (**Adran 3**). Cynhwysir pwnc/pynciau'r Gyfarwyddeb AAS y mae pob un o'r amcanion arfarnu yn ymwneud â nhw yn y drydedd golofn.

Tabl 4.1 Fframwaith ACI Arfaethedig

**Pwnc AAS: Poblogaeth a Chymunedau**

*Materion Allweddol:*

- Yn gyffredinol, yr angen i greu lleoedd cynaliadwy y mae pobl yn dymuno byw a gweithio ynddynt.
- Yr angen i alluogi twf tai ac i nodi isafswm y cartrefi y dylid cynllunio ar eu cyfer, a chynllunio ar gyfer cymysgedd o letyau sy'n gweddu i bob math o aelwyd.
- Yr angen i wneud y defnydd gorau o'r stoc dai presennol, a gwella ei hansawdd.
- Yr angen i gefnogi'r gwaith o ddarparu mathau arbenigol o dai i bobl hŷn a phobl sydd ag anableddau.
- Yr angen i ddarparu tai fforddiadwy i gyfrannu at y broses o fynd i'r afael ag anghenion a phwysau tai lleol.

- Yr angen i hybu ystod o swyddogaethau sy’n cyfrannu at fywiogrwydd canolfannau gwasanaeth lleol.
- Yr angen i ddiogelu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol ac i sicrhau bod cyfleusterau newydd yn cael eu darparu mewn pryd i ddiwallu anghenion sy’n deillio o ddatblygiadau newydd a fydd yn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy.

**Amcan 1 yr ACI: Darparu cartrefi o ansawdd da a seilwaith cymunedol i ddiwallu anghenion a nodwyd**

*A fydd y polisi neu’r cynnig yn ...*

- Diwallu’r anghenion tai a nodwyd, gan gynnwys gofynion fforddiadwy ac arbenigol?
- Sicrhau cymysgedd priodol o feintiau, mathau a deiliadaethau annedd sy’n diwallu anghenion pob sector o’r gymuned?
- Darparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy sy’n caniatáu mynediad rhwydd i amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau lleol?
- Hybu’r broses o ddatblygu amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol hygyrch o safon uchel, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru iachach; Cymru sy’n fwy cyfartal

**Pwnc AAS: Yr Economi a Chyflogaeth**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i ddarparu amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth er mwyn cefnogi twf economaidd.
- Yr angen i sicrhau cyflenwad hyblyg o dir ar gyfer datblygu cyflogaeth.
- Yr angen i gefnogi datblygiad economaidd ledled Powys.
- Yr angen i gynnal a gwella bywiogrwydd hierarchaeth aneddiadau Powys.
- Yr angen i gynnal a chynyddu cyrhaeddiad addysgol a sgiliau yn y gweithlu lleol.
- Yr angen i leihau teithiau o Bowys i’r gweithle drwy annog busnesau i fuddsoddi ac i sefydlu ym Mhowys.

**Amcan 2 yr ACI: Creu a chefnogi economi a gweithlu sy’n gryf, yn gydnerth ac yn gadarn**

*A fydd y polisi neu’r cynnig yn ...*

- Darparu digon o dir i fusnesau dyfu?
- Cefnogi’r broses o greu swyddi newydd sy’n hygyrch?
- Sicrhau bod capasiti cyfleusterau addysgol yn tyfu ar yr un raddfa â’r twf yn y boblogaeth?
- Gwella bywiogrwydd a chydnerthedd cymunedau?
- Diogelu’r ardaloedd cyflogaeth presennol?

- Creu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, gan ei hybu a manteisio'n sensitif ar asedau amgylcheddol, diwylliannol, treftadaeth a hamdden?
- Creu cyfleoedd ar gyfer gwelliannau i'r economi wledig a'r amrywiaeth wledig (gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth, busnesau bach a chanolig, busnesau micro a datblygu cysylltedd digidol)?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus

**Pwnc AAS: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a chynhwysiant**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i gynyddu incymau ac yn enwedig i'r rhai y mae eu hincwm yn y chwartel isaf.
- Yr angen i fynd i'r afael â phocedi o amddifadedd sy'n bodoli yn yr ardal.
- Yr angen i gynnal a chynyddu cyrhaeddiad addysgol a sgiliau yn y gweithlu lleol.

**Amcan 3 yr ACI: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Cynorthwyo i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i'r bobl fwyaf anghenus?
- Rhoi sylw, yn uniongyrchol ac anuniongyrchol, i ardaloedd sy'n dioddef oherwydd amddifadedd a/neu ddirywiad?
- Helpu i ddarparu gwell cyfleoedd a chyrhaeddiad addysgol?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus

**Pwnc AAS: Y Gymraeg**

*Materion Allweddol*[298]*:*

[298] Caiff nodau Cymraeg 2050 eu monitro gan ddangosyddion llesiant cenedlaethol 36 a 37. Mae gofynion llunio polisi Cymraeg (safonau 89 a 90) fel a ganlyn:

Safon 89: Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—
(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 90: Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -
(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Yr angen i barhau i ennyn diddordeb ac i feithrin dysg yn y Gymraeg (yn enwedig ymhlith pobl y tu allan i oedran ysgol).
- Yr angen i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Yr angen i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg.
- Yr angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- Yr angen i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Yr angen i ddiogelu hunaniaeth y cymunedau presennol.
- Yr angen i ddiogelu a chynnal a gwella mynediad at gyfleusterau diwylliannol a chymunedol sydd o fudd i gymunedau cynaliadwy ac yn eu cefnogi nhw.
- Yr angen i wella ymwybyddiaeth pobl o wasanaethau a sut i gael mynediad atynt.

**Amcan 4 yr ACI: Diogelu, hybu a gwella'r Gymraeg a diwylliant Cymru**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Effeithio ar y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg a/neu gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?
- Diogelu a gwella cyfleoedd i hybu ac i ddatblygu'r Gymraeg?
- Effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?
- Effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?
- Effeithio ar wasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati.)

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru o gymunedau cydlynus

**Pwnc AAS: Iechyd a Llesiant**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i ddiogelu iechyd a llesiant poblogaeth Powys.
- Yr angen i hybu ffyrdd iach o fyw ac yn benodol mynd i'r afael â gordewdra a lefelau o weithgarwch corfforol.
- Yr angen i gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.
- Yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd.
- Yr angen i ddiogelu a gwella'r ddarpariaeth mannau agored hygyrch.

- Yr angen i gefnogi dyluniadau o ansawdd uchel sy'n creu cymunedau sy'n saff ac yn ddiogel.
- Yr angen i ddiogelu cyfleusterau a gwasanaethau gofal iechyd presennol ac i sicrhau bod cyfleusterau a gwasanaethau newydd yn cael eu darparu mewn pryd i ddiwallu anghenion sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.
- Yr angen i sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio a'u hadeiladu i leihau troseddau ac ofn troseddau.

**Amcan 5 yr ACI: Gwella iechyd a llesiant pob sector o'r gymdeithas**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Cyfrannu at wella'r gallu i gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd ynysig/gwledig?
- Cyfrannu tuag at leihad mewn anghydraddoldeb iechyd ymhlith grwpiau gwahanol yn y gymuned, gan gynnwys plant a phobl hŷn yn benodol?
- Cyfrannu tuag at ffyrdd iach o fyw ac yn hybu llesiant, gan gynnwys cerdded a beicio?
- Cyfrannu tuag at wella mynediad i fannau gwyrdd naturiol, bywyd gwyllt, mannau agored, gan gynnwys cyfleoedd i chwarae, ac ar gyfer hamdden ac adloniant?
- Cyfrannu tuag at gynnydd mewn seilwaith gwyrdd?
- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio i leihau troseddau ac ofn troseddau?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus

**<u>Pwnc AAS: Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg</u>**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i wneud defnydd effeithlon ac effeithiol o dir.
- Yr angen i ddiogelu'r tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV).
- Yr angen i ddiogelu ac adfer adnoddau pridd a mawndir fel dalfeydd carbon pwysig a'u rôl o ran gwella cydnerthedd yr amgylchedd naturiol yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Gan adlewyrchu ar amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, yr angen i:
  - Gefnogi busnesau fferm drwy ffyrdd o weithio sy'n lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd
  - Cymryd camau i leihau achosion o lygredd drwy reoli ffynonellau llygredd posibl yn well (megis storfeydd slyri a thail)
  - Gweithio gyda busnesau, cymunedau a llunwyr polisi i adolygu polisïau a chynlluniau amaethyddol presennol ac archwilio opsiynau newydd ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystemau

**Amcan 6 yr ACI: Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau presennol, a diogelu tir amaethyddol gradd uwch**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Creu cyfleoedd i ddatblygu tir a ddatblygwyd o'r blaen lle na fydd hyn yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar Gynefinoedd Mosaig Agored?
- Diogelu'r tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas rhag cael ei ddatblygu?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru iachach

**Pwnc AAS: Dŵr**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i ddiogelu a gwella ansawdd ffynonellau dŵr ledled Powys er mwyn sicrhau cyflenwad dŵr gwydn i'r cyhoedd a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol.
- Yr angen i hybu'r defnydd effeithlon o adnoddau dŵr.
- Yr angen i sicrhau y darperir seilwaith o wasanaethau dŵr newydd mewn pryd i ateb y galw sy'n deillio o ddatblygiad newydd.
- Gan adlewyrchu ar amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, yr angen i:
    - Gefnogi busnesau fferm drwy ffyrdd o weithio sy'n lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd
    - Cymryd camau i leihau achosion o lygredd drwy reoli ffynonellau llygredd posibl yn well (megis storfeydd slyri a thail)
    - Gweithio gyda busnesau, cymunedau a llunwyr polisi i adolygu polisïau a chynlluniau amaethyddol presennol ac archwilio opsiynau newydd ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystemau
    - Rheoli ein hadnoddau dŵr i wella ansawdd a faint o ddŵr sydd ar gael, heb achosi niwed i'r amgylchedd naturiol
    - Helpu i greu cymunedau addasol a gwydn mewn ymateb i dywydd garw a newid hinsawdd
    - Cefnogi syniadau newydd ynghylch datblygu Datrysiadau Seiliedig ar Natur – er enghraifft, defnyddio Rheoli Perygl Llifogydd Naturiol

**Amcan 7 yr ACI: Gwarchod, diogelu a gwella ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Lleihau'r defnydd o ddŵr?
- Sicrhau y darperir cyflenwad digonol o ddŵr, gan ystyried y rhagamcanion cyfredol a'r rhagamcanion ar gyfer y dyfodol o'r dŵr sydd ar gael a'r defnydd o ddŵr?
- Cael ei gyflawni heb waethygu ansawdd dŵr mewn afonydd a nentydd?

- Arwain at wella ansawdd dŵr mewn dalgylchoedd afonydd ACA?
- Lleihau'r potensial i arferion amaethyddol gyfrannu tuag at lygru cyrff dŵr a chyrsiau â maethynnau?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru iachach

---

**Pwnc AAS: Aer**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i leihau allyriadau llygryddion i'r aer.
- Yr angen i wella ansawdd yr aer, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n agored i lygredd.
- Gan adlewyrchu ar amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, yr angen i:
    - Gefnogi busnesau fferm drwy ffyrdd o weithio sy'n lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd
    - Cymryd camau i leihau achosion o lygredd drwy reoli ffynonellau llygredd posibl yn well (megis storfeydd slyri a thail)
    - Gweithio gyda busnesau, cymunedau a llunwyr polisi i adolygu polisïau a chynlluniau amaethyddol presennol ac archwilio opsiynau newydd ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystemau

**Amcan 8 yr ACI: Minimeiddio neu leihau ffynonellau ac effeithiau llygredd aer**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Lleihau'r angen i deithio?
- Annog pobl i deithio drwy ddulliau cynaliadwy (teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus) yn rhan o'r hierarchaeth deithio genedlaethol?
- Osgoi unrhyw effeithiau andwyol ar ansawdd yr aer ac i bobl sy'n dod i gysylltiad ag ansawdd aer gwael?
- Gwella ansawdd yr aer mewn ardaloedd y nodir eu bod o bryder?
- Hybu a hwyluso'r defnydd o gerbydau trydan?
- Hybu a hwyluso gwelliannau i rwydweithiau seilwaith gwyrdd er mwyn hwyluso cynnydd o ran swm y NOx a llygryddion eraill sy'n cael eu sugno a'u gwasgaru?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**<u>Pwnc AAS: Gwastraff a Defnyddio Adnoddau</u>**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i leihau'r gwastraff sy'n codi ac annog ailddefnyddio ac ailgylchu.
- Yr angen i fynd i'r afael â bylchau capasiti er mwyn rheoli gwastraff cyfredol sy'n bodoli a gwastraff y rhagwelir y bydd yn bodoli yn y dyfodol.
- Yr angen i hybu'r defnydd effeithlon o adnoddau mwynol.
- Yr angen i sicrhau y diogelir adnoddau mwynol Powys rhag datblygiadau amhriodol.

**Amcan 9 yr ACI: Er mwyn lleihau'r gwastraff a gynhyrchir, annog pobl i ailddefnyddio ac ailgylchu a hybu defnydd effeithlon o adnoddau mwynol**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Hybu'r broses o adfer tir halogedig ac atal halogi bellach?
- Creu cyfleoedd i gynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu a'i ailddefnyddio?
- Hybu cyfleoedd i ddefnyddio deunyddiau sydd wedi eu hailgylchu ac eilaidd wrth adeiladu?
- Hybu'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy sydd o ffynonellau lleol?
- Diogelu adnoddau mwynol?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**<u>Pwnc AAS: Newid Hinsawdd</u>**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gallu addasu i effeithiau newid hinsawdd.
- Yr angen i gynyddu coetiroedd a gorchuddion coed a mesurau eraill i helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd ac i addasu iddo.
- Yr angen i leoli datblygiadau newydd oddi wrth ardaloedd lle mae risg llifogydd, gan ystyried effeithiau newid hinsawdd.
- Yr angen i sicrhau y darperir seilwaith diogelu rhag/rheoli llifogydd mewn modd amserol.
- Yr angen i ddiogelu ac adfer adnoddau pridd a mawndir fel dalfeydd carbon pwysig a'u rôl o ran gwella cydnerthedd yr amgylchedd naturiol yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd.

**Amcan 10 yr ACI: Cefnogi cydnerthedd Powys i effeithiau posibl newid hinsawdd, gan gynnwys llifogydd a digwyddiadau eithafol eraill**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Osgoi datblygiadau mewn ardaloedd lle bo perygl o lifogydd, gan ystyried effeithiau tebygol newid hinsawdd yn y dyfodol?
- Cynyddu cydnerthedd yr amgylchedd adeiledig a naturiol i effeithiau newid hinsawdd?
- Sicrhau bod y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn cael eu hystyried mewn datblygiadau newydd?
- Gwella ac ehangu rhwydweithiau seilwaith gwyrdd er mwyn cefnogi'r broses o addasu i'r newid yn yr hinsawdd?
- Rheoli dŵr ffo yn gynaliadwy, gan leihau dŵr wyneb ffo?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**<u>Pwnc AAS: Newid Hinsawdd</u>**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i liniaru newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys drwy gynyddu'r ddarpariaeth ynni adnewyddadwy i'r eithaf ar safleoedd ac ar raddfeydd Powys gyfan.

**Amcan 11 yr ACI: Lleihau cyfraniad allyriadau nwyon tŷ gwydr i newid yn yr hinsawdd**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Cynyddu nifer y datblygiadau newydd sy'n bodloni neu'n rhagori ar y meini prawf dylunio cynaliadwy?
- Lleihau'r defnydd o ynni o ffynonellau nad ydynt yn adnewyddadwy?
- Cynhyrchu ynni o ffynonellau carbon isel neu ddi-garbon?
- Lleihau'r angen i deithio neu nifer y teithiau a wneir?
- Hybu'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy, gan gynnwys cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus?
- Sicrhau nad yw datblygiadau'n cyfrannu at gynnydd pellach mewn defnydd ynni uchel na theithiau nad ydynt yn gynaliadwy?
- Gwella'r ddarpariaeth o atebion sy'n seiliedig ar natur er mwyn addasu a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**<u>Pwnc AAS: Trafnidiaeth a Symud</u>**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i wella cysylltedd yr aneddiadau sydd fwyaf anghysbell.

- Yr angen i annog dulliau teithio eraill, yn hytrach na cheir preifat.
- Yr angen i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol a swyddi yn hygyrch o ddatblygiadau newydd, er mwyn lleihau'r angen i deithio.

**Amcan 12 yr ACI: Hybu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Lleihau'r angen i deithio drwy batrymau defnydd tir a datblygu cynaliadwy?
- Annog newid moddol i fathau mwy cynaliadwy o deithio?
- Galluogi gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth?
- Hybu'r nifer sy'n manteisio ar drafnidiaeth carbon isel?
- Cyfrannu tuag at y rhwydwaith gwefru cerbydau trydan?
- Hwyluso gweithio gartref a gweithio o bell?
- Darparu gwelliannau i dagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd presennol a/neu eu lleihau nhw?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**<u>Pwnc AAS: Yr Amgylchedd Hanesyddol</u>**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i ddiogelu a gwella amgylchedd hanesyddol Powys, gan gynnwys ei amrywiaeth a'i arwahanrwydd lleol.
- Yr angen i osgoi niwed i asedau treftadaeth dynodedig a'u lleoliadau, ac i fynd i'r afael â threftadaeth sydd mewn perygl.
- Yr angen i gydnabod gwerth asedau treftadaeth nad ydynt wedi eu dynodi, gan eu diogelu pan fo hynny'n briodol a'u gwella pan fo hynny'n bosibl.
- Yr angen i gydnabod cyfraniad yr amgylchedd hanesyddol i gymeriad tirluniau a threfluniau, gan gynnwys y Gymraeg a diwylliant Cymreig ac iechyd a lles.

**Amcan 13 yr ACI: Cadw a gwella adnoddau treftadaeth Powys, gan gynnwys asedau adeiledig ac archeolegol**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Gwarchod a gwella arwyddocâd adeiladau a strwythurau o ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys sydd wedi eu dynodi a rhai nad ydynt wedi eu dynodi, a'u lleoliad?
- Sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu cydnabod fel nodweddion annatod o dirwedd ddiwylliannol a hanesyddol Cymru?
- Gwarchod ac yn gwella diddordeb arbennig, cymeriad ac ymddangosiad Ardaloedd Cadwraeth a'u lleoliadau?

- Gwarchod ac yn gwella olion archeolegol, ac ardaloedd sy'n sensitif o safbwynt archeolegol?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru gydnerth; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus

**<u>Pwnc AAS: Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Geoamrywiaeth</u>**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i ddiogelu, gwella ac adfer bioamrywiaeth Powys drwy ddarparu cynnydd net mewn bioamrywiaeth pan fo hynny'n bosibl.
- Yr angen i gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.
- Yr angen i ddiogelu ac i wella'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol, i fynd i'r afael â diffygion a bylchau, i wella hygyrchedd ac i annog defnydd lluosog pan fo hynny'n briodol.
- Yr angen i ddiogelu a gwella safleoedd a ddynodwyd er eu diddordeb ecolegol a daearegol.
- Gan adlewyrchu ar amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, yr angen i:
  - nodi prif achosion yr argyfwng natur gan gynnwys beth sydd angen ei wneud, gan bwy a ble
  - gwella Statws Cadwraeth Ffafriol safleoedd dynodedig
  - nodi cyfleoedd ar gyfer cysylltedd rhwng y safleoedd hynny ac ardaloedd eraill
  - gwneud natur yn flaenoriaeth drwy gynllunio, polisi a chamau ymarferol.

**Amcan 14 yr ACI: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth a hybu gwelliannau i'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Lleihau effeithiau ar fioamrywiaeth a darparu cynnydd net pan fo hynny'n bosibl?
- Diogelu a gwella rhwydweithiau ecolegol, gan gynnwys y rhai sy'n croesi ffiniau gweinyddol?
- Diogelu safleoedd sy'n werthfawr yn ddaearegol, gan gynnwys eu lleoliad?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru Gydnerth; Cymru Iachach; Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

**<u>Pwnc AAS: Tirwedd a Threflun</u>**

*Materion Allweddol:*

- Yr angen i warchod a phan fo hynny'n briodol gwella tirwedd a chymeriad treflun Powys.
- Yr angen i hybu dyluniad o ansawdd uchel sy'n parchu cymeriad lleol.

- Yr angen i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd er mwyn gwella cymeriad treflun ac ansawdd yr amgylcheddau adeiledig.
- Yr angen i ddiogelu tirweddau rhag datblygiadau nad ydynt yn gydnaws.

**Amcan 15 yr ACI: Gwarchod ansawdd ac amrywiaeth tirweddau a threfluniau dynodedig a lleol**

*A fydd y polisi neu'r cynnig yn ...*

- Sicrhau bod tirweddau a threfluniau gwerthfawr Powys yn cael eu gwarchod a'u gwella?
- Sicrhau bod ansawdd y gwaith dylunio yn cael ei ystyried yn rhan o'r holl weithgareddau datblygu?

**Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol:** Cymru Lewyrchus; Cymru Gydnerth; Cymru Iachach; Cymru sy'n Fwy Cyfartal; Cymru o Gymunedau Cydlynus; Cymru â Diwylliant Bywiog Lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu; Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

4.2.3 Yn seiliedig ar gwmpas yr Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd y manylir arno yn **Adran 1.3**, rhagwelir y bydd Fframwaith yr ACI a nodir yn **Nhabl 4.1** yn cael ei ddefnyddio i arfarnu elfennau allweddol canlynol y Cynllun (a dewisiadau eraill rhesymol pan fo'r rhain yn bodoli):

- Gweledigaeth ac Amcanion;
- Strategaeth Ofodol (o ran cwantwm a dosbarthiad y datblygiadau);
- Polisïau (gan gynnwys polisïau strategol a pholisïau rheoli datblygiadau manwl); a
- Dyrannu Safleoedd (gan gynnwys safleoedd strategol a dyrannu ar raddfa lai).

4.2.4 Cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI), Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn rhan o'r ACI.

4.2.5 Nodir y dull arfaethedig o arfarnu pob un o elfennau'r Cynllun a restrir uchod yn yr adrannau dilynol.

## Gweledigaeth ac Amcanion

4.2.6 Mae'n bwysig bod gweledigaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn gyson ag amcanion yr ACI. Felly, arfarnir cydnawsedd gweledigaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol Newydd â'r amcanion sy'n ffurfio Fframwaith yr ACI, er mwyn helpu i gadarnhau a yw'r dull cyffredinol o weithredu'r Cynllun yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd. Defnyddir matrics cydnawsedd i gofnodi'r arfarniad ar sail y cynllun a gyflwynir yn **Nhabl 4.2**.

Tabl 4.2 Matrics Cydnawsedd – Gweledigaeth/Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol

| Amcan yr ACI | Gweledigaeth | Amcan 1 | Amcan 2 | Amcan 3...ac ati |
|---|---|---|---|---|
| **1. Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth** | + | 0 | + | ? |
| **2. Tai** | + | - | + | + |
| **3. Ac ati…** | + | 0 | + | ? |

**Allwedd i'r Matrics Cydnawsedd**

| Symbol | Canlyniad Cydnawsedd |
|---|---|
| + | Cydnaws |
| ? | Ansicr |
| 0 | Niwtral |
| - | Anghydnaws |

## Y Strategaeth Ofodol

4.2.7 Bydd yr Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cynnwys strategaeth ofodol Powys o ran dosbarthiad eang a chwantwm datblygiadau yn y dyfodol. Gan ddefnyddio matrics arfarnu, bydd y strategaeth ofodol, gan gynnwys dewisiadau eraill rhesymol, yn cael ei harfarnu o'i chymharu â phob un o amcanion yr ACI sy'n ffurfio Fframwaith yr ACI. Bydd y matrics yn cynnwys:

- amcanion yr ACI;
- sgôr sy'n nodi natur yr effaith ar gyfer pob dewis strategaeth ofodol;
- sylwebaeth ar yr effeithiau arwyddocaol (gan gynnwys ystyried yr effeithiau cronnol, synergyddol ac anuniongyrchol yn ogystal â daearyddiaeth, hyd, amser dros dro/parhad a thebygolrwydd unrhyw effeithiau) ac ar unrhyw ragdybiaethau neu ansicrwydd; ac
- argymhellion, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru neu welliannau.

4.2.8 Dangosir fformat y matrics a fydd yn cael ei ddefnyddio i arfarnu effeithiau'r strategaeth ofodol a'r dewisiadau eraill rhesymol yn **Nhabl 4.3.** Defnyddir system sgorio ansoddol a nodir yn **Nhabl 4.4** ac i arwain yr arfarniad y mae diffiniadau penodol wedi eu datblygu ar gyfer yr hyn sy'n gyfystyr ag effaith arwyddocaol, mân effaith neu effaith niwtral ar gyfer pob un o 14 o amcan yr ACI; gellir gweld y rhain yn **Atodiad C**.

Tabl 4.3 Matrics Arfarnu Arfaethedig – Y Strategaeth Ofodol (Tabl fesul amcan)

| Dewisiadau Strategaeth Ofodol | Sgôr | Effeithiau Sylweddol Tebygol | Lliniaru | Tybiaethau | Ansicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1** | ++ | Darperir disgrifiad o effeithiau tebygol pob opsiwn ar Amcan ACI yma. | Amlinellir mesurau lliniaru a gwella yma. | Rhestrir unrhyw rhagdybiaethau a wneir wrth ymgymryd â'r arfarniad yma. | Rhestrir unrhyw ansicrwydd a geir yn ystod yr arfarniad yma. |
| **Opsiwn 2** | + | | | | |
| **Opsiwn 3** | 0 | | | | |
| **Ac ati** | - | | | | |

Tabl 4.4 System Sgorio Arfaethedig

| Symbol | Sgôr | Disgrifiad |
|---|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol arwyddocaol | Mae'r dewis/polisi arfaethedig yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r amcan. |
| + | Mân effaith gadarnhaol | Mae'r dewis/polisi arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcan, ond nid yn sylweddol. |
| 0 | Niwtral/dim effaith | Nid yw'r dewis/polisi arfaethedig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan |
| - | Mân effaith negyddol | Mae'r dewis/polisi arfaethedig yn amharu ar y broses o gyflawni'r amcan, ond nid yn sylweddol. |
| -- | Effaith negyddol arwyddocaol | Mae'r dewis/polisi arfaethedig yn amharu'n sylweddol ar y broses o gyflawni'r amcan. |
| ? | Effaith ansicr | Mae gan y dewis/polisi arfaethedig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud arfarniad. |
| ~ | Dim perthynas | Nid oes perthynas glir rhwng y dewis/polisi arfaethedig â chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |

## Polisïau

4.2.9 Arfarnir polisïau'r cynllun (gan gynnwys polisïau rheoli datblygiadau strategol a manwl) hefyd gan ddefnyddio Fframwaith yr ACI. Cynhelir yr arfarniad fesul pennod/adran y cynllun, gan ddyfarnu sgôr ar gyfer pob polisi cyfansoddol ac ar gyfer effeithiau cronnol yr holl bolisïau a gynhwysir ym mhob pennod/adran briodol. Darperir sylwebaeth, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru neu welliannau i wella perfformiad y polisïau (er

enghraifft, diwygiadau i eiriad polisi). Fel wrth arfarnu'r strategaeth ofodol, defnyddir y diffiniadau o arwyddocâd a amlinellir yn **Atodiad C** i arwain yr asesiad.

4.2.10 Cyflwynir canfyddiadau'r arfarniad mewn matrics sy'n debyg i'r hyn a ddangosir yn **Nhabl 4.5** a bydd yn defnyddio'r un dull sgorio â'r hyn a gyflwynir yn **Nhabl 4.4**.

Tabl 4.5 Matrics Arfarnu Arfaethedig – Polisïau (Tabl fesul amcan)

| Polisïau | Sgôr | Sgôr effaith gronnol y polisïau drafft | Effeithiau arwyddocaol tebygol | Lliniaru | Tybiaethau | Ansicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Polisi 1** | ++ | ++ | Darperir disgrifiad o effeithiau arwyddocaol tebygol y polisïau ar Amcan yr ACI yma, gan ddefnyddio gwybodaeth waelodlin fel y bo'n briodol. | Amlinellir mesurau lliniaru a gwella yma. | Rhestrir unrhyw ragdybiaethau a wneir wrth ymgymryd â'r arfarniad yma. | Rhestrir unrhyw ansicrwydd a geir yn ystod yr arfarniad yma. |
| **Polisi 2** | ++ | ++ | | | | |
| **Ac ati** | ++ | ++ | | | | |

## Dyrannu Safleoedd

4.2.11 Ar sail y safleoedd posibl sydd ar gael ac wrth ystyried ymatebion i'r 'Galwad am Safleoedd', bydd y Cyngor yn sgrinio safleoedd ar sail cyfyngiadau lefel uchel a chydymffurfedd â'r strategaeth ofodol a ffefrir ac Amcanion yr ACI, a gyhoeddir ym Methodoleg Asesu Darpar Safleoedd.

4.2.12 Yna, bydd y dewisiadau dyrannu safleoedd posibl sy'n weddill yn cael eu harfarnu o'u cymharu ag Amcanion yr ACI, sy'n cynnwys Fframwaith yr ACI, gan ddefnyddio meini prawf arfarnu sydd wedi eu haddasu, gyda throthwy cysylltiedig ynghylch arwyddocâd, i bennu math a maint yr effaith o'u cymharu â phob amcan ACI. Nodir y meini prawf arfaethedig yn **Atodiad F**.

Safleoedd Strategol

4.2.13 Gan adlewyrchu eu pwysigrwydd o ran cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd a'r gallu i gynhyrchu effeithiau arwyddocaol, bydd safleoedd strategol yn ddarostyngedig i arfarniad manylach. Yn debyg i'r strategaeth ofodol a pholisïau'r cynllun, bydd yr arfarniad yn cael ei gofnodi mewn matrics (gweler **Tabl 4.6**) a bydd y diffiniadau o arwyddocâd a amlinellir yn **Atodiad C** yn cael eu defnyddio i lywio'r broses o benderfynu beth yw'r effeithiau.

Tabl 4.6 Matrics Arfarnu Arfaethedig – Safleoedd Strategol

| Sgôr | Trothwy Penderfyniad |
|---|---|
| ++ | Bydd y safle'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a fydd o fudd i'r ardal ac yn ategu'r ddarpariaeth bresennol |
| + | Bydd y safle'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at yr amcan nac yn amharu arno |
| - | Bydd datblygiad(au) ar y safle yn arwain at golli tir cyflogaeth dynodedig |
| -- | Bydd datblygiad(au) ar y safle yn arwain at golli tir cyflogaeth dynodedig a busnesau yn yr ardal leol |

### Effeithiau Eilaidd, Cronnol a Synergyddol

4.2.14 Ni fydd polisïau na chynigion y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar wahân i'w gilydd. Byddant yn cydweithio i gyflawni amcanion y Cynllun. Am y rheswm hwn, mae'n bwysig deall beth fydd effeithiau cynaliadwyedd cyfunol y polisïau a'r cynigion.

4.2.15 Fel y nodir uchod, cynhelir yr arfarniad o bolisïau'r cynllun fesul pennod o'r cynllun er mwyn penderfynu ar effeithiau cronnol pob maes polisi. Trwy gydol y matricsau arfarnu, cyfeirir hefyd at ble y gallai effeithiau cronnol ddigwydd. Yn ogystal â chynnwys croesgyfeiriad rhwng y themâu polisi, cynhelir arfarniad o'r effeithiau cronnol er mwyn nodi'n glir y meysydd lle mae polisïau a chynigion yn cydweithio. Darperir sylwebaeth ychwanegol hefyd lle gallai'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd effeithio ar y cyd â chynlluniau a rhaglenni eraill megis cynlluniau datblygu awdurdodau cyfagos.

## 4.3 Anawsterau a Wynebwyd wrth Lunio'r Adroddiad Cwmpasu

4.3.1 Nid wynebwyd unrhyw anawsterau sylweddol wrth lunio'r Adroddiad Cwmpasu hwn. Dylid nodi bod y Cyngor wedi comisiynu neu wrthi'n cynnal nifer o astudiaethau o'r sylfaen tystiolaeth i lywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Ar ôl eu cwblhau, bydd canfyddiadau'r astudiaethau hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gefnogi'r broses o arfarnu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

# 5. Y Camau Nesaf

## 5.1 Ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu hwn

5.1.1 Bydd y cyfnod ymgynghori pum wythnos ar Adroddiad Cwmpasu yr ACI yn dod i ben am 5pm, ddydd Llun, 10 Hydref 2022.

### Yr Ymgynghoriad Hwn: Sut i Roi Eich Safbwyntiau i Ni

**Croesawn eich safbwyntiau ar unrhyw agwedd ar yr Adroddiad Cwmpasu hwn. Fodd bynnag, byddem ni'n croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol yn enwedig:**

7. **A ydych chi'n credu bod yr Adroddiad Cwmpasu hwn yn cynnwys digon o wybodaeth i gadarnhau'r cyd-destun ar gyfer ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft o ran adolygu cynlluniau a rhaglenni a thystiolaeth gwaelodlin a dadansoddiad? Os nad ydych, pa feysydd ydych chi'n meddwl sydd wedi eu colli ac ymhle y mae gwybodaeth am y pynciau hyn ar gael?**
8. **A ydych yn cytuno bod y prif faterion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a nodwyd yn berthnasol i ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft? Os nad ydych, pa faterion ydych yn meddwl y mae angen eu cynnwys neu eu hepgor?**
9. **A ydych yn cytuno â dull arfaethedig ACI y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft? A yw amcanion yr ACI a chwestiynau arwain sy'n cynnwys Fframwaith yr ACI yn cwmpasu ystod ddigonol o bynciau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd? Os nad ydynt, pa amcanion y dylid eu diwygio a pha amcanion eraill y dylid eu cynnwys yn eich tyb chi?**

## 5.2 Y Camau Nesaf

5.2.1 Bydd y dull a nodir yn **Adran 4** yr Adroddiad Cwmpasu hwn, a ddiwygiwyd ar sail ymatebion ymgynghoriad pan fo hynny'n briodol, yn cael ei ddefnyddio i arfarnu effeithiau posibl y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd yr arfarniad yn broses ailadroddol a bydd yn cynnwys datblygu a mireinio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd drwy brofi cryfderau cynaliadwyedd a gwendidau'r dewisiadau Cynllun sy'n dod i'r amlwg.

5.2.2 Gan adlewyrchu gofynion Atodlen 2 o Reoliadau'r AAS (sy'n atgynhyrchu materion Atodiad I y Gyfarwyddeb AAS), bydd yr Adroddiad ACI yn cynnwys:

- Crynodeb Annhechnegol;
- Pennod sy'n nodi cwmpas a diben yr arfarniad, gan gynnwys trosolwg o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n dod i'r amlwg;
- Pennod sy'n rhoi manylion cyfredol ar ddatblygiad y Cynllun Datblygu Lleol Newydd;
- Pennod sy'n crynhoi amcanion allweddol cynlluniau a rhaglenni eraill a materion economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol sy'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd;
- Pennod sy'n nodi'r dull arfarnu ac unrhyw anawsterau a gafwyd;

- Pennod sy'n amlinellu'r effeithiau sy'n debygol o ddeillio yn sgil gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd a dewisiadau eraill rhesymol, gan gynnwys effeithiau cronnol, mesurau lliniaru, ansicrwydd a risgiau. Esbonnir y rhesymau dros ddewis opsiynau a ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a thros wrthod opsiynau eraill;
- Pennod sy'n cyflwyno safbwyntiau ynghylch gweithredu a monitro.

# Atodiad A Rhestr Wirio Sicrwydd Ansawdd

Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu[299] yn cynnwys rhestr wirio sicrhau ansawdd i helpu i sicrhau bod gofynion Rheoliadau'r AAS yn cael eu bodloni. Nodir isod y gofynion sy'n berthnasol i Gam Cwmpasu yr ACI a sut y bodlonwyd y rhain.

| Gofyniad | Ymhle y nodir yn yr Adroddiad Cwmpasu |
|---|---|
| A1: Amlinellu cynnwys a phrif amcanion y cynllun. Yn ofynnol gan Gyfarwyddeb AAS 2001/42/EC Atodiad I (a) | Mae **Adran 4.3** yn cyflwyno amcanion a chwestiynau arwain yr ACI. |
| A2: Nodi ac adolygu cynlluniau perthnasol, rhaglenni ac amcanion cynaliadwyedd eraill a fydd yn llywio'r cynllun. Yn ofynnol gan Gyfarwyddeb AAS 2001/42/EC, Atodiad I (a) ac I (e) | Cynhwysir adolygiad o gynlluniau a rhaglenni cysylltiedig yn **Atodiad B** ac fe'u crynhoir yn **Adran 2** o'r Adroddiad Cwmpasu hwn. |
| A3: Casglu gwybodaeth waelodlin ar yr amodau cymdeithasol, economaidd, llesiant diwylliannol ac amgylcheddol presennol a'r rhai tebygol yn y dyfodol ar y raddfa ofodol sy'n berthnasol ar gyfer y cynllun. Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn gofyn i'r data sylfaenol gwmpasu; [Saesneg yn unig] 'the likely evolution thereof without implementation of the plan' (Atodiad I(b); a 'Characteristics of areas likely to be significantly affected' (Atodiad I (c) | Cyflwyna **Adran 3** o'r Adroddiad Cwmpasu hwn ddadansoddiad gwaelodlin o nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Powys, gan gynnwys eu datblygiad tebygol heb y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| A4: Nodi materion a phroblemau cynaliadwyedd sy'n berthnasol i'r cynllun. Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Atodiad I (d). | Trwy gydol **Adran 3** ac **Atodiad C** o'r Adroddiad Cwmpasu hwn, cyfeirir at feysydd y gallai'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd effeithio arnynt.<br><br>Dylid nodi nad yw cwantwm y twf sydd i'w ddarparu yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a'i ddosbarthiad tebygol ledled Powys yn hysbys ar hyn o bryd ac fe'u penderfynir trwy broses o nodi ac arfarnu dewisiadau, gan ystyried y sylfaen dystiolaeth, ymgynghori ac asesu, gan gynnwys AC. O ganlyniad i hynny, nid yw'n bosibl penderfynu â sicrwydd ar hyn o bryd y meysydd hynny sy'n debygol o gael eu |

[299] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf

| | |
|---|---|
| | heffeithio fwyaf gan y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.<br><br>Nodir materion cynaliadwyedd yn y dadansoddiad gwaelodlin yn **Adran 3** o'r Adroddiad Cwmpasu hwn fesul pwnc. Mae **Adran 3.14** yn crynhoi'r materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd. |
| A5: Datblygu fframwaith AC y gellir arfarnu'r cynllun yn ei erbyn. | Mae materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd trwy adolygiad o gynlluniau a rhaglenni perthnasol (gweler **Adran 2** o'r Adroddiad Cwmpasu hwn) a dadansoddiad o amodau gwaelodlin (gweler **Adran 3**) wedi llywio datblygiad Fframwaith yr ACI a gyflwynir yn **Adran 4.2**. |
| A6: Paratoi ac ymgynghori ar Adroddiad Cwmpasu yr AC sy'n Ofynnol gan Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 5, (4) a 6(3). | Yr ymgynghoriad ar gwmpas yr ACI yw'r Adroddiad Cwmpasu hwn. |

# Atodiad B Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau

Datganiad Rio ar yr Amgylchedd a Datblygiad yw'r amcan diogelu amgylchedd rhyngwladol trosfwaol a chreiddiol allweddol sy'n berthnasol, sy'n nodi: *'Mae gan bobl hawl i ddatblygu, fodd bynnag, mae ganddynt gyfrifoldeb i ddiogelu'r amgylchedd cyffredin. Dywed Datganiad Rio mai'r unig ffordd o gael cynnydd economaidd hirdymor yw ei gysylltu â'r broses o ddiogelu'r amgylchedd.'*

Mae'r tabl isod yn nodi'r amcanion allweddol o ran diogelu'r amgylchedd a osodwyd ar lefel **Rhyngwladol, Cymunedol (UE), y DU, Cymru a Phowys** sy'n berthnasol i Gynllun Datblygu Lleol Newydd Powys a'r ffordd y mae'r amcanion ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi eu hystyried wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Cynhwysir hefyd yn yr adran olaf adolygiad o CDLlau Awdurdod Cyfagos.

**Pwnc AAS - Bioamrywiaeth**

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Rhyngwladol | Confensiwn Ramsar ar wlypdiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol (1971)<br>Gosod fframwaith i helpu i ddiogelu rhwydwaith byd-eang o safleoedd gwlyptir pwysig a ddosberthir yn safleoedd Ramsar | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chadwraeth asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys safleoedd dynodedig. |
| Rhyngwladol | Confensiwn Bonn ar Gadwraeth Rhywogaethau Mudol o Anifeiliaid Gwyllt (1979)<br>Mae'r ddogfen hon yn ei gwneud yn ofynnol i lofnodwyr ddiogelu rhywogaethau mudol allweddol a'u hadfer i Statws Cadwraeth Ffafriol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| Rhyngwladol | Confensiwn Bern ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop (1979) | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Mae'r confensiwn yn sicrhau cadwraeth a diogelwch pob planhigyn gwyllt a rhywogaeth o anifail a'u cynefinoedd naturiol (fel y'u rhestrir yn y confensiwn). Mae'n darparu diogelwch arbennig i'r rhywogaethau sydd fwyaf agored i niwed ac sydd dan fygythiad. | cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| Rhyngwladol | Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Rio de Janeiro (1992)<br>Confensiwn i sicrhau bod pob gwlad yn ceisio atal bioamrywiaeth rhag cael ei cholli. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chadwraeth asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys safleoedd dynodedig. |
| Rhyngwladol | Confensiwn UNESCO – Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd (Paris 1972)<br>Sicrhau bod treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yn cael ei hadnabod, ei diogelu, ei chadw, ei chyflwyno a'i throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| Rhyngwladol | Confensiwn ar Wlypdiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol yn enwedig fel Cynefin Adar Dŵr (Confensiwn Ramsar 1971 fel y'i diwygiwyd).<br>Gosod fframwaith i helpu i ddiogelu rhwydwaith byd-eang o safleoedd gwlyptir pwysig a ddosberthir yn safleoedd Ramsar. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| Rhyngwladol | Datganiad Johannesburg ar Ddatblygu Cynaliadwy (Uwchgynhadledd y Byd), 2002<br>Galwadau am gydbwysedd rhwng datblygiad economaidd, datblygiad cymdeithasol a diogelu'r amgylchedd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig, a chan gynnwys hefyd amcanion sy'n ymwneud â datblygu economaidd cynaliadwy. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | | |
| UE | Biodiversity Strategy to 2030 (2020)<br>Mae'r ddogfen hon yn amlinellu strategaeth fioamrywiaeth yr UE hyd at 2030. Mae'n ceisio achosi cryn adferiad i fioamrywiaeth Ewrop a diogelu Ewrop rhag y bygythiadau canlynol:<br>• effeithiau newid hinsawdd<br>• tanau coedwig<br>• ansicrwydd bwyd<br>• achosion o glefydau – gan gynnwys diogelu bywyd gwyllt a<br>• brwydro yn erbyn masnach bywyd gwyllt anghyfreithlon<br>Mae'r UE yn ceisio sefydlu:<br>• Rhwydwaith mawr ledled yr UE o ardaloedd gwarchodedig ar dir a môr<br>• Cynllun adfer natur yr UE<br>• Cyflwyno mesurau i alluogi'r newid trawsnewidiol angenrheidiol<br>• Cyflwyno mesurau i fynd i'r afael â'r her bioamrywiaeth byd-eang. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Dylai'r ACI gynnwys amcanion hefyd sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd rhag niwed. |
| UE | Cyfarwyddeb yr UE ar Gadwraeth Adar Gwyllt (79/409/EEC)<br>Cyfarwyddeb CE sydd â'r nod o ddiogelu rhwydwaith o safleoedd allweddol ledled<br>Ewrop sy'n bwysig ar gyfer rhywogaethau penodol o adar | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| UE | Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE (92/43/EEC)<br>Cyfarwyddeb ar warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| UE | Strategaeth Fioamrywiaeth yr UE (UE, 1998)<br>Nod y strategaeth yw rhagweld, atal a mynd i'r afael ag achosion gostyngiad sylweddol neu golled bioamrywiaeth drwy fynd at wraidd y mater. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| UE | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr CE (2000/86/EEC).<br>Mae'r fframwaith yn gofyn am statws ecolegol da ar gyfer afonydd a llynnoedd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â rheoli adnoddau dŵr a'u cadwraeth. |
| UE | Cyfathrebiad gan y Comisiwn i Gyngor a Senedd Ewrop – Bioamrywiaeth<br>Datgan sut y bydd y Gyfarwyddeb Adar, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, Strategaeth Bioamrywiaeth<br>Ewrop, y Gyfarwyddeb Fframweithiau Dŵr a Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn gweithio gyda'i gilydd i warchod bioamrywiaeth. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| UE | Y Gyfarwyddeb Adar (2009/147/EC)<br>Mae'r gyfarwyddeb yn cydnabod mai colli cynefinoedd a dirywiad i gynefinoedd yw'r bygythiadau mwyaf difrifol i warchod adar gwyllt. Felly, mae'n rhoi pwyslais mawr ar ddiogelu cynefinoedd rhywogaethau sydd mewn perygl yn ogystal â rhywogaethau mudol (a restrir yn Atodiad I), yn enwedig drwy sefydlu rhwydwaith cydlynol o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) sy'n cynnwys yr holl diriogaethau mwyaf addas ar gyfer y rhywogaethau hyn. Ers 1994, mae'r holl AGAau yn ffurfio rhan annatod o rwydwaith ecolegol NATURA 2000. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| UE | Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol<br>Mae'n nodi cynllun cadwraeth i ddiogelu bioamrywiaeth fyd-eang, a chytundeb rhyngwladol i sefydlu system deg a chyfartal i alluogi | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | cenhedloedd i gydweithredu wrth gael mynediad at adnoddau genetig a rhannu eu manteision. Y weledigaeth fyd-eang newydd yw: "Erbyn 2050, mae bioamrywiaeth yn cael ei gwerthfawrogi, ei gwarchod, ei hadfer a'i defnyddio'n ddoeth, gan gynnal gwasanaethau ecosystem, cynnal planed iach a sicrhau manteision sy'n hanfodol i bawb." | cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| UE | Cyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw (2006/44/EC)<br>Mae'n cynnwys mesur ar ansawdd dyfroedd ffres y mae angen eu diogelu neu eu gwella er mwyn cefnogi bywyd pysgodol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd dŵr lleol a diogelu/gwella amgylchedd y dŵr. |
| DU | Deddf yr Amgylchedd (2021)<br>Mae'n nodi disgwyliadau'r Llywodraeth o ran gwella'r amgylchedd drwy osod fframwaith cyfreithiol sy'n cwmpasu:<br>• Llywodraethu amgylcheddol<br>• Rheoleiddio amgylcheddol<br>• Effeithlonrwydd gwastraff ac adnoddau<br>• Ansawdd yr aer ac adalw amgylcheddol<br>• Dŵr<br>• Cyfamodau cadwraeth natur a bioamrywiaeth | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Dylai'r ACI gynnwys amcanion hefyd sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd rhag niwed. |
| | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981)<br>[Saesneg yn unig.] "[To] take reasonable steps, consistent with the proper exercise of the authority's functions, to further the conservation and enhancement of the flora, fauna or geological or physiographical features by reason of which a site is of special scientific interest". | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| DU | Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig, (2006) – Adran 40 a 42 | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Dywed y ddeddf: [Saesneg yn unig.] "every Public Authority must, in exercising its functions, have regard, so far as is consistent with the proper exercise of those functions, to the purpose of conserving biodiversity." (mae hyn yn cynnwys adfer neu wella poblogaethau a chynefinoedd). | rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Dylai'r ACI gynnwys amcanion hefyd sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd rhag niwed. |
| DU | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig (1994)<br>Goblygiad hyn yw bod yn rhaid i'r CDLl roi sylw i Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Powys | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| DU | Deddf yr Amgylchedd 1995<br>Ymhlith materion eraill, roedd hyn yn gwella diogelwch gwrychoedd ac yn creu system newydd lle bo rhaid i awdurdodau lleol nodi, ac yn ôl yr angen, trefnu i adfer safleoedd halogedig yn eu hardaloedd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Dylai'r ACI gynnwys amcanion hefyd sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd rhag niwed. |
| DU | Gorchmynion cadw coed<br>Caniatáu i orchmynion gael eu gwneud sy'n darparu ar gyfer darpariaethau gweinyddol ychwanegol sy'n berthnasol i goed o werth amwynderol cyn i waith gael ei wneud arnynt. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chynnal adnoddau coed a'u hansawdd. |
| DU | Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol) 1994<br>Mae'n rhoi cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE i gyfraith y DU. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | | cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| DU | Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Cadwraeth Morol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol, ac ati) 2007 (fel y'i diwygiwyd) (y cyfeirir atynt ar y cyd yn yr adroddiad hwn fel y Rheoliadau Cynefinoedd)<br>Mae'n rhoi cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE i gyfraith y DU. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| DU | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 9 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000)<br>Mae'n gosod fframwaith i ddiogelu rhywogaethau penodol o blanhigion ac anifeiliaid ac i ddiogelu rhai ardaloedd fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| DU | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, 2005<br>Mae'n gosod fframwaith i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o bwys yn y DU o safbwynt bioamrywiaeth. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| DU | Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006<br>Sicrhau bod pob Awdurdod Lleol wedi rhoi sylw dyladwy i warchod bioamrywiaeth. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Dylai'r ACI gynnwys amcanion hefyd sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd rhag niwed. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| DU | Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949<br>Deddf Seneddol sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i ddynodi Gwarchodfeydd Natur Leol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| DU | DEFRA: Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Weithredu Dyletswydd Bioamrywiaeth 2007<br>Canllawiau i Awdurdodau Lleol er mwyn helpu i'w galluogi nhw i roi sylw dyladwy i Fioamrywiaeth. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| DU | Safon Coedwigaeth y DU: Dull Coedwigaeth Cynaliadwy y Llywodraeth, 2004<br>Mae'n hybu polisïau coedwigaeth ar gyfer rheoli ein coed a'n coedwigoedd presennol yn gynaliadwy, ac ehangu gorchudd coed yn gyson er mwyn cynyddu'r buddion amrywiol niferus y mae coetir yn eu darparu. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chynnal adnoddau coed a'u hansawdd. |
| DU | Cynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth 2011-2020<br>Gyda'i bum nod strategol a 20 o dargedau 'Aichi' byd-eang newydd, mae'r Cynllun yn gosod gweledigaeth a chyfeiriad byd-eang newydd ar gyfer bioamrywiaeth. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| DU | Fframwaith Bioamrywiaeth Ôl-2010 y DU (2012)<br>Cyhoeddwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Defra, ac fe'i cynlluniwyd i nodi'r gweithgareddau sydd eu hangen i ysgogi ac ategu strategaethau gwledydd, wrth geisio cyflawni targedau Aichi. O'r herwydd, mae'n fframwaith pwysig sy'n eiddo i'r pedair gwlad ac a | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | lywodraethir ac a weithredir ganddynt, gyda chymorth Defra a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn eu rhinweddau cydlynu yn y DU. | |
| DU | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 2009<br>Mae'n nodi gofynion statudol allweddol i'r DU o ran diogelu'r amgylchedd (gan gynnwys gwastraff a chadwraeth natur). | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Dylai'r ACI gynnwys amcanion hefyd sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd rhag niwed. |
| Cymru | Coetiroedd i Gymru: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed (2018)<br>Mae hyn yn darparu diogelwch i goetiroedd a choed Cymru y nodir eu bod yn adnoddau naturiol pwysig. Mae'r ddogfen yn pwysleisio pwysigrwydd bod adnoddau o'r fath yn chwarae wrth gynnal a gwella amgylchedd naturiol Cymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chynnal adnoddau coed a'u hansawdd. |
| Cymru | Mynd yn Wyllt yng Nghymru, 2003<br>Rhestr o rywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn er mwyn gwarchod Amrywiaeth Fiolegol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| Cymru | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd uwch yn ymwneud â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (Dyletswydd Adran 6). Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol roi sylw i'r hyn a ganlyn: | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Dylai'r ACI gynnwys |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • y rhestr o gynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf i Gymru, a gyhoeddwyd o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;<br>• yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru; ac<br>• unrhyw Ddatganiad Ardal sy'n cwmpasu'r cyfan neu ran o'r ardal lle mae'r awdurdod yn arfer ei swyddogaethau.<br>Mae hefyd yn cyflwyno Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac yn gosod fframwaith i gyflawni hyn yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.<br>Mae'r Ddeddf hefyd yn pennu targed o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru gan o leiaf 80% yn 2050, ac mae angen cyfres o dargedau interim (ar gyfer 2020, 2030 a 2040) a chyllidebau carbon. | amcanion hefyd sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd rhag niwed. |
| Cymru | Responding To Our Changing Climate – Consultation On A Climate Change Adaptation Action<br>(Tachwedd 2019). Mae'r Cynllun Gweithredu Addasu wedi ei seilio o amgylch yr egwyddorion canlynol: ymrwymiad i ymgysylltu â'r cyhoedd wrth ymateb i effeithiau newid hinsawdd; mae angen meddwl cyfannol ac integredig er mwyn addasu'n effeithiol; gweithredoedd tymor byr, tymor canolig a hirdymor; mae'n rhaid i gamau a gymerir i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd beidio â chyfrannu at allyriadau ychwanegol, gan waethygu effeithiau hinsawdd y dyfodol; mae'n rhaid cymryd camau i addasu i newid yn yr hinsawdd ochr yn ochr â gweithredu i leihau allyriadau ychwanegol. O ran y pwnc bioamrywiaeth, mae'r cynllun yn lleihau'r cynefinoedd a ddarnir er mwyn caniatáu lle i fioamrywiaeth addasu. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, lleihau gwastraff, diogelu'r amgylchedd ac adnoddau pridd, diogelu ansawdd yr aer a lleihau cyfraniad Powys at newid hinsawdd, a fydd yn ei dro yn llywio'r gwaith o baratoi'r CDLI. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i’r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | TAN 5: Cadwraeth Natur, 2009<br>Mae’n darparu canllawiau i helpu i ddiogelu safleoedd sydd o bwys Rhyngwladol a chenedlaethol, rhywogaethau gwarchodedig, Gwarchodfeydd Natur Lleol a safleoedd bywyd gwyllt. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |
| Cymru | TAN 12 Dylunio, 2014<br>Canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddylunio datblygiad newydd. Un o amcanion dylunio newydd yw diogelu a gwella bioamrywiaeth. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Hefyd, dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â dylunio o ansawdd uchel a datblygu cynaliadwy. |
| Cymru | Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021)<br>Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys polisïau cynllunio sy’n ceisio gwarchod asedau bioamrywiaeth Cymru, gan gynnwys asedau bioamrywiaeth dynodedig a rhai nad ydynt yn ddynodedig. Mae bioamrywiaeth yn hanfodol i ffyniant hirdymor Cymru, a dylai datblygiad newydd geisio gwarchod asedau bioamrywiaeth presennol yn ogystal ag edrych i ehangu cyfanswm y fioamrywiaeth yng Nghymru. Dylai seilwaith gwyrdd, mannau gwyrdd agored a gwelliant bioamrywiaeth gael eu darparu gan ddatblygiadau newydd pan fo hynny’n briodol, er mwyn gwella asedau bioamrywiaeth Cymru. Mae’r ddogfen Polisi Cynllunio Cymru yn nodi bod datblygu cynaliadwy yn allweddol i ddiogelu asedau bioamrywiaeth. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Hefyd, dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy.<br><br>Dylai’r CDLl sicrhau bod ei bolisïau yn arwain at ddatblygiadau sy’n arwain at ennill net bioamrywiaeth pan fo hynny’n bosibl, a sicrhau bod datblygiadau yn gwella asedau bioamrywiaeth presennol. Gallai geisio sicrhau hefyd fod seilwaith gwyrdd yn cael ei ddefnyddio i gysylltu lleoedd, sydd |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | | hefyd yn rhoi mannau i rywogaethau pwysig dramwyo Cymru mewn modd haws a diogel. |
| Cymru | Cymru: Gwlad Well, 2003<br>Mae'n darparu canllawiau i helpu i werthfawrogi a gwella bioamrywiaeth | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Dylai'r ACI gynnwys amcanion hefyd sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd rhag niwed. |
| Cymru | Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru, 2006<br>Mae'r strategaeth yn ceisio atal bioamrywiaeth rhag cael ei cholli ac yn annog adferiad o ran nifer, ystod ac amrywiaeth genetig rhywogaethau; gwella'r amgylchedd ehangach ar gyfer bioamrywiaeth drwy reolaeth briodol, lleihad mewn cynefinoedd a ddarnir, cynnydd yng ngraddau a rhyng-gysylltedd cynefinoedd; sicrhau bod safleoedd rhyngwladol, Cymreig a lleol mewn cyflwr ffafriol. Dyma'r canlyniadau arfaethedig:<br><br>Mae colled bioamrywiaeth wedi ei atal a gallwn weld adferiad pendant yn nifer, ystod ac amrywiaeth rhywogaethau genetig, gan gynnwys y rhywogaethau hynny y mae arnynt angen amodau penodol iawn a chynefinoedd i oroesi<br><br>Mae'r amgylchedd ehangach yn fwy ffafriol i fioamrywiaeth drwy reolaeth briodol, lleihad mewn cynefinoedd a ddarnir, a chynnydd yng ngraddau a rhyng-gysylltedd cynefinoedd | Dylai'r cynllun sicrhau bod yr holl safleoedd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol a'r rhywogaethau a warchodir yn cael eu diogelu. Sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd bioamrywiaeth allweddol yn cael eu diogelu a rhoi mesurau ar waith i wella coridorau bywyd gwyllt. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i’r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Mae safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, Cymreig a lleol mewn cyflwr ffafriol i gefnogi’r rhywogaethau a’r cynefinoedd y maent wedi eu nodi ar eu cyfer | |
| **Cymru** | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019)<br>Y weledigaeth ar gyfer rhanbarthau glannau a môr mawr cynllun morol Cymru yw:<br>Mae moroedd Cymru yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol:<br>• Trwy reoli ar sail ecosystem, mae ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mae ein moroedd yn iach ac yn gydnerth ac yn cynnal economi gynaliadwy a ffyniannus;<br>• Trwy gael mynd i'r amgylchedd morol a threftadaeth ddiwylliannol y môr, a'u deall a'u mwynhau, mae iechyd a llesiant yn gwella;<br>• Drwy Dwf Glas, mae mwy o swyddi a chyfoeth yn cael eu creu gan helpu cymunedau'r arfordir i fod yn fwy cydnerth, ffyniannus a theg gyda diwylliant bywiog; a<br>• Drwy ddefnyddio technolegau carbon isel yn gyfrifol, mae ardal forol Cymru yn gwneud cyfraniad cryf at ddiogelu ffynonellau ynni a chyrraedd targedau allyriadau newid yn yr hinsawdd.<br><br>Amcanion ar gyfer y Cynllun Morol Cenedlaethol<br><br>Cyffredinol<br>1. Hybu datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru drwy gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru a chefnogi egwyddorion Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol trwy'r penderfyniadau a wneir a thrwy ystyried effeithiau cronnol yr holl ddefnydd a wneir o'r amgylchedd morol.<br><br>Sicrhau economi forol gynaliadwy | Caiff rhan fach o Ardal Gynllunio Powys ei chwmpasu gan ddynodiad rhanbarth glannau. Dylai’r ACI ystyried darpariaethau’r Cynllun Morol Cenedlaethol mewn perthynas â sicrhau nad yw amcanion yr ACI yn gwrthdaro â rhai’r Cynllun Morol, yn arbennig mewn perthynas â diogelu’r amgylchedd, twf economaidd, iechyd a lles a rheoli a gwneud penderfyniadau cadarn. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | 2. Cyfrannu at economi ffyniannus yng Nghymru drwy hybu gweithgareddau economaidd gynhyrchiol a phroffidiol a busnesau cynaliadwy sy'n creu cyflogaeth hirdymor ar yr holl lefelau sgiliau.<br>3. Cefnogi'r cyfle i ddatblygu adnoddau ynni adnewyddadwy morol yn gynaliadwy, gan gynnal y datblygiad iawn yn y lle iawn, gan helpu i gyflawni amcanion y DU ar gyfer diogelu ffynonellau ynni a lleihau carbon, gan roi ystyriaeth lawn i fuddiannau rhai eraill a chydnerthedd ecosystemau.<br>4. Darparu lle i gefnogi gweithgarwch economaidd yn awr ac yn y dyfodol drwy reoli amlddefnydd, gan hybu cydfodolaeth rhwng gweithgareddau cydweddol, lliniaru gwrthdaro rhwng defnyddwyr a, lle bo modd, drwy leihau'r gofyn i symud gweithgareddau presennol.<br>5. Cydnabod gwerth arwyddocaol twristiaeth a hamdden arfordirol i economi a llesiant Cymru a sicrhau bod gweithgarwch o'r fath a'i botensial i dyfu yn y dyfodol yn cael eu diogelu'n briodol.<br><br>Sicrhau cymdeithas gref, iach a theg<br>6. Cyfrannu at helpu i ddatblygu cymunedau arfordirol bywiog a thecach, sy'n ddiwylliannol ac yn ieithyddol unigryw ac yn gydlynus a chydnerth.<br>7. Hybu mwynhad a stiwardiaeth o'n harfordiroedd a'n moroedd a'u hadnoddau drwy hyrwyddo mynediad teg a diogel i amgylchedd morol cydnerth, gan warchod a hyrwyddo tirweddau, morweddau ac asedau hanesyddol gwerthfawr.<br>8. Gwella dealltwriaeth a galluogi camau i liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.<br><br>Byw o fewn terfynau amgylcheddol | |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | 9. Helpu i sicrhau a chynnal Statws Amgylcheddol Da (GES) a Statws Ecolegol Da (GeS).<br>10. Gwarchod, diogelu, adfer a gwella bioamrywiaeth y môr er mwyn atal a gwyrdroi'i dirywiad gan gynnwys cefnogi datblygiad a gweithrediad rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n ecolegol gydlynus ac yn cael ei reoli'n dda, ynghyd â phoblogaethau o rywogaethau cynrychioliadol, prin a than fygythiad.<br>11. Cynnal a chryfhau ecosystemau morol a'r manteision y maent yn eu rhoi er mwyn cwrdd ag anghenion cenedlaethau heddiw ac yfory.<br><br>Hyrwyddo llywodraethu da<br>12. Cefnogi penderfynu cymesur, cyson ac integredig drwy weithredu polisïau blaengar drwy ddull rhagofalus ac ymaddasol o reoli moroedd Cymru sy'n cael ei arwain gan gynllun ac sy'n seiliedig ar risgiau.<br><br>Defnyddio tystiolaeth wyddonol gadarn yn gyfrifol<br>13. Datblygu sylfaen dystiolaeth forol hygyrch a rennir i annog defnyddio tystiolaeth gadarn a darparu mecanwaith i gael gwell dealltwriaeth o nodweddion unigryw Ardal Forol Cymru a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig. | |
| Cymru | Strategaeth Datblygu Lleol Powys (2015)<br>Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (estynnwyd hyd 2023)<br>Rhaglen Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig 7 mlynedd a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru yw Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020. Cyflwynwyd Rhaglen | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Dylai'r ACI gynnwys hefyd amcanion sy'n ymwneud â diogelu'r |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, i'r Comisiwn Ewropeaidd i helpu i wneud yr hyn a ganlyn:<br>• cynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd busnesau ffermio a choedwigaeth Cymru, gan wella eu cystadleurwydd a'u cydnerthedd, a lleihau eu dibyniaeth ar gymorthdaliadau<br>• gwella amgylchedd Cymru, annog arferion rheoli tir cynaliadwy, rheoli ein hadnoddau naturiol a gweithredu dros yr hinsawdd yng Nghymru yn gynaliadwy<br>• hybu twf economaidd gwledig cryf a chynaliadwy yng Nghymru ac annog mwy o ddatblygiad lleol a arweinir gan y gymuned.<br>• Mae 6 Blaenoriaeth Datblygu Gwledig sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a bydd unrhyw gamau sy'n rhan o Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn ffitio yn y strwythur blaenoriaethau hwn:<br>• meithrin y modd y trosglwyddir gwybodaeth ac arloesedd mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth, ac ardaloedd gwledig<br>• gwella cystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth a gwella ymarferoldeb ffermio<br>• hybu trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risgiau mewn amaethyddiaeth<br>• adfer, cadw a gwella ecosystemau, yn ddibynnol ar amaethyddiaeth a choedwigaeth<br>• hybu effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r newid tuag at economi sy'n garbon isel ac yn gydnerth i'r hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth<br>• hybu cynhwysiant cymdeithasol a datblygiad economaidd, a lleihau tlodi mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Strategaeth Datblygu Lleol Powys | amgylchedd rhag niwed a gwarchod a gwella ansawdd y dŵr a'r defnydd effeithlon o dir mewn modd cynaliadwy. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn bwysig i ddatblygiad economaidd a chymdeithasol y Sir yn y dyfodol, yn enwedig gan mai ers 2007, Powys yw'r unig sir sy'n bennaf wledig yng Nghymru nad yw'n gymwys i dderbyn statws Cydgyfeirio. Pwrpas Strategaeth Datblygu Lleol Powys yw nodi amcanion strategol ar gyfer Powys rhwng 2014 a 2020 fel sail ar gyfer cyflawni gweithgarwch o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Felly, mae'r Strategaeth Datblygu Lleol yn gyfrwng pwysig ar gyfer cyflawni uchelgeisiau datblygu economaidd Llywodraeth Cymru ym Mhowys.<br>Ar gyfer cyfnod 2014-2020, ffurfiwyd Grŵp Gweithredu Lleol newydd, sef Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un er mwyn datblygu Strategaeth Datblygu Lleol. Tynnwyd aelodaeth Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un o'r Bartneriaeth Adfywio Powys bresennol a Grŵp Gweithredu Lleol Glasu ynghyd ag aelodau newydd, gan sicrhau cynrychiolaeth o bob sector. Y weledigaeth hirdymor ar gyfer Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un yw:<br>"Erbyn 2020, rydym yn anelu at weld cymunedau bywiog, cysylltiedig ac sydd wedi eu grymuso drwy ddarparu atebion cynaliadwy ac arloesol i broblemau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cyfredol ac yn y dyfodol, a fydd yn cynyddu cyfoeth economaidd y Sir"<br>Mae Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un wedi nodi nifer o amcanion sydd ar y cyd yn ceisio ychwanegu gwerth at asedau'r Sir, gan gefnogi'r gallu i adeiladu ar gryfderau cymunedau ac amgylchedd naturiol y Sir.<br>Amcanion Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un yw:<br>1. Annog menter ac entrepreneuriaeth<br>2. Manteisio ar ein hadnoddau naturiol a dynol<br>3. Optimeiddio cryfderau ac asedau cyfunol er mwyn datblygu atebion cymunedol<br>4. Meithrin a broceru sgiliau<br>5. Cydweithredu, cydweithio, cyfathrebu a chydgynhyrchu | |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Mae'r tri amcan cyntaf yn crynhoi canlyniadau a deilliannau buddsoddiad ac ymyrraeth, ac offer i ddatblygu a chefnogi'r mentrau hynny yw'r ddau amcan olaf.<br>Er bod mentrau o dan y Strategaeth Datblygu Lleol yn dal i gael eu sefydlu, y fframwaith ar gyfer y Cynllun Gweithredu tymor canolig ar gyfer 2015-2018 yw:<br>• Annog menter ac entrepreneuriaeth<br>➢ Prosiectau peilot yn defnyddio'r amgylchedd naturiol i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth<br>➢ Datblygu partneriaethau busnes i ddatblygu syniadau newydd sy'n sicrhau bod cynifer o gyfleoedd â phosibl i wella llesiant economaidd yn amgylchedd naturiol yr ucheldiroedd<br>➢ Datblygu gweithgareddau newydd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a'r dreftadaeth naturiol<br>➢ Datblygu gweithgareddau sy'n cysylltu cynhyrchwyr, ymwelwyr a chynhyrchion gyda'i gilydd<br>• Manteisio ar ein hadnoddau naturiol a dynol<br>➢ Treialu gweithgareddau awyr agored newydd a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant a threftadaeth gyda chymunedau'n defnyddio dolennau a chysylltiadau a hybir rhwng pentrefi a threfi<br>➢ Ymchwilio i weithgareddau peilot posibl sy'n datblygu'r Gymraeg ac yn cysylltu â gweithgareddau awyr agored<br>➢ Datblygu gweithgareddau arloesol sy'n darparu gwasanaethau gofal plant dwyieithog<br>➢ Datblygu cymwysterau gwyrdd Powys ar gyfer byw, gweithio a hamdden<br>➢ Gweithio gyda sefydliadau addysgol i ddatblygu cynhyrchion neu brosesau arloesol newydd ar gyfer deunyddiau lleol | |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI** Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Optimeiddio cryfderau ac asedau cyfunol er mwyn datblygu atebion cymunedol<br>➢ Hwyluso ymgysylltiad â'r gymuned er mwyn nodi cydnerthedd a chapasiti i alluogi mentrau newydd a allai/bydd yn darparu gwasanaethau a gweithgareddau lleol<br>➢ Nodi'r posibilrwydd o drosglwyddo asedau cymunedol ac i weithredu cymorth<br>➢ Darparu cymorth i dreialu mentrau hyb cymunedol<br>➢ Defnyddio pecynnau cymorth presennol (Llwybrau Cymunedol) datblygu rhaglen weithgareddau sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu ynni cymunedol ac yn gwella cynlluniau presennol (Gwasanaeth Effeithlonrwydd Adnoddau Llywodraethau Cymru).<br>➢ Datblygu ffyrdd arloesol o rannu gwybodaeth gan ddefnyddio technoleg<br>• Meithrin a broceru sgiliau<br>➢ Cynnal ac archwilio sgiliau ac arbenigedd y gellid eu defnyddio ar gyfer Mentora a chyfnewid arferion gorau<br>➢ Datblygu rhaglenni Mentora er mwyn galluogi unigolion i fod yn fwy entrepreneuraidd ac arloesol<br>➢ Ymchwilio i ddichonoldeb datblygu banciau sgiliau<br>• Cydweithredu, cydweithio, cyfathrebu a chydgynhyrchu<br>➢ Mapio pob digwyddiad arwyddocaol ym Mhowys<br>➢ Ymweliadau â gweithgareddau llwyddiannus mewn lleoliadau gwledig eraill i ddysgu arferion gorau<br>➢ Archwilio'r potensial ac yna treialu dulliau arloesol o ddatblygu'r gadwyn gyflenwi gyda phob sector<br><br>Mae'r fframwaith hwn yn ceisio gosod seilwaith cryf i ddatblygu cymunedau, busnesau a darparwyr gwasanaethau lleol sy'n gweithio ochr yn ochr â'i gilydd, gan gydnabod eu cyfrifoldebau ar y cyd a nodi | |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | atebion cydweithredol. Ei nod yw datblygu sylfaen gadarn i bobl, busnesau, rhwydweithiau a'r prosesau a fydd yn cefnogi eu cydweithrediad ac yn dychmygu Sir gynaliadwy a adeiledir ar fuddsoddiadau mewn cymunedau cryfach, gan ddefnyddio'r asedau a'r sgiliau ar gyfer buddion cyfunol a chydnabod y gellir cyflawni cynnydd trwy wireddu darbodaeth o raddfa a dysg a rennir. | |
| Cymru | Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Amlinellu Cynigion ar gyfer 2025<br>Mae'r ddogfen hon yn ceisio sicrhau y rheolir tir Cymru yn gynaliadwy, gan sefydlu safonau gofynnol ar gyfer rheoli tir a cheisio rhoi cynaliadwyedd wrth wraidd y diwydiant ffermio yng Nghymru. Mae'r ddogfen hefyd yn amlinellu pa gymorth y dylid ei roi i ffermwyr i'w helpu i newid i fod yn fwy cynaliadwy ac i gyrraedd y safonau gofynnol newydd. Mae hefyd yn ceisio:<br>• Cadw ffermwyr ar y tir<br>• Sicrhau bod y broses o gynhyrchu bwyd yn cael ei chynyddu i'r eithaf gan ei bod yn hanfodol i ddyfodol Cymru<br>• Cefnogi'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru i'w helpu i fod yn llewyrchus ac yn gydnerth<br>• Sicrhau bod y ffermwyr y mae angen cymorth arnynt yn gallu cael gafael yn rhwydd ar y cymorth a ddarperir gan y cynllun hwn. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Dylai'r ACI gynnwys hefyd amcanion sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd rhag niwed, datblygu cynaliadwy, a'r defnydd effeithlon o dir. Hefyd, gallai'r ACI gynnwys amcan sy'n ymwneud â chefnogi'r economi, gan nodi pwysigrwydd ffermio i'r economi leol. |
| Cymru | Papur Gwyn Bil Amaethyddiaeth (Cymru)<br>Mae'r ddogfen hon yn cadarnhau beth fyddai Mesur Amaethyddol yn y dyfodol gyda Chymru yn ei gynnwys. Ymgynghorwyd â'r Papur Gwyn yn 2020 hyd at fis Mawrth 2021. Roedd drafft ymgynghoriad y Papur Gwyn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r hyn a ganlyn:<br>• cymorth i amaethyddiaeth yn y dyfodol;<br>• diwygio rheoleiddio; | Dylai'r ACI gynnwys hefyd amcanion sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd rhag niwed, datblygu cynaliadwy, a'r defnydd effeithlon o dir. Hefyd, gallai'r ACI gynnwys amcan sy'n ymwneud â chefnogi'r economi, gan nodi pwysigrwydd ffermio i'r economi leol. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • cymorth i'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi yn y dyfodol;<br>• rheoli coetiroedd a choedwigaeth;<br>• gwella iechyd a llesiant anifeiliaid;<br>• gwella gwaith monitro drwy wneud defnydd effeithiol o ddata a thechnoleg o bell.<br>Lleoedd sydd wrth wraidd y ddogfen hon yw Rheoli Tir Cynaliadwy. Mae'r ddogfen yn awgrymu Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd er mwyn cynnig rhywfaint o gefnogaeth, o ystyried bod ffermwyr Cymru wedi colli mynediad at gynlluniau cyllido ffermio yr UE. | |
| Cymru | Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid i gefnogi'r economi wledig ac i newid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy<br>Mae'r Datganiad Ysgrifenedig hwn yn nodi y bydd angen cymorth ar ffermwyr a'r economi wledig er mwyn newid y sector i fod yn gynaliadwy a chydnerth. Mae'r Datganiad Ysgrifenedig yn cynnwys y thema ganlynol yn gefnogaeth arfaethedig:<br>• Rheoli tir ar raddfa fferm – gan ddarparu cymorth ar gyfer camau rheoli tir cynaliadwy ar y fferm.<br>• O ran gwelliannau amgylcheddol ffermydd – gan gynnwys canolbwyntio ar reoli maetholion, gwella tanwydd ac effeithlonrwydd porthiant, ymwreiddio dulliau economi gylchol ac annog y defnydd o ynni adnewyddadwy.<br>• O ran effeithlonrwydd ffermydd ac arallgyfeirio – gan gynnwys cefnogi effeithlonrwydd ffermydd drwy fuddsoddi mewn technoleg ac offer newydd a galluogi cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio amaethyddol.<br>• Rheoli tir ar raddfa tirwedd – darparu atebion ar sail natur ar raddfa tirwedd, drwy ddull cydweithredol amlsector. | Dylai'r ACI gynnwys hefyd amcanion sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd rhag niwed, datblygu cynaliadwy, a'r defnydd effeithlon o dir. Hefyd, gallai'r ACI gynnwys amcan sy'n ymwneud â chefnogi'r economi, gan nodi pwysigrwydd ffermio i'r economi leol ac amcan sy'n ymwneud â thirweddau. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Coetir a choedwigaeth – cefnogi ein hymrwymiad i greu 43,000 hectar o goetiroedd erbyn 2030 ac i gefnogi'r broses o greu strategaeth ddiwydiannol ar sail coed.<br>• Cadwyni cyflenwi bwyd a ffermio – creu diwydiant bwyd a diod cryf a bywiog yng Nghymru sydd ag enw da byd-eang am ragoriaeth gydag un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol yn y byd. | |
| Cymru | Rhestr o Goetiroedd Hynafol<br>Rhestrau a mapiau o goetiroedd hynafol yng Nghymru a gedwir yn gyfredol gan Cyfoeth Naturiol Cymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ac adnoddau coed. |
| Cymru | Cyngor i'r awdurdodau cynllunio sy'n ystyried cynigion sy'n effeithio ar goetir hynafol<br>Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyngor ar sut y dylid ystyried yr effeithiau posibl (uniongyrchol ac anuniongyrchol) ar Goetiroedd Hynafol. Mae Coetiroedd Hynafol yn ased naturiol pwysig y dylid eu gwarchod, sy'n cynnwys cadw eu cymeriad a'u lleoliad. Pan na ellir osgoi colli Coetir Hynafol neu pan ellir gwneud dadl sy'n ddigon cynhwysfawr dros ei golli, mae angen yr hyn a ganlyn (pan fo hynny'n briodol):<br>• Rheoli tir ar raddfa fferm – gan ddarparu cymorth ar gyfer camau rheoli tir cynaliadwy ar y fferm.<br>• O ran gwelliannau amgylcheddol ffermydd – gan gynnwys canolbwyntio ar reoli maetholion, gwella tanwydd ac effeithlonrwydd porthiant, ymwreiddio dulliau economi gylchol ac annog y defnydd o ynni adnewyddadwy. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ac adnoddau coed. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • O ran effeithlonrwydd ffermydd ac arallgyfeirio – gan gynnwys cefnogi effeithlonrwydd ffermydd drwy fuddsoddi mewn technoleg ac offer newydd a galluogi cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio amaethyddol.<br>• Rheoli tir ar raddfa tirwedd – darparu atebion ar sail natur ar raddfa tirwedd, drwy ddull cydweithredol amlsector.<br>• Coetir a choedwigaeth – cefnogi ein hymrwymiad i greu 43,000 hectar o goetiroedd erbyn 2030 ac i gefnogi'r broses o greu strategaeth ddiwydiannol ar sail coed.<br>• Cadwyni cyflenwi bwyd a ffermio – creu diwydiant bwyd a diod cryf a bywiog yng Nghymru sydd ag enw da byd-eang am ragoriaeth gydag un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol yn y byd. | |
| Cymru | Sut i osgoi neu leihau effeithiau datblygiad ar Goetir Hynafol<br>Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â nodi'n gywir effeithiau posibl datblygiadau ar Goetiroedd Hynafol. Mae hefyd yn darparu rhestr o ddatblygiadau lliniaru y dylid eu hymgorffori yn eu dyluniad os ydynt yn cael effaith (uniongyrchol neu anuniongyrchol) ar Goetir Hynafol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ac adnoddau coed. |
| Cymru | National Nature Recovery Plan 2015<br>Mae'r ddogfen hon yn ceisio diogelu, gwarchod a gwella bioamrywiaeth Cymru ac mae'n sicrhau bod ei hecosystemau yn cael eu cynnal fel y gallant barhau i effeithio'n gadarnhaol ar systemau economaidd-gymdeithasol poblogaethau Cymru. Mae'r ddogfen yn ceisio gwrthdroi dirywiad systemig bioamrywiaeth Cymru, cadw ei gwerth cynhenid a sicrhau y gall cenedlaethau Cymru'r dyfodol brofi manteision parhaol bioamrywiaeth. Cyflawnir hyn drwy fodloni'r chwe amcan canlynol: | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Dylai'r ACI gynnwys amcanion hefyd sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd rhag niwed a datblygu cynaliadwy. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn ymwreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel.<br>• Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well.<br>• Amcan 3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi eu diraddio a chreu cynefinoedd.<br>• Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd.<br>• Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro.<br>• Amcan 6: Gweithredu fframwaith llywodraethu a chefnogaeth ar gyfer cyflawni. | |
| Cymru | Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020-21<br>Mae dogfennau'r Cynllun Gweithredu yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar sut mae Cymru'n perfformio o gymharu â gofynion y Cynllun Adfer Natur Cenedlaethol ac mae'n cynnwys strategaeth wedi'i diweddaru ar gyfer diwallu ei anghenion. Mae'n cynnwys canllawiau ar barhau i ddiogelu asedau naturiol yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Dylai'r ACI gynnwys amcanion hefyd sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd rhag niwed a datblygu cynaliadwy. |
| Cymru | Cyngor Cefn Gwlad Cymru Cynefinoedd â Blaenoriaeth Cymru, 2003<br>Adroddiad sy'n adolygu statws Cynefinoedd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yng Nghymru ac sy'n crynhoi'r data perthnasol ar eu graddau a'u dosbarthiad. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | TAN 10 Gorchmynion Cadw Coed, 1997<br>Canllawiau sy'n nodi dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddiogelu coed a choetir drwy wneud Gorchmynion Cadw Coed. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ac adnoddau coed. |
| Cymru | Strategaeth Coetiroedd i Gymru 2018<br>Mae'r strategaeth hon yn cynnwys canllawiau ar reoli coetiroedd Cymru ac yn ceisio sicrhau bod coetiroedd Cymru yn cynyddu o ran maint a'u cyflwr yn gwella. Mae hefyd yn ceisio sicrhau, tra bod gwelliant i goetiroedd ac adnoddau coed Cymru yn digwydd, fod sector coedwigaeth Cymru yn parhau i weithredu'n gynaliadwy. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ac adnoddau coed. |
| Cymru | Coedwig Genedlaethol i Gymru 2021<br>Cynllun Cenedlaethol yw'r Goedwig Genedlaethol sy'n ceisio diogelu a gwarchod coetiroedd a nodir yng Nghymru a chreu llwybr cysylltiedig o Goetiroedd ledled y wlad. Ar hyn o bryd, nodir 14 o goetiroedd yn rhai sy'n rhan o'r Goedwig Genedlaethol, er bod Llywodraeth Cymru'n parhau i edrych ar ffyrdd o ymgorffori coetiroedd eraill yn y Goedwig Genedlaethol:<br>• Parc Coedwig Gwydir<br>• Coedwig Clocaenog<br>• Parc Coedwig Coed y Brenin<br>• Coedwig Dyfnant<br>• Coedwig Dyfi<br>• Coedwig Bwlch Nant yr Arian<br>• Coedwig Hafren<br>• Coed y Bont/Coed Dolgoed<br>• Coedwig Llanandras gan gynnwys Coed Nash | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ac adnoddau coed. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Coedwig Brechfa<br>• Parc Coedwig Afan<br>• Coetir Ysbryd Llynfi<br>• Coed Gwent<br>• Coetiroedd Dyffryn Gwy | |
| Cymru | Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy 2019<br>Mae'r ddogfen yn ceisio gorfodi'r saith nod sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac fe'u harweinir gan y diffiniad canlynol ar gyfer "datblygiad cynaliadwy" a gynhwysir yn y Ddeddf honno: *ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant*<br>Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi cynnydd Cymru hyd yma o ran cyflawni'r saith nod a geir yn y Ddeddf uchod. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy a diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys hefyd amcan sy'n ymwneud ag ehangu'r economi leol. |
| **Cymru** | Datganiad Ardal Canolbarth Cymru<br>Wrth gyflawni'r ddyletswydd o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried unrhyw Ddatganiad Ardal sy'n cwmpasu'r ardal gyfan neu ran o'r ardal y mae'r awdurdod yn arfer ei swyddogaethau ynddi, gan gynnwys datblygu Cynlluniau Datblygu Lleol.<br>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod wrth wraidd y gwaith o ddatblygu Datganiadau Ardal ar gyfer pob rhanbarth o Gymru fel rhan o ymateb cydweithredol i Bolisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r heriau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy yn y dyfodol.<br>Mae'r datganiadau hyn yn rhoi man cychwyn i gynllunwyr ddeall materion amgylcheddol, blaenoriaethau a chyfleoedd yn eu hardal benodol, ac, yn | Mae angen i amcanion a blaenoriaethau'r ACI ystyried y rhai a gyflwynir yn Natganiad Ardal Canolbarth Cymru a bod yn gyson â nhw. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | seiliedig ar y wybodaeth honno, yn eu helpu i nodi polisïau a chamau gweithredu strategol i fynd i'r afael â nhw drwy'r system gynllunio.<br>Mae pob Datganiad Ardal yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal benodol honno, yr hyn y gellir ei wneud i ateb yr heriau hynny, a sut y gellir mynd ati i reoli ein hadnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol.<br>Mae Datganiad Ardal Canolbarth Cymru yn gwahanu hyn yn themâu, sef gwella bioamrywiaeth, tir, dŵr ac aer cynaliadwy, ailgysylltu pobl a lleoedd, adnoddau coedwigaeth a newid yn yr hinsawdd.<br><br>**Bioamrywiaeth**<br>• nodi prif achosion yr argyfwng natur, gan gynnwys beth sydd angen ei wneud, gan bwy a lle<br>• gwella Statws Cadwraeth Ffafriol safleoedd dynodedig<br>• nodi cyfleoedd ar gyfer cysylltedd rhwng y safleoedd hynny ac ardaloedd eraill ar raddfa'r dirwedd<br>• rhoi blaenoriaeth i natur drwy fesurau cynllunio, polisi ac ymarferol<br>**Tir, Dŵr ac Aer Cynaliadwy**<br>• Cefnogi busnesau ffermio drwy ffyrdd o weithio sy'n lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd<br>• Cymryd mesurau i leihau llygredd drwy reoli ffynonellau llygredd posibl yn well (er enghraifft storfeydd slyri a thail/dom)<br>• Gweithio gyda busnesau, cymunedau a llunwyr polisi i adolygu'r polisïau a'r cynlluniau amaethyddol presennol ac ymchwilio i opsiynau newydd ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystem | |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Rheoli ein hadnoddau dŵr er mwyn gwella ansawdd a swm y dŵr sydd ar gael, heb achosi niwed i'r amgylchedd naturiol<br>• Helpu i greu cymunedau addasol a gwydn mewn ymateb i ddigwyddiadau tywydd andwyol a newid yn yr hinsawdd<br>• Cefnogi syniadau newydd yn ymwneud â datblygu Datrysiadau'n Seiliedig ar Natur - e.e. defnyddio arferion Rheoli Perygl Llifogydd Naturiol<br>**Ailgysylltu Pobl a Lleoedd**<br>• Helpu i gefnogi cymunedau i ddatblygu sgiliau a chyfrannu at y sylfaen dystiolaeth, gan ddefnyddio Gwyddor Dinasyddion<br>• Chwilio am ffyrdd newydd i bobl allu cysylltu â'u hamgylchedd lleol er mwyn helpu i wella eu hiechyd a'u lles<br>• Gweithio gyda gwahanol sefydliadau i ddatblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r amgylchedd naturiol ar garreg ein drws fel adnodd ar gyfer meddyginiaeth ataliol<br>• Datblygu'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi'r darpariaethau ynghylch iechyd a lles a'r cysylltiadau â'r amgylchedd naturiol<br>• Hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth gynaliadwy er mwyn helpu i roi hwb i'r economi leol<br>• Hyrwyddo, annog a chefnogi gweithgareddau hamdden cynaliadwy, ailgysylltu pobl leol ac ymwelwyr gyda mynediad at yr amgylchedd naturiol<br>**Adnoddau Coedwigaeth**<br>• Rheoli adnoddau coed mewn ffordd gynaliadwy, gan gefnogi'r diwydiant pren yr un pryd | |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Cynyddu'r gorchudd coetir gyda choed conwydd, llydanddail a choed cymysg, gan ddilyn yr egwyddor 'y goeden gywir, y lleoliad cywir'*<br>• Cefnogi cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth leol ym meysydd rheoli a sgiliau coedwigaeth<br>• Gwerthfawrogi coetiroedd am eu gwerth masnachol, hamdden a bioamrywiaeth<br>• Addasu i effeithiau clefydau coed a newid yn yr hinsawdd<br>• Gweithio gyda llunwyr polisïau i gydbwyso'r angen i ail-blannu mewn coedwigoedd ar yr ucheldir ac osgoi difrod i gynefinoedd mewndir naturiol<br>• Chwilio am gyfleoedd i ddal, gwrthbwyso a storio carbon drwy goetiroedd sy'n cael eu rheoli'n dda<br>**Newid yn yr hinsawdd**<br>Dim amcanion | |
| Powys | Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys 2022-2032<br>Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi sut y bydd Powys yn diogelu ac yn gwella ei bioamrywiaeth. Mae'n ceisio gwrthdroi dirywiad systemig bioamrywiaeth Cymru a nodi'r bygythiadau canlynol i fioamrywiaeth Powys:<br>• Newid Hinsawdd<br>• Rhywogaethau Ymledol | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau lleol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig a datblygu cynaliadwy. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Datblygiadau<br>• Amaethyddiaeth Ddwys<br>• Llygredd<br>• Rheoli Coetiroedd<br>• Newid Hydrolegol<br>–' | |
| Powys | Strategaeth Adfywio Cynllun Gweithredu Powys (2011-2031)<br>Datblygwyd strategaeth adfywio Powys gan ymgynghorwyr Powell Dobson yn 2010. Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith lle bydd y Cyngor Sir a'i bartneriaid yn sicrhau bod adfywio yn rhan annatod o arferion bob dydd, er mwyn sicrhau canlyniadau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar briodoleddau ffisegol, cymdeithasol ac amgylcheddol yn ogystal â phriodoleddau economaidd a diwylliannol y Sir. Mae'n seiliedig o gwmpas y weledigaeth a ganlyn:<br>"Bydd adfywio ym Mhowys yn meithrin ac yn hybu asedau a chryfderau'r Sir fel y modd o fynd i'r afael â'i gwendidau drwy sefydlu economi gadarn a chynaliadwy yn seiliedig ar gymunedau bywiog, ac sy'n gwella ac yn diogelu amgylchedd ffisegol, cymdeithasol a diwylliannol Powys"<br>Y farn yw bod y strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol ac y dylai'r naw amcan allweddol sy'n adlewyrchu anghenion strategol y Sir aros yn eu lle:<br>1. Amcan 1 – Yr Amgylchedd a'r Lle<br>2. Amcan 2 – Addysg a sgiliau<br>3. Amcan 3 – Yr Economi<br>4. Amcan 4 – Iechyd a llesiant a'r gymuned<br>5. Amcan 5 – Ansawdd y gwasanaeth a ddarperir<br>6. Amcan 6 – Ynni adnewyddadwy ochr yn ochr ag ymchwil a datblygu<br>7. Amcan 7 – Arwyddocâd y diwylliant lleol a'r diwydiannau creadigol<br>8. Amcan 8 – Twristiaeth | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd, datblygu cynaliadwy, ehangu'r economi leol a dylunio o ansawdd uchel. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i’r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | 9. Amcan 9 – Anghenion pobl ifanc<br>Mae’r Cynllun Gweithredu yn rhan o ail-lansiad y Strategaeth Adfywio sy’n cynnwys datblygu meysydd effaith:<br>1. Tyfu Powys – grymuso a gwella iechyd economaidd Powys<br>2. Powys Gydnerth – Annog arloesedd, cryfhau gwasanaethau lleol, cymunedau a phartneriaethau<br>3. Grymuso Powys – Cefnogi cymunedau i fynd i’r afael â materion sydd o bwys lleol. | |

**Pwnc AAS - Poblogaeth**

| | | |
|---|---|---|
| DU | Industrial Strategy: building a Britain fit for the future (2018)<br>Mae’r ddogfen hon yn darparu’r strategaeth ddiwydiannol ar gyfer y DU. Mae’n ceisio:<br>• rhoi’r DU ar flaen y gad yn y chwyldro deallusrwydd artiffisial a data;<br>• sicrhau’r manteision mwyaf posibl i ddiwydiant y DU o’r newid byd-eang i dwf glân;<br>• dod yn arweinydd byd wrth lunio dyfodol symudedd; a<br>• harneisio pŵer arloesedd i helpu i ddiwallu anghenion cymdeithas sy’n heneiddio.<br>Mae arloesedd wrth wraidd y strategaeth er mwyn sicrhau bod diwydiant y DU yn addas ar gyfer anghenion y dyfodol ac yn sicrhau cymaint o dwf economaidd â phosibl. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, y defnydd effeithlon o dir ac ehangu’r economi leol. |
| DU | Fixing Our Broken Housing Market (2017)<br>Mae’r ddogfen hon yn nodi bod y farchnad dai yn y DU wedi torri oherwydd llywodraethau olynol nad ydynt yn sicrhau bod digon o dai yn cael eu hadeiladu ledled y wlad. Mae’r ddogfen yn sefydlu strategaeth ar gyfer cynyddu nifer y cartrefi sy’n cael eu creu yn y DU. Nodir bod y | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, y defnydd effeithlon o dir a darparu tai (gan gynnwys tai fforddiadwy a thai arbenigol). |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | defnydd o dir llwyd, mewnlenwi a'r defnydd o safleoedd llai yn allweddol i adeiladu mwy o gartrefi ochr yn ochr â chyllid gan y llywodraeth. Mae'r ddogfen yn nodi'r anghenion<br>canlynol:<br>• cynllunio ar gyfer y cartrefi cywir yn y lleoedd cywir<br>• adeiladu cartrefi'n gyflymach<br>• amrywiaethu'r farchnad<br>• helpu pobl yn awr | |
| DU | Planning for the Right Homes in the Right Places (2017)<br>Mae'r ddogfen hon yn cynnwys methodolegau ar y ffordd orau o gyfrifo'r angen am dai a'r angen i sicrhau bod datblygiadau tai yn gymesur â'u cyd-destun lleol (tirwedd, seilwaith ac ati), er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hadeiladu yn y lleoedd cywir. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, y defnydd effeithlon o dir a darparu tai (gan gynnwys tai fforddiadwy a thai arbenigol). |
| DU | Securing the Future – the UK Sustainable Development Strategy (2005)<br>Y nod yw galluogi pawb i fodloni eu hanghenion sylfaenol a mwynhau gwell ansawdd bywyd heb beryglu ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol. Mae pum egwyddor arweiniol i'r Strategaeth:<br>• Byw o fewn terfynau amgylcheddol;<br>• Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn;<br>• Cyflawni economi gynaliadwy;<br>• Hybu llywodraethu da; a<br>• Defnyddio gwyddoniaeth gadarn yn gyfrifol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, diogelu'r amgylchedd, gwella iechyd ac ehangu'r economi leol yn gynaliadwy. |
| Cymru | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020<br>Mae hyn yn nodi'r cynnydd a wnaed gan gyrff cyhoeddus tuag at gyflawni eu dyletswyddau a disgwyliadau y Comisiynydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Adroddiad yn manylu ar y weledigaeth a | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, darparu tai er mwyn diwallu amrywiaeth eang o anghenion, diogelu'r amgylchedd, newid yn yr |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | nodir yn y saith nod llesiant ac yn nodi saith maes ffocws: Cynllunio'r defnydd o dir a chreu lleoedd, trafnidiaeth, tai, datgarboneiddio, sgiliau, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a'r system iechyd a llesiant.<br><br>O ran y bennod ar ddatgarboneiddio, dywed yr Adroddiad y "dylai Llywodraeth Cymru nodi cynllun buddsoddi hirdymor ar sut y bydd yn cyllido'r argyfwng hinsawdd ac yn cefnogi ymrwymiadau a thargedau mwy uchelgeisiol ar gyfer y sectorau a reolir ganddi." Hefyd, mae'r Adroddiad yn nodi pum argymhelliad i'r holl gyrff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt:<br>• Deall ein hallyriadau a ble i flaenoriaethu camau gweithredu;<br>• Mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur drwy ddull cyfannol, sy'n manteisio ar swyddogaeth pobl ifanc;<br>• Darparu newid cyfiawn;<br>• Gweithredu atebion ar raddfa er mwyn cyflawni manteision lluosog;<br>• Buddsoddi'n fwy er mwyn mynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd. | hinsawdd, gwella iechyd ac ehangu'r economi leol yn gynaliadwy. |
| Cymru | Comisiynydd Plant Cymru – Cynllun ar gyfer yr holl Blant a Phobl Ifanc 2016-2019 (2016)<br>Mae'n ceisio diogelu plant ac oedolion ifanc yng Nghymru. Mae'n cydnabod y gall pobl ifanc wynebu llawer o anawsterau megis bwlio, anghydraddoldeb cymdeithasol, mynediad gwael i ardaloedd chwarae diogel a lleoedd diogel mwy cyffredinol. Mae'r ddogfen hefyd yn ceisio codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mabwysiadu. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chymunedau, iechyd a hygyrchedd. |
| Cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru – Er budd pawb. Cyngor Celfyddydau Cymru Cynllun Corfforaethol 2018-2023 (2018)<br>Mae hwn yn ceisio annog y celfyddydau yng Nghymru drwy annog pobl i ymgymryd â gyrfaoedd yn y maes hwn ac i brosiectau celf cyhoeddus newydd gael eu cynnal. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chymunedau, iechyd, a hygyrchedd. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Strategaeth y Gymraeg: adroddiad blynyddol 2020 i 2021 (2022)<br>Dyma adroddiad monitro dogfen Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr (2017). Mae'n dweud bod mwy o bobl yn siarad Cymraeg nag oedd yn 2017, gan ddangos bod y strategaethau a ddefnyddir yn gweithio. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chymunedau, cydlyniant cymunedol ac addysg. |
| Cymru | Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 (2020)<br>Mae hwn yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghymru drwy wella hygyrchedd gwasanaethau, ceisio cael canlyniadau tecach i ddinasyddion a bod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â phob math o anghydraddoldeb. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, darparu tai er mwyn diwallu amrywiaeth eang o anghenion, addysg, hygyrchedd, gwella iechyd ac ehangu'r economi leol yn gynaliadwy. |
| Cymru | Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru (2016)<br>Mae hon yn ceisio sicrhau bod y diwylliant pwysig ac unigryw Cymru yn dal i dyfu. Mae'r celfyddydau, cerddoriaeth, llenyddiaeth a threftadaeth yn hollbwysig i ddiwylliant a chydlyniad cymdeithasol. Mae hefyd yn pwysleisio'r pwysigrwydd o sicrhau bod gan bobl yng Nghymru ymdeimlad o le. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chymunedau, cydlyniant cymunedol ac addysg. |
| Cymru | Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus (2019)<br>Mae'r ddogfen hon yn ceisio annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, sy'n llawer mwy cynaliadwy na defnyddio ceir preifat. Mae hefyd yn cyfeirio at yr angen am deithio llesol. Mae'n hollbwysig bod y gostyngiad parhaus yn y nifer sy'n defnyddio bysiau yn cael ei atal a'i wrthdroi cyn gynted â phosibl. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â theithio, hygyrchedd a datblygu cynaliadwy. |
| Cymru | Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021)<br>Mae'r ddogfen hon yn nodi'r angen i drafnidiaeth gynhyrchu llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr ac mae'n ceisio rheoli'r ffyrdd gwahanol y mae pobl yn teithio ledled Cymru, yn enwedig yn sgil pandemig COVID-19. Pwysleisir gweithio gartref fel rhywbeth sy'n dod yn fwy cyffredin. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â theithio, hygyrchedd a datblygu cynaliadwy. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Addysg yng Nghymru: Ein cenhadaeth genedlaethol 2017-21 (diweddariad 2020)<br>Mae hyn yn amlinellu sut bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wella addysg drwy hyfforddi athrawon newydd, mynd i'r afael ag enghreifftiau o ddisgwyliadau isel/mynd i'r afael ag ysgolion posibl sy'n "sefyll yn eu hunfan", mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad a dyheadau ac ehangu'r cwricwlwm i sicrhau bod mwy o ddysgwyr posibl yn cael eu cynnwys. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chymunedau, cydlyniant cymunedol ac addysg. |
| Cymru | Strategaeth Economaidd i Gymru (diweddariad 2021) y Contract Economaidd<br>Mae'r Contract Economaidd yn ceisio cryfhau'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a busnesau er mwyn helpu i sbarduno twf cynhwysol ac ymddygiad cyfrifol, gan gynnwys cynyddu'r gwaith teg sydd ar gael, hybu iechyd, sgiliau a dysgu yn y gweithle, a datgarboneiddio'r economi. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, darparu tai er mwyn diwallu amrywiaeth eang o anghenion, addysg/cynyddu sgiliau, hygyrchedd, gwella iechyd ac ehangu'r economi leol yn gynaliadwy. |
| Cymru | Strategaeth Tlodi Plant (2015)<br>Mae'r ddogfen hon yn sefydlu nod Llywodraeth Cymru o sicrhau nad oes yr un plentyn yn byw mewn tlodi erbyn 2020. Mae'r ddogfen yn cydnabod yr angen i ddarparu cyfleoedd gwaith a chyfleoedd hyfforddi i alluogi rhieni i ddod o hyd i waith. Rhwystr mawr i fynd i'r afael â thlodi yw'r "Premiwm Tlodi" ac mae'r ddogfen yn ceisio sefydlu gwasanaethau cynghori i helpu i fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn aml yn cloi pobl mewn tlodi mewn dirywiad economaidd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, darparu tai er mwyn diwallu amrywiaeth eang o anghenion, addysg/cynyddu sgiliau, hygyrchedd, gwella iechyd ac ehangu'r economi leol yn gynaliadwy. |
| Cymru | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>Mae'n canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, newid hinsawdd, darparu tai er mwyn diwallu amrywiaeth eang o anghenion, addysg/cynyddu sgiliau, hygyrchedd, |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hangen eu hunain. | gwella iechyd ac ehangu'r economi leol yn gynaliadwy |
| Cymru | Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Ebrill 2010<br>Ei nod yw ymateb i broblemau tai presennol, gan gynnwys y galw'n mynd y tu hwnt i'r cyflenwad, cynyddu'r galw am dai fforddiadwy, y boblogaeth sy'n heneiddio, ac oedran ac ansawdd y stoc tai cymdeithasol presennol.<br>Ei nod yw:<br>• Darparu mwy o dai o'r math cywir a chynnig mwy o ddewis<br>• Gwella cartrefi a chymunedau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni cartrefi newydd a chartrefi presennol<br>• Gwella'r gwasanaethau a'r cymorth sy'n gysylltiedig â thai | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy a darparu tai i ddiwallu amrywiaeth eang o anghenion. Hefyd, dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â hygyrchedd a chymunedau cydlynus. |
| Cymru | Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023, Llywodraeth Cymru (2013)<br>Gweledigaeth y Strategaeth yw:<br>Bod pobl yng Nghymru yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael cefnogaeth, ni waeth beth yw eu hoedran.<br>Bod gan holl bobl hŷn Cymru yr adnoddau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol sydd eu hangen arnynt i ymdrin â'r cyfleoedd a'r heriau y maent yn eu hwynebu.<br>Mae'r canlyniadau a nodir yn cynnwys:<br>Cyfranogiad cymdeithasol – Mae pobl hŷn yn mwynhau ansawdd bywyd gwell, mae ganddynt fywydau cymdeithasol bywiog (os dymunir hynny), ac mae unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol nas dymunir yn cael eu lleihau. Nid yw pobl hŷn yn cael eu cam-drin. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy a darparu tai i ddiwallu amrywiaeth eang o anghenion. Hefyd, dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â hygyrchedd a chymunedau cydlynus. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Mynediad at wybodaeth – mae pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chyngor am wasanaethau a chyfleoedd, ac nid ydynt o dan anfantais wrth wneud hynny.<br>Dysgu a gweithgareddau – mae gan bobl hŷn gyfleoedd i gymryd rhan mewn dysgu gydol oes a gweithgareddau cymdeithasol priodol eraill.<br>Heneiddio'n Iach – Mae pobl hŷn yn mwynhau iechyd a llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol da gyda'r nod o allu byw'n annibynnol am gyfnod hirach, gydag ansawdd bywyd gwell, gan barhau i weithio a chyfranogi yn eu cymunedau. | |
| Cymru | Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd i Gymru (Llywodraeth<br>Cymru 2009)<br>Mae'n nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru am Gymru gynaliadwy:<br>• Datblygu cynaliadwy fydd egwyddor trefnu ganolog Llywodraeth Cymru<br>• O fewn cenhedlaeth, dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r ddaear y dylai Cymru ei defnyddio<br>• Dylai Cymru fod ag ecosystemau iach a gweithredol sy'n fiolegol amrywiol ac yn gynhyrchiol ac a reolir yn gynaliadwy<br>• Dylai Cymru fod ag economi cydnerth a chynaliadwy sy'n gallu datblygu wrth sefydlogi, yna lleihau ei ddefnydd o adnoddau naturiol a lleihau ei gyfraniad at newid yn yr hinsawdd<br>• Dylai Cymru fod â chymunedau diogel, cynaliadwy, deniadol lle mae pobl yn byw ac yn gweithio, yn gallu defnyddio gwasanaethau, yn mwynhau iechyd da ac yn gallu chwarae eu swyddogaethau'n llawn fel dinasyddion<br>• Dylai Cymru fod yn gyfiawn ac yn ddwyieithog. Dylid grymuso pob dinesydd i benderfynu ar ei fywyd ei hun, i siapio ei gymuned ac i gyflawni<br>ei lawn botensial. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, dylunio o ansawdd uchel, iechyd, hygyrchedd ac addysg. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021)<br>Mae dogfen Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys y polisïau cynllunio sy'n rheoli amgylchedd adeiledig a naturiol Cymru. O ran ei heffeithiau ar boblogaeth, mae'r ddogfen i gyd yn berthnasol o ystyried sut mae'r amgylchedd adeiledig a naturiol yn bresennol bob amser ym mywydau pobl. Mae'r ddogfen yn ceisio sicrhau bod datblygiadau yng Nghymru yn gynaliadwy, wedi eu cynllunio'n dda, yn hygyrch ac yn briodol, gan leihau eu heffeithiau posibl ar eu cyffiniau a lliniaru unrhyw effeithiau (megis sŵn, ansawdd yr aer, aroglau, traffig ac ati). Mae'r ddogfen hon hefyd yn ceisio sicrhau bod y gofynion hyn yn gytbwys â'r angen am dai newydd, datblygiad a thwf economaidd/busnes ac anghenion yr amgylchedd naturiol ac effeithiau yn sgil newid yn yr hinsawdd.<br><br>Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Cynllunio Lleol (29/09/22) Rheoli nifer yr ail gartrefi a'r llety gosod tymor byr yn darparu cyngor wedi'i ddiweddaru ar reoli ail gartrefi a llety gosod tymor byr drwy reoleiddio caniatâd cynllunio drwy Gyfarwyddiadau ac amodau Erthygl 4. Yn ogystal, "*dylai awdurdodau lleol hefyd neilltuo safleoedd mewn CDLlau sydd wedi'u cyfyngu i ddefnydd C3, gan gynnwys tai marchnad leol, mewn ardaloedd lle maent yn ceisio rheoli ail gartrefi a llety tymor byr.*<br>*4.2.5 Mae'n rhaid iddynt hefyd ystyried materion lleol, fel nifer yr ail gartrefi neu adeiladau llety tymor byr, wrth ddatblygu'r gofyniad mewn perthynas â thai marchnad agored a thai fforddiadwy mewn ardal benodol, ac ystyried a yw'r dystiolaeth yn cadarnhau'r angen am bolisi lleol i gefnogi hyfywedd cymunedau. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys capio neu gyfyngu ar nifer yr ail gartrefi neu adeiladau llety tymor byr.*<br>*4.2.9 Mewn partneriaeth â'r gymuned, gan gynnwys y sector preifat, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisïau i fodloni'r heriau a'r amgylchiadau hynny sy'n benodol i'w hardaloedd. Os oes angen i'r polisïau hyn wyro o'r polisïau cenedlaethol er mwyn diwallu anghenion penodol lleol am dai ar y* | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, hygyrchedd, y defnydd effeithlon o dir, ystyried materion niwsans (sŵn, arogl ac ati), darparu tai i ddiwallu amrywiaeth eang o anghenion (gan gynnwys rheoli ail gartrefi a llety gosod tymor byr), ehangu'r economi leol a chadwraeth yr amgylchedd a'i gymeriad. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | *farchnad agored na chyfyngir fel rheol ar feddiannaeth, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol roi tystiolaeth glir a chadarn i gefnogi hynny. Gallai'r cyfiawnhad fod yn ymwneud, er enghraifft, â chyflenwad tir, effeithiau amgylcheddol neu gymdeithasol, gan gynnwys nifer yr ail gartrefi neu adeiladau llety tymor byr, naill ar eu pen eu hunain neu fel cyfuniad o ffactorau. Gellid cael tystiolaeth o astudiaethau lleol fel cynlluniau llesiant lleol neu astudiaethau sy'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cynllun datblygu, yn enwedig yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Gall tystiolaeth o'r fath hefyd dynnu sylw at effaith ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ar gymunedau lleol penodol. Byddai'r Arfarniad Cynaliadwyedd, gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth a allai ddarparu cyfiawnhad dros wyro o'r polisi cenedlaethol.* | |
| Cymru | Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040<br>Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth am ganolbarth Cymru (Powys a Cheredigion), gan ddarparu archwiliad hefyd i CDLlau a nodau cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol y wlad a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Rhoddir cryn bwys ar dai yn y ddogfen, yn enwedig tai sy'n gydnerth ac wedi eu dylunio gan ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd. Rhoddir cryn bwys ar dai fforddiadwy yn y ddogfen hefyd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, hygyrchedd, y defnydd effeithlon o dir, darparu tai i ddiwallu amrywiaeth eang o anghenion, ehangu'r economi leol a newid hinsawdd, gan gynnwys angen am gydnerthedd hinsawdd. |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2006<br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2: Nod Cynllunio a Thai Fforddiadwy yw sicrhau bod yr angen am dai fforddiadwy yn cael sylw. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â darparu tai sy'n diwallu amrywiaeth eang o anghenion ac sy'n fforddiadwy ac wedi eu dylunio'n dda. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru, 2010<br>Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2: Nod Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yw sicrhau bod cymunedau gwledig yn cael eu cryfhau drwy helpu i sicrhau bod trigolion presennol yn gallu gweithio, er enghraifft, a defnyddio gwasanaethau lleol a chael cyfran uwch o'u hanghenion ynni o ffynonellau adnewyddadwy lleol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â hygyrchedd a gwella'r gallu i deithio drwy foddau heblaw car (gan annog teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus). |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio, Llywodraeth Cymru, 2014<br>Mae'n nodi polisïau ac amcanion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â dylunio datblygiadau newydd, gan gynnwys: sicrhau mannau cyhoeddus deniadol a diogel, a sicrhau mynediad rhwydd i bawb. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â dylunio a thirwedd o ansawdd uchel, a chreu profiadau iach a diogel. |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru, 2017<br>Mae'n rhoi cyngor ar ystyried y Gymraeg yn rhan o'r broses o wneud Cynllun Datblygu Lleol. Mae Rhan A yn rhoi cyngor manwl ar sut y dylid defnyddio'r AC i asesu effaith bosibl y strategaeth, y polisïau a'r dyraniadau ar y Gymraeg sydd yn y CDLl. Mae Rhan B yn rhoi canllawiau manwl nad ydynt yn gyfarwyddol ar sut y gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn yr AC.<br>Gweler hefyd Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 28/09/22 ar ail gartrefi a llety gosod tymor byr mewn perthynas â Pholisi Cynllunio Cymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcan penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. |
| Cymru | Trechu Tlodi Tanwydd 2021-2035<br>Mae'r ddogfen hon yn ceisio mynd i'r afael â phroblem tlodi tanwydd yng Nghymru ac yn sefydlu'r targedau canlynol erbyn 2035:<br>• Ni thybir bod unrhyw aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol na pharhaus cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â dyluniad o ansawdd uchel sy'n cynnwys defnyddio inswleiddiad ac effeithlonrwydd ynni. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Ni thybir bod mwy na 5% o'r aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd ar unrhyw adeg benodol cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol<br>• Bydd lleihad o dros 50% yn nifer yr holl aelwydydd sydd "mewn perygl" o brofi tlodi tanwydd ar sail amcangyfrif 2018. | |
| Cymru | Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020<br>Rhaglen Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig 7 mlynedd a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru yw Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020. Gallai Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 a gyflwynwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd ar 11 Gorffennaf 2014 ddarparu £953 miliwn o gyllid Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru i Gymru wledig i helpu i wneud yr hyn a ganlyn:<br>• cynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd busnesau ffermio a choedwigaeth Cymru, gan wella eu cystadleurwydd a'u cydnerthedd, a lleihau eu dibyniaeth ar gymorthdaliadau<br>• gwella amgylchedd Cymru, annog arferion rheoli tir cynaliadwy, rheoli ein hadnoddau naturiol a gweithredu dros yr hinsawdd yng Nghymru yn gynaliadwy<br>• hybu twf economaidd gwledig cryf a chynaliadwy yng Nghymru ac annog mwy o ddatblygiad lleol a arweinir gan y gymuned.<br>Mae 6 Blaenoriaeth Datblygu Gwledig sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a bydd unrhyw gamau sy'n rhan o Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn ffitio yn y strwythur blaenoriaethau hwn:<br>• meithrin y modd y trosglwyddir gwybodaeth ac arloesedd mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth, ac ardaloedd gwledig<br>• gwella cystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth a gwella ymarferoldeb ffermio | Dylai'r cynllun gefnogi mesurau i wella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig drwy ddiogelu a hybu mynediad at wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • hybu trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risgiau mewn amaethyddiaeth<br>• adfer, cadw a gwella ecosystemau, yn ddibynnol ar amaethyddiaeth a choedwigaeth<br>• hybu effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r newid tuag at economi sy'n garbon isel ac yn gydnerth i'r hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth<br>• hybu cynhwysiant cymdeithasol a datblygiad economaidd, a lleihau tlodi mewn ardaloedd gwledig.<br>Roedd disgwyl y byddai Rhaglen Datblygu Gwledig newydd Cymru 2014-2020 yn agor o fis Ionawr 2015. Fodd bynnag, gallai Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 newid nes bod y rhaglen lawn wedi ei chytuno arni gan y Comisiwn Ewropeaidd.<br><br>Strategaeth Datblygu Lleol Powys<br>Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn bwysig i ddatblygiad economaidd a chymdeithasol y Sir yn y dyfodol, yn enwedig gan mai ers 2007, Powys yw'r unig sir sy'n bennaf wledig yng Nghymru nad yw'n gymwys i dderbyn statws Cydgyfeirio. Pwrpas Strategaeth Datblygu Lleol Powys yw nodi amcanion strategol ar gyfer Powys rhwng 2014 a 2020 fel sail ar gyfer cyflawni gweithgarwch o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Felly, mae'r Strategaeth Datblygu Lleol yn gyfrwng pwysig ar gyfer cyflawni uchelgeisiau datblygu economaidd Llywodraeth Cymru ym Mhowys.<br>Ar gyfer cyfnod 2014-2020, ffurfiwyd Grŵp Gweithredu Lleol newydd, sef Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un er mwyn datblygu Strategaeth Datblygu Lleol. Tynnwyd aelodaeth Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un o'r Bartneriaeth Adfywio Powys bresennol a Grŵp Gweithredu Lleol Glasu ynghyd ag aelodau newydd, gan sicrhau cynrychiolaeth o bob sector. Y weledigaeth hirdymor ar gyfer Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un yw: | |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i’r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | “Erbyn 2020, rydym yn anelu at weld cymunedau bywiog, cysylltiedig ac sydd wedi eu grymuso drwy ddarparu atebion cynaliadwy ac arloesol i broblemau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cyfredol ac yn y dyfodol, a fydd yn cynyddu cyfoeth economaidd y Sir”<br>Mae Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un wedi nodi nifer o amcanion sydd ar y cyd yn ceisio ychwanegu gwerth at asedau’r Sir, gan gefnogi’r gallu i adeiladu ar gryfderau cymunedau ac amgylchedd naturiol y Sir.<br>Amcanion Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un yw:<br>1. Annog menter ac entrepreneuriaeth<br>2. Manteisio ar ein hadnoddau naturiol a dynol<br>3. Optimeiddio cryfderau ac asedau cyfunol er mwyn datblygu atebion cymunedol<br>4. Meithrin a broceru sgiliau<br>5. Cydweithredu, cydweithio, cyfathrebu a chydgynhyrchu<br>Mae’r tri amcan cyntaf yn crynhoi canlyniadau a deilliannau buddsoddiad ac ymyrraeth, ac offer i ddatblygu a chefnogi’r mentrau hynny yw’r ddau amcan olaf.<br>Er bod mentrau o dan y Strategaeth Datblygu Lleol yn dal i gael eu sefydlu, y fframwaith ar gyfer y Cynllun Gweithredu tymor canolig ar gyfer 2015-2018 yw:<br>• Annog menter ac entrepreneuriaeth<br>- Prosiectau peilot yn defnyddio’r amgylchedd naturiol i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth<br>- Datblygu partneriaethau busnes i ddatblygu syniadau newydd sy’n sicrhau bod cynifer o gyfleoedd â phosibl i wella llesiant economaidd yn amgylchedd naturiol yr ucheldiroedd<br>- Datblygu gweithgareddau newydd sy’n gysylltiedig â’r amgylchedd a’r dreftadaeth naturiol<br>- Datblygu gweithgareddau sy’n cysylltu cynhyrchwyr, ymwelwyr a chynhyrchion gyda’i gilydd | |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | - Manteisio ar ein hadnoddau naturiol a dynol<br>- Treialu gweithgareddau awyr agored newydd a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant a threftadaeth gyda chymunedau'n defnyddio dolennau a chysylltiadau a hybir rhwng pentrefi a threfi<br>- Ymchwilio i weithgareddau peilot posibl sy'n datblygu'r Gymraeg ac yn cysylltu â gweithgareddau awyr agored<br>- Datblygu gweithgareddau arloesol sy'n darparu gwasanaethau gofal plant dwyieithog<br>- Datblygu cymwysterau gwyrdd Powys ar gyfer byw, gweithio a hamdden<br>- Gweithio gyda sefydliadau addysgol i ddatblygu cynhyrchion neu brosesau arloesol newydd ar gyfer deunyddiau lleol<br>• Optimeiddio cryfderau ac asedau cyfunol er mwyn datblygu atebion cymunedol<br>- Hwyluso ymgysylltiad â'r gymuned er mwyn nodi cydnerthedd a chapasiti i alluogi mentrau newydd a allai/bydd yn darparu gwasanaethau a gweithgareddau lleol<br>- Nodi'r posibilrwydd o drosglwyddo asedau cymunedol ac i weithredu cymorth<br>- Darparu cymorth i dreialu mentrau hyb cymunedol<br>- Defnyddio pecynnau cymorth presennol (Llwybrau Cymunedol) datblygu rhaglen weithgareddau sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu ynni cymunedol ac yn gwella cynlluniau presennol (Gwasanaeth Effeithlonrwydd Adnoddau Llywodraethau Cymru).<br>- Datblygu ffyrdd arloesol o rannu gwybodaeth gan ddefnyddio technoleg<br>• Meithrin a broceru sgiliau<br>- Cynnal ac archwilio sgiliau ac arbenigedd y gellid eu defnyddio ar gyfer Mentora a chyfnewid arferion gorau<br>- Datblygu rhaglenni Mentora er mwyn galluogi unigolion i fod yn fwy entrepreneuraidd ac arloesol | |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | - Ymchwilio i ddichonoldeb datblygu banciau sgiliau<br>• Cydweithredu, cydweithio, cyfathrebu a chydgynhyrchu<br>- Mapio pob digwyddiad arwyddocaol ym Mhowys<br>- Ymweliadau â gweithgareddau llwyddiannus mewn lleoliadau gwledig eraill i ddysgu arferion gorau<br>- Archwilio'r potensial ac yna treialu dulliau arloesol o ddatblygu'r gadwyn gyflenwi gyda phob sector<br>Mae'r fframwaith hwn yn ceisio gosod seilwaith cryf i ddatblygu cymunedau, busnesau a darparwyr gwasanaethau lleol sy'n gweithio ochr yn ochr â'i gilydd, gan gydnabod eu cyfrifoldebau ar y cyd a nodi atebion cydweithredol. Ei nod yw datblygu sylfaen gadarn i bobl, busnesau, rhwydweithiau a'r prosesau a fydd yn cefnogi eu cydweithrediad ac yn dychmygu Sir gynaliadwy a adeiledir ar fuddsoddiadau mewn cymunedau cryfach, gan ddefnyddio'r asedau a'r sgiliau ar gyfer buddion cyfunol a chydnabod y gellir cyflawni cynnydd trwy wireddu darbodaeth o raddfa a dysg a rennir. | |
| Cymru | Mae Rhaglen Lywodraethu, Llywodraeth Cymru (Mehefin 2021) yn nodi'r deg amcan llesiant y bydd y llywodraeth yn eu defnyddio i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at saith nod llesiant hirdymor Cymru a'r camau i'w cymryd i'w cyflawni nhw. Mae'r ddogfen yn amlinellu<br>• Sut y pennwyd yr amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.<br>• Sut mae'r amcanion llesiant yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf).<br>• Y camau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion llesiant, gyda chymorth adnoddau a llywodraethu effeithiol. | Gall y CDLl helpu i gyflawni nifer o ganlyniadau Llywodraeth Cymru a nodwyd, gan gynnwys diwallu anghenion tai ardal y Cynllun, darparu cyfleoedd cyflogaeth, gwella'r seilwaith trafnidiaeth, galluogi ffyrdd llesol o fyw, darparu gwasanaethau a chyfleusterau a gwella diogelwch cymunedol. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Rural Housing in Wales, Joseph Rowntree Foundation, Mehefin 2008<br>Mae'n nodi lefel arwyddocaol o anghenion tai nas diwellir yng nghefn gwlad Cymru lle mae problemau fforddiadwyedd yn fwy difrifol, mae lefelau digartrefedd wedi cynyddu ac mae'r cyflenwad tai cymdeithasol yn fwy cyfyngedig. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â hygyrchedd a'r ddarpariaeth o gartrefi mewn lleoliadau synhwyrol sy'n fforddiadwy. |
| Cymru | Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021)<br>Mae'r ddogfen hon yn nodi'r angen i drafnidiaeth gynhyrchu llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr ac mae'n ceisio rheoli'r ffyrdd gwahanol y mae pobl yn teithio ledled Cymru, yn enwedig yn sgil pandemig COVID-19. Pwysleisir gweithio gartref fel rhywbeth sy'n dod yn fwy cyffredin. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â theithio a gwella'r ffyrdd y mae pobl yn croesi Powys. Dylai'r ACI gynnwys hefyd amcanion sy'n ymwneud â newid hinsawdd (lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr) a hygyrchedd. |
| Cymru | Strategaeth Priffyrdd Rhanbarthol Canolbarth Cymru TraCC (2012)<br>Mae TraCC wedi comisiynu'r Strategaeth Priffyrdd Rhanbarthol er mwyn rhoi dull cydlynol ar waith ar gyfer priffyrdd yn y Rhanbarth y gellir ei ddefnyddio i arwain buddsoddiad RTP, sicrhau bod blaenoriaethau rhanbarthol yn cael eu cynrychioli'n llawn mewn gwariant cenedlaethol a chefnogi rhaglenni'r Awdurdod Lleol<br>ar gyfer buddsoddi mewn priffyrdd, a'u cynnal a'u cadw. Y strategaeth ar gyfer yr holl briffyrdd yn y Rhanbarth p'un a ydynt yn cael eu rheoli gan yr Awdurdodau Lleol neu'r Asiantaethau Cefnffyrdd, er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau'n seiliedig ar angen a buddion posibl yn hytrach nag ar gyfrifoldebau.<br>Felly, pwrpas y strategaeth hon yw darparu fframwaith ar gyfer buddsoddi mewn priffyrdd. Mae'r ddogfen strategaeth yn darparu | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â gwella dewisiadau teithio a seilwaith er mwyn cynyddu hygyrchedd sydd wedi ei gynllunio'n dda. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | cyfeiriad hirdymor. Mae'r ddogfen yn cynnwys trosolwg o gyd-destun y polisi, cyd-destun y priffyrdd, y problemau a'r chyfleoedd, a'r strategaeth.<br>Mae amcanion y strategaeth yn cynnwys:<br>1. Gwella a rheoli seilwaith rhwydwaith priffyrdd;<br>2. Hybu diogelwch ar y ffyrdd;<br>3. Lleihau a rheoli symudiadau nwyddau; a<br>4. Monitro a Gwerthuso.<br>Nodir y canlynol yn llwybrau rhanbarthol:<br>• Yr A40 i'r dwyrain a'r gorllewin o Aberhonddu;<br>• Yr A479 a'r A438 rhwng Talgarth a'r Gelli Gandryll a Chrucywel;<br>• Yr A483 i'r de o'r Drenewydd;<br>• Yr A489 i'r dwyrain o'r Drenewydd;<br>• Yr A495 i'r gogledd o'r Trallwng;<br>• Yr A493, yr A494, yr A496 a'r A4212 ym Meirionnydd;<br>• Yr A494, yr A482 a'r A485 yng Ngheredigion.<br>Mae llwybrau cludo nwyddau craidd yn cynnwys:<br>• Yr A470;<br>• Yr A40;<br>• Yr A487 i'r de o Fachynlleth;<br>• Yr A44 o Langurig i Aberystwyth;<br>• Yr A458 o Swydd Amwythig i'r Trallwng;<br>• Yr A483 o Swydd Amwythig i'r Drenewydd; a<br>• Rhannau o'r A483.<br><br>Dogfen statudol a chymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2015 yw Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru. Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru yn cwmpasu rhaglen o brosiectau ar gyfer cyfnod 2015-2020 ac mae'n darparu fframwaith tymor hwy ar gyfer cynlluniau, hyd at 2030. Os bydd cyllid ar gael, bydd yn hwyluso dilyniant y cynigion canlynol a nodwyd yn benodol: | |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Troeon Fforest Clud a llwybrau Dwyrain–Gorllewin yr A44 (2015-2020)<br>• Y B4385 Beulah i'r A4081 Llanllŷr (2020-2030). | |
| Cymru | Cydlyniant Cymunedol Cynllun Cyflawni Cenedlaethol 2016–17<br>Yn greiddiol i'r ddogfen hon yw'r angen i sicrhau bod y cymunedau yng Nghymru yn parhau i fod yn gydlynus, yn gydnerth, yn deg, ac yn gyfartal. Cyflawnir hyn trwy gyflawni'n llwyddiannus y canlyniadau canlynol:<br>• Canlyniad 1: Mae adrannau, sefydliadau a phobl yn deall troseddau casineb, mae dioddefwyr yn gwneud adroddiadau ac yn cael cymorth priodol<br>• Canlyniad 2: Mae adrannau, sefydliadau a phobl yn deall caethwasiaeth fodern, mae dioddefwyr yn gwneud adroddiadau ac yn cael cymorth priodol<br>• Canlyniad 3: Mwy o ymwybyddiaeth ac ymgysylltu ar draws cymunedau Sipsiwn a Theithwyr<br>• Canlyniad 4: Mwy o dystiolaeth ac ymwybyddiaeth am fewnfudo a chefnogi'r broses o gynnwys ceiswyr lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr<br>• Canlyniad 5: Mwy o ddealltwriaeth am effeithiau tlodi ar bobl sydd â Nodweddion Gwarchodedig ar draws y ddarpariaeth o bolisïau a gwasanaethau allweddol<br>• Canlyniad 6: Mae polisïau a rhaglenni allweddol yn cefnogi ac yn dangos y ddarpariaeth o'i chymharu â'r nod cenedlaethol o gymunedau mwy cydlynus drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• Canlyniad 7: Mae polisïau a gwasanaethau yn ymatebol i densiynau cymunedol | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â gwella cydlyniant cymunedol a chreu mannau cymunedol sydd wedi eu dylunio'n dda ac sy'n ddiogel. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Powys | Strategaeth Tai Powys, 2016-2020<br>Gweledigaeth y Strategaeth yw:<br>Galluogi tai fforddiadwy o ansawdd da i gael eu darparu a'u cynnal a'u cadw, er mwyn diwallu anghenion a dyheadau pobl Powys, ni waeth a ydynt yn dewis rhentu neu brynu eu cartref.<br>Nodau a datganedig y Strategaeth yw:<br>1. Datblygu tai fforddiadwy o ansawdd da i ddiwallu'r angen lleol<br>2. Cefnogi pobl sydd â gofynion tai arbennig<br>3. Gwella ansawdd tai ac amgylcheddau tai presennol<br>4. Gwneud cartrefi'n fwy effeithlon o ran ynni<br>5. Atal/lleihau digartrefedd a chysgu allan | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â dylunio o ansawdd uchel a darparu ystod o dai sy'n diwallu anghenion a nodwyd, sy'n fforddiadwy ac sydd mewn lleoliad synhwyrol. |
| Powys | Strategaeth Adfywio Powys 2011-2031<br>Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020<br>Rhaglen Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig 7 mlynedd a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru yw Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.<br>• cynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd busnesau ffermio a choedwigaeth Cymru, gan wella eu cystadleurwydd a'u cydnerthedd, a lleihau eu dibyniaeth ar gymorthdaliadau<br>• gwella amgylchedd Cymru, annog arferion rheoli tir cynaliadwy, rheoli ein hadnoddau naturiol a gweithredu dros yr hinsawdd yng Nghymru yn gynaliadwy<br>• hybu twf economaidd gwledig cryf a chynaliadwy yng Nghymru ac annog mwy o ddatblygiad lleol a arweinir gan y gymuned.<br>Mae 6 Blaenoriaeth Datblygu Gwledig sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a bydd unrhyw gamau sy'n rhan o Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn ffitio yn y strwythur blaenoriaethau hwn:<br>• meithrin y modd y trosglwyddir gwybodaeth ac arloesedd mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth, ac ardaloedd gwledig | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, darparu ystod o dai sy'n diwallu anghenion a nodir ac sy'n fforddiadwy, ehangu'r economi leol, diogelu'r amgylchedd, y defnydd effeithlon o dir, dylunio o ansawdd uchel, hygyrchedd, addysg/sgiliau a gwella cydlyniant cymunedol. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • gwella cystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth a gwella ymarferoldeb ffermio<br>• hybu trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risgiau mewn amaethyddiaeth<br>• adfer, cadw a gwella ecosystemau, yn ddibynnol ar amaethyddiaeth a choedwigaeth<br>• hybu effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r newid tuag at economi sy'n garbon isel ac yn gydnerth i'r hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth<br>• hybu cynhwysiant cymdeithasol a datblygiad economaidd, a lleihau tlodi mewn ardaloedd gwledig.<br>Roedd disgwyl y byddai Rhaglen Datblygu Gwledig newydd Cymru 2014-2020 yn agor o fis Ionawr 2015. Fodd bynnag, gallai Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 newid nes bod y rhaglen lawn wedi ei chytuno arni gan y Comisiwn Ewropeaidd.<br>Strategaeth Datblygu Lleol Powys<br>Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn bwysig i ddatblygiad economaidd a chymdeithasol y Sir yn y dyfodol, yn enwedig gan mai ers 2007, Powys yw'r unig sir sy'n bennaf wledig yng Nghymru nad yw'n gymwys i dderbyn statws Cydgyfeirio. Pwrpas Strategaeth Datblygu Lleol Powys yw nodi amcanion strategol ar gyfer Powys rhwng 2014 a 2020 fel sail ar gyfer cyflawni gweithgarwch o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Felly, mae'r Strategaeth Datblygu Lleol yn gyfrwng pwysig ar gyfer cyflawni uchelgeisiau datblygu economaidd Llywodraeth Cymru ym Mhowys.<br>Ar gyfer cyfnod 2014-2020, ffurfiwyd Grŵp Gweithredu Lleol newydd, sef Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un er mwyn datblygu Strategaeth Datblygu Lleol. Tynnwyd aelodaeth Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un o'r Bartneriaeth Adfywio Powys bresennol a Grŵp Gweithredu Lleol Glasu ynghyd ag aelodau newydd, gan sicrhau cynrychiolaeth o bob sector. Y weledigaeth hirdymor ar gyfer Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un yw: | |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | "Erbyn 2020, rydym yn anelu at weld cymunedau bywiog, cysylltiedig ac sydd wedi eu grymuso drwy ddarparu atebion cynaliadwy ac arloesol i broblemau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cyfredol ac yn y dyfodol, a fydd yn cynyddu cyfoeth economaidd y Sir"<br>Mae Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un wedi nodi nifer o amcanion sydd ar y cyd yn ceisio ychwanegu gwerth at asedau'r Sir, gan gefnogi'r gallu i adeiladu ar gryfderau cymunedau ac amgylchedd naturiol y Sir.<br>Amcanion Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un yw:<br>1. Annog menter ac entrepreneuriaeth<br>2. Manteisio ar ein hadnoddau naturiol a dynol<br>3. Optimeiddio cryfderau ac asedau cyfunol er mwyn datblygu atebion cymunedol<br>4. Meithrin a broceru sgiliau<br>5. Cydweithredu, cydweithio, cyfathrebu a chydgynhyrchu<br>Mae'r tri amcan cyntaf yn crynhoi canlyniadau a deilliannau buddsoddiad ac ymyrraeth, ac offer i ddatblygu a chefnogi'r mentrau hynny yw'r ddau amcan olaf.<br>Er bod mentrau o dan y Strategaeth Datblygu Lleol yn dal i gael eu sefydlu, y fframwaith ar gyfer y Cynllun Gweithredu tymor canolig ar gyfer 2015-2018 yw:<br>• Annog menter ac entrepreneuriaeth<br>- Prosiectau peilot yn defnyddio'r amgylchedd naturiol i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth<br>- Datblygu partneriaethau busnes i ddatblygu syniadau newydd sy'n sicrhau bod cynifer o gyfleoedd â phosibl i wella llesiant economaidd yn amgylchedd naturiol yr ucheldiroedd<br>- Datblygu gweithgareddau newydd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a'r dreftadaeth naturiol<br>- Datblygu gweithgareddau sy'n cysylltu cynhyrchwyr, ymwelwyr a chynhyrchion gyda'i gilydd | |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | - Manteisio ar ein hadnoddau naturiol a dynol<br>- Treialu gweithgareddau awyr agored newydd a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant a threftadaeth gyda chymunedau'n defnyddio dolennau a chysylltiadau a hybir rhwng pentrefi a threfi<br>- Ymchwilio i weithgareddau peilot posibl sy'n datblygu'r Gymraeg ac yn cysylltu â gweithgareddau awyr agored<br>- Datblygu gweithgareddau arloesol sy'n darparu gwasanaethau gofal plant dwyieithog<br>- Datblygu cymwysterau gwyrdd Powys ar gyfer byw, gweithio a hamdden<br>- Gweithio gyda sefydliadau addysgol i ddatblygu cynhyrchion neu brosesau arloesol newydd ar gyfer deunyddiau lleol<br>• Optimeiddio cryfderau ac asedau cyfunol er mwyn datblygu atebion cymunedol<br>- Hwyluso ymgysylltiad â'r gymuned er mwyn nodi cydnerthedd a chapasiti i alluogi mentrau newydd a allai/bydd yn darparu gwasanaethau a gweithgareddau lleol<br>- Nodi'r posibilrwydd o drosglwyddo asedau cymunedol ac i weithredu cymorth<br>- Darparu cymorth i dreialu mentrau hyb cymunedol<br>- Defnyddio pecynnau cymorth presennol (Llwybrau Cymunedol) datblygu rhaglen weithgareddau sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu ynni cymunedol ac yn gwella cynlluniau presennol (Gwasanaeth Effeithlonrwydd Adnoddau Llywodraethau Cymru).<br>- Datblygu ffyrdd arloesol o rannu gwybodaeth gan ddefnyddio technoleg<br>• Meithrin a broceru sgiliau<br>- Cynnal ac archwilio sgiliau ac arbenigedd y gellid eu defnyddio ar gyfer Mentora a chyfnewid arferion gorau<br>- Datblygu rhaglenni Mentora er mwyn galluogi unigolion i fod yn fwy entrepreneuraidd ac arloesol | |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | - Ymchwilio i ddichonoldeb datblygu banciau sgiliau<br>• Cydweithredu, cydweithio, cyfathrebu a chydgynhyrchu<br>- Mapio pob digwyddiad arwyddocaol ym Mhowys<br>- Ymweliadau â gweithgareddau llwyddiannus mewn lleoliadau gwledig eraill i ddysgu arferion gorau<br>- Archwilio'r potensial ac yna treialu dulliau arloesol o ddatblygu'r gadwyn gyflenwi gyda phob sector<br>Mae'r fframwaith hwn yn ceisio gosod seilwaith cryf i ddatblygu cymunedau, busnesau a darparwyr gwasanaethau lleol sy'n gweithio ochr yn ochr â'i gilydd, gan gydnabod eu cyfrifoldebau ar y cyd a nodi atebion cydweithredol. Ei nod yw datblygu sylfaen gadarn i bobl, busnesau, rhwydweithiau a'r prosesau a fydd yn cefnogi eu cydweithrediad ac yn dychmygu Sir gynaliadwy a adeiledir ar fuddsoddiadau mewn cymunedau cryfach, gan gydnabod yr asedau a'r sgiliau ar gyfer buddion cyfunol a chydnabod y gellir cyflawni cynnydd sy'n gwireddu darbodaeth o raddfa a dysg a rennir. | |
| **Pwnc AAS – Iechyd Dynol** | | |
| Rhyngwladol | Medium Term Strategic Plan 2008-2013, World Health Organisation (April 2009)<br>Mae'n nodi 13 amcan strategol gan gynnwys:<br>Atal a lleihau clefyd, anabledd a marwolaeth gynamserol oherwydd clefydau anhrosglwyddadwy cronig, anhwylderau meddyliol, trais ac anafiadau a nam ar y golwg<br>Lleihau morbidrwydd a marwolaethau a gwella iechyd yn ystod cyfnodau allweddol bywyd, gan gynnwys beichiogrwydd, genedigaeth, y cyfnod newyddenedigol, plentyndod a blaenlencyndod, a gwella iechyd rhywiol ac atgynhyrchiol a hybu heneiddio llesol ac iach i bob unigolyn | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â gwella iechyd a hygyrchedd. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Hybu iechyd a datblygiad, ac atal neu leihau ffactorau risg ar gyfer cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â defnyddio tybaco, alcohol, cyffuriau a sylweddau seicoweithredol eraill, deietau afiach, anweithgarwch corfforol a rhyw anniogel<br>Mynd i'r afael â phenderfynynnau cymdeithasol ac economaidd isorweddol iechyd drwy bolisïau a rhaglenni sy'n gwella ecwiti iechyd ac yn integreiddio dulliau sydd o blaid pobl dlawd, sy'n ymatebol i rywedd, ac yn seiliedig ar hawliau dynol<br>Hybu amgylchedd iachach, dwysáu atal cychwynnol a dylanwadu ar bolisïau cyhoeddus ym mhob sector er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol bygythiadau amgylcheddol i iechyd. | |
| UE | Y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol (2002/49/EC)<br>Nod y Gyfarwyddeb yw diffinio dull cyffredin o weithredu er mwyn osgoi, atal neu leihau ar sail blaenoriaeth yr effeithiau niweidiol, gan gynnwys annifyrrwch, oherwydd amlygiad i sŵn amgylcheddol | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â dylunio o ansawdd uchel a mynd i'r afael â niwsans (sŵn). |
| UE | 'Together for Health – White Paper', Commission of the European Communities (Hydref 2007)<br>Mae Strategaeth Iechyd yr Undeb Ewropeaidd yn cydnabod bod iechyd dynol yn hanfodol i ffyniant economaidd. Amcanion strategol y ddogfen hon yw meithrin iechyd da mewn Ewrop sy'n heneiddio, diogelu dinasyddion rhag bygythiadau iechyd a chefnogi systemau iechyd a thechnolegau newydd deinamig. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion yn ymwneud â gwella iechyd, darparu tai a gwasanaethau ag angen arbenigol (pobl hŷn) a hygyrchedd. |
| UE | Towards Social Investment for Growth and Cohesion 2014-2020<br>Mae'n dangos sut mae buddsoddi mewn iechyd yn cyfrannu tuag at amcan Ewrop 2020 o dwf clyfar, cynaliadwy a chynhwysol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â gwella iechyd a chreu twf economaidd cynaliadwy. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| UE | Y Gyfarwyddeb AAS (2001/42/EC)<br>Yn benodol, mae angen ystyried yr effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd, gan gynnwys ar faterion megis iechyd dynol. Mae SEA Protocol (United Nations Economic Commission for Europe, 2003) yn gweithredu'r ymrwymiadau gwleidyddol a wnaed yn y Drydedd Gynhadledd Ewropeaidd ar yr Amgylchedd ac Iechyd ac mae'n defnyddio'r term 'environment and health' drwy gydol y ddogfen. Mae'n nodi y dylid ymgynghori ag awdurdodau iechyd ar wahanol gamau o'r broses ac felly mae'n mynd ymhellach na'r Gyfarwyddeb AAS. Ar ôl ei gadarnhau, bydd yn gofyn am newidiadau i'r Gyfarwyddeb AAS i'w gwneud yn ofynnol bod awdurdodau iechyd yn ymgyngoreion statudol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â gwella iechyd a diogelu'r amgylchedd. |
| UE | Health Impact Assessment in Strategic Environmental Assessment (2001)<br>Mae'n darparu adolygiad o gysyniadau, dulliau ac arferion Asesu'r Effaith ar Iechyd i gefnogi'r broses o ddatblygu protocol ar Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer Confensiwn Espoo, sy'n ymdrin yn ddigonol ag effeithiau ar iechyd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â gwella iechyd a diogelu'r amgylchedd. |
| DU | Deddf yr Amgylchedd (2021)<br>Mae'n nodi disgwyliadau'r Llywodraeth o ran gwella'r amgylchedd drwy osod fframwaith cyfreithiol sy'n cwmpasu:<br>• Llywodraethu amgylcheddol<br>• Rheoleiddio amgylcheddol<br>• Effeithlonrwydd gwastraff ac adnoddau<br>• Ansawdd yr aer ac adalw amgylcheddol<br>• Dŵr<br>• Natur a bioamrywiaeth<br>• Cyfamodau cadwraeth | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, lleihau gwastraff, diogelu'r amgylchedd aer a dŵr, gwella iechyd a diogelu'r amgylchedd (gan gynnwys dynodiadau amgylcheddol). |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| DU | Cynllun Gweithredu Amgylchedd ac Iechyd Plant yr Asiantaeth; crynodeb o'r gweithgareddau presennol sy'n mynd i'r afael â materion amgylchedd ac iechyd plant yn y DU (2007)<br>Mae'n cymhwyso amcanion CEHAPE (2004) i gyd-destun y DU. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel a gwella iechyd. |
| DU | A Children's Environment and Health Strategy for the United Kingdom (2009)<br>Mae'n darparu argymhellion gan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd i Lywodraeth y DU ynglŷn â'r ffordd orau o gyflawni ei hymrwymiad i'r CEHAPE. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel a gwella iechyd. |
| Cymru | **Creu Cymru Iachach, Hapusach a Thecach (2017)**<br>Mae'r ddogfen hon yn creu'r ymrwymiadau canlynol:<br>• Gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldeb iechyd;<br>• Gwella ansawdd, ecwiti ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd; a<br>• Diogelu pobl rhag peryglon heintiol ac amgylcheddol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel a gwella iechyd. |
| Cymru | **Y Rhaglen Lywodraethu 2021-2026**<br>Mae'n gosod yr agenda ar gyfer tymor 2021-2026 Senedd Llywodraeth Cymru o ran:<br>• Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel<br>• Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed<br>• Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol<br>• Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl<br>• Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, ehangu'r economi a gwasanaethau lleol yn gynaliadwy (yn enwedig cyfleusterau iechyd) a gwella iechyd. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI** Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldeb addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi<br>• Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math<br>• Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu<br>• Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt<br>• Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang<br><br>Cefnogir hyn gan 10 amcan llesiant. | |
| Cymru | Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013<br>Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer mapio llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig ac ar gyfer ac mewn cysylltiad â mapiau rhwydwaith integredig; er mwyn sicrhau bod llwybrau teithio llesol newydd a gwell a chyfleusterau cysylltiedig; i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer cerddwyr a seiclwyr, gan roi sylw i'w hanghenion; i'w gwneud yn ofynnol i arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf er mwyn hybu teithiau llesol a sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a gwell a chyfleusterau cysylltiedig; ac at ddibenion cysylltiedig. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel a galluogi dewisiadau teithio ac amrywiaeth teithio (yn enwedig teithio llesol). |
| Cymru | Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru (2016)<br>Mae'r ddogfen hon yn ceisio annog teithio llesol ymhlith poblogaeth Cymru. Cwmpesir nodau'r ddogfen gan ei weledigaeth: "I bobl yng Nghymru mae arnom eisiau i gerdded a beicio ddod yn ddewis ffordd o symud o gwmpas ar deithiau byrion." | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel a galluogi dewisiadau teithio ac amrywiaeth teithio (yn enwedig teithio llesol). |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 a Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygio) 2009<br>Cynllun Gweithredu Ynghylch Sŵn i Gymru 2013–18 (Llywodraeth Cymru), Rhagfyr 2013<br>Mae'n darparu grym cyfreithiol ac yn nodi camau gweithredu yng Nghymru i Gyfarwyddeb 2002/49/EC yr UE (Cyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol 2002). | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â dylunio o ansawdd uchel a mynd i'r afael â niwsans (sŵn). |
| Cymru | Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017<br>Mae'n pennu darpariaethau ar gyfer gwneud gwelliannau i iechyd gan gynnwys i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar fynd i'r afael â gordewdra a gwneud rheoliadau ynghylch cynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd gan gyrff cyhoeddus. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd a galluogi dewisiadau teithio ac amrywiaeth teithio (yn enwedig teithio llesol). |
| Cymru | Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040<br>Mae'r ddogfen hon yn darparu proffil ar gyfer canolbarth Cymru (Powys a Cheredigion). Nod y ddogfen yw gwella iechyd pobl Cymru a sicrhau bod y wlad yn y sefyllfa orau i ymdopi ag effeithiau newid hinsawdd, gan leihau ei chyfraniad atynt. Mae'r ddogfen yn glir y dylai CDLlau wella iechyd y boblogaeth. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd a galluogi dewisiadau teithio ac amrywiaeth teithio (yn enwedig teithio llesol). |
| Cymru | Cynllun Oes Creu Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r Radd Flaenaf i Gymru yn yr 21ain Ganrif, Llywodraeth Cymru, Mai 2005<br>Gweledigaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer creu gofal iechyd a chymdeithasol o'r radd flaenaf yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain yw Designed for Life. Mae'n manylu ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol y gall pobl Cymru eu disgwyl erbyn 2015, gan ganolbwyntio ar wasanaethau iechyd a gwella iechyd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd a galluogi dewisiadau teithio ac amrywiaeth teithio (yn enwedig teithio llesol). |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | 'Ein Dyfodol Iach', Llywodraeth Cymru, Mai 2010<br>Dull Llywodraeth Cymru o helpu pawb i fyw yn hirach gyda gwell iechyd. Ei nodau yw:<br>• Gwella iechyd a llesiant yng Nghymru.<br>• Cadw pawb yn iachach yn hirach.<br>• Cael gwared ar y gwahaniaethau rhwng grwpiau cymdeithasol ac ardaloedd<br>• Cael gwared ar y rhwystrau sy'n atal pobl rhag byw bywyd iach<br>• Dod â phawb at ei gilydd i wneud i hyn ddigwydd.<br>Mae'r meysydd gweithredu hyd at 2020 yn cynnwys:<br>• Iechyd a Llesiant drwy gydol oes<br>• Cymunedau cynaliadwy iach<br>• Iechyd fel nod a rennir<br>• Llai o anghydraddoldeb iechyd | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd, hygyrchedd/cydlyniant cymunedol, a galluogi dewisiadau teithio ac amrywiaeth teithio (yn enwedig teithio llesol). |
| Cymru | 'Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb', Llywodraeth Cymru, Mawrth 2011<br>Mae'r cynllun yn ceisio datblygu agwedd iechyd i bob polisi ar draws y Llywodraeth, er mwyn gwella iechyd a llesiant a lleihau annhegwch iechyd.<br>Mae'n adeiladu ar y meysydd gweithredu (a nodir yn "Our Healthy Future" drwy ganolbwyntio ar yr hyn a ganlyn:<br>• rhoi cychwyn iach i blant<br>• asedau iechyd (ffactorau sy'n gwella iechyd a llesiant) mewn cymunedau<br>• gwella iechyd y boblogaeth oedran gweithio<br>• gwell tystiolaeth ar ymyriadau<br>• Gwella lefelau llythrennedd iechyd yng Nghymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd, hygyrchedd/cydlyniant cymunedol, a galluogi dewisiadau teithio ac amrywiaeth teithio (yn enwedig teithio llesol). |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Mae o'r farn bod gweithredu mewn meysydd polisi megis addysg a sgiliau, trafnidiaeth, tai a datblygiad economaidd yn gallu gwneud cyfraniad sylweddol at leihau annhegwch ym maes iechyd. | |
| Cymru | 'Dringo'n Uwch': Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch<br>Corfforol (Llywodraeth Cymru 2005)<br>Mae'n gosod targedau a ganlyn, erbyn 2025:<br>• Bydd canran y bobl yng Nghymru sy'n defnyddio amgylchedd naturiol Cymru ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn cynyddu o 36% i 60%<br>• Bydd gan 95% o bobl Cymru lwybr troed neu lwybr beicio o fewn taith gerdded 10 munud<br>• Ni ddylai neb fyw mwy na thaith gerdded 6 munud (300 metr) oddi wrth ei fan gwyrdd naturiol agosaf<br>• Bydd yr holl gyflogai yn y sector cyhoeddus a 75% o'r holl gyflogeion eraill yn gallu cael gafael ar gyfleusterau chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy daith gerdded 10 munud neu lai i'r gweithle | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd, hygyrchedd/cydlyniant cymunedol, a galluogi dewisiadau teithio ac amrywiaeth teithio (yn enwedig teithio llesol). |
| Cymru | Creu Cymru Egnïol, Llywodraeth Cyrmu, Rhagfyr 2009<br>Ei nod yw:<br>- Datblygu a chynnal amgylchedd ffisegol sy'n ei gwneud yn haws ac yn fwy diogel i bobl ddewis bod yn fwy egnïol yn gorfforol;<br>- Cefnogi plant a phobl ifanc i fyw bywydau egnïol ac i ddod yn oedolion egnïol;<br>- Annog mwy o oedolion i fod yn fwy egnïol, yn amlach, drwy gydol eu hoes;<br>- Cynyddu cyfranogiad pob sector o'r boblogaeth mewn chwaraeon. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd, hygyrchedd/cydlyniant cymunedol, a galluogi dewisiadau teithio ac amrywiaeth teithio (yn enwedig teithio llesol). |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i’r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Cynllun Gweithredu Cerdded a Beicio ar gyfer Cymru, 2009-2013<br>Ei nod yw sicrhau diwylliant cerdded a beicio yng Nghymru fel y gellir gwella iechyd pobl, lleihau dibyniaeth ar geir, lleihau tagfeydd traffig, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chefnogi economïau gwledig. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd, hygyrchedd/cydlyniant cymunedol, a galluogi dewisiadau teithio ac amrywiaeth teithio (yn enwedig teithio llesol). |
| Cymru | Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2013<br>Gweledigaeth y ddogfen hon yw “parhau i ostwng nifer y bobl sy’n cael eu lladd neu eu hanafu’n ddifrifol ar ffyrdd Cymru; dyhead y Llywodraeth yn y pen draw yw bod neb yn cael eu lladd ar ein ffyrdd.” | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd ac amgylcheddau diogel, hygyrchedd/cydlyniant cymunedol, a galluogi dewisiadau teithio ac amrywiaeth teithio (yn enwedig teithio llesol). |
| Cymru | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu (2011)<br>Amlygwyd bod nifer o’r heriau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu yng Nghymru yn cynnwys newidiadau demograffig, disgwyliadau uwch gan y rhai sy’n defnyddio gofal a chefnogaeth yn ogystal â gwirioneddau economaidd anodd sy’n parhau. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, gwasanaethau i ddiwallu anghenion yr holl bobl ac yn enwedig y rhai sydd ag anghenion iechyd/cymdeithasol penodol. |
| Cymru | Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021)<br>Mae’r ddogfen Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys polisïau ar gyfer Hybu Lleoedd Iachach. Mae dyletswydd ar y system gynllunio a’r awdurdodau cynllunio i sicrhau eu bod yn cynnal lleoedd sy’n cefnogi pobl i gyflawni ffordd iach o fyw ac i sicrhau bod y ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y mae’r amgylchedd adeiledig yn eu creu yn | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd ac amgylcheddau diogel, hygyrchedd/cydlyniant cymunedol, a galluogi dewisiadau teithio ac |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | gwella iechyd trigolion Cymru. Mae'r ddogfen Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys rhestr o ganllawiau ar sut i wella iechyd trigolion Cymru, gan amrywio o awdurdodau cynllunio yn sicrhau bod digon o gyfleusterau iechyd i annog y defnydd o seilwaith gwyrdd i gydgysylltu lleoedd. Ni chyfyngir iechyd i'r ffisegol yn unig ac mae'r amgylchedd adeiledig yn bwysig ar gyfer gwella iechyd meddwl pobl. | amrywiaeth teithio (yn enwedig teithio llesol). |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 11: Sŵn (Llywodraeth Cynulliad Cymru 1997)<br>Mae'n rhoi cyngor ar sut y gall y system gynllunio leihau effaith andwyol sŵn heb osod cyfyngiadau afresymol ar ddatblygiadau neu ychwanegu'n ormodol at gostau a beichiau gweinyddol busnes. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â dylunio o ansawdd uchel a mynd i'r afael â niwsans (sŵn). |
| Cymru | Gofynion cynllunio ar gyfer carthffosiaeth breifat mewn datblygiad newydd (WGC 008/2018)<br>Mae'n rhoi canllawiau i awdurdodau cynllunio ynglŷn â'r ffordd orau o ystyried cynigion a leolir mewn ardaloedd nad oes unrhyw isadeiledd/systemau carthion presennol ynddynt. Mae'n cynnwys canllawiau sy'n ymwneud â sefydlu cysylltiadau â'r rhwydwaith carthion presennol i ddewisiadau trin carthion ar y safle. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd ac amgylcheddau diogel/mannau agored, hygyrchedd/cydlyniant cymunedol, a galluogi dewisiadau teithio ac amrywiaeth teithio (yn enwedig teithio llesol). |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009)<br>Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored yn darparu canllawiau ar gynllunio ar gyfer chwaraeon, hamdden a mannau agored anffurfiol, yn ogystal â diogelu cyfleusterau a mannau agored presennol. Mae'n cynnwys canllawiau ar ddatblygu Asesiadau Mannau Agored a safonau'r ddarpariaeth a'r cysylltiadau | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd ac amgylcheddau diogel/mannau agored, hygyrchedd/cydlyniant cymunedol, a galluogi dewisiadau teithio ac amrywiaeth teithio (yn enwedig teithio llesol). |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | rhwng iechyd a llesiant, chwaraeon a gweithgarwch hamdden a datblygu cynaliadwy. | |
| Cymru | Law yn Llaw at Iechyd (2011)<br>Gweledigaeth bum mlynedd ar gyfer GIG Cymru, ar sail gwasanaethau cymunedol a gosod ataliad, ansawdd a thryloywder wrth wraidd gofal iechyd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd ac amgylcheddau diogel/mannau agored a hygyrchedd/cydlyniant cymunedol. |
| Cymru | Gweithio'n wahanol – gweithio law yn llaw (2012)<br>Mae'n gosod amcanion allweddol, gan gynnwys datblygu gweithlu sydd wedi ei gyfochri ac ymrwymo i weledigaeth Law yn Llaw at Iechyd a chreu gweithlu cynaliadwy a medrus sy'n canolbwyntio ar helpu pobl Cymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag iechyd, cydlyniant cymunedol a chynyddu cyrhaeddiad addysg a sgiliau. |
| Powys | Cynllun Gwella Corfforaethol Powys 2022–25 Gweledigaeth 2025<br>Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y weledigaeth ganlynol: "Erbyn 2025 bydd Powys yn cael ei gydnabod yn eang fel lle gwych i fyw, dysgu, gweithio a chwarae ynddo". Yn rhan o amcanion y ddogfen hon, mae ei Amcan 2 yn gofyn am weithredu gofal iechyd yn effeithiol ac yn integredig yn yr amgylchedd gwledig. Pwrpas hyn yw sicrhau bod trigolion Powys, yn dechrau'n dda, yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda. Mae'r ddogfen hefyd yn ceisio galluogi trigolion Powys i wneud penderfyniadau iachach. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, iechyd a'r gwasanaethau iechyd cywir yn y lleoedd cywir. |
| Powys | Asesiad Llecynnau Agored Powys (2018)<br>Mae'r asesiad hwn yn rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth bresennol o fannau agored yn y setliadau allweddol ledled y Sir, mae'n nodi'r ardaloedd | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd ac |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i’r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | hynny sydd i dderbyn diogelwch ac yn darparu fframwaith ar gyfer darparu mannau agored newydd. | amgylcheddau diogel/mannau agored a hygyrchedd/cydlyniant cymunedol. |
| Powys | Strategaeth Adfywio Cynllun Gweithredu Powys (2011-2031)<br>Datblygwyd strategaeth adfywio Powys gan ymgynghorwyr Powell Dobson yn 2010. Mae’r strategaeth yn darparu fframwaith lle bydd y Cyngor Sir a’i bartneriaid yn sicrhau bod adfywio yn rhan annatod o arferion bob dydd, er mwyn sicrhau canlyniadau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar briodoleddau ffisegol, cymdeithasol ac amgylcheddol yn ogystal â phriodoleddau economaidd a diwylliannol y Sir. Mae’n seiliedig o gwmpas y weledigaeth a ganlyn:<br>“Bydd adfywio ym Mhowys yn meithrin ac yn hybu asedau a chryfderau’r Sir fel y modd o fynd i’r afael â’i gwendidau drwy sefydlu economi gadarn a chynaliadwy yn seiliedig ar gymunedau bywiog, ac sy’n gwella ac yn diogelu amgylchedd ffisegol, cymdeithasol a diwylliannol Powys”<br>Y farn yw bod y strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol ac y dylai’r naw amcan allweddol sy’n adlewyrchu anghenion strategol y Sir aros yn eu lle:<br>1. Amcan 1 – Yr Amgylchedd a’r Lle<br>2. Amcan 2 – Addysg a sgiliau<br>3. Amcan 3 – Yr Economi<br>4. Amcan 4 – Iechyd a llesiant a’r gymuned<br>5. Amcan 5 – Ansawdd y gwasanaeth a ddarperir<br>6. Amcan 6 – Ynni adnewyddadwy ochr yn ochr ag ymchwil a datblygu<br>7. Amcan 7 – Arwyddocâd y diwylliant lleol a’r diwydiannau creadigol<br>8. Amcan 8 – Twristiaeth<br>9. Amcan 9 – Anghenion pobl ifanc<br>Mae’r Cynllun Gweithredu yn rhan o ail-lansiad y Strategaeth Adfywio sy’n cynnwys datblygu meysydd effaith: | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, iechyd ac amgylcheddau diogel/mannau agored a hygyrchedd/cydlyniant cymunedol. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | 1. Tyfu Powys – grymuso a gwella iechyd economaidd Powys<br>2. Powys Gydnerth – Annog arloesedd, cryfhau gwasanaethau lleol, cymunedau a phartneriaethau<br>3. Grymuso Powys – Cefnogi cymunedau i fynd i'r afael â materion sydd o bwys lleol. | |
| Powys | Asesiad Llesiant Powys (2022)<br>Nod yr asesiad a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys yw deall y pwysau sy'n wynebu cymunedau, drwy asesu amrywiaeth o ddata, tystiolaeth ac ymchwil i roi darlun cynhwysfawr o lesiant pobl leol a chymunedau nawr, a sut y gellir dylanwadu ar lesiant yn y dyfodol. Mae'n edrych ar ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n effeithio ar fywydau pobl o ddydd i ddydd, materion megis iechyd, mynediad at gyflogaeth, cyflwr tai a mynediad at wasanaethau. Mae'r Asesiad Llesiant yn nodi meysydd ffocws lleol o dan y themâu llesiant cenedlaethol:<br>O dan y thema Cymdeithasol – Bywyd Cartref, Byw'n Annibynnol, Iechyd a Ffordd o Fyw, Addysg ein Plant.<br>O dan thema Yr Economi – Swyddi a Chyflogau, Busnesau, Twristiaeth, Cadw mewn Cysylltiad, Tlodi ac Amddifadedd<br>O dan y thema Diwylliant a Chymuned – Y Gymraeg, Cymunedau'n dod at ei gilydd, Cymryd rhan mewn bywyd diwylliannol, Gwrthgymdeithasol<br>O dan thema Yr Amgylchedd – Gwella Bioamrywiaeth, Tir, Dŵr ac Aer Cynaliadwy, Ailgysylltu Pobl a Lleoedd, Adnoddau Coedwigaeth, Newid Hinsawdd.<br>Caiff canfyddiadau'r asesiad eu defnyddio i bennu amcanion llesiant a bydd y rhain yn darparu'r fframwaith ar gyfer Cynllun Llesiant nesaf Powys, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023, a fydd yn nodi sut y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwella llesiant ei gymunedau yn erbyn y saith nod cenedlaethol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â llesiant, a dylai ystyried canfyddiadau'r asesiad. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Powys | Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Powys<br>Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys wedi paratoi'r adroddiad hwn fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r adroddiad wedi cael ei baratoi yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021 mewn perthynas â chynhyrchu Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad ac felly yr adroddiad hwn yw'r cyntaf o'i fath.<br>Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar wasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig ym Mhowys; yn benodol:<br>• digonolrwydd ac ansawdd cyffredinol darpariaeth y gwasanaethau hynny,<br>• tueddiadau cyfredol neu dueddiadau sy'n datblygu sy'n effeithio ar y gwasanaethau hynny<br>• heriau sylweddol sy'n wynebu'r gwasanaethau hynny<br>• ac effaith comisiynu ac ariannu ar swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.<br>Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried y ddarpariaeth ehangach o wasanaethau heb eu rheoleiddio a gwasanaethau cymunedol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â llesiant, a dylai ystyried canfyddiadau'r adroddiad. |
| Powys | Asesiad o Anghenion y Boblogaeth<br>Ers mis Ebrill 2017, mae rhanbarthau ledled Cymru wedi cyhoeddi asesiad o anghenion gofal a chymorth yn eu hardal. Mae'r asesiadau hyn o anghenion y boblogaeth yn un o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br>Dyma'r ail asesiad a gyhoeddwyd ar gyfer Powys, ac mae'n ymarfer ar y cyd a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys, mewn partneriaeth â'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Fe'i goruchwylir gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys sydd â'r diben o | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â llesiant, a dylai ystyried canfyddiadau'r asesiad. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | hyrwyddo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.<br>Nod yr asesiad yw darparu darlun â ffocws o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol ym Mhowys o dri phersbectif gwahanol:<br>1. Nodi anghenion gofal a chymorth nawr ac yn y dyfodol (gan gynnwys anghenion gofalwyr)<br>2. Edrych ar y gwasanaethau a'r asedau sydd ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny<br>3. Nodi'r camau y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn gwasanaethau neu anghenion heb eu diwallu | |
| Powys | Strategaeth Iechyd a Gofal 2017-2027<br>Mae'r ddogfen hon wedi'i datblygu yn unol â'r fframwaith Cynllunio ar y Cyd a gytunwyd gan Gyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, o dan Raglen Datblygu'r Strategaeth Iechyd a Gofal. Mae'n ddogfen dechnegol sydd hefyd yn Gynllun Ardal ar y Cyd, a chaiff ei defnyddio fel sail graidd ar gyfer y strategaeth 10 mlynedd. Mae iddi ddau ddiben:<br>1. Nodi'n fanylach sbardunau craidd y Strategaeth Iechyd a Gofal, y cyfleoedd ar gyfer datblygu a'r rhesymeg ar gyfer gweledigaeth 'Powys Iach a Gofalgar'.<br>2. Amlinellu blaenoriaethau 5 mlynedd partneriaid allweddol sy'n ffurfio'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â llesiant. |

**Pwnc AAS -Pridd**

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bows)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
| Rhyngwladol | Confensiwn Treftadaeth y Byd (UNESCO, 1972)<br>Mae'n anelu at annog gwledydd i arwyddo Confensiwn Treftadaeth y Byd ac i sicrhau diogelwch eu treftadaeth naturiol a diwylliannol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a diogelu'r amgylchedd. |
| UE | Strategaeth Thematig Pridd yr UE (2012)<br>Mae'r Strategaeth Thematig Pridd yn ceisio:<br>• sefydlu egwyddorion cyffredin ar gyfer diogelu a defnyddio priddoedd yn gynaliadwy;<br>• atal bygythiadau i briddoedd, a lliniaru effeithiau'r bygythiadau hynny;<br>• cadw swyddogaethau pridd yng nghyd-destun defnydd cynaliadwy; ac<br>• adfer priddoedd diraddiedig a halogedig i lefelau o ymarferoldeb cymeradwy.<br>Mae'r Strategaeth Thematig Pridd yn cynnig cyflwyno Cyfarwyddeb Fframwaith Pridd.<br>Amcan cyffredinol y Strategaeth yw diogelu a defnydd cynaliadwy o bridd, ar sail yr egwyddorion arweiniol canlynol:<br>• Atal diraddiad pridd pellach a chadw ei swyddogaethau:<br>• Pan ddefnyddir pridd, gan fanteisio ar ei swyddogaethau, mae'n rhaid gweithredu ar y defnydd o bridd a phatrymau rheoli,<br>• Pan fo pridd yn gweithredu fel dalfa/derbynnydd effeithiau gweithgareddau dynol neu ffenomenau amgylcheddol, mae'n rhaid gweithredu yn y ffynhonnell.<br>Mae'r Strategaeth Thematig ar gyfer Gwarchod Pridd yn cynnwys Cyfathrebu: Cyfathrebu (COM(2006) 231) | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, adfer tir halogedig a diogelu'r amgylchedd. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Mae'r cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb fframwaith (COM(2006) 232) yn nodi egwyddorion cyffredin ar gyfer diogelu priddoedd ledled yr UE. | |
| DU | Deddf yr Amgylchedd (2021)<br>Mae'n nodi disgwyliadau'r Llywodraeth o ran gwella'r amgylchedd drwy osod fframwaith cyfreithiol sy'n cwmpasu:<br>• Llywodraethu amgylcheddol<br>• Rheoleiddio amgylcheddol<br>• Effeithlonrwydd gwastraff ac adnoddau<br>• Ansawdd yr aer ac adalw amgylcheddol<br>• Dŵr<br>• Natur a bioamrywiaeth<br>• Cyfamodau cadwraeth | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, adfer tir halogedig a diogelu'r amgylchedd. |
| Cymru | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Rhan IIA (Cymru, 2001)<br>Mae hon yn ceisio darparu system well ar gyfer adnabod ac adfer tir pan fo halogiad yn achosi risgiau annerbyniol i iechyd dynol neu'r amgylchedd ehangach a asesir yng nghyd-destun defnydd ac amgylchiadau presennol y tir. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, adfer tir halogedig a diogelu'r amgylchedd. |
| Cymru | Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) (2020)<br>Mae'r ddogfen hon yn pwysleisio pwysigrwydd ffermio i economi Cymru, gan fod yn ffynhonnell bwyd a dyfir yn lleol hefyd. Mae'n pwysleisio anawsterau Brexit a rhwystrau masnachu gyda'r UE, gan gadarnhau hefyd yr angen i ddadgarboneiddio'r diwydiant ffermio gymaint â phosibl, ond nid mewn ffordd sy'n ei gyfaddawdu. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, diogelu tir amaethyddol ac ehangu'r economi amaethyddol. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru (2006)<br>Mae'n gosod strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni ei gweledigaeth ar gyfer amgylchedd Cymru am yr 20 mlynedd nesaf. Mae ganddi bum prif thema: mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd – lliniaru ac addasu; defnyddio adnoddau cynaliadwy – cwmpasu'r defnydd o ddeunyddiau; a gwastraff; dŵr; priddoedd; mwynau ac agregau; bioamrywiaeth nodedig, tirweddau a morluniau – cwmpasu bioamrywiaeth; yr amgylchedd morol; tirweddau a morluniau a'u helfen hanesyddol; ein hamgylchedd lleol – cwmpasu'r amgylchedd adeiledig a mynediad i fannau gwyrdd; niwsans amgylcheddol; y gallu i gerdded mewn ardaloedd trefol a mynediad i gefn gwlad a'r arfordir; a rheoli risg llifogydd; a pheryglon amgylcheddol – cwmpasu llygredd a chemegau ac ymbelydredd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, adfer tir halogedig a diogelu'r amgylchedd. |
| Cymru | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>Mae'n cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru, er mwyn sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r ddeddf yn nodi amcanion i wella llesiant Cymru, yn cyflwyno dangosyddion cenedlaethol a fydd yn mesur y gwahaniaeth a wneir i lesiant Cymru, yn sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i weithredu fel eiriolwr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac yn rhoi byrddau gwasanaethau lleol a chynlluniau llesiant ar sail statudol ac yn symleiddio gofynion ar gyfer cynllunio cymunedol integredig. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, adfer tir halogedig a diogelu'r amgylchedd. |
| Cymru | Cynllun Gweithredu Priddoedd Cymru, 2008<br>Mae'r ddogfen hon yn nodi'r hyn a ganlyn yn brif fygythiadau i briddoedd yng Nghymru:<br>• Newid Hinsawdd;<br>• Colli Pridd i Ddatblygiad (Selio Pridd);<br>• Halogi, gan gynnwys Asideiddio ac Ewtroffigedd; | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, adfer tir halogedig a diogelu'r amgylchedd. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI** Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Erydiad Pridd;<br>• Dirywiad y Strwythur Pridd;<br>• Dirywiad mewn Mater Organig;<br>• Colli Pridd yn sgil Echdynnu.<br>Mae'n cynnig cyfres o gamau i liniaru neu fynd i'r afael â'r bygythiadau hyn. | |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, Gorffennaf 2010.<br>Mae'r TAN yn rhoi canllawiau ymarferol ar swyddogaeth y system gynllunio o ran cefnogi'r gwaith o ddarparu cymunedau gwledig cynaliadwy. Mae'r TAN yn rhoi canllawiau ar sut y gall y system gynllunio gyfrannu at yr hyn a ganlyn:<br>• Economïau gwledig cynaliadwy;<br>• Tai gwledig cynaliadwy;<br>• Gwasanaethau gwledig cynaliadwy; ac<br>• Amaethyddiaeth gynaliadwy. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, adfer tir halogedig a diogelu'r amgylchedd. |
| Cymru | Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd i Gymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009)<br>Mae'n nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru am Gymru gynaliadwy | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, adfer tir halogedig a diogelu'r amgylchedd. |
| Cymru | Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021)<br>Mae'n cynnwys polisi cynllunio defnydd tir cyfredol ar gyfer Cymru. Mae'n cynnwys canllawiau ar ddefnyddio adnoddau pridd Cymru'n briodol, a'u rheoli. Mae hefyd yn ceisio diogelu'r adnoddau mawn rhag cael eu colli a'u peryglu. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod Tir Amaethyddol pwysig Cymru yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac nad yw'n cael ei beryglu gan ddatblygiad na rheolaeth wael. Mae hefyd yn ceisio diogelu adnoddau | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, adfer tir halogedig a diogelu'r amgylchedd. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i’r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | mawn yng Nghymru rhag datblygiadau oherwydd bod adnoddau o’r fath yn bwysig i’r amgylchedd lleol ac yn gweithredu fel dull o storio carbon. | |
| Cymru | Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd<br>Mae’r rhaglen hon yn ceisio gwarchod a diogelu adnoddau mawndiroedd Cymru. Bydd yn cyflawni hyn drwy fynd i’r afael â’r blaenoriaethau canlynol:<br>**1.** Erydiad mawndir<br>**2.** Draenio mawndir<br>**3.** Rheoli mawndiroedd yr ucheldir yn gynaliadwy<br>**4.** Rheoli mawndiroedd yr iseldir yn gynaliadwy<br>**5.** Adfer mawndiroedd wedi eu coedwigo<br>**6.** Adfer mawndiroedd sydd â’r allyriadau carbon uchaf yn raddol<br>Mae’r rhaglen yn ceisio adfer 600–800 hectar o dir cyhoeddus a phreifat bob blwyddyn a nodwyd, rhwng 2020-2021, fod ychydig dros 650 hectar o dir wedi ei adfer. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau (gan gynnwys mawndir), adfer tir halogedig a diogelu’r amgylchedd. |

**Pwnc AAS - Dŵr**

| Lefel<br><br>(Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau I’r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Rhyngwladol | Dogfen a fabwysiadwyd gan y Cenhedloedd Unedig ar 21 Mai 1997 sy'n ymwneud â defnyddiau a chadwraeth yr holl ddyfroedd sy'n croesi ffiniau rhyngwladol, gan gynnwys wyneb a dŵr daear, yw Convention on the Law of Non-Navigational Uses of International Watercourses. Gan gofio galwadau cynyddol am ddŵr ac effaith ymddygiad dynol, drafftiodd y Cenhedloedd Unedig y ddogfen i helpu i warchod a rheoli adnoddau dŵr ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.<br>I ddod i rym, mae'n rhaid i'r ddogfen gael ei chadarnhau gan 35 wladwriaeth; ac o fis Chwefror 2014, mae wedi derbyn 34 cadarnhad. Er nad yw mewn grym, ystyrir y ddogfen yn gam pwysig tuag at gyrraedd cyfraith ryngwladol sy'n llywodraethu dŵr. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| UE | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE 2000/60/EC<br>Ei hamcan cyffredinol yw sefydlu fframwaith strategol ar gyfer rheoli dŵr wyneb a dŵr daear. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| UE | A Water Blueprint – taking stock, moving forward (COM/2012/0673 final)<br>Mae'r "Blueprint" yn amlinellu camau sy'n canolbwyntio ar weithredu'r ddeddfwriaeth ddŵr gyfredol yn well, integreiddio amcanion polisi dŵr i bolisïau eraill, a llenwi'r bylchau yn benodol o ran cyfaint ac effeithlonrwydd dŵr. Yr amcan yw sicrhau bod cyfaint digonol o ddŵr o ansawdd da ar gael ar gyfer anghenion pobl, yr economi a'r amgylchedd ledled yr UE. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| UE | Cyfarwyddeb Dŵr Gwastraff Trefol (91/271/EEC)<br>Ei hamcan yw diogelu'r amgylchedd rhag effeithiau andwyol gollyngiadau dŵr gwastraff trefol a gollyngiadau o rai diwydiannol a phryderon ynghylch casglu, trin a rhyddhau:<br>• Dŵr gwastraff domestig | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Cymysgedd o ddŵr gwastraff<br>• Dŵr gwastraff o rai sectorau diwydiannol (gweler Atodiad III y Gyfarwyddeb)<br><br>Yn benodol, mae'r Gyfarwyddeb yn gwneud yr hyn a ganlyn yn ofynnol:<br>• Casglu a thrin dŵr gwastraff ym mhob crynodref y mae ei phoblogaeth yn fwy na 2,000;<br>• Triniaeth eilaidd i'r holl ollyngiadau o grynodrefi y mae eu poblogaeth yn fwy na 2,000, a thriniaeth fwy datblygedig ar gyfer crynodrefi y mae eu poblogaeth yn fwy na 10,000 mewn ardaloedd sensitif dynodedig a'u crynoadau;<br>• Gofyniad am awdurdod o flaen llaw ar gyfer pob gollyngiad dŵr gwastraff trefol, ar gyfer gollyngiadau o'r diwydiant prosesu bwyd a gollyngiadau diwydiannol i systemau casglu dŵr gwastraff trefol;<br>• Monitro perfformiad gweithfeydd trin a derbyn dyfroedd; a<br>• Rheolaethau gwaredu ac ailddefnyddio slwtsh carthion, ac ailddefnyddio dŵr gwastraff sydd wedi ei drin pryd bynnag y bo hynny'n briodol. | |
| UE | Cyfarwyddeb Dŵr Daear (2006/118/EC)<br>Mae'r Gyfarwyddeb hon yn sefydlu trefn sy'n gosod safonau ansawdd dŵr daear ac yn cyflwyno mesurau i atal neu gyfyngu ar lygryddion sy'n mynd i ddŵr daear.<br>Felly, mae'r gyfarwyddeb yn ymateb cadarn cymesur a gwyddonol i ofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr oherwydd ei fod yn ymwneud ag asesiadau ar statws cemegol<br>dŵr daear a nodi a gwrthdroi tueddiadau arwyddocaol a pharhaus tuag i fyny o ran crynodiadau llygryddion.<br>Mae'n gofyn am yr hyn a ganlyn:<br>• sefydlu safonau ansawdd dŵr daear erbyn diwedd 2008; | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • cynnal astudiaethau o'r tueddiadau llygredd drwy ddefnyddio data presennol a data sy'n orfodol gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (y cyfeirir atynt fel data 'lefel waelodlin' a gafwyd yn 2007-2008);<br>• gwrthdroi tueddiadau llygredd fel bod amcanion amgylcheddol yn cael eu cyflawni erbyn 2015 drwy ddefnyddio'r mesurau a nodir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;<br>• mesurau i atal neu gyfyngu ar lygryddion sy'n mynd i mewn i ddŵr daear a fydd yn weithredol fel y gellir cyflawni amcanion amgylcheddol Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr erbyn 2015;<br>• cynnal adolygiadau o ddarpariaethau technegol y gyfarwyddeb yn 2013 a phob chwe blynedd ar ôl hynny;<br>• cydymffurfio â meini prawf statws cemegol da (ar sail safonau nitradau a phlaladdwyr yr UE a gwerthoedd trothwy a sefydlwyd gan Aelod-wladwriaethau | |
| UE | Y Gyfarwyddeb Nitradau (96/676/EEC)<br>Ei nod yw lleihau ac atal llygredd dŵr a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol. Mae'n gorfodi Aelod-wladwriaethau i ddynodi parthau bregus o bob ardal hysbys mewn Aelod-wladwriaethau y mae eu dyfroedd – gan gynnwys dŵr daear – yn debygol o fod wedi eu heffeithio gan lygredd nitradau.<br>Diffinnir parthau bregus fel y dyfroedd hynny sy'n cynnwys crynodiad nitradau o fwy na 50 mg/l neu sy'n agored i gynnwys crynodiad nitradau o'r fath os na chymerir mesurau.<br>Mae'r cysylltiad â pholisi dŵr daear yn glir yn hyn o beth, h.y. ni ddylai'r lefelau halogi â nitradau fod dros y gwerth sbardun a bennwyd ar 50 mg/l. Rhestrir y mesurau ar gyfer gweithredu'r gyfarwyddeb nitradau yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Atodiad VI) hefyd a'r Gyfarwyddeb Dŵr Daear (Atodiad IV, rhan B). | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| UE | Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff 2008/98/EC<br>Mae'n ei gwneud yn ofynnol i adennill neu waredu gwastraff heb beryglu'r amgylchedd na dŵr daear. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| UE | Cyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn 2006/113/EC<br>Nod y Gyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn yw diogelu neu wella dyfroedd pysgod cregyn er mwyn cynnal bywyd a thwf pysgod cregyn. Fe'i cynlluniwyd i ddiogelu cynefin dyfrol molysgiaid deuglawr a gastropod, sy'n cynnwys wystrys, cregyn gleision, cocos, cregyn bylchog a chregyn cylchog. Mae'r Gyfarwyddeb yn gofyn i Aelod-wladwriaethau ddynodi dyfroedd y mae angen eu diogelu er mwyn cefnogi bywyd a thwf pysgod cregyn.<br>Mae'r Gyfarwyddeb yn gosod gofynion ffisegol, cemegol a microbiolegol y mae'n rhaid i ddyfroedd pysgod cregyn dynodedig gydymffurfio â nhw neu ymdrechu i wella. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn darparu ar gyfer sefydlu rhaglenni lleihau llygredd ar gyfer y dyfroedd dynodedig. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| UE | Mae Cyfarwyddeb Dŵr Yfed 98/83/EC ar ansawdd y dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl) yn ymwneud ag ansawdd y dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl.<br>Ei hamcan yw diogelu iechyd dynol rhag effeithiau andwyol yn sgil unrhyw halogiad dŵr y bwriadwyd i'w yfed gan bobl, drwy sicrhau ei fod yn iachus ac yn lân. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| UE | Y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi (76/1160/EEC). Nod hon yw cadw, diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd a diogelu iechyd dynol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| UE | Cyfarwyddeb Llifogydd yr (UE 2007/60/EC)<br>Mae'r Gyfarwyddeb hon yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau asesu a yw'r holl gyrsiau dŵr a morliniau sydd mewn perygl o lifogydd, i fapio hyd a lled llifogydd ac asedau a phobl sydd mewn perygl yn yr ardaloedd hyn a chymryd mesurau digonol a chydgysylltiedig i leihau'r risg llifogydd hon.<br>Ei nod yw lleihau a rheoli'r risgiau y mae llifogydd yn eu peri i iechyd dynol, yr amgylchedd, treftadaeth ddiwylliannol a gweithgarwch economaidd.<br>Cynhelir y Gyfarwyddeb mewn cydweithrediad â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, yn nodedig gan gynlluniau rheoli'r risg llifogydd a chynlluniau rheoli basnau afonydd sy'n cael eu cydlynu, a thrwy gydlynu'r gweithdrefnau cyfranogiad cyhoeddus wrth baratoi'r cynlluniau hyn. Bydd pob asesiad, map a chynllun a baratoir ar gael i'r cyhoedd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (2020)<br>Mae hon yn ailddatgan awydd Llywodraethau Cymru i liniaru a rheoli'r risg llifogydd yng Nghymru. Mae risg llifogydd ac erydu arfordirol yn faterion hynod bwysig ac yn ôl eu natur, disgwylir i ddatblygiadau cynaliadwy sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion risg llifogydd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd)<br>Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rheoleiddio adnoddau dŵr, ansawdd dŵr a llygredd, ac yn diogelu rhag llifogydd yw Deddf Adnoddau Dŵr 1991. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| DU/Cymru | Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010)<br>Mae'r Ddeddf hon yn ceisio gwella'r broses o reoli'r risg llifogydd a'r ffordd y caiff adnoddau dŵr eu rheoli.<br>Mae'n cynnwys darpariaethau i wneud cytundebau ar y broses o fabwysiadu carthffosydd aflan yn orfodol ac yn cyflwyno safonau gorfodol ar gyfer adeiladu carthffosydd aflan disgyrchiant newydd a draeniau ochrol i sicrhau eu bod yn cael eu hadeiladu i safon addas.<br>Roedd hefyd yn cynnwys darpariaethau ar ddraenio cynaliadwy a fyddai'n cyflwyno trefniadau newydd i'w cymeradwyo a mabwysiadu systemau draenio cynaliadwy. Bydd cynnydd yn nifer y systemau draenio cynaliadwy yn helpu i reoli a lleihau y llif dŵr wyneb i systemau carthffosiaeth, yn lliniaru'r risg llifogydd ac yn diogelu ansawdd dŵr. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru (2006)<br>Mae nifer o amcanion sy'n gysylltiedig â dŵr; gan gynnwys:<br>• rheoli adnoddau dŵr mewn modd cynaliadwy heb achosi niwed amgylcheddol;<br>• cynyddu effeithlonrwydd dŵr a chynnal ansawdd dŵr;<br>• cynnal a gwella ansawdd ffynonellau dŵr; deall a rheoli ffynonellau llygredd gwasgaredig; a<br>• lleihau gymaint â phosibl y risg a berir trwy ddod i gysylltiad â chemegau. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>Mae'n cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru, er mwyn sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| DU/Cymru | Llywodraeth Cymru: Datganiad Sefyllfa Polisi Strategol Cymru (2011)<br>Ein hegwyddorion craidd yw sicrhau mynediad at ddŵr yfed diogel, cynnal gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth am bris fforddiadwy a chydymffurfio â rhwymedigaethau statudol sy'n sbarduno pob agwedd ar ansawdd dŵr.<br>Canlyniadau Strategaeth yr amgylchedd<br>• Rheolir adnoddau dŵr, gan ddiwallu anghenion y gymdeithas yn gynaliadwy heb achosi niwed i'r amgylchedd<br>• Mae dŵr yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon ar draws pob sector<br>• Cynhelir ansawdd uchel ein dŵr yfed<br>• Mae ansawdd ein dŵr daear, ein hafonydd, ein llynnoedd a'n dyfroedd arfordirol yn cael ei gynnal a'i wella<br>• Deellir llygredd gwasgaredig yn well, a chymerir camau i leihau ac i reoli llygredd gwasgaredig | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | Strategaeth Ddŵr i Gymru 2015<br>Mae'n nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer polisi dŵr yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf a thu hwnt i hynny. Dŵr yw un o'r asedau naturiol mwyaf ac mae'n rhan annatod o ddiwylliant, treftadaeth a hunaniaeth genedlaethol Cymru. Mae'r Strategaeth yn amlygu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau bod Cymru'n parhau i fod ag amgylchedd dŵr ffyniannus a reolir yn gynaliadwy er mwyn cefnogi cymunedau iach, busnesau llewyrchus a'r amgylchedd. Bydd y strategaeth yn cyfrannu at flaenoriaethau ac egwyddorion ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mynd i'r afael â thlodi. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | Nodyn cyngor technegol (TAN) 15: datblygu llifogydd ac erydu arfordirol (Rhagfyr 2021) | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Mae TAN 15 yn darparu canllawiau technegol sy'n ychwanegu at y polisïau a nodir yn Polisi Cynllunio Cymru mewn cysylltiad â llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'n darparu fframwaith lle mae'r risg llifogydd yn codi o afonydd, y môr a dŵr wyneb, a gellir asesu'r risg o erydiad arfordirol. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar ganlyniadau'r risgiau ac addasu a byw â'r risg llifogydd. Disgwylir i TAN 15 ddod i rym ar 1 Mehefin 2023. | amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd<br>Cynllun Rheoli Basn Afon Ardal Basn Afon Hafren<br>Cynllun Rheoli Basn Afon Ardal Gorllewin Cymru<br>Cynllun Rheoli Basn Afon Ardal Basn Afon Dyfrdwy<br>Mae'r rhain yn pwysleisio llygredd gwasgaredig fel rheswm allweddol dros fethu â chyrraedd statws ecolegol da mewn nifer o afonydd ledled Cymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru – Llygredd Dŵr Gwasgaredig yng Nghymru<br>Mae'n pwysleisio wyth maes i flaenoriaethu ymdrech i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig arnynt:<br>• ystadau diwydiannol,<br>• gollyngiadau carthion bach (preifat),<br>• camgysylltiadau draenio,<br>• draenio dŵr wyneb o ardaloedd datblygedig,<br>• rheoli da byw,<br>• rheoli tir,<br>• storio – slyri, tanwydd, olewau, cemegau<br>• dyfroedd mwyngloddiau | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| DU/Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru – Adolygiad o ddynodiadau dyfroedd pysgod cregyn<br>Mae'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn yn diogelu poblogaethau pysgod cregyn, gan gynnal pysgod cregyn o ansawdd uchel yn ein dyfroedd. Mae'r gyfarwyddeb yn pennu'r safon ar gyfer ansawdd dŵr mewn aberoedd ac ardaloedd eraill lle mae pysgod cregyn yn tyfu ac yn atgynhyrchu.<br>O dan y gyfarwyddeb hon, mae angen monitro dyfroedd y mae pysgod cregyn yn byw ynddynt am sylweddau penodol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru – Adroddiad Dŵr Ymdrochi Cymru 2013.<br>Mae 87 o 88 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig Cymru wedi cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd, o dan y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi. O'r 87, cyrhaeddodd cyfanswm o 82 o ddyfroedd ymdrochi y Safonau Canllawiau Ewropeaidd llymach a ddefnyddir wrth ddyfarnu gwobrau Baner Las. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | Llywodraeth Cymru – National Strategy for Flood and Coastal Erosion Risk (2012)<br>Mae'n cynnwys pedwar amcan ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru – Ffiniau Cynlluniau Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylchoedd (CAMS) (var)<br>Mae CAMS yn asesu faint o ddŵr sydd ar gael ym mhob dalgylch afon. Yn rhan o'r gwaith hwn, rydym yn adolygu'r holl drwyddedau tynnu dŵr yn gyfnodol er mwyn penderfynu a ydynt yn cael effaith anghynaliadwy ar yr amgylchedd ai peidio. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| DU/Cymru | Cynlluniau rheoli basnau afonydd 2021-2027<br>Mae cynlluniau rheoli basnau afonydd ar gyfer gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy ar hyn o bryd. Mae'r cynlluniau hyn yn ceisio diogelu'r asedau dŵr hyn rhag llygredd a rhag cael eu peryglu gan ddatblygiadau. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | Cynlluniau Rheoli Risg Llifogydd – Gorllewin Cymru, Afon Dyfrdwy ac Afon Hafren (mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio i lunio Cynllun Rheoli Risg Llifogydd ar gyfer Cymru gyfan)<br>Mae'r Cynlluniau Rheoli Risg Llifogydd a nodir yn ceisio sicrhau bod risg llifogydd yn cael ei ystyried yn iawn ac na leolir datblygiadau mewn ardaloedd lle mae risg llifogydd yn y cyrsiau dŵr hyn heb gryn ragofal.<br>– | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | Dŵr Cymru / Severn Trent Water / Hafren Dyfrdwy / Albion Water / Southern and Scottish Energy Water<br>Cynlluniau rheoli adnoddau dŵr<br>Mae'r rhain yn amlinellu'r strategaeth ar gyfer rheoli adnoddau dŵr a chynnal y cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw. Maent yn nodi parthau diffyg lle mae'r galw'n fwy na'r cyflenwad (neu rhagwelir y bydd hyn yn digwydd) ac yn nodi mesurau priodol i gynyddu'r cyflenwad neu i reoli'r galw ym mhob parth adnoddau dŵr.<br>Cynllun rheoli asedau<br>Mae'r rhain yn amlygu'r gwelliannau seilwaith rhaglenedig / buddsoddiadau sy'n angenrheidiol i ddarparu ar gyfer datblygiadau. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | Dŵr Cymru Welsh Water Final Drought Plan 2020<br>Nod y ddogfen hon yw sicrhau bod gan Gymru ddigon o adnoddau dŵr i sicrhau y byddai ei phoblogaeth yn parhau i allu byw a gweithio drwy effeithiau sychder, ac ar ôl hynny. Mae'r ddogfen yn pwysleisio ei bod yn | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | dod yn fwyfwy cyffredin i Gymru brofi cyfnodau byr ond dwys o wres eithafol sy'n arwain at frigau sydyn o ran defnyddio a cholli dŵr. | mae risg uchel o lifogydd. Cynllun Sychder |
| DU/Cymru | Cynllun Sychder Hafren Dyfrdwy 2020-2025<br>Nod y ddogfen hon yw sicrhau bod gan Gymru ddigon o adnoddau dŵr i sicrhau y byddai ei phoblogaeth yn parhau i allu byw a gweithio drwy effeithiau sychder, ac ar ôl hynny. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o adnoddau (gan gynnwys dŵr) a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |
| DU/Cymru | The Montgomery Canal Regeneration through Sustainable Restoration (2016)<br>Mae'r ddogfen hon yn ceisio creu strategaeth a fyddai'n galluogi Camlas Trefaldwyn i gael ei hadfywio/adfer. Byddai adfer y Gamlas yn cyflawni'r hyn a ganlyn:<br>• Bod yn goridor o gyfleoedd a fydd yn sbardun i adfywio gwledig yng Nghymru a Lloegr. Trwy gysylltu atyniadau lleol i dwristiaid yn ffisegol ac yn thematig, bydd y Gamlas yn creu pwyslais a chatalydd i adfywio'n ehangach driongl y Trallwng a'r Drenewydd a Chroesoswallt – Queens Head – Llanymynech ar sail ei swyddogaeth hanesyddol allweddol yn y chwyldro diwydiannol.<br>• Darparu adnodd cymunedol, a werthfawrogir ac a ddefnyddir gan bawb.<br>• Galluogi adferiad at fordwyaeth sy'n parchu gwerthoedd ac yn gwella natur unigryw Camlas Trefaldwyn ac sydd â chynaliadwyedd wrth wraidd yr holl reolaeth a'r gwaith datblygu. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, a diogelu'r amgylchedd dŵr ac osgoi ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| **Pwnc AAS - Aer** | | |
| Rhyngwladol | Protocol Gothenburg 1999 i Leihau Asideiddio, Ewtroffigedd ac Osôn Lefel Daear<br>Mae'r Protocol yn pennu terfynau allyriadau ar gyfer 2010 ar gyfer pedwar llygrydd: Sylffwr, NOx, Cyfansoddion Organig Anweddol ac Amonia | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |
| Rhyngwladol | Confensiwn ar Lygredd Aer Trawsffiniol Pellgyrhaeddol<br>Nod y Confensiwn yw y bydd Pleidiau'n ymdrechu i gyfyngu a, chymaint â phosibl, lleihau'n raddol ac atal llygredd aer gan gynnwys llygredd aer trawsffiniol pellgyrhaeddol. Mae pleidiau'n datblygu polisïau a strategaethau i fynd i'r afael â llygryddion aer a ryddheir trwy gyfnewid gwybodaeth, ymgynghori, ymchwilio a monitro. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |
| Rhyngwladol | Ansawdd Aer Amgylchynol ac Aer Glanach i Ewrop (2008/50/EC)<br>Pennu terfynau a thargedau ar gyfer crynodiadau o wahanol lygryddion mewn aer awyr agored, er mwyn diogelu iechyd ac ecosystemau. Mae'n cynnwys rheolaethau dros ddeunyddiau gronynnol mân. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |
| Rhyngwladol | Arsenig, Cadmiwm, Mercwri, Nicel a Hydrocarbonau Aromatig Polysyclig mewn Aer Amgylchynol (2004/107/EC)<br>Gwella ansawdd aer yr UE drwy osod safonau rhwymol ar gyfer gronynnau mân | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |
| Rhyngwladol | Y Gyfarwyddeb Fframwaith Ansawdd Aer (96/62/EC)<br>Gosod fframwaith ar gyfer monitro ac adrodd lefelau llygryddion aer ledled Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (UE), pennu terfynau neu ostyngiadau ar gyfer llygryddion aer penodol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Rhyngwladol | Rhaglen Aer Glân i Ewrop (2013)<br>Mae'n nodi amcanion polisi aer newydd ar gyfer 2030 er mwyn lleihau effeithiau ar iechyd ac ewtroffigedd mewn ecosystemau. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |
| Rhyngwladol | Strategaeth Thematig yr UE ar Ansawdd yr Aer (2005)<br>Mae'n nodi, er gwaethaf gwelliannau sylweddol i ansawdd yr aer ledled yr UE, fod nifer o faterion difrifol yn dal i barhau o ran ansawdd yr aer. Mae'r Strategaeth yn hybu dull sy'n canolbwyntio ar y llygryddion mwyaf difrifol ac yn integreiddio pryderon amgylcheddol i bolisïau a rhaglenni eraill. Amcan y Strategaeth yw cyrraedd lefelau ansawdd aer nad ydynt yn arwain at effeithiau negyddol sylweddol<br>ar iechyd dynol neu'r amgylchedd, na risg o hynny. Mae'r Strategaeth yn lleihau'r angen i newid tuag at ddulliau cludiant llai llygredig a gwell ddefnydd o adnoddau naturiol er mwyn helpu i leihau allyriadau niweidiol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |
| Rhyngwladol | Cyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol (2010/75/EU)<br>Mae'n cyfuno saith cyfarwyddeb llygredd aer presennol, gan gynnwys y Gyfarwyddeb ar Weithfeydd Hylosgi Mawr a'r Gyfarwyddeb Atal a Rheoli Llygredd mewn ffordd Integredig. Fel yn achos cyfarwyddebau blaenorol a oedd â'r nod o leihau allyriadau, rhan o fudd y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yw ei bod yn cynnwys sawl proses ddiwydiannol newydd, yn pennu gwerthoedd terfynau allyriadau newydd ar gyfer gweithfeydd hylosgi mawr ac yn mynd i'r afael â rhai o faterion gweithredu'r [Gyfarwyddeb] Atal a Rheoli Llygredd mewn ffordd Integredig. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |
| Rhyngwladol | Cyfarwyddeb Terfynau Allyriadau Cenedlaethol (2001/81/EC)<br>Mae'r Gyfarwyddeb hon yn pennu terfynau (gwerthoedd uchafswm i'w cyflawni erbyn 2010) ar gyfanswm allyriadau cenedlaethol pedwar llygrydd: sylffwr deuocsid; ocsidau o nitrogen; cyfansoddion organig | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | anweddol; ac amonia. Mae'r pedwar llygrydd hyn yn cyfrannu at asideiddio, ewtroffigedd, a'r broses o ffurfio osôn lefel y ddaear. | |
| DU | Cynllun Ansawdd Aer ar gyfer Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) DU (2017)<br>Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd y Llywodraeth yn gwella ansawdd aer yn y DU drwy leihau allyriadau nitrogen deuocsid mewn trefi a dinasoedd. Mae'r cynlluniau ansawdd aer yn nodi mesurau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wedi eu targedu ar draws 37 o gynlluniau parthau (ardaloedd sydd wedi nodi materion ansawdd aer o ran nitrogen deuocsid), dogfen trosolwg y DU a rhestr genedlaethol o fesurau. Ymhlith eraill, mae mesurau'n ymwneud â chludo nwyddau, rheilffyrdd, teithio cynaliadwy, cerbydau allyriadau isel a thanwydd trafnidiaeth glanach. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |
| DU | Deddf yr Amgylchedd (2021)<br>Mae'n nodi disgwyliadau'r Llywodraeth o ran gwella'r amgylchedd drwy osod fframwaith cyfreithiol sy'n cwmpasu:<br>• Llywodraethu amgylcheddol<br>• Rheoleiddio amgylcheddol<br>• Effeithlonrwydd gwastraff ac adnoddau<br>• Ansawdd yr aer ac adalw amgylcheddol<br>• Dŵr<br>• Natur a bioamrywiaeth<br>• Cyfamodau cadwraeth | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |
| DU | Deddf yr Amgylchedd 1995<br>Mae'n gosod darpariaethau ar gyfer diogelu ansawdd aer yn y DU ac ar gyfer rheoli ansawdd aer lleol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| DU | Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010<br>Trosi i gyfraith Lloegr ofynion Cyfarwyddebau 2008/50/EC a 2004/107/EC ar ansawdd aer amgylchynol. Gwnaed rheoliadau cyfatebol gan y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |
| DU | The Air Quality Strategy for England, Scotland, Wales and Northern Ireland (2007)<br>Mae'r strategaeth yn pennu safonau llygredd aer i ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |
| DU | Rheoliadau Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn 2015 (OS 2015/168)<br>Maent yn cyflwyno rheolaethau ar gynhyrchu, defnyddio ac allyriadau o offer nifer fawr o 'sylweddau rheoledig' sy'n disbyddu'r haen osôn. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |
| DU | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (OS 2010/675)<br>Maent yn sefydlu trefn rheoli llygredd. Byddai'r rheoleiddiwr amgylcheddol yn nodi amodau ar gyfer trwyddedau amgylcheddol, er enghraifft cyfyngu ar y math a swm yr allyriadau sy'n cael eu rhyddhau i'r aer. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu ansawdd yr aer, datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel. |
| Cymru | Ansawdd yr Aer yng Nghymru, amryw o ddogfennau Llywodraeth Cymru[300]<br>Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor sylweddol ar wella ansawdd aer Cymru a'r gwaith o'i fonitro. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau nad yw gwaith adeiladu na gweithredu datblygiadau hen na newydd yn arwain at greu lefelau niweidiol o lygredd fyddai'n cyfaddawdu | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â gwella a diogelu ansawdd yr aer, a fydd yn ei dro yn llywio'r broses o baratoi CDLl yn y dyfodol. |

[300] Llywodraeth Cymru (Amryw) "Llygredd Aer". Ar gael yn: Llygredd aer | Is-bwnc | LLYW.CYMRU, aed at y wefan ar 23.08.2022.

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | ansawdd yr aer lleol. Y canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yw sicrhau eu bod yn ymgymryd â "dull meddwl hirdymor", gan sicrhau bod CDLlau yn lleihau materion ansawdd yr aer yn ystod eu hoes ac na fyddai'r datblygiadau y maent yn ei ganiatáu byth yn cyfaddawdu ansawdd yr aer lleol. | |
| Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru: Lichen surveys to investigate ammonia impacts (Evidence Report No 298)<br>Mae'r adroddiad hwn yn nodi problemau posibl a pharhaus amonia ar ansawdd yr aer yng Nghymru a'r effeithiau andwyol dilynol ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â gwella a diogelu ansawdd yr aer, a fydd yn ei dro yn llywio'r broses o baratoi CDLl yn y dyfodol. |
| Cymru | Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021)<br>Mae'n nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. O ran ansawdd yr aer, mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi ystyriaethau cynllunio perthnasol posibl mewn cysylltiad â'r lleoliad a'r dewis o safle; yr effaith ar iechyd ac amwynder; y risg a'r effaith llygredd posibl o'r datblygiad yn ogystal ag effaith yr amgylchedd amgylchynol; atal niwsans; a'r effaith ar y ffordd a rhwydweithiau cludiant eraill. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â gwella a diogelu ansawdd yr aer, a fydd yn ei dro yn llywio'r broses o baratoi CDLl yn y dyfodol. |

**Pwnc AAS –**
**Ffactorau Hinsoddol**

| | | |
|---|---|---|
| Rhyngwladol | Protocol Kyoto, Y Cenhedloedd Unedig, 1998<br>Cytundeb rhyngwladol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | | dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| Rhyngwladol | Fourth Assessment Report of the Intergovernmental Panel on Climate Change, 2007<br>Dogfen dechnegol sy'n darparu sail wyddonol gadarn ar gyfer effaith newid hinsawdd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| Rhyngwladol | Cytundeb Paris (2016)<br>Nod canolog Cytundeb Paris yw cryfhau'r ymateb byd-eang i fygythiad newid yn yr hinsawdd drwy gadw cynnydd mewn tymheredd byd-eang y ganrif hon ymhell islaw 2 radd Celsius uwchben y lefelau cyn-ddiwydiannol a dilyn ymdrechion i gyfyngu ar y cynnydd mewn tymheredd hyd yn oed ymhellach i 1.5 gradd Celsius. Hefyd, nod y cytundeb yw cryfhau gallu gwledydd i ymdrin ag effeithiau newid hinsawdd. Er mwyn cyflawni'r nodau uchelgeisiol hyn, bydd llif ariannol priodol, fframwaith technoleg newydd a fframwaith adeiladu capasiti gwell yn cael eu rhoi ar waith, gan gefnogi camau gan wledydd sy'n datblygu a'r gwledydd sydd fwyaf agored i niwed, yn unol<br>â'u hamcanion cenedlaethol eu hunain. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Rhyngwladol | COP26 (2021)<br>COP26 oedd y cyfarfod arweinwyr byd-eang a phobl/busnesau pwysig diweddaraf, a drefnwyd gan y Cenhedloedd Unedig, i greu nodau i'r byd eu cyflawni er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Daeth cynrychiolwyr o bron i 200 o wledydd i'r digwyddiad. Sefydlwyd y pedair gweithred ysgogol ganlynol, gyda disgwyl i bob gwlad a oedd yn bresennol weithredu a symud ymlaen â'r camau ysgogol hyn:<br>• Lliniaru – lleihau allyriadau<br>• Addasu – helpu'r rhai sydd eisoes wedi eu heffeithio gan newid hinsawdd<br>• Cyllid – galluogi gwledydd i gyflawni eu nodau hinsawdd<br>• Cydweithredu – gweithio gyda'n gilydd i gyflawni hyd yn oed mwy o weithredoedd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| UE | Strategy on Adaptation to Climate Change (2021)<br>Mae'n pwysleisio pwysigrwydd parhau i fynd i'r afael â newid hinsawdd wrth i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd barhau i gynyddu bob blwyddyn. Mae'n rhoi cryn bwysigrwydd ar fynd i'r afael â newid hinsawdd er mwyn lleihau'r siawns o/difrifoldeb sychder. Mae'r ddogfen yn galw am gynhyrchu a dadansoddi data hinsawdd ac allyriadau mwy effeithiol fel y gall gwledydd greu a gweithredu cynlluniau atal newid hinsawdd hynod effeithiol ac arloesol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| UE | Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE 2007/60/EC<br>Yr amcan cyffredinol yw rheoli a lleihau risgiau i iechyd dynol, yr amgylchedd, seilwaith ac eiddo sy'n gysylltiedig â llifogydd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys risg llifogydd), y defnydd effeithlon o dir ac |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | | adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| UE | Cyfarwyddeb yr UE i hybu Trydan o Ynni Adnewyddadwy (2001/77/EC)<br>Cyfarwyddeb yr UE sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau bennu targedau ar gyfer defnyddio trydan a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir, cynhyrchu ynni ac adnoddau adnewyddadwy/carbon isel a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| UE | Y Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy (2009/28/EC)<br>Mae'n mandadu lefelau'r ynni adnewyddadwy a ddefnyddir yn yr UE. Mae'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau'r UE gynhyrchu cyfran y cytunwyd arni ymlaen llaw o ynni i'w ddefnyddio sydd o ffynonellau adnewyddadwy fel y bydd o leiaf 20% o'r ynni a ddefnyddir yn yr UE yn ei gyfanrwydd yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. Yna, dosrennir hyn ar draws Aelod-wladwriaethau. Targed y DU yw bod 15% o'r ynni a ddefnyddir ganddi yn 2020 yn dod o ffynonellau adnewyddadwy. O dan Erthygl 4 o'r Gyfarwyddeb, mae hefyd yn ofynnol i bob Aelod-wladwriaeth gwblhau Cynllun Gweithredu Ynni Adnewyddadwy Cenedlaethol a fydd yn nodi'r trywydd a'r mesurau a fydd yn galluogi'r targed i gael ei gyflawni. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir, cynhyrchu ynni ac adnoddau adnewyddadwy/carbon isel a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| UE | Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE (2005)<br>Cynllun masnachu allyriadau sy'n cyfyngu ar allyriadau carbon deuocsid o 11,500 o | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | osodiadau ym 25 Aelod-wladwriaeth yr UE drwy ddyrannu lwfansau allyriadau gan aelod-wladwriaethau. Gellir masnachu'r lwfansau er mwyn lleihau costau cydymffurfio. | yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| UE | Ail Raglen Newid Hinsawdd yr UE – ECCP II (2005)<br>Fe'i lansiwyd ym mis Hydref 2005 i ymchwilio rhagor o ddewisiadau cost effeithiol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynnwys ystod eang o raglenni. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| UE | Environment 2010: Our Future, Our Choice, EU 6th Action Programme, European Commission (2001)<br>Rhaglen Weithredu yr UE. Mae'n gosod amcanion am ddeng mlynedd. 'Datblygiad cynaliadwy' yw llesiant hirdymor yn Ewrop a ledled y byd. Mae'r comisiwn yn cynnig cymryd camau cryf i: fynd i'r afael â newid hinsawdd; diogelu natur a bywyd gwyllt; mynd i'r afael â materion amgylchedd ac iechyd; a chadw adnoddau naturiol a rheoli gwastraff. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| UE | Seithfed Cynllun Gweithredu Amgylcheddol yr UE (2013-2020)<br>Mae'n adolygu'r heriau amgylcheddol arwyddocaol ac yn darparu fframwaith ar gyfer polisi amgylcheddol Ewropeaidd hyd at 2020. Mae'r rhaglen yn nodi tri maes blaenoriaeth lle mae angen gweithredu'n fwy i ddiogelu natur a chryfhau cydnerthedd ecolegol, hybu twf carbon isel sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon, a lleihau bygythiadau i iechyd a llesiant dynol sy'n gysylltiedig â llygredd, sylweddau cemegol, ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| UE | Y Gyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni (2012/27/EU)<br>Mae'n gosod y fframwaith ar gyfer mesurau i hybu effeithlonrwydd ynni ledled yr UE ac yn helpu'r UE i gyflawni lleihad o 20% yn ei ddefnydd o ynni. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau (gan gynnwys ynni) a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| UE | Fframwaith Polisi 2030 ar gyfer yr Hinsawdd ac Ynni<br>Nod fframwaith polisi 2030 yw gwneud system ynni ac economi yr UE yn fwy cystadleuol, diogel a chynaliadwy ac mae hefyd yn pennu targed o 27% o leiaf ar gyfer ynni adnewyddadwy ac arbedion ynni erbyn 2030. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| UE | Fframwaith Addasu Cancún<br>Mae'r Fframwaith yn galw am weithredu ymhellach ar addasu gan gynnwys lleihau bregusrwydd a chynyddu cydnerthedd mewn gwledydd sy'n datblygu. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| UE | EU Strategy on Adaptation to Climate Change (Ebrill, 2013)<br>Mae tri amcan allweddol i'r Strategaeth:<br>• Hybu gweithrediad gan yr Aelod-wladwriaethau: Bydd y Comisiwn yn annog pob Aelod-wladwriaeth i fabwysiadu strategaethau addasu cynhwysfawr a bydd yn darparu cyllid i'w helpu i ddatblygu eu capasiti i addasu a gweithredu. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Camau diogelu'r hinsawdd' ar lefel yr UE drwy hybu addasiad pellach mewn sectorau sy'n agored i niwed allweddol megis amaethyddiaeth, pysgodfeydd a pholisi cydlyniant, gan sicrhau bod seilwaith Ewrop yn cael ei wneud yn fwy cydnerth, a hybu'r defnydd o yswiriant yn erbyn trychinebau naturiol a thrychinebau a achoswyd gan bobl.<br>• Penderfyniadau gwybodus gwell drwy fynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth am addasu a datblygu ymhellach blatfform addasu hinsawdd Ewrop (Climate-ADAPT) fel y 'siop un stop' ar gyfer gwybodaeth am addasu yn Ewrop. | |
| DU | Papur Gwyn ar Ynni: Pweru ein Dyfodol Sero Net (2020)<br>Mae hwn yn ceisio sicrhau bod y DU yn gwneud cynnydd tuag at economi sero net. Mae'n rhoi cryn bwysigrwydd ar dechnoleg ynni adnewyddadwy megis gwynt ar y tir a gwynt ar y môr. Mae'r ddogfen yn glir hefyd bod angen parhau i leihau allyriadau y DU. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir adnoddau (gan gynnwys ynni), hybu ynni adnewyddadwy/datblygiadau carbon isel a lleihau gwastraff. |
| DU | Department for Business, Energy & Industrial Strategy (DBEI) (2017) Clean Growth Strategy<br>Yng nghyd-destun gofynion cyfreithiol y DU o dan y Ddeddf Newid Hinsawdd, mae gan ein dull o leihau allyriadau ddau amcan arweiniol:<br>1. Bodloni ein hymrwymiadau domestig am y gost net isaf bosibl i drethdalwyr, defnyddwyr a busnesau'r DU.<br>2. Cynyddu gymaint â phosibl y buddion cymdeithasol ac economaidd i'r DU o'r cyfnod pontio hwn. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| DU | Carbon Budgets – Fourth to Sixth Carbon Budgets (2021)<br>Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i sawl cyllideb garbon. Y chweched gyllideb garbon yw'r diweddaraf ac mae'n ymrwymo'r llywodraeth i dargedau hinsawdd penodol ar gyfer y dyfodol. Cadarnhaodd y bumed gyllideb garbon y byddai cyfwerth â 1,725 tunnell fetrig o $CO_2$ o allyriadau carbon yn cael eu cynhyrchu yn 2028-2032. Cadarnhaodd y chweched gyllideb garbon gyllideb garbon gyfwerth â 965 tunnell fetrig o $CO_2$ ar gyfer cyfnod 2033-2037.<br>Yn gyffredinol, mae'r cyllidebau carbon yn ceisio sicrhau bod y DU yn gostwng ei chyfraniadau carbon yn gyson drwy dargedau sy'n rhwymol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| DU | Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008<br>Cyflawni lleihad o 80% o leiaf mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| DU | Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010<br>Gwella'r broses o reoli'r risg llifogydd a'r ffordd y caiff adnoddau dŵr eu rheoli. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys risg llifogydd), y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| DU | Securing the Future, 2005<br>Mae'n nodi egwyddorion a blaenoriaethau datblygu cynaliadwy newydd a rennir y DU, sydd wedi eu cymeradwyo'n llawn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| DU | Low Carbon Transition Plan (2009)<br>Plotio sut y bydd y DU yn cyflawni lleihad o 34% mewn allyriadau o'u cymharu â lefelau 1990, erbyn 2020. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| DU | Strategaeth Ynni Adnewyddadwy (2009)<br>Mae'n nodi'r llwybr i'r DU gyflawni'r targed sy'n gyfreithiol rwymol gan sicrhau bod 15% o'r ynni yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni), hybu ynni adnewyddadwy/datblygiadau sy'n cynhyrchu carbon isel a lleihau gwastraff. |
| DU | Carbon Plan: Delivering our low carbon future (2011)<br>Mae'n nodi sut y bydd y DU yn cyflawni datgarboneiddio o fewn fframwaith polisi ynni: i drosglwyddo i economi carbon isel wrth gynnal diogelwch ynni, a lleihau costau i ddefnyddwyr, yn enwedig y rhai sydd | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | yn yr aelwydydd tlotach. Mae'n cynnwys cynigion ar gyfer effeithlonrwydd ynni, gwresogi, cludiant a diwydiant. | yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| DU | Deddf Ynni 2013<br>Mae'n sefydlu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer darparu ynni diogel, fforddiadwy a charbon isel ac mae'n cynnwys darpariaethau ar: ddatgarboneiddio; diwygio'r farchnad drydan; rheoleiddio niwclear; piblinell a system storio y llywodraeth; a diogelu defnyddwyr ymhlith eraill. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| Cymru | Yn 2019, datganodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn pennu targed cyfreithiol o gyflawni lleihad o 80% o leiaf mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru yn 2050. Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn am gyfres o dargedau interim (ar gyfer 2020, 2030 a 2040) a chyllidebau carbon. Roedd y cyllidebau'n gosod terfyn ar gyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru dros gyfnod o 5 mlynedd i weithredu fel cerrig sarn a sicrhau y gwneir cynnydd tuag at y targedau degawd.<br><br>Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Cynnydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar gyfer 2020: Lleihau Allyriadau yng Nghymru<br>Adroddiadau am darged nwyon tŷ gwydr sero net Cymru a sut y bydd Cymru'n cyflawni'r targedau hyn. Mae Adroddiad Cyngor Rhagfyr 2020: Y llwybr i Gymru sero net yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu targedau ac yn ceisio lleihau'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2050.<br>Yr allwedd i gyflawni'r targedau hyn yw:<br>• Mabwysiadu atebion carbon isel; | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni), hybu ynni adnewyddadwy/datblygiadau sy'n cynhyrchu carbon isel a lleihau gwastraff. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Ehangu cyflenwadau ynni carbon isel;<br>• Lleihau'r galw am weithgareddau carbon uchel; a<br>• Gweddnewid tir oddi ffwrdd amaethyddiaeth. | |
| Cymru | Datganiad Polisi: Perchnogaeth leol ar gynhyrchu ynni yng Nghymru – er budd Cymru heddiw a chenedlaethau'r dyfodol (2020)<br>Mae hyn yn rhoi cryn bwysigrwydd ar symud oddi wrth dechnolegau sy'n cynhyrchu ynni llygredig at ynni adnewyddadwy glanach. Mae hefyd yn nodi bod Cymru wedi gwneud enillion sylweddol a thrawiadol wrth sicrhau bod gan gyfleusterau sy'n cynhyrchu ynni ryw fath o berchnogaeth gyhoeddus, gan gyfrannu at economïau lleol gryn dipyn yn fwy na'r dulliau perchnogaeth traddodiadol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni), hybu ynni adnewyddadwy/datblygiadau sy'n cynhyrchu carbon isel a lleihau gwastraff. |
| Cymru | Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru (2021)<br>Mae'r strategaeth hon yn ceisio sicrhau bod cerbydau trydan yn dod yn brif gynhalydd yn y sector cludiant. Mae sicrhau bod gorsafoedd gwefru digonol ledled Cymru yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod buddion cerbydau trydan yn cael eu defnyddio'n iawn. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel a chefnogi dulliau teithio eraill a newydd megis cerbydau trydan. |
| Cymru | Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf 2016-2026 (2016)<br>Mae hyn yn amlinellu'r cynllun ar gyfer effeithlonrwydd ynni. Rhagwelir y bydd twf gwyrdd yn gynyddol bwysig i economi Cymru ac mae'r ddogfen hon yn annog twf. Hefyd, mae gan effeithlonrwydd ynni lawer o fanteision economaidd drwy leihau biliau ynni yn aml. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni), hybu ynni adnewyddadwy/datblygiadau sy'n |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | | cynhyrchu carbon isel a lleihau gwastraff. |
| Cymru | Mwy nag Ailgylchu (2021)<br>Mae Mwy nag Ailgylchu yn pennu targed o gyflawni dim gwastraff erbyn 2050 drwy sicrhau "bod yr holl wastraff sy'n cael ei gynhyrchu'n cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu fel adnodd, heb fod angen unrhyw dirlenwi nac adfer ynni". Mae'r ddogfen yn amlinellu'r wyth brif weithred a ganlyn ar gyfer Llywodraeth Cymru:<br>• Byddwn yn cefnogi busnesau yng Nghymru i leihau eu hôl troed carbon drwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.<br>• Byddwn yn darparu'r adnoddau i alluogi'r gymuned i weithredu.<br>• Byddwn yn rhoi'r gorau'n raddol i ddefnyddio eitemau untro diangen, yn enwedig plastig.<br>• Byddwn yn dileu gwastraff bwyd y gellir ei osgoi.<br>• Byddwn, wrth gaffael, yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio nwyddau a chynnyrch sydd wedi'u gwneud o ddeunydd wedi'u hailweithgynhyrchu, eu hadnewyddu a'u hailgylchu neu sy'n dod o ddeunydd carbon isel a chynaliadwy fel pren.<br>• Byddwn yn ymdrechu i gyflawni'r cyfraddau ailgylchu gorau yn y byd.<br>• Byddwn yn lleihau effaith casglu gwastraff o'n cartrefi a'n busnesau ar yr amgylchedd.<br>• Byddwn yn cymryd cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni), a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| Cymru | Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021)<br>Mae dogfen Polisi Cynllunio Cymru yn dweud yn glir bod argyfwng hinsawdd parhaus yn digwydd ledled y byd. Mae'r defnydd effeithlon o | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | adnoddau yn allweddol i gadw cyfraniad Cymru at newid hinsawdd yn isel a gweithio tuag at sero net. O ystyried effeithiau parhaus newid yn yr hinsawdd (megis llifogydd a thywydd poeth), dylai datblygiadau sicrhau eu bod yn gydnerth yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd a'u bod wedi eu cynllunio i liniaru effeithiau o'r fath. Mae dogfen Polisi Cynllunio Cymru yn gofyn am i achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd gael eu hystyried yn llawn drwy leoliad, dylunio, adeiladu, gweithredu, datgomsiynu ac adfer. Hefyd, fel datblygu cynaliadwy, rhoddir cryn bwysigrwydd i ddatgarboneiddio yn y ddogfen hon. | afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni), hybu ynni adnewyddadwy/datblygiadau sy'n cynhyrchu carbon isel a lleihau gwastraff. |
| Cymru | Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040<br>Mae'r ddogfen hon yn ceisio llwyddo i droi Cymru'n gydnerth o ran yr hinsawdd a pharhau i ddatgarboneiddio. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi pwysigrwydd datgarboneiddio a chydnerthedd o ran yr hinsawdd oherwydd yr argyfwng hinsawdd parhaus. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni), hybu ynni adnewyddadwy/datblygiadau sy'n cynhyrchu carbon isel a lleihau gwastraff. |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd, 2004<br>Mae TAN 15 yn rhoi cyngor ar yr hyn a ganlyn:<br>• mapiau cyngor datblygu<br>• natur y datblygiad neu'r defnydd o dir<br>• cyfiawnhau lleoliad y datblygiad adeiledig<br>• asesu canlyniadau llifogydd<br>• rhediad dŵr wyneb oddi ar ddatblygiad newydd<br>• gweithredu trwy Gynlluniau Datblygu | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel ac i ddatblygiadau gael eu lleoli y tu allan i ardaloedd lle mae risg llifogydd. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • rheoli datblygu.<br><br>Disgwylir i TAN 15 diwygiedig Datblygiad, Llifogydd ac Erydu Arfordirol a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ddod i rym ar 1 Mehefin 2023. Bydd y fersiwn hon yn disodli fersiwn 2004 o TAN 15 a'r Map Cyngor ar Ddatblygu. Rhaid i'r ystyriaethau o ran y risg o lifogydd sy'n bwydo i mewn i'r strategaeth aneddiadau a dyrannu safle fod yn gyson â'r TAN 15 diwygiedig a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn adeiladu ar fap Asesu Risg o Lifogydd yng Nghymru ac yn darparu cyfres newydd o fapiau risg o lifogydd, sy'n cynnwys ystyriaethau ar gyfer newid yn yr hinsawdd. | |
| Cymru | Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru (2006)<br>Cyhoeddwyd y strategaeth ym mis Mai 2006. Mae'n nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno ei gyflawni erbyn 2026, a sut i wneud hynny.<br>Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd blynyddol Strategaeth yr Amgylchedd diwethaf ar gyfer 2010-2011 ddiwedd 2011. Roedd hwn yn cyd-daro â diwedd yr ail gynllun gweithredu. Cyhoeddwyd Adroddiad diweddaraf Cyflwr yr Amgylchedd ym mis Gorffennaf 2012.<br>Ers lansio'r strategaeth hon, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi:<br>• Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned – y Cynllun Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru (2009)<br>• Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (2010)<br>• Tuag at Ddyfodol Diwastraff (2010)<br>• Coetiroedd i Gymru (2011). | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni) a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned – Y Cynllun Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru, 2009<br>Mae'r Cynllun yn nodi ein gweledigaeth newydd am Gymru gynaliadwy a'r flaenoriaeth yr ydym yn ei chysylltu wrth ddatblygu cynaliadwy. Dyma ymateb i'r heriau economaidd ac amgylcheddol a wynebir gennym a dyma'r unig ddull a fydd yn sicrhau dyfodol cynaliadwy hirdymor i genedlaethau'r dyfodol.<br>Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ddatblygu cynaliadwy, ac mae wedi bod wrth wraidd Llywodraeth Cymru ers y diwrnod cyntaf. Ein hegwyddor trefnu ganolog ydyw.<br>Mae gweledigaeth y Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad yng Nghymru ymrwymo'n weithredol i ddatblygu cynaliadwy. Mae Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yn darparu arweiniad a chyfeiriad ar gyfer datblygu addas yng Nghymru, a bydd yn galluogi eraill i ddatblygu neu adnewyddu eu dull datblygu cynaliadwy eu hunain. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni) a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| Cymru | Chwyldro Carbon Isel – Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru Mawrth 2010<br>Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n amlinellu ei huchelgeisiau ar gyfer ynni carbon isel yng Nghymru yn y datganiad polisi hwn. Mae'r datganiad yn adeiladu ar ganlyniadau ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar Drywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru a'r Cynllun Gweithredu Bio-ynni i Gymru. Mae'n defnyddio gwaith Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni, y Strategaeth Swyddi Gwyrdd ac adroddiad y Grŵp Cynghori Gweinidogion ar yr Economi a Thrafnidiaeth ar "Y Sector Ynni". Mae'r datganiad hefyd yn adlewyrchu safbwynt polisi'r DU, gwaith Comisiwn y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd a Datganiadau Polisi Cenedlaethol y DU ar Ynni ac Ynni Adnewyddadwy. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni), hybu ynni adnewyddadwy/datblygiadau sy'n cynhyrchu carbon isel a lleihau gwastraff. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI** Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Ynni Cymru: Y Newid i Garbon Isel (2012)<br>Mae'n nodi amcan Llywodraeth Cymru o wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru – er mwyn sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ein hunain a chenedlaethau'r dyfodol. Fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, ei huchelgais felly yw: 'creu economi gynaliadwy, carbon isel i Gymru'. Wrth wneud hynny, mae'n dymuno sicrhau y manteisir yn llawn ar y newid i economi carbon isel er mwyn sicrhau dyfodol cyfoethocach, mwy cydnerth a chynaliadwy i Gymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni), hybu ynni adnewyddadwy/datblygiadau sy'n cynhyrchu carbon isel a lleihau gwastraff. |
| Cymru | Ynni Cymru: Cynllun Cyflawni Newid Carbon Isel (2014, diweddarwyd 2019)<br>Mae'r ddogfen hon yn darparu'r tair blaenoriaeth allweddol canlynol ar gyfer dyfodol Cymru:<br>• darparu arweinyddiaeth i sicrhau bod gan Gymru fframwaith clir a chyson i fuddsoddwyr, rheoleiddwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau, a'r seilwaith, y cyd-drefniant a'r sefydlogrwydd sydd ei angen i sicrhau bod Cymru'n lle gwych i wneud busnes;<br>• sicrhau'r budd mwyaf posibl i Gymru o ran swyddi a budd economaidd ehangach ar bob cam o'r broses ddatblygu a gweithredu gan sicrhau hefyd bod ein cymunedau'n cael manteision hirdymor; a<br>• gweithredu yn awr er dyfodol ynni hirdymor Cymru drwy gymorth ar gyfer arloesedd, ymchwil, datblygiad, a masnacheiddio yn y meysydd sy'n cynnig y potensial mwyaf er budd hirdymor i Gymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni), hybu ynni adnewyddadwy/datblygiadau sy'n cynhyrchu carbon isel a lleihau gwastraff. |
| Cymru | Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (2010)<br>Mae'n nodi eu hymrwymiadau a'r meysydd lle byddant yn gweithredu, a lle byddant yn gweithio gyda'u partneriaid i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac i alluogi addasu'n effeithiol yng Nghymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | | yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni), hybu ynni adnewyddadwy/datblygiadau sy'n cynhyrchu carbon isel a lleihau gwastraff. |
| Cymru | Bil yr Amgylchedd (Cymru)<br>Bydd yn amlinellu'r dull ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, a fydd yn helpu i liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Bydd hyn yn cynnwys cryfhau iechyd ein hadnoddau naturiol i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd arnynt, ystyried y gwasanaethau y mae adnoddau naturiol yn eu darparu a nodi cyfleoedd i ddarparu twf gwyrdd. Bydd y dull newydd hwn hefyd yn ei gwneud yn bosibl i ystyried cydnerthedd yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar weithgareddau o'r cychwyn cyntaf. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni), hybu ynni adnewyddadwy/datblygiadau sy'n cynhyrchu carbon isel a lleihau gwastraff. |
| Cymru | Adeiladu Lleoedd Gwell (2020)<br>Mae'r ddogfen hon yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i helpu i gymryd camau yn ystod y cyfnod adfer ar ôl argyfwng pandemig Covid-19. Dylai'r system gynllunio fod yn ganolog wrth ystyried materion yn ymwneud â'r amgylchedd adeiledig a naturiol sydd wedi deillio o'r sefyllfa hon. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid hinsawdd, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau (gan gynnwys adnoddau ynni), hyrwyddo ynni adnewyddadwy/datblygiadau carbon isel a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i’r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|

**Pwnc AAS – Asedau Perthnasol**

| | | |
|---|---|---|
| Rhyngwladol | Protocol Kyoto, Y Cenhedloedd Unedig, 1998<br>Cytundeb rhyngwladol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae gan Lywodraeth y DU ymrwymiad i gyflawni lleihad o 12.5% mewn allyriadau yn ystod cyfnod 2008-2012 o gymharu â lefelau 1990. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| UE | Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE 1975/442/EEC (fel y’i diwygiwyd gan y Gyfarwyddeb 1991/156/EEC a 1991/692/EEC yr UE)<br>Mae’r Gyfarwyddeb yn sefydlu fframwaith ar gyfer rheoli gwastraff ledled y Gymuned Ewropeaidd. Mae’n gofyn i Aelod-wladwriaethau wneud yr hyn a ganlyn:<br>• rhoi blaenoriaeth i atal gwastraff ac annog ailddefnyddio ac adfer gwastraff<br>• sicrhau bod gwastraff yn cael ei adfer neu ei waredu heb beryglu iechyd dynol a heb ddefnyddio prosesau a allai niweidio’r amgylchedd<br>• gwahardd gwaredu gwastraff heb reolaeth, sicrhau bod gweithgareddau rheoli gwastraff yn cael eu caniatáu (oni bai eu bod wedi eu heithrio’n benodol)<br>• sefydlu rhwydwaith integredig a digonol o osodiadau gwaredu. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| UE | Environment 2010: Our Future, Our Choice, EU 6th Action Programme, European Commission 2001<br>Mae’n gosod y fframwaith ar gyfer llunio polisïau amgylcheddol yn yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cyfnod 2002-2012 ac mae’n amlinellu’r camau y mae angen eu cymryd i’w cyflawni nhw. Mae’n nodi pedwar maes blaenoriaeth:<br>1. Newid hinsawdd | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | 2. Natur a bioamrywiaeth<br>3. Yr amgylchedd ac iechyd<br>4. Adnoddau naturiol a gwastraff<br>Mae'r rhaglen yn hybu'r broses o integreiddio gofynion diogelu'r amgylchedd yn llawn i bob polisi a gweithred Gymunedol. | |
| UE | Y Gyfarwyddeb Tirlenwi (1999/31/EC)<br>Mae'n canolbwyntio ar leihau gwastraff a chynyddu lefelau gwaith ailgylchu ac adfer. Nod cyffredinol y Gyfarwyddeb yw atal, neu leihau gymaint â phosibl, effeithiau negyddol ar yr amgylchedd (yn benodol llygredd dŵr wyneb, dŵr daear, pridd ac aer ac ar yr amgylchedd byd-eang, gan gynnwys yr effaith tŷ gwydr) yn ogystal ag unrhyw risg ganlyniadol i iechyd dynol o'r broses o gladdu gwastraff yn ystod cylch bywyd cyfan y safle tirlenwi. Mae'r Gyfarwyddeb yn pennu'r targed o gyflawni lleihad o 35% yn y gwastraff trefol bioddiraddadwy a gafodd ei dirlenwi ym 1995 erbyn 2020. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| UE | Y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwynau (2006/21/EC)<br>Ei nod yw atal neu leihau gymaint â phosibl yr effeithiau andwyol ar yr amgylchedd ac unrhyw risgiau canlyniadol i iechyd dynol wrth reoli gwastraff o'r diwydiannau echdynnu (e.e. mwyngloddio). Mae'r Gyfarwyddeb yn nodi sut i gyflawni'r nod hwn drwy ddarparu ar gyfer mesurau, gweithdrefnau a chanllawiau ar sut y dylid rheoli diwydiannau echdynnu. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| DU | Deddf Cynllunio y DU, 2008 a Deddf yr Amgylchedd 1995<br>Mae'n darparu sail ar gyfer cynllunio defnydd Tir a diogelu'r amgylchedd yn y Deyrnas Unedig. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| DU | Sustainable Development Strategy: Securing the Future (2005)<br>Mae'n cynnwys defnyddio a chynhyrchu cynaliadwy fel un o bedair blaenoriaeth ac mae'n ystyried y pum egwyddor arweiniol:<br>• byw o fewn Terfynau Amgylcheddol;<br>• sicrhau Cymdeithas Gref, Iach a Chyfiawn;<br>• cyflawni Economi Gynaliadwy;<br>• defnyddio Gwyddoniaeth Gadarn yn Gyfrifol; a<br>• hybu Llywodraethu Da. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| DU | Government Progress in Mainstreaming Sustainable Development (2013)<br>Mae'n nodi'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r weledigaeth hon y credir y gellir ei gweld yn yr ystod o bolisïau sy'n cael eu datblygu gan Adrannau a'r gwaith i sbarduno gwelliannau ar draws ystadau a chaffael. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| Cymru | Trechu Tlodi Tanwydd 2021-2035 (2021)<br>Mae'n nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd hyd yma i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ac mae'n gosod amcan, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, i bobl Cymru beidio â byw mewn tlodi tanwydd erbyn 2035. Mae'n nodi pedwar nod polisi i gyflawni lleihad ychwanegol mewn tlodi tanwydd:<br>1. Nodi<br>2. Blaenoriaethu a diogelu<br>3. Datgarboneiddio<br>4. Dylanwad<br><br>Cefnogir y pedwar nod gan gynllun gweithredu drafft ar gyfer cyflawni tymor byr rhwng 2021 a 2023. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy a dylunio o ansawdd uchel sy'n arwain at ddatblygiadau sydd wedi eu hinswleiddio'n dda ac yn effeithlon o ran ynni. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | **Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (2017)**<br>Yn rhan o Ffyniant i Bawb, mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar gyflawni twf economaidd gan sicrhau bod y twf hwn yn darparu manteision i bawb. Mae'r ddogfen yn rhoi manylion am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni hyn, drwy leihau anweithgarwch economaidd, technolegau newydd, datgarboneiddio'r sector cyflogaeth, effeithlonrwydd a chyllid i enwi rhai. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl ac ehangu'r economi'n gynaliadwy. |
| Cymru | Y Rhaglen Lywodraethu 2021-2026<br>Mae'n gosod yr agenda ar gyfer tymor 2021-2026 Senedd Llywodraeth Cymru o ran:<br>• Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel<br>• Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed<br>• Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol<br>• Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl<br>• Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn<br>• Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldeb addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi<br>• Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math<br>• Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu<br>• Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt<br>• Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl ac ehangu'r economi'n gynaliadwy. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Cefnogir hyn gan 10 amcan llesiant. | |
| Cymru | Y Genhadaeth o ran Cadernid ac Ailadeiladu Economaidd (2021)<br>Mae'n nodi gweledigaethau o "economi llesiant sy'n ysgogi ffyniant, sy'n amgylcheddol gadarn, ac sy'n helpu pawb i wireddu eu potensial". Mae'r ddogfen yn nodi tri chanlyniad sy'n tanategu'r weledigaeth: Economi lewyrchus; Economi wyrddach; Economi fwy cyfartal.<br><br>Mae'r cynllun yn nodi gweithgarwch o amgylch pum ban ar gyfer goresgyn COVID-19, a darparu adferiad tymor canolig a thymor hwy:<br>• Cryfhau'r economi sylfaenol<br>• Ymrwymiad COVID-19 i ddiogelu a galluogi sgiliau a chyflogaeth<br>• Cyflymu'r broses o addasu ar gyfer adferiad a ffyniant yn y dyfodol<br>• Denu buddsoddiad mewn adferiad gwyrdd<br>• Cryfhau'r broses o fynd ar drywydd gwerth cymdeithasol | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl ac ehangu'r economi'n gynaliadwy. |
| Cymru | Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020–21 (2020)<br>Mae hwn yn adnewyddu'r cynllun gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2015. Mae'r Cynllun yn nodi pum thema i'w gweithredu:<br>Gweithredu gofodol:<br>• Cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth<br>Trawsnewidiol:<br>• Cynyddu Gwybodaeth a Throsglwyddo Gwybodaeth;<br>• Gwireddu Buddsoddiad a chyllid newydd;<br>• Uwchsgilio a'r capasiti i gyflawni;<br>• Prif ffrydio, Llywodraethu ac Adrodd ein Cynnydd<br><br>Nodir pum blaenoriaeth uniongyrchol ar gyfer gweithredu pellach: | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl ac ehangu'r economi'n gynaliadwy. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Cyfochri'r ymatebion i'r argyfwng hinsawdd â'r argyfwng bioamrywiaeth<br>• Mynd i'r afael â'r bwlch ariannu ar gyfer mesurau amaeth-amgylcheddol yn sgil gadael yr UE<br>• Darparu cyfeiriad gofodol er mwyn targedu camau at ddibenion bioamrywiaeth<br>• Gwella cyflwr y Rhwydwaith Safleoedd Gwarchodedig<br>• Archwilio dulliau cyllido newydd a chynaliadwy ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth | |
| Cymru | Polisi Adnoddau Naturiol (2017)<br>Nod y ddogfen hon yw mesur adnoddau naturiol pwysig Cymru. Mae adnoddau naturiol Cymru'n cynnig y manteision canlynol yn aml:<br>• Gwasanaethau darparu: megis cnydau, da byw, pysgod a phren; a ffrydiau o egni naturiol<br>• Rheoleiddio gwasanaethau: megis puro dŵr ac aer, rheoleiddio sŵn, atafaelu carbon, rheoli risg llifogydd, trin gwastraff a pheillio<br>• Gwasanaethau diwylliannol: megis hamdden a buddion iechyd a llesiant cysylltiedig; ein hamgylchedd hanesyddol a'n gwerthfawrogiad o'n lleoedd, ein tirweddau a'n natur hardd, a<br>• Systemau a gwasanaethau ategol: megis ffurfio pridd a chylchred maethol sy'n angenrheidiol ar gyfer cynhyrchu pob gwasanaeth ecosystem arall. Mae bioamrywiaeth yn tanategu'r systemau a'r gwasanaethau hyn. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl ac ehangu'r economi'n gynaliadwy. |
| Cymru | Strategaeth Ddigidol i Gymru (2021)<br>Mae Strategaeth Ddigidol i Gymru yn canolbwyntio ar "[...]wella bywydau pawb trwy gydweithio, arloesi a gwasanaethau cyhoeddus gwell." Mae'n cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau digidol modern, cynhwysiant, sgiliau digidol, yr economi ddigidol, cysylltedd, a data a chydweithrediad. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel a datblygu seilwaith newydd ar ffurf gwasanaethau band eang a thelegyfathrebu. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021)<br>Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ceisio sicrhau defnydd effeithiol ac mor gynaliadwy â phosibl o dir ac adnoddau, gan sicrhau bod datblygiadau yng Nghymru yn bodloni'r gofynion hyn. Mae'r ddogfen hefyd yn gorfodi'r angen i ddefnyddio tir ac adnoddau'n effeithlon er mwyn sicrhau bod cyn lleied o wastraff â phosibl yn cael ei gynhyrchu ac mae'n annog rheoli unrhyw wastraff a gynhyrchir yn briodol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl ac ehangu'r economi'n gynaliadwy. |
| Cymru | Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022<br>Blaenoriaeth 1: dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i bobl ddefnyddio eu ceir yn ddyddiol<br>Blaenoriaeth 2: seilwaith a gwasanaethau cludiant hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon<br>Blaenoriaeth 3: Newid ymddygiad<br>Er mwyn cyflawni'r tair blaenoriaeth 5 mlynedd yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, mae naw cynllun bach sy'n nodi sut y bydd pob modd a sector yn cyfrannu at gyflawni'r rhain. Dyma'r naw dull a sector:<br>• Teithio llesol<br>• Bws<br>• Rheilffordd<br>• Ffyrdd, strydoedd a pharcio<br>• Y Trydydd Sector<br>• Tacsis a cherbydau llogi preifat<br>• Cludo nwyddau a logisteg<br>• Cludiant morwrol<br>• Hedfan | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel ac ehangu dulliau cludiant cynaliadwy (trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol) a seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, 2009<br>Mae'r ddogfen hon yn nodi gweledigaeth y Llywodraeth am Gymru gynaliadwy. Nodir y blaenoriaethau allweddol canlynol: lleihau ôl troed carbon Cymru a bod yn gydnerth yn sgil effeithiau newid hinsawdd, datblygu economi gynaliadwy a chydnerth; a sicrhau bod cymunedau'n lleoedd diogel a deniadol i fyw a gweithio ynddynt, a bod hygyrchedd da at wasanaethau a ffyrdd o fyw iach ac egnïol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, newid yn yr hinsawdd, cymunedau diogel ac iach, ac ehangu dulliau cludiant cynaliadwy (trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol) a seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy. |
| Cymru | Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2008) a Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru, 2008<br>Nod Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl yw hybu rhwydweithiau trafnidiaeth Cynaliadwy sy'n diogelu'r amgylchedd gan gryfhau bywyd economaidd a chymdeithasol ein gwlad. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer creu system drafnidiaeth integredig i ddarparu 'Cymru'n Un – Cysylltu'r Genedl'. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel ac ehangu dulliau cludiant cynaliadwy (trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol) a seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy. |
| Cymru | Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, 2001<br>Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn nodi'r canllawiau polisi cynllunio defnydd tir mewn cysylltiad ag echdynnu mwynau a datblygiadau cysylltiedig yng Nghymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1: Agregau, 2004<br>Mae'n darparu cyngor ar ddarparu adnoddau mwynol i ddiwallu anghenion cymdeithas, cynhyrchu Agregau presennol, y galw a chyflenwi yn y dyfodol, diogelu ardaloedd o bwys, lleihau effaith cynhyrchu agregau, adfer ac ôl-ofal a materion perthnasol eraill. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18: Trafnidiaeth, 2007<br>Mae'n cynnwys cyngor ar integreiddio rhwng cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth, lleoliad datblygiad, parcio, dylunio datblygiad, cerdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus, cynllunio ar gyfer seilwaith trafnidiaeth ac asesu effeithiau a rheoli gweithrediad. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel ac ehangu dulliau cludiant cynaliadwy (trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol) a seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy. |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 19: Telathrebu, 2002<br>Mae'n darparu cyngor ar Gyngor ar systemau Telathrebu, Cynlluniau datblygu, Rheoli datblygiadau, Trefniadau ymgynghori, Ystyriaethau amgylcheddol, Ystyriaethau iechyd, Clecian radio o ddatblygiadau arfaethedig; ac Agweddau telathrebu mewn datblygiadau eraill. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel a datblygu seilwaith newydd ar ffurf gwasanaethau band eang a thelegyfathrebu. |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: Gwastraff, 2014<br>Mae'n darparu cyngor manwl ar Wastraff gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nod y TAN yw hwyluso'r broses o gyflwyno fframwaith cynllunio defnydd tir cynhwysfawr integredig a chynaliadwy ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23: Datblygu Economaidd, 2014<br>Bydd TAN 23 yn helpu awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr i weithredu polisi cynllunio cenedlaethol ar ddatblygu economaidd.<br>Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23 yn rhoi cyngor ar y polisi cynllunio cenedlaethol ar ddatblygu economaidd a nodir ym Mhennod 5 o Bolisi Cynllunio Cymru.<br>Mae'r TAN yn darparu canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol ynghylch y canlynol:<br>• datblygu amcanion cynllunio economaidd lefel uchel<br>• asesu buddion economaidd datblygiadau newydd<br>• datblygu economaidd a'r economi wledig | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. Dylai'r ACI gynnwys amcan sy'n cydbwyso'r gofynion hyn hefyd â'r angen am dwf economaidd. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • paratoi sail dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol<br>• creu gweledigaeth datblygu economaidd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol<br>• penderfynu ar gyflenwad tir cyflogaeth. | |
| Cymru | Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau<br>Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1: Agregau (2004) yn gofyn am i Ddatganiad Technegol Rhanbarthol gael ei baratoi ym mhob ardal Gweithgor Agregau Rhanbarthol. Rhagwelir y dylid adolygu pob Datganiad Technegol Rhanbarthol bob pum mlynedd.<br>Cwblhawyd datganiadau ar gyfer de a gogledd Cymru yn 2008. Cyhoeddir adolygiad cyntaf o'r dogfennau hyn ar hyn o bryd fel yr Adolygiad 1af (2014).<br>Mae dogfennau'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn rhan bwysig o sicrhau y gellir cynnal cyflenwad digonol o agregau crai, sy'n diwallu anghenion lleol, rhanbarthol a'r DU. Maent yn ffurfio dull cyflenwi allweddol ar gyfer gweithredu polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer mwynau a gynhwysir yn Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (2000) a MTAN 1. Mae cydweithrediad ar draws ffiniau awdurdodau lleol yn hanfodol angenrheidiol wrth ymdrin â mwynau ac mae Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru (2005) yn nodi y dylid integreiddio gwaith trawsffiniol newydd a phresennol i Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau), pan fo hynny'n berthnasol, gan nodi dogfennau'r Datganiad Technegol Rhanbarthol fel maes allweddol o waith trawsffiniol. Hyd yn hyn, mae'r dogfennau Datganiad Technegol Rhanbarthol wedi bod yn sail strategol werthfawr ar gyfer llywio'r gwaith paratoi'r<br>CDLl. Mae dogfennau'r Datganiad Technegol Rhanbarthol hefyd yn gallu bod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol.<br>Mae pob Datganiad Technegol Rhanbarthol yn ceisio: | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Defnyddio deunyddiau eilaidd ac eildro a gwastraff mwynau gymaint â phosibl.<br>• Diogelu mwynau ar y tir efallai y bydd eu hangen yn yr hirdymor.<br>• Cydnabod, lle y gellir cyflawni egwyddorion datblygu cynaliadwy, ei bod yn debygol y bydd estyn chwareli agregau presennol yn briodol.<br>• Lle mae angen cyflenwi agregau o ardaloedd newydd, dylent ddod o leoliadau lle mae cyfyngiadau amgylcheddol yn isel a dylid ystyried goblygiadau trafnidiaeth.<br>• Cynnal cyflenwad o agregau morol sy'n gyson â gofynion y Polisi Dros Dro ar Garthu Agregau Morol. | |
| Cymru | Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Cymru<br>Mae Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Cymru yn cynnwys tair rhanbarth. Cynhwysir Powys yn rhanbarthau Gogledd, De a Dwyrain Cymru.<br>Rhanbarth Gogledd Cymru:<br>Yn 2004, mabwysiadwyd Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r cynllun anstatudol hwn yn darparu fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer Rhanbarth y Gogledd ac mae'n ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio. Nid yw gwastraff yn ddiwydiant statig ac mae angen adolygu'r Cynllun er mwyn adlewyrchu anghenion y rhanbarth sy'n newid. Ar hyn o bryd, rydym yn llunio Adolygiad Cyntaf y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru.<br>Mae'r Cynllun Gwastraff yn cynnwys gwybodaeth am faterion gwastraff yn gyffredinol ac mewn cyd-destun rhanbarthol. Mae'n esbonio ac yn asesu'r 6 dewis posibl a'r dewis Hybrid ar gyfer ymdrin â'r gwastraff a gynhyrchir yn y Rhanbarth. Hefyd, mae datganiadau canllawiau arferion gorau sy'n ymwneud â rheoli gwastraff yng nghyd-destun cynllunio defnydd tir.<br>Mae'n datgan mai prif bwrpas y Cynllun "yw darparu fframwaith cynllunio defnydd tir a fydd yn cynorthwyo'r broses o ddarparu rhwydwaith cynhwysfawr, integredig a chynaliadwy o gyfleusterau rheoli gwastraff | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | newydd ledled Rhanbarth Gogledd Cymru er mwyn ymdrin â'r gwastraff y rhagwelir y bydd yn cael ei gynhyrchu yn y Rhanbarth yn y dyfodol yn 2013. Mae'r cynllun, sy'n ymdrin â'r HOLL wastraff a reolir, yn darparu fframwaith cynllunio defnydd tir cynaliadwy i'r Rhanbarth ar gyfer y deng mlynedd nesaf".<br>Dewis hybrid, sef cyfuniad o'r ddau ddewis isod, yw'r dull a ffefrir ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru:<br>Dewis 2: Yn y Dewis hwn, ar ôl mwy o ailgylchu a chompostio, pan fo hynny'n bosibl, eid i'r afael â'r holl wastraff sy'n weddill ag ynni o driniaeth gwastraff, a byddai'r hyn sy'n weddill yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.<br>Dewis 6: Yn y Dewis hwn, ar ôl ei ail-ddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio gymaint â phosibl, eir i'r afael â'r gwastraff sy'n weddill drwy Driniaeth Fiolegol Fecanyddol a byddai'r hyn sy'n weddill yn sgil y broses honno yn cael ei dirlenwi<br>Rhanbarth De-ddwyrain Cymru:<br>Cytunwyd ar y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol cyntaf (de-ddwyrain) gan Grŵp Llywio'r Aelodau; fe'i cymeradwywyd gan bob un o'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2004.<br>Mae'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn darparu strategaeth rheoli gwastraff strategol hirdymor a fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy ac adfer adnoddau yn ne-ddwyrain Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi'r cyfrifoldeb o baratoi, monitro ac adolygu'r cynllun i Grŵp Gwastraff Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru. Arweinir y grŵp hwn gan Grŵp Llywio sy'n cynnwys cynghorwyr o'r 11 awdurdod cynllunio lleol yn y rhanbarth gyda Grŵp Technegol sy'n cynnwys swyddogion llywodraeth leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a chyrff eraill y llywodraeth, a chynrychiolwyr o'r diwydiant gwastraff a grwpiau amgylcheddol.<br>Strategaeth Gwastraff Rhanbarthol y De-ddwyrain | |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Y nodau yw:<br>• cyflawni targedau Cyfarwyddeb Tirlenwi 2020 erbyn 2013, gan gyflawni hyn yn bennaf drwy ailgylchu a chompostio gymaint â phosibl<br>• ymdrin â gwastraff gweddilliol drwy Driniaeth Fiolegol Fecanyddol<br>• dewis rhwng anfon y gwastraff gweddilliol o Driniaeth Fiolegol Fecanyddol i safleoedd tirlenwi neu ei ddefnyddio fel Tanwydd yn Deillio o Sbwriel<br>• cyfyngu'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi i'r hyn na ellir ymdrin ag ef yn dderbyniol mewn unrhyw ffordd arall. | |
| Cymru | Tuag at Ddyfodol Diwastraff (2010) ac Adroddiad Cynnydd Gorffennaf 2015<br>Mae'n sefydlu nod hirdymor Llywodraeth Cymru o ddyfodol diwastraff erbyn 2050 a nod tymor canolig o gyflawni cymdeithas sy'n ailgylchu ar raddfa uchel erbyn 2025. Cefnogir hyn gan ystod o dargedau ailgylchu a rheoli gwastraff eraill gan gynnwys y berthynas â gwastraff masnachol a diwydiannol ac sydd i'w cyflawni drwy gynlluniau penodol yn y sector. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| Cymru | Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol<br>Mae'n bwrw ymlaen â'r ymrwymiadau polisi a gynigir yn Sustaining a Living Wales Green Paper on a New Approach to Natural Resource Management in Wales (2012). Mae'r Rhaglen yn cynnwys:<br>• polisi rheoli adnoddau naturiol, gan gynnwys pennu blaenoriaethau cenedlaethol;<br>• Bil yr Amgylchedd;<br>• ymwreiddio dull yr ecosystem, gan gynnwys prosiectau arddangos cysylltiedig a fydd yn arddangos y manteision y gall y dull hwn eu | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | cyflwyno y gallwn ddysgu oddi wrthynt sut a phryd y gellir defnyddio'r dull gweithredu;<br>• gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a chydlynu trefniadau rheoli perfformiad;<br>• cyfathrebu, ymgysylltu a rhannu gwybodaeth. | |
| Cymru | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016<br>Mae'n darparu deddfwriaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru sy'n helpu i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir ac sy'n canolbwyntio ar y cyfleoedd y mae adnoddau Cymru'n eu darparu. Yn y cyfamser, mae Rhan 4 o'r Bil yn ymwneud â gwella prosesau rheoli gwastraff drwy gyflawni lefelau ailgylchu gwastraff busnes uwch, gwell triniaeth gwastraff bwyd a thrwy adfer rhagor o ynni. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |
| Powys | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (2009)<br>Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn esbonio'r amcanion trafnidiaeth a'r rhaglenni ariannu ledled Powys, Ceredigion a rhan o Wynedd (Meirionydd). | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, seilwaith teithio, gan annog gwahanol ddulliau o deithio a hygyrchedd. |
| Powys | Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Powys (2019)<br>Mae cynllun gwella hawliau tramwy yn nodi sut y bydd y Cyngor yn ceisio rheoli'r rhwydwaith hawliau tramwy er lles trigolion a thirfeddianwyr Powys, yn ogystal ag ymwelwyr â'r ardal dros y deng mlynedd nesaf. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, seilwaith teithio, gan annog gwahanol ddulliau o deithio a hygyrchedd. |
| Powys | Strategaeth Adfywio Powys – Cynllun Gweithredu (2015)<br>Datblygwyd strategaeth adfywio Powys gan ymgynghorwyr Powell Dobson yn 2010. Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith lle bydd y Cyngor Sir a'i bartneriaid yn sicrhau bod adfywio yn rhan annatod o arferion bob dydd, er mwyn sicrhau canlyniadau a fydd yn cael effaith | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, seilwaith teithio, gan annog gwahanol ddulliau o deithio, hybu iechyd ac addysg (gan |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | gadarnhaol ar briodoleddau ffisegol, cymdeithasol ac amgylcheddol yn ogystal â phriodoleddau economaidd a diwylliannol y Sir. Mae'n seiliedig o gwmpas y weledigaeth a ganlyn:<br>"Bydd adfywio ym Mhowys yn meithrin ac yn hybu asedau a chryfderau'r Sir fel y modd o fynd i'r afael â'i gwendidau drwy sefydlu economi gadarn a chynaliadwy yn seiliedig ar gymunedau bywiog, ac sy'n gwella ac yn diogelu amgylchedd ffisegol, cymdeithasol a diwylliannol Powys"<br>Y farn yw bod y strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol ac y dylai'r naw amcan allweddol sy'n adlewyrchu anghenion strategol y Sir aros yn eu lle:<br>1. Amcan 1 – Yr Amgylchedd a'r Lle<br>2. Amcan 2 – Addysg a sgiliau<br>3. Amcan 3 – Yr Economi<br>4. Amcan 4 – Iechyd a llesiant a'r gymuned<br>5. Amcan 5 – Ansawdd y gwasanaeth a ddarperir<br>6. Amcan 6 – Ynni adnewyddadwy ochr yn ochr ag ymchwil a datblygu<br>7. Amcan 7 – Arwyddocâd y diwylliant lleol a'r diwydiannau creadigol<br>8. Amcan 8 – Twristiaeth<br>9. Amcan 9 – Anghenion pobl ifanc<br>Mae'r Cynllun Gweithredu yn rhan o ail-lansiad y Strategaeth Adfywio sy'n cynnwys datblygu meysydd effaith:<br>1. Tyfu Powys – grymuso a gwella iechyd economaidd Powys<br>2. Powys Gydnerth – Annog arloesedd, cryfhau gwasanaethau lleol, cymunedau a phartneriaethau<br>3. Grymuso Powys – Cefnogi cymunedau i fynd i'r afael â materion sydd o bwys lleol. | gynnwys cyrhaeddiad sgiliau) a hygyrchedd. Dylai'r rhain gael eu cydbwyso gan amcanion sydd hefyd yn ceisio gwarchod yr amgylchedd ac ehangu'r economi leol. |
| Powys | Strategaeth Gwastraff Powys (2014)<br>Mae Cyngor Sir Powys wedi cyflwyno'r amcanion canlynol i gyd-fynd â strategaeth "Tuag at Ddyfodol Diwastraff":<br>• Ymwybyddiaeth ac Addysg | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel, y defnydd |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Ailgylchu ar Raddfa Uchel<br>• Cynyddu i'r Eithaf yr Hyn a Adferir o Wastraff Gweddilliol<br>• Lleihau Gwastraff i Safleoedd Tirlenwi Gymaint â Phosibl<br>• Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy<br>• Partneru<br>• Gwasanaeth Cost-effeithlon<br>Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r arferion presennol a gynhelir ym Mhowys gyda'r nod cyffredinol o leihau gwastraff i safleoedd tirlenwi. | effeithlon o dir ac adnoddau, a lleihau gwastraff gymaint â phosibl. |

**Pwnc AAS – Treftadaeth Ddiwylliannol**

| | | |
|---|---|---|
| Rhyngwladol | Siarter ar Gadwraeth Trefi Hanesyddol ac Ardaloedd Trefol (Siarter Washington 1987)<br>Prif Amcanion – I'r dasg o warchod trefi hanesyddol ac ardaloedd trefol hanesyddol eraill fod yn rhan annatod o bolisïau cydlynol ar gyfer datblygiadau economaidd a chymdeithasol, a chynllunio trefol a rhanbarthol ar bob lefel. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| Rhyngwladol | Confensiwn UNESCO – Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd (Paris 1972)<br>Sicrhau bod treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yn cael ei hadnabod, ei diogelu, ei chadw, ei chyflwyno a'i throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| Rhyngwladol | UNESCO Red Book Report, 1993<br>Rhestr o ieithoedd y byd a ddosberthir fel rhai sydd mewn perygl, gan ddibynnu ar y graddau y'u defnyddir. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Noda'r adroddiad fod y Gymraeg yn iaith sydd mewn perygl. Noda'r adroddiad fod y Gymraeg yn iaith sydd mewn perygl. | diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| Rhyngwladol | Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Archeolegol Ewrop (diwygiedig) (1992)<br>Cytundeb rhyngwladol ledled Ewrop sy'n sefydlu'r egwyddorion cyffredin sylfaenol i'w cymhwyso mewn polisïau treftadaeth archeolegol cenedlaethol. Mae'n ategu darpariaethau cyffredinol Confensiwn Treftadaeth y Byd UNESCO (1972) a'i nod yw diogelu treftadaeth archeolegol fel ffynhonnell y cof cyfunol Ewropeaidd ac fel offeryn ar gyfer astudiaeth hanesyddol a gwyddonol. Mae'n gosod fframwaith sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau wneud yr hyn a ganlyn:<br>• cynnal rhestr o dreftadaeth archeolegol a henebion ac ardaloedd gwarchodedig dynodedig;<br>• creu cronfeydd archeolegol; ac<br>• i ddarganfyddwyr unrhyw elfen o dreftadaeth archeolegol, ei hadrodd a sicrhau ei bod ar gael i'r awdurdod cymwys. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| UE | Cyfansoddiad Ewrop<br>Prif Amcanion – Bydd [yr Undeb] yn parchu ei hamrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol gyfoethog, a bydd yn sicrhau bod treftadaeth ddiwylliannol Ewrop yn cael ei diogelu a'i gwella. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| UE | Cytundeb Rhufain, Erthygl 128 – fel y'i mewnosodwyd gan Gytundeb ar yr Undeb Ewropeaidd (Maastricht) | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Prif Amcanion – Y bydd camau gweithredu gan y Gymuned â'r nod o annog cydweithrediad rhwng Aelod-wladwriaethau ac, os oes angen, cefnogi ac ychwanegu at eu camau yn y meysydd canlynol:<br>– gwella gwybodaeth a lledaenu diwylliant a hanes pobloedd Ewrop;<br>– cadwraeth a diogelu treftadaeth ddiwylliannol o arwyddocâd Ewropeaidd. | diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| UE | Confensiwn Diwylliannol Ewrop (Confensiwn Paris 1954)<br>Prif Amcanion – I aelod-wladwriaethau:<br>1. diogelu ac annog datblygiad eu cyfraniad cenedlaethol at dreftadaeth ddiwylliannol gyffredin Ewrop, (Erthygl I)<br>2. diogelu'r gwrthrychau o werth diwylliannol Ewropeaidd a roddir o dan eu rheolaeth, fel rhannau annatod o dreftadaeth ddiwylliannol gyffredin Ewrop. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| UE | Confensiwn ar Ddiogelu Treftadaeth Bensaernïol Ewrop (Confensiwn Granada 1975)<br>Prif Amcanion – Mae'n cydnabod bod treftadaeth bensaernïol yn gyfystyr â mynegiant unigryw o gyfoeth ac amrywiaeth treftadaeth ddiwylliannol Ewrop, yn dyst anfesuradwy i'n gorffennol ac yn dreftadaeth gyffredin i bob Ewropead. Felly, mae' diffinio treftadaeth bensaernïol ac yn darparu'r modd i'w diogelu drwy ddeddfwriaeth a pholisïau cadwraeth | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| UE | Confensiwn Ewropeaidd ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Archeolegol (Diwygiedig) Confensiwn Llundain 1969, a Chonfensiwn Valletta 1992<br>Prif Amcanion – Diffinio a diogelu treftadaeth archeolegol o ran difrod posibl o ganlyniad i waith i'r safle neu gynigion datblygu. Mae hefyd yn cyflwyno'r angen am bolisïau cynllunio sydd wedi eu dylunio i sicrhau strategaethau cytbwys er mwyn diogelu, cadw a gwella safleoedd o ddiddordeb archeolegol; ac i sicrhau bod archeolegwyr, cynllunwyr tref a rhanbarthol yn ymgynghori â'i gilydd yn systematig. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| UE | Siarter ar gyfer Cadwraeth ac Adfer henebion a Safleoedd, (Siarter Fenis 1966)<br>Prif Amcanion – Mae'n cyflwyno "treftadaeth gyffredin", ac mae ganddi 15 Erthygl sy'n ymdrin ag egwyddorion cadwraeth, gan gynnwys atgyweiriadau ac adeiladu traddodiadol, newidiadau i adeiladau a lleoliad adeiladau a'u perthynas â'r dirwedd gyfagos. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| UE | Gerddi Hanesyddol (Siarter Fflorens 1981)<br>Prif Amcanion – Nodi, rhestru a diogelu gerddi hanesyddol drwy gynlluniau defnydd tir. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| UE | Siarter ar gyfer Diogelu a Rheoli'r Dreftadaeth Archeolegol (1990)<br>Prif Amcanion –<br>Mae'n cyflwyno 8 Erthygl i ddiffinio archaeoleg ac i sicrhau ei diogelwch a'i rheolaeth. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| UE | Siarter ar y Dreftadaeth Frodorol Adeiledig (1999)<br>Prif Amcanion – Mae'n rhoi cyngor a chanllawiau ar dechnegau cadwraeth ac atgyweirio ac mae'n cynghori mai'n anaml y cynrychiolir y traddodiad cynhenid gan strwythurau sengl a'i fod yn cael ei warchod orau drwy gynnal a chadw grwpiau ac aneddiadau rhanbarth o gymeriad cynrychioliadol fesul rhanbarth. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i’r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| UE | Siarter Athen, 1931<br>Nododd y gyngres hon saith amcan allweddol: gan gynnwys mesurau i ddiogelu henebion a’u hamgylchoedd yn gyfreithiol ac i ddatblygu arferion gorau drwy sefydliadau rhyngwladol. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu’r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a’i leoliad). |
| UE | Siarter ar Gadwraeth Trefi Hanesyddol ac Ardaloedd Trefol, 1987<br>Nod y siarter yw gwarchod trefi hanesyddol ac ardaloedd trefol hanesyddol eraill. Dylai hyn fod yn rhan annatod o bolisïau datblygu economaidd a chymdeithasol cydlynol a chynllunio trefol a rhanbarthol ar bob lefel. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu’r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a’i leoliad). |
| UE | Siarter ar gyfer Diogelu a Rheoli’r Dreftadaeth Archeolegol, 1990<br>Mae’r siarter yn hybu integreiddiad polisïau diogelu, diogelwch treftadaeth archeolegol drwy ddeddfwriaeth, technegau arolygu priodol, ymchwilio gwyddonol, a chynnal a chadwraeth briodol. Mae hefyd yn hybu cadwraeth treftadaeth archeolegol ar gyfer y cyhoedd a hyfforddiant digonol i ymarferwyr a chydweithrediad rhyngwladol. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu’r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a’i leoliad). |
| UE | Siarter Twristiaeth Ddiwylliannol Ryngwladol, 1999<br>Nod y siarter yw hwyluso ac annog hygyrchedd treftadaeth i gymunedau ac ymwelwyr, er mwyn annog y rhai sy’n hybu twristiaeth i barchu a gwella treftadaeth a chynnal diwylliannau, er mwyn hybu deialog rhwng cadwraethwyr a’r diwydiant twristiaeth, er mwyn annog y rhai sy’n llunio cynlluniau a pholisïau i ddatblygu nodau a strategaethau manwl a mesuradwy sy’n ymwneud â chadw lleoedd treftadaeth yng nghyd-destun cadwraeth a threftadaeth. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu’r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a’i leoliad). Dylai’r ACI fod ag amcan sy’n ymwneud â datblygu economaidd hefyd sy’n sôn am dwristiaeth. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i’r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | | |
| UE | Darpar Ddatblygiad Gofodol Ewropeaidd, 1999<br>Mae’r cynllun yn cydnabod y pwysau a roddir ar drefi a dinasoedd trefol ac mae’n nodi’r angen i ddiogelu treftadaeth yr ardaloedd trefol hyn. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu’r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a’i leoliad). |
| UE | Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol, 1992<br>Mabwysiadwyd yn Ewrop dan nawdd Cyngor Ewrop i ddiogelu a hybu ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol hanesyddol yn Ewrop. Noda’r siarter fod y Gymraeg yn iaith sydd mewn perygl. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu’r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a’i leoliad). |
| DU | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990<br>Y brif ddeddfwriaeth ar gyfer diogelu treftadaeth yng Nghymru. Mae’n darparu’r dull ar gyfer gwarchod y Dreftadaeth Adeiledig i Awdurdodau Cynllunio Lleol. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu’r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a’i leoliad). |
| DU | Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979<br>Mae’r Ddeddf yn cyfuno ac yn diwygio’r gyfraith sy’n ymwneud â henebion hynafol. Mae’n gwneud darpariaeth ar gyfer ymchwilio, cadw a chofnodi materion o ddiddordeb archeolegol neu hanesyddol ac (mewn | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | cysylltiad â hynny) ar gyfer rheoleiddio gweithrediadau neu weithgareddau sy'n effeithio ar faterion o'r fath. | diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| DU | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990<br>Mae'r Ddeddf yn gwarchod ac yn cofnodi adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn nodi sut y gallai gwaith trwyddedig ddigwydd yn y meysydd hyn ac yn manylu ar weithdrefnau gorfodi ar gyfer gweithrediadau anghyfreithlon. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| DU | Diogelu Treftadaeth ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain (2007)<br>Amlinellu strategaeth ar gyfer diogelu'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru a Lloegr ar sail tair egwyddor graidd: datblygu dull unedig o ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol; cynyddu gymaint â phosibl y cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant a chyfranogiad; a chefnogi cymunedau cynaliadwy drwy roi'r amgylchedd hanesyddol wrth wraidd system gynllunio effeithiol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| DU | Deddf Diogelu Olion Milwrol (1986)<br>Mae'n darparu diogelwch ar gyfer malurion awyrennau milwrol a llongau milwrol dynodedig. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| DU | Deddf Trysor (1996)<br>Mae'n nodi gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â darganfyddiadau o drysor, perchnogaeth a gwobrau, yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i’r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | | diogelu’r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a’i leoliad). |
| Cymru | Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021)<br>Mae dogfen Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys polisïau sy’n ymwneud â diogelu asedau treftadaeth rhag niwed. Mae diogelwch o’r fath yn ymestyn i ddiogelu asedau hanesyddol yn ffisegol yn ogystal â diogelu eu cymeriad a’u lleoliad. Mae asedau hanesyddol hefyd yn cwmpasu asedau archeolegol nad ydynt wedi eu darganfod eto, gan sicrhau y dylid gwarchod hyd yn oed asedau hanesyddol anhysbys rhag gwaith datblygu. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu’r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a’i leoliad). |
| Cymru | Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016<br>Mae’n rhoi diogelwch i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, y gwaith o reoli’r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy a thryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir ar amgylchedd hanesyddol Cymru. Cyflwynwyd Bil diweddaru i’r Senedd ym mis Gorffennaf 2022 sy’n cyfuno oddeutu 200 tudalen, yr holl ddeddfau a deddfwriaeth eilaidd sy’n cwmpasu’r amgylchedd hanesyddol. Nid oedd hyn yn ymwneud â pholisi newydd. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu’r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a’i leoliad). |
| Cymru | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015<br>Ei nod yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. I’r cyrff cyhoeddus hynny a restrir yn y Ddeddf, mae’n annog dull mwy cydgysylltiedig i ystyried o safbwynt mwy hirdymor, i weithio’n well gyda phobl a chymunedau a’i gilydd er mwyn atal problemau. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu’r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a’i leoliad). |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Llesiant Cymru: 2021<br>Y diweddariad blynyddol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant:<br>• Cymru lewyrchus<br>• Cymru gydnerth<br>• Cymru iachach<br>• Cymru sy'n fwy cyfartal<br>• Cymru o gymunedau cydlynus<br>• Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>• Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. | Dylai'r ACI ddefnyddio'r ffynhonnell ystadegol hon fel ffordd o lywio'r adolygiad o bynciau sy'n gysylltiedig â llesiant a gaiff eu hystyried yn yr ACI. |
| Cymru | Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru, 2006<br>Mae'n nodi strategaeth amgylchedd Llywodraeth Cynulliad Cymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae cynnal a gwella cymeriad naturiol a hanesyddol ein tirweddau a'n morluniau yn un o amcanion y cynllun hwn. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio, 2014<br>Mae'n cynnwys cyngor ar ddiffiniad dylunio, y broses ddylunio a pholisi dylunio yr awdurdod cynllunio lleol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol<br>Mae TAN 24 yn darparu canllawiau a chyflwyniad i'r elfennau Amgylchedd Hanesyddol canlynol:<br>• Safleoedd Treftadaeth y Byd<br>• Olion Archeolegol | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Adeiladau Rhestredig<br>• Ardaloedd Cadwraeth<br>• Gerddi a Pharciau Hanesyddol a Thirweddau Cofrestredig<br>• Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig | diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| Cymru | Cadw – Tirweddau Hanesyddol, 1998<br>Mae'r ddogfen gynghorol ac anstatudol hon yn amlygu'r hyn a ystyrir yn enghreifftiau gorau o wahanol fathau o dirwedd hanesyddol yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r dewis o ardaloedd ar gyfer y Gofrestr hon yn lleihau pwysigrwydd gweddill tirweddau hanesyddol cyfoethog Cymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| Cymru | Bwrdd Croeso Cymru – Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol Cymru, 2003<br>Nod y strategaeth yw gwella hygyrchedd ymwelwyr at ddiwylliant, gwella ansawdd profiadau ymwelwyr a sicrhau bod cynnyrch twristiaeth diwylliannol gwirioneddol o safon sy'n bodloni ac yn rhagori ar ddisgwyliadau ymwelwyr. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| Cymru | Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg<br>Mae'r cylchlythyr yn nodi cyngor ar ddeddfwriaeth a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag olion archeolegol. Mae'n rhoi cyngor ar gynlluniau datblygu, cofnodion safleoedd a henebion, ceisiadau cynllunio, penderfyniadau cynllunio, amodau cynllunio a darganfod olion archeolegol wrth gynnal gwaith datblygu. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| Cymru | Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol<br>Mae'r cylchlythyr yn nodi cyngor ar ddeddfwriaeth a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag adeiladau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth. Mae'n rhoi | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | cyngor ar y fframwaith cynllunio, ardaloedd cadwraeth, rhestru a rhestru rheolaethau adeiladu, adeiladau hanesyddol y mae angen eu hatgyweirio ac eithriadau eglwysig. | diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| Cymru | Rheoli Traffig mewn Ardaloedd Hanesyddol (Cadw)<br>Mae'n amlinellu ffyrdd o ddylunio gwelliannau peirianneg traffig a phriffyrdd mewn modd sensitif mewn ardaloedd hanesyddol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| Cymru | Goresgyn y Rhwystrau: Darparu Mynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol (Cadw, 2002)<br>Mae'r canllawiau'n esbonio: sut y gellid gwneud adeiladau hanesyddol y darperir gwasanaethau i'r cyhoedd ohonynt yn fwy hygyrch yn ffisegol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel (gan gynnwys lleoli, cynllun ac ystyriaethau graddfa) a diogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys ei gymeriad a'i leoliad). |
| Cymru | Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993 a Mesur y Gymraeg (2011)<br>Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a wnaeth y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg yng Nghymru o ran y sector cyhoeddus. Mae'n nodi bod yn rhaid i'r holl ddogfennau cyhoeddus a gynhyrchir gan gyrff cyhoeddus megis Cyngor Sir Ceredigion gael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>Gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ddarpariaeth ar gyfer statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreodd fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Gymraeg. Cyflwynodd y Mesur Safonau'r Gymraeg, sy'n nodi sut dylai'r iaith gael ei defnyddio gan sefydliadau cyhoeddus wrth ddarparu gwasanaethau, yn ystod gweithrediadau ac wrth lunio polisïau. | Dylai'r ACI gynnwys amcan penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i’r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Mae Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg ar gyfer Cyngor Sir Powys (2016) yn cynnwys safonau llunio polisïau o ran asesu effaith polisïau a phenderfyniadau’r Cyngor ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, ac ystyried ffyrdd o newid y polisïau a’r penderfyniadau er mwyn cael canlyniad gwell i’r Gymraeg. | |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a’r Gymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2017) Pwyslais ar warchod a chefnogi’r Gymraeg wrth lunio polisïau ac yn ei chyfraniad tuag at gyflawni nod llesiant y Gymraeg sy’n Ffynnu a tharged ehangach Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>Gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ddarpariaeth ar gyfer statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreodd fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Gymraeg. Cyflwynodd y Mesur Safonau’r Gymraeg, sy’n nodi sut dylai’r iaith gael ei defnyddio gan sefydliadau cyhoeddus wrth ddarparu gwasanaethau, yn ystod gweithrediadau ac wrth lunio polisïau.<br>Mae Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg ar gyfer Cyngor Sir Powys (2016) yn cynnwys safonau llunio polisïau o ran asesu effaith polisïau a phenderfyniadau’r Cyngor ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, ac ystyried ffyrdd o newid y polisïau a’r penderfyniadau er mwyn cael canlyniad gwell i’r Gymraeg. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud ag addysg a sgiliau, gan gyfeirio at yr angen i wasanaethau o’r fath gynyddu’r hygyrchedd i ddysgu’r Gymraeg. Dylai’r ACI fod ag amcan penodol ar gyfer y Gymraeg. |
| Cymru | Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog, 2003<br>Cynllun Gweithredu Cenedlaethol sy’n amlinellu strategaeth gadarn i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chefnogi yn ogystal â chael yr amgylchedd iawn i ffynnu. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud ag addysg a sgiliau, gan gyfeirio at yr angen i wasanaethau o’r fath gynyddu’r hygyrchedd i ddysgu’r Gymraeg. Byddai’r ACI’n elwa o amcan y Gymraeg penodol. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006<br>Paratowyd y Cynllun o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n disgrifio'n fanwl sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'n nodi bod yn rhaid i'r holl ddogfennau cyhoeddus a gynhyrchir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag addysg a sgiliau, gan gyfeirio at yr angen i wasanaethau o'r fath gynyddu'r hygyrchedd i ddysgu'r Gymraeg. Byddai'r ACI'n elwa o amcan y Gymraeg penodol. |
| Cymru | Cymraeg 2050: Strategaeth yw Cymraeg 2050 sydd â'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau addas ac amgylchedd lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu. Mae gan y strategaeth ddau brif darged: cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 filiwn erbyn 2050 a chynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg, i 20% erbyn 2050. Y nod allweddol ar gyfer addysg ôl orfodol a gyflwynir yn Cymraeg 2050 yw datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau cynnydd ac yn cynorthwyo pawb, beth bynnag fo'u meistrolaeth o'r iaith, i ddatblygu sgiliau Cymraeg i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â hybu'r Gymraeg ac â mynediad ati. Byddai'r ACI'n elwa o amcanion y Gymraeg penodol. |
| Cymru | Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2022 i 2023, 2022<br>Cymraeg 2050 yw'r strategaeth genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymroddedig i'r strategaeth newydd, gan gynnwys miliwn o siaradwyr yn ei tharged yn ei Rhaglen Lywodraethu Symud Cymru Ymlaen ac yn Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Mae Cymraeg sy'n ffynnu yn un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag addysg a sgiliau, gan gyfeirio at yr angen i wasanaethau o'r fath gynyddu'r hygyrchedd i ddysgu'r Gymraeg. Byddai'r ACI'n elwa o amcan y Gymraeg penodol. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg (cyfnod ymgynghori Mawrth – Mehefin 2023)<br>Cynigion ar gyfer canlyniad iethyddol i'r system addysg erbyn 2050 i bob disgybl sy'n gadael addysg statudol allu siarad Cymraeg yn hyderus. Y nod fydd sicrhau lefel sydd o leiaf yn gyfystyr â lefel B2 Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR). | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag addysg a sgiliau, gan gyfeirio at yr angen i wasanaethau o'r fath gynyddu'r hygyrchedd i ddysgu'r Gymraeg. Byddai'r ACI'n elwa o amcan y Gymraeg penodol. |
| Cymru | Comisiwn Cymunedau Cymraeg: papur safbwynt (Mehefin 2023)<br>Mae'r Comisiwn yn pwysleisio bod y Gymraeg yn iaith genedlaethol. Mae ganddi nifer o nodweddion cyffredinol a dylai polisi iaith adlewyrchu hyn. Er mwyn cefnogi'r Gymraeg fel iaith genedlaethol, mae angen ei chefnogi fel iaith gymunedol hefyd. Er mwyn gallu amrywio polisi cyhoeddus yn y cymunedau hyn, dylid dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol. Dylai'r ardaloedd hyn gael eu hadnabod fel 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol (dwysedd uwch)'. Y fantais o ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol (dwysedd uwch) fyddai:<br>• caniatáu amrywiad polisi a phwyslais polisi i gefnogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol<br>• sicrhau bod yr amrywiad polisi yn ymateb i anghenion cymdeithasol ac ieithyddol amrywiol yr ardaloedd hyn<br>• cynyddu'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg o fewn fframwaith polisi<br>• caniatáu ymyriadau i gefnogi'r Gymraeg er mwyn ei sefydlogi a'i chryfhau fel iaith gymunedol<br>• rhoi'r pwerau angenrheidiol i gymunedau wrthdroi newidiadau ieithyddol | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag addysg a sgiliau, gan gyfeirio at yr angen i wasanaethau o'r fath gynyddu'r hygyrchedd i ddysgu'r Gymraeg. Byddai'r ACI'n elwa o amcan y Gymraeg penodol. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Iaith Pawb ac Adroddiad Blynyddol Cynllun y Gymraeg 2008–09<br>Y pedwerydd adroddiad blynyddol ar berfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o'i gymharu â'r ymrwymiadau yn Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog, a Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag addysg a sgiliau, gan gyfeirio at yr angen i wasanaethau o'r fath gynyddu'r hygyrchedd i ddysgu'r Gymraeg. Byddai'r ACI'n elwa o amcan y Gymraeg penodol. |
| Cymru | Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen, 2005<br>Mae'r papur hwn yn grynodeb o'r gwaith a wnaed gan gonsortiwm o sefydliadau sy'n cynnwys awdurdodau lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ymdrechion cyfunol yr holl bartneriaid sydd â diddordeb mewn datblygu gwell dealltwriaeth o'r berthynas rhwng cynllunio defnydd tir a'r Gymraeg er mwyn<br>hybu llesiant yr iaith a chymeriad diwylliannol cymunedau lleol yw'r papur hwn. Nid polisi unrhyw un o'r cyrff sy'n cymryd rhan mohono. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag addysg a sgiliau, gan gyfeirio at yr angen i wasanaethau o'r fath gynyddu'r hygyrchedd i ddysgu'r Gymraeg. Byddai'r ACI'n elwa o amcan y Gymraeg penodol. |
| Cymru | Adran 62 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) (2015)<br><br>Gofyniad gorfodol i'r Arfarniad Cynaliadwyedd gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal. | Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â chynaliadywedd, cydraddoldeb, iechyd, llesiant, yr amgylchedd a'r Gymraeg. Bydd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gynnwys yn y broses ACI ehangach ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Powys | Safonau'r Gymraeg Powys (2016) – Derbyniwyd Hysbysiad Cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg<br>Safonau'r Gymraeg – Cyngor Sir Powys<br><br>Mae'r hysbysiad hwn yn egluro sut y disgwylir i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau, a darparu mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym Mhowys.<br>O ran Llunio Polisïau, mae'r safonau yn ei gwneud yn ofynnol i asesu effaith polisïau a phenderfyniadau'r Cyngor ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac ystyried ffyrdd o newid polisïau a phenderfyniadau er mwyn cael canlyniad gwell ar gyfer y Gymraeg. | Eir i'r afael â'r safonau hyn drwy'r broses Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, a fydd yn cynnwys elfen sy'n asesu effaith y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg. Caiff polisïau'r Cynlun Datblygu Lleol eu hadolygu a'u gwella o ran y Gymraeg, lle y bo'n briodol. |
| Powys | Strategaeth Hybu'r Gymraeg Cyngor Sir Powys 2017-2022<br><br>Mae'n nodi'r ffordd y bydd y Sir yn cydlynu ac yn adeiladu ar ymdrechion presennol er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n gwneud hynny'n rheolaidd. Mae'n cynnwys y dull o weithredu Safonau Hybu'r Gymraeg sy'n cynnwys y pum maes canlynol:<br>1) Cyflenwi gwasanaethau Cymraeg,<br>2) Llunio polisi mewn modd sy'n hyrwyddo'r Gymraeg,<br>3) Gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg,<br>4) Cadw cofnodion ynglŷn â'r Gymraeg,<br>5) Hybu'r Gymraeg.<br>Nod y Cyngor o fewn y Strategaeth hon, felly, fydd gosod y seilwaith ar gyfer cefnogi'r 3 thema strategol a nodwyd yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, sef<br>• Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;<br>• Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag addysg a sgiliau, a dylai gyfeirio at yr angen am wasanaethau sy'n ei gwneud hi'n haws dysgu Cymraeg. Byddai'r ACI yn elwa o amcan penodol yn ymwneud â'r Gymraeg. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | • Chreu amodau ffafriol ar gyfer datblygu a gwarchod yr iaith.<br>Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio mewn 6 maes allweddol, gyda phwyntiau gweithredu ym mhob un ar gyfer sicrhau cynnydd o dan themâu strategol Llywodraeth Cymru.<br>Chwe maes gweithredu allweddol Cyngor Sir Powys yw:<br>1. Cynllunio a pholisi iaith<br>2. Normaleiddio<br>3. Addysg<br>4. Pobl<br>5. Cefnogi<br>6. Hawliau | |
| Cymru | Strategaeth Trawsnewid Addysg ym Mhowys (2020 – 2032)<br>Yn cyflwyno blaenoriaethau'r cyngor i drawsnewid addysg ym Mhowys, a fydd yn canolbwyntio ar bedwar nod strategol:<br>• Gwella hawl a phrofiad y dysgwr<br>• Gwella hawl a phrofiad dysgwyr ôl-16<br>• Gwella mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl gyfnodau allweddol<br>• Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr gydag anghenion addysg arbennig / anghenion dysgu ychwanegol.<br>Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys ymrwymiad i raglen buddsoddiad cyfalaf i sicrhau bod gan ysgolion ym Mhowys adeiladau amgylcheddol gynaliadwy sy'n ysbrydoli ac a all gynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch cymunedol ehangach. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag addysg a sgiliau, gan gyfeirio at yr angen i wasanaethau o'r fath gynyddu'r hygyrchedd i ddysgu'r Gymraeg. Byddai'r ACI'n elwa o amcan y Gymraeg penodol. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Powys | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Powys 2022-2032<br>Y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg – Cyngor Sir Powys<br><br>Mae'n anelu at wella mynediad at ddarpariaeth Gymraeg ar draws pob cyfnod addysg a chynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ym Mhowys ddod yn gwbl ddwyieithog.<br>Cafodd ei ddatblygu er mwyn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru i gynyddu canran y plant ym Mlwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhowys o 22.2% yn 2019/20 i 36% erbyn 2030/31.<br>Mae'r Cynllun wedi'i drefnu o amgylch 7 deilliant<br>Deilliant 1: Mae mwy o blant meithrin/3 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg<br>Deilliant 2: Mae mwy o blant dosbarth derbyn/pum mlwydd oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg<br>Deilliant 3: Mae mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod addysg statudol i un arall<br>Deilliant 4: Mae mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg<br>Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol<br>Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)<br>Deilliant 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg<br>Cyflwynir data ar ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer pob un o'r deilliannau i ddangos lle rydym arni nawr a hefyd ddata allweddol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag addysg a sgliau, a dylai gyfeirio at yr angen am wasanaethau sy'n ei gwneud hi'n haws dysgu Cymraeg. Byddai'r ACI yn elwa o amcan penodol yn ymwneud â'r Gymraeg. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Nodir nodau a chamau gweithredu o dan 'ble'r ydym yn bwriadu bod ar ôl 5 mlynedd gyntaf y cynllun a sut yr ydym yn bwriadu cyrraedd yno?' a 'ble'r ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd?' | |

**Pwnc AAS - Tirwedd**

| | | |
|---|---|---|
| Rhyngwladol | Confensiwn Treftadaeth y Byd (UNESCO, 1972)<br>Mae'n anelu at annog gwledydd i arwyddo Confensiwn Treftadaeth y Byd ac i sicrhau diogelwch eu treftadaeth naturiol a diwylliannol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |
| UE | Confensiwn Tirwedd Ewrop<br>Amcanion y Confensiwn hwn yw hybu'r dasg o ddiogelu, rheoli a chynllunio tirweddau, a threfnu cydweithrediad Ewropeaidd ar faterion tirwedd. Mae'n cynnwys gwybodaeth am yr arferion gorau wrth ddiogelu a rheoli tirweddau yn gynaliadwy. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |
| DU | Deddf yr Amgylchedd 1995<br>Wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaethau mewn cysylltiad â thir mewn Parc Cenedlaethol, neu a fydd yn effeithio ar dir mewn Parc Cenedlaethol, bydd unrhyw awdurdod perthnasol yn rhoi sylw i'r dibenion a bennir yn isadran (1) o adran pump o'r Ddeddf hon ac, os yw'n ymddangos bod gwrthdrawiad rhwng y dibenion hynny, bydd yn rhoi mwy | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | o bwysau i'r diben o warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal sy'n cynnwys y Parc Cenedlaethol. | Dylai'r ACI gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd hefyd. |
| DU | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (ODPM, 2000)<br>Mae'r Ddeddf yn estyn gallu'r cyhoedd i fwynhau cefn gwlad gan ddarparu diogelwch i dirfeddianwyr a meddianwyr hefyd. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. Dylai'r ACI gynnwys amcan sy'n ymwneud â hygyrchedd. |
| DU | Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949<br>Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer Parciau Cenedlaethol, yn rhoi pwerau i sefydlu a chynnal a chadw gwarchodfeydd natur, yn gwneud darpariaeth ar gyfer cofnodi, creu, cynnal a chadw a gwella llwybrau cyhoeddus ac ar gyfer sicrhau mynediad i gefn gwlad agored ac yn rhoi pwerau ychwanegol i gadw a gwella harddwch naturiol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |
| DU | Deddf Coedwigaeth 1967<br>Mae'n rheoleiddio ac yn cyfyngu ar dorri coed. Mae Deddf Cefn Gwlad 1968 yn ehangu swyddogaeth yr Asiantaeth a sefydlwyd o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, i roi pwerau newydd i awdurdodau lleol a chyrff eraill, er mwyn gwarchod a gwella harddwch naturiol ac er budd y rhai sy'n defnyddio cefn gwlad. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad a'r rolau y mae coetiroedd (asedau |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i’r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | | coedwigaeth) yn eu chwarae yn y dirwedd. |
| DU | Deddf Amaethyddiaeth (gyda nifer o ddiwygiadau)1986<br>Mae’n cwmpasu’r ddarpariaeth o wasanaethau a nwyddau amaethyddol, iawndal marchnata amaethyddol i denantiaid ar gyfer cwotâu llaeth, cadwraeth a grantiau fferm. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy’n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy’n ymwneud â diogelu’r dirwedd a’i chymeriad a’i lleoliad. Dylai’r ACI gynnwys amcan sy’n ymwneud â’r defnydd effeithlon o dir ac adnoddau. |
| DU | Deddf Tiroedd Comin 2006<br>Mae’n diogelu tir comin ac yn hybu ffermio cynaliadwy, mynediad cyhoeddus i gefn gwlad a buddiannau bywyd gwyllt. | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy’n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy’n ymwneud â diogelu’r dirwedd a’i chymeriad a’i lleoliad a diogelu’r amgylchedd. |
| Cymru | Tirweddau’r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru (2017)<br>Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys adolygiad o’r holl Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru. Mae’r adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd y dirweddau hyn o ran llunio hunaniaeth. Mae’r adroddiad yn ceisio gwella llywodraethiant yr asedau naturiol pwysig hyn. Mae’r adroddiad yn amlygu faint o Gymru a | Dylai’r ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy’n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | gwmpesir gan y naill ddynodiad neu'r llall, a faint o'r dynodiadau hyn sydd mewn perygl. | amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |
| Cymru | LANDMAP – llinell sylfaen tirwedd Cymru<br>Adnodd tirwedd ar sail System Gwybodaeth Ddaearyddol lle mae nodweddion tirwedd, rhinweddau a dylanwadau ar y dirwedd yn cael eu cofnodi a'u gwerthuso mewn set ddata sy'n gyson yn genedlaethol yw LANDMAP<br>Nodyn Canllawiau Gwybodaeth LANDMAP 46: Defnyddio LANDMAP mewn Asesiadau o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |
| Cymru | Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol (Glastir)<br>Nod Glastir yw annog arferion amaethyddol a fydd yn diogelu ac yn gwella tirweddau Cymru, eu nodweddion diwylliannol a'r bywyd gwyllt sy'n gysylltiedig â nhw. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |
| Cymru | Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021)<br>Mae'r ddogfen Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi diogelwch i dirweddau Cymru rhag datblygiadau, gan geisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwarchod neu'n gwella'r tirweddau sydd o'u hamgylch. Mae'r tirweddau a'r gwaith o'u cynnal a'u cadw yn bwysig i'r amgylchedd hanesyddol, twristiaeth, busnesau a phobl Cymru oherwydd bod pawb yn profi eu tirwedd leol bob dydd. Dylid gwarchod tirweddau amrywiol a chyfoethog Cymru, gan ddatblygu yn unol â chymeriad y dirwedd y'u lleolir ynddynt. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8: Ynni Adnewyddadwy, 2005<br>Mae'n cynnwys cyngor ar Ynni Adnewyddadwy a Chynllunio; Gwynt ar y Môr a Thechnolegau Ynni Adnewyddadwy eraill ar y Tir; Dylunio ac Ynni; Goblygiadau Cynlluniau Datblygu; Rheoli'r Broses Ddatblygu; Monitro. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |
| Cymru | Cadw – Tirweddau Hanesyddol, 1998<br>Mae'r ddogfen gynghorol ac anstatudol hon yn amlygu'r hyn a ystyrir yn enghreifftiau gorau o wahanol fathau o dirwedd hanesyddol yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r dewis o ardaloedd ar gyfer y Gofrestr hon yn lleihau pwysigrwydd gweddill tirweddau hanesyddol cyfoethog Cymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |
| Cymru | Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (2016), Deddf 1979 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal cofrestr o safleoedd o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru sy'n cynnwys: parciau; gerddi; tirweddau addurnol wedi eu dylunio; leoedd hamdden; a thiroedd eraill sydd wedi eu dylunio. Daeth y gofrestr statudol i rym ar 1 Chwefror 2022, ac mae'n disodli'r gofrestr anstatudol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol. |
| Cymru | Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023<br>Deddfwriaeth wedi'i chydgrynhoi sy'n darparu cyfraith cwbl ddwyieithog, drefnus a hygyrch ar gyfer diogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru yn effeithiol fel y gall barhau i gyfrannu at lesiant Cymru a'i phobl. Daeth yr Ddeddf i rym ar 14 Mehefin 2023. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Cymru | Ffermio i'r Dyfodol, 2001<br>Nod strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd helpu i sicrhau dyfodol dichonol i ffermio yng Nghymru sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dylunio o ansawdd uchel a'r defnydd effeithlon o dir. Gallai gynnwys amcan economaidd sy'n ystyried swyddogaeth y diwydiant amaethyddol hefyd. |
| Cymru | Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn ystod y Broses Gynllunio a Datblygu. Ail Rifyn Diwygiedig, gan gynnwys Diwygiadau i'r Broses Asesu (ASIDOHL2), 2007<br>Penderfynodd Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd (ICOMOS UK) gydweithredu i lunio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru fel ffordd o nodi a darparu gwybodaeth am y dirweddau hanesyddol pwysicaf ac sydd wedi goroesi orau yng Nghymru. Bu Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru ac awdurdodau lleol Cymru hefyd yn cydweithredu yn y prosiect. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |
| Cymru | Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd i Gymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009)<br>Mae'n nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru am Gymru gynaliadwy | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |
| Cymru | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>Mae'n cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru, er mwyn sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | Mae'r ddeddf yn nodi amcanion i wella llesiant Cymru, yn cyflwyno dangosyddion cenedlaethol a fydd yn mesur y gwahaniaeth a wneir i lesiant Cymru, yn sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i weithredu fel eiriolwr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac yn rhoi byrddau gwasanaethau lleol a chynlluniau llesiant ar sail statudol ac yn symleiddio gofynion ar gyfer cynllunio cymunedol integredig. | chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)<br>Mae'n rhoi canllawiau ymarferol ar swyddogaeth y system gynllunio o ran cefnogi'r gwaith o ddarparu cymunedau gwledig cynaliadwy. Mae'r TAN yn ceisio diogelu a gwella tirweddau Cymru. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |
| Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 12 (TAN 12): Dylunio (2014)<br>Mae'n nodi polisi a chyngor Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â dylunio datblygiad newydd, gan gynnwys cynnal neu wella'r cymeriad lleol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. |
| Powys | Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2010-2015)<br>Mae'r cynllun yn cydlynu ac yn integreiddio'r holl gynlluniau, strategaethau a gweithredoedd eraill sydd o fewn ffiniau'r parc. Ni ddylid gwneud penderfyniad mawr ynglŷn â'r parc heb ystyried y Cynllun Rheoli. Mae'r Cynllun yn gosod strategaethau 20 mlynedd a chamau gweithredu 5 mlynedd gan ac i bawb sy'n cyflawni ei ddibenion a'i ddyletswydd, neu sy'n pryderu am ddyfodol y Parc. Mae'r cynllun yn hybu gweithgareddau gweithredu, monitro a gwerthuso sydd wedi eu cydlynu ar y cyd ar draws | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol, a dylai gynnwys amcan sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd a'i chymeriad a'i lleoliad. Dylai amcanion o'r fath ystyried hefyd y |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid. Yn ei hanfod, mae'r cynllun yn creu fframwaith y gellir cymryd egwyddorion rheoli'r parc ac egwyddorion arweiniol ohono.<br>Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw'r brif sianel rhwng polisïau rhyngwladol a chenedlaethol ar raddfa eang a'r prosesau o wneud penderfyniadau sy'n benodol i'r Parc. Mae'n sicrhau, mewn cydweithrediad â'i bartneriaid, fod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cyfrannu at amcanion polisi cenedlaethol ac yn ychwanegu gwerth atynt. O'r herwydd, mae'r Cynllun yn gosod y fframwaith ar gyfer y Cynllun Busnes Corfforaethol ac ar gyfer strategaethau a rhaglenni Parc manylach, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, y Strategaeth Twristiaeth Cynaliadwy a strategaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r Parc.<br>Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw'r prif fodd o sicrhau bod darpariaethau statudol Deddf yr Amgylchedd 1995 yn cael eu bodloni. Felly, swyddogaeth ganolog y cynllun rheoli yw arwain y broses o gyflawni'r dibenion a'r ddyletswydd statudol â chymorth swyddogaeth gynllunio statudol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.<br>Mae gweithredu'r Cynllun Rheoli'n llwyddiannus yn dasg a rennir gan bawb, ac felly, mae angen partneriaethau gweithredol rhwng pawb sy'n ymwneud â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog neu sydd â diddordeb ynddo, y cyfeirir atynt yn aml fel "rhanddeiliaid".<br>Dyma brif themâu'r cynllun rheoli:<br>1. Rheoli tirweddau'r parc i gynyddu buddion cadwraeth a'r buddion i'r cyhoedd gymaint â phosibl.<br>2. Cadw a gwella bioamrywiaeth .<br>3. Rhoi cyfleoedd i bawb gael mynediad i'r awyr agored ac i gymryd rhan mewn hamdden awyr agored.<br>4. Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Parc. | swyddogaeth bwysig y mae bioamrywiaeth ddynodedig ac asedau tirwedd yn eu chwarae o ran cymeriad a lleoliad ardal. |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | 5. Datblygu a chynnal cymunedau, ac adeiladu a chynnal a chadw trefi a phentrefi y mae'r cyfan ohonynt yn gynaliadwy.<br>6. Datblygu economaidd cynaliadwy | |

**Pwnc AAS - Geoamrywiaeth**

| | | |
|---|---|---|
| Rhyngwladol | Confensiwn Treftadaeth y Byd (UNESCO, 1972)<br>Mae'n anelu at annog gwledydd i arwyddo Confensiwn Treftadaeth y Byd ac i sicrhau diogelwch eu treftadaeth naturiol a diwylliannol | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol a'r defnydd effeithlon o dir (yn enwedig tir amaethyddol/o ansawdd uchel). Dylid bod amcan hefyd sy'n ymwneud â diogelu asedau geoamrywiaeth pwysig. |
| Rhyngwladol | Y Rhwydwaith Geoparciau Byd-eang<br>Rhwydwaith cynorthwyol UNESCO a sefydlwyd ym 1998 yw'r Rhwydwaith Geoparciau Byd-eang (a elwir hefyd yn Rhwydwaith Byd-eang o Geoparciau Cenedlaethol). Fe'i rheolir o dan Is-adran Gwyddorau Ecolegol a Daear y corff, ac mae'r Rhwydwaith Geoparciau Byd-eang yn gofyn am hybu a chadw treftadaeth ddaearegol y blaned, yn ogystal ag annog yr ymchwil a'r datblygiad cynaliadwy gan y cymunedau dan sylw. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol a'r defnydd effeithlon o dir (yn enwedig tir amaethyddol/o ansawdd uchel). Dylid bod amcan hefyd sy'n ymwneud â diogelu asedau geoamrywiaeth pwysig. |

| **Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys)** | **Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth** | **Goblygiadau i'r ACI**<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| Rhyngwladol | Y Confensiwn ar Fioamrywiaeth<br>Y Confensiwn ar Fioamrywiaeth yw un o'r prif sbardunau y tu ôl i raglenni cadwraeth byd-eang dros fioamrywiaeth. Mae'r Confensiwn yn parhau i ddatblygu dulliau o gyflawni cadwraeth bioamrywiaeth sy'n arwain at dderbyn yr angen i gydnabod swyddogaeth prosesau daearegol a geomorffolegol wrth gefnogi bioamrywiaeth. Mae cymhwyso'r hyn y mae'r Confensiwn yn ei alw'n 'Ddull Ecosystem' bellach yn cynnig cyfle i hybu cysyniadau GeoConservation drwy'r confensiwn hwn. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol a'r defnydd effeithlon o dir (yn enwedig tir amaethyddol/o ansawdd uchel). Dylid bod amcan hefyd sy'n ymwneud â diogelu asedau geoamrywiaeth pwysig. Gallai gael amcan sy'n ymwneud â bioamrywiaeth hefyd. |
| DU | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981<br>Dywed y ddeddf y dylid: [Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.] "take reasonable steps, consistent with the proper exercise of the authority's functions, to further the conservation and enhancement of the flora, fauna or geological or physiographical features by reason of which a site is of special scientific interest".<br>Diogelir safleoedd daearegol o bwys cenedlaethol fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Gallai rhai Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig fod yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol hefyd. Gellir datgan safleoedd pwysig lleol fel Gwarchodfeydd Natur Lleol neu Safleoedd Daearegol Lleol a elwir hefyd yn Safleoedd Daearegol/Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol a'r defnydd effeithlon o dir (yn enwedig tir amaethyddol/o ansawdd uchel). Dylid bod amcan hefyd sy'n ymwneud â diogelu asedau geoamrywiaeth pwysig. Gallai gael amcan sy'n ymwneud â bioamrywiaeth hefyd. |
| DU | Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol<br>Mae awdurdodau lleol yn diogeli Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol drwy'r system gynllunio.<br>Dewisir Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol yn ôl eu gwerth o ran: | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol a'r defnydd effeithlon o |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | 1. gwaith maes addysgiadol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ar lefel israddedig ac mewn cyrsiau addysg i oedolion<br>2. astudiaethau gwyddonol gan wyddonwyr proffesiynol ac amatur y Ddaear; mae safleoedd o'r fath, ar eu pennau eu hunain neu fel rhan o rwydwaith, yn dangos daeareg neu geomorffoleg ardal<br>3. arwyddocâd hanesyddol o ran datblygiadau pwysig yng ngwybodaeth gwyddorau'r Ddaear a datblygiad dynol<br>4. rhinweddau esthetig yn y dirwedd, yn enwedig mewn cysylltiad â hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd a gwerthfawrogiad o wyddorau'r Ddaear | dir (yn enwedig tir amaethyddol/o ansawdd uchel). Dylid bod amcan hefyd sy'n ymwneud â diogelu asedau geoamrywiaeth pwysig. Gallai gael amcan sy'n ymwneud â bioamrywiaeth hefyd. |
| Cymru | Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol Cymru<br>Mae Cymdeithas Ddaearegol Prydain Caerdydd wedi cymryd rhan weithredol mewn ystod o brosiectau geogadwraeth, geoamrywiaeth a geodreftadaeth ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau megis Archwiliad tair blynedd Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol De Cymru a ariennir gan Gronfa Gynaliadwyedd yr Ardoll Agregau ar gyfer Cymru ac ystod o brojectau dehongli sy'n codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am faterion geoamgylcheddol, megis yr arddangosfa a'r paneli dehongli ar gyfer Ystadau Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn ar Fryniau Milwrol Mynydd Epynt yn y Canolbarth.<br>Mae Arolwg Daearegol Prydain yn parhau i gynnig cefnogaeth barhaus i'r ddau Geoparc Ewropeaidd yng Nghymru – Fforest Fawr yn y Canolbarth a GeoMôn ar Ynys Môn. | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol a'r defnydd effeithlon o dir (yn enwedig tir amaethyddol/o ansawdd uchel). Dylid bod amcan hefyd sy'n ymwneud â diogelu asedau geoamrywiaeth pwysig. Gallai gael amcan sy'n ymwneud â bioamrywiaeth hefyd. |
| Cymru | Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd i Gymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009)<br>Mae'n nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru am Gymru gynaliadwy | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol a'r defnydd effeithlon o dir (yn enwedig tir amaethyddol/o |

| Lefel (Rhyngwladol, Cymuned (UE), DU, Cymru neu Bowys) | Cynllun, Rhaglen neu Strategaeth | Goblygiadau i'r ACI<br>Sut y gellir ystyried yr amcanion |
|---|---|---|
| | | ansawdd uchel). Dylid bod amcan hefyd sy'n ymwneud â diogelu asedau geoamrywiaeth pwysig. Gallai gael amcan sy'n ymwneud â bioamrywiaeth hefyd. |
| Powys | Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol Powys<br>73 Safle Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol ym Mhowys (heb gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) (nid oes gwybodaeth debyg o ansawdd ar gael) | Dylai'r ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, dyluniad o ansawdd uchel sy'n annog datblygiadau i fod o faint, graddfa a chynllun priodol a'r defnydd effeithlon o dir (yn enwedig tir amaethyddol/o ansawdd uchel). Dylid bod amcan hefyd sy'n ymwneud â diogelu asedau geoamrywiaeth pwysig. Gallai gael amcan sy'n ymwneud â bioamrywiaeth hefyd. |

**Bydd y Cynlluniau Datblygu canlynol o ardaloedd cyfagos hefyd yn hysbysu ACI y CDLI:**

***Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2007-2022***

**Dull gofodol** – Mae'r Cynllun yn ceisio cyflawni twf mewn lleoliadau sydd wedi eu nodi drwy gyfuniad o ganlyniadau ymgysylltu â'r gymuned â Chapasiti Amgylcheddol ardal a'r tir datblygu priodol a chyflawnadwy sydd ar gael. Mae'n ddull gwaelod i fyny sy'n defnyddio gwybodaeth leol o'r ardal ac asesiadau technegol o'r hyn sy'n gyflawnadwy.

Hierarchaeth Aneddiadau 5 Lefel – Aberhonddu (Anheddiad Allweddol Allweddol), Talgarth /Crucywel /Y Gelli Gandryll /

Pontsenni a Defynnog (Aneddiadau Allweddol) ac yna Aneddiadau, Aneddiadau Twf Cyfyngedig a Chefn Gwlad.

**Twf tai –** Y gofyniad tai a nodwyd ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a chyfnod y Cynllun yw 1,990. Mae'r CDLl yn nodi tir i gyflenwi oddeutu 2,045 o anheddau yn ystod cyfnod y CDLl, y darperir 960 ohonynt drwy ddyraniadau tir.

Mae gwaith wedi dechrau ar Gynllun Datblygu Lleol newydd Cynllun Datblygu Lleol 2 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (bannaubrycheiniog.org).

***Strategaeth Graidd Cynllun Lleol Swydd Henffordd 2011-2031 (Mabwysiadwyd ym mis Hydref 2015)***

Cyflwynodd y Cyngor Strategaeth Graidd Cynllun Lleol Swydd Henffordd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol ym mis Medi 2014. Penododd yr Ysgrifennydd Gwladol Arolygydd Cynllunio i gynnal archwiliad.

Ym mis Chwefror 2015, cynhaliwyd archwiliad cyhoeddus ar y Cynllun, ar ôl i addasiadau gael eu cynnig i'r strategaeth.

Gellir gweld crynodeb o addasiadau ar-lein yn y ddolen ganlynol:

www.herefordshire.gov.uk/posthearing

***Cynllun Lleol Ymgynghoriad ar Ddewisiadau Polisi Swydd Henffordd 2021-2041 (Yn Dod i'r Amlwg)***

Mae Cynllun Lleol Ymgynghoriad ar Ddewisiadau Polisi Swydd Henffordd 2021-2041 yn cynnwys fersiynau drafft o'r weledigaeth, yr amcanion a'r polisïau a fyddai'n tanategu Cynllun Lleol ar gyfer yr ardal yn y dyfodol. Mae'r gwaith o'i lunio yn ei gamau cynnar ac ymgynghorwyd arno yn ystod Chwarter 1, 2022. Mae'r cynllun hwn sy'n dod i'r amlwg yn rhoi cryn bwysigrwydd ar ddiogelu'r amgylchedd fel y nodir yng ngweledigaeth y Cynllun Lleol ar gyfer y dyfodol:

> *'Erbyn 2041, bydd Swydd Henffordd yn lle y bydd cynllunio wedi helpu i greu amgylchedd lle mae gan bob un o'i thrigolion ansawdd bywyd eithriadol ac sy'n gallu byw a theithio mewn ffordd fwy cynaliadwy. Wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol, bydd y Sir yn garbon niwtral, a bydd bioamrywiaeth yma yn ffynnu.'*

***Cynllun Cyngor Swydd Henffordd 2020-2024***

Dogfen newydd a luniwyd ar ôl gwaith ymgynghori helaeth gyda thrigolion Swydd Henffordd yw Cynllun Cyngor Swydd Henffordd 2020-2024. Mae'r ddogfen yn pwysleisio bod yr elfennau canlynol yn bwysig i'r Cyngor eu cyflawni ac mae'n gweithio gyda'r Cynllun Lleol i sicrhau bod datblygiadau wedi eu seilio'n briodol ar ba mor dda y maent yn cyd-fynd â'r elfennau a nodir uchod:

- Mwy o dai fforddiadwy
- Gwella'r gwaith o gynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd a mannau cyhoeddus presennol
- Mwy o dai a thai arbenigol i drigolion hŷn
- Gwell trafnidiaeth gyhoeddus
- Gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd/diogelu'r amgylchedd lleol a lleihau cyfraniad yr ardal at newid yn yr hinsawdd

***Fframwaith Datblygu Lleol Swydd Amwythig 2006-2026 (Strategaeth Craidd Mabwysiedig Mawrth 2011) Rhanbarthol***

Strategaeth Graidd (2006-2026) mabwysiadwyd Chwefror 2011.

Dogfen Cynllun Datblygu Allweddol – Dyraniadau Safleoedd a Rheoli Datblygu.

**Dull gofodol** – Pum parth gofodol a math o hierarchaeth anheddu. Yr Amwythig a adnabyddir fel y dref Sirol, 5 prif dref farchnad (Bridgnorth, Llwydlo, Market Drayton, Croesoswallt, Yr Eglwys Wen) a 13 o drefi marchnad llai eraill a chanol trefi allweddol, yna ardaloedd gwledig.

Nodir manylion mewn 18 Cynllun Bro, dogfennau treigl sydd dan adolygiad parhaus, sy'n nodi blaenoriaethau, buddsoddiadau arfaethedig a'r broses o ddarparu seilwaith.

**Twf tai** – Cynllunio ar gyfer oddeutu 27,500 o gartrefi, 25% i'r Amwythig, 40% i drefi marchnad a chanol trefi allweddol, 35% i'r ardaloedd gwledig mewn hybiau cymunedol a chlystyrau cymunedol a nodwyd. Hefyd, darpariaeth tai ychwanegol posibl (hyd at 1,000 o anheddau, os oes angen) ar gyfer personél milwrol sy'n dychwelyd.

***Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam 1996-2011 (2005)***

**Dull gofodol** – Mae'r strategaeth yn ceisio diogelu amwynder aneddiadau ac economi ddiogel ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio adnoddau tir drwy adfywio ardaloedd adeiledig ynghyd â thwf allanol cyfyngedig. Defnyddir y strategaeth mewn tri is-faes polisi, sef Wrecsam, Pentrefi Trefol, a Phentrefi Gwledig.

**Twf tai** – Mae elfen dai y strategaeth

yn adlewyrchu'r dull cyffredinol o ymdrin â thwf aneddiadau a nodir uchod. Yn ei hanfod, y nod yw dyrannu'r rhan fwyaf o'r datblygiad tai newydd i amrywiaeth o safleoedd sydd mewn ardaloedd adeiledig presennol ac yn gyfagos iddynt; gwneud

y defnydd gorau posibl o dir a ddatblygwyd o'r blaen neu dir gwag; gwneud defnydd o gapasiti sbâr mewn seilwaith a gwasanaethau; a chanolbwyntio ar leoliadau sydd â chysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus, cerdded a beicio rhesymol.

***Cynllun Datblygu Lleol 2 Wrecsam (CDLl2) 2013 i 2028 (Cyflwynwyd)***

Cyflwynwyd Cynllun Datblygu Lleol 2 Wrecsam (CDLl2) 2013 i 2028 i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio ar 30 Tachwedd 2018. Mae'r ddogfen yn dal i gael ei hadolygu ac mae'n cael ei haddasu drwy gydol y broses.

Oherwydd bod y ddogfen yn cael ei chyflwyno i'w hadolygu, mae'n cynnig rhwydd hynt ar gyfer datblygu yn Wrecsam ac mae'n amlinellu beth yw'r brif weledigaeth a'r amcanion ar gyfer yr ardal. Y weledigaeth ar gyfer yr ardal pan fabwysiedir y ddogfen hon yw:

> *'Erbyn 2028, bydd Wrecsam yn lle deniadol, unigryw a hygyrch y bydd pobl yn dymuno byw a buddsoddi ynddo ac ymweld ag ef. Bydd ein heconomi yn gryf, yn gydnerth ac yn ymatebol i'n lleoliad sy'n gweithredu fel porth yng Nghymru. Bydd Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn lle cynaliadwy lle bo pawb yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cynnwys ac yn lle sy'n gwella ansawdd ac arwahanrwydd ein treftadaeth naturiol ac adeiledig, a'n diwylliant unigryw.'*

Byddai'r ddogfen yn ceisio sicrhau y crëir 8,525 o gartrefi newydd ac y darperir 4,200 o swyddi yn ystod cyfnod y cynllun. Lleolir y datblygiad yn unol ag hierarchaeth yr anheddiad:

- Prif Anheddiad Allweddol Tref Wrecsam ac Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam, gan gynnwys rhyddhau Safle Strategol Allweddol ar gyfer tai a chyflogaeth;
- Aneddiadau Allweddol Acre-fair / Cefn Mawr, Y Waun, Coedopeth, Gresffordd / Marford, Gwersyllt, Llai, Rhiwabon a Rhosllannerchrugog;
- Canolfannau Gwasanaethau Lleol Bangor[-is-y-coed], Brychdyn, Brymbo, Llansantffraid Glyn Ceiriog, Holt, Owrtyn, Llannerch Banna, Pen-y-cae, Rhostyllen a'r Orsedd; ac
- Anheddiad 4 Haen Rhosrobin, oherwydd ei agosrwydd a'i mynediad at Dref Wrecsam

***Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021***

**Dull gofodol** – canolbwyntio datblygiadau i nifer fach o safleoedd mawr yng ngogledd y Sir (yn rhannol oherwydd rhesymau trafnidiaeth, lefelau o angen uwch a llai o gyfyngiadau), gyda datblygiadau newydd ar raddfa lai yn cael eu cefnogi mewn aneddiadau Sirol eraill, gan ddefnyddio hierarchaeth anheddu.

**Twf tai –** Oddeutu 7,500 o anheddau newydd i'w datblygu yn ystod cyfnod y Cynllun (500 fesul blwyddyn ar gyfartaledd), ac mae dyraniadau tir yn cyfrannu 3,300 o'r anheddau hyn. Ar gyfer 1,715 o anheddau y mae'r prif ddyraniad ym Modelwyddan (safle strategol allweddol) a gwasgerir twf pellach i aneddiadau eraill yn unol â hierarchaeth aneddiadau pum haen:

Bodelwyddan (1,715), Trefi Twf Isaf sy'n gweithredu fel canolfannau rhanbarthol a/neu leol (2,606) – sef y Rhyl, Prestatyn, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun a Chorwen ynghyd â threfi haen Pentref, Llangollen a Rhuddlan, Pentrefi eraill (900), Pentrefannau (anheddau fforddiadwy yn unig). Gan dybio 1,400 (safleoedd ar hap) o fewn ffiniau datblygu presennol.

***Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych 2018-2033 (Yn Dod i'r Amlwg)***

Mae dogfen Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033 wedi cwblhau'r broses o greu fersiwn ddrafft o'r Strategaeth a Ffefrir gan y Cyngor. Felly, mae'r Cynllun Lleol sy'n dod i'r amlwg yn ei ddyddiau cynnar, er y gellir cyfeirio at gyfeiriad posibl datblygiadau yn Sir Ddinbych o'r ddogfen Strategaeth a Ffefrir ddrafft, sy'n nodi materion allweddol a heriau sy'n wynebu'r ardal. Y weledigaeth ddrafft ar gyfer y Cynllun Lleol yw:

> *'Bod gan Sir Ddinbych, trwy gyfrwng datblygiad cynaliadwy, arfordir trefol bywiog, gyda threfi marchnad ac ardaloedd gwledig sy'n ffynnu. Bydd anghenion tai a chyflogaeth y Sir yn cael eu diwallu, a'r amgylchedd o ansawdd uchel yn cael ei hamddiffyn a'i gwella [sic] a safon bywyd uchel yn cael ei gynnal i bob cymuned, gyda chydnabyddiaeth lawn bod gennym iaith Gymraeg gref a diwylliant y dylid eu cynnal a'u gwarchod ledled y Sir.'*

Rhagwelir y byddai Cynllun Lleol yn y dyfodol yn golygu y byddai angen creu 3,775 o anheddau newydd (250 y flwyddyn) ac oddeutu 1,500 o swyddi.

***Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031***

Mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 (mabwysiadwyd yn 2019) yn darparu'r canllawiau cynllunio diweddaraf ar gyfer yr ardal ac yn parhau i ddiogelu Parc Cenedlaethol Eryri a'r amgylchedd cyffredinol, gan ddarparu twf economaidd a thai newydd ar yr un pryd. Mae'r cynllun yn glir hefyd fod trawsnewid tuag at economi carbon isel yn allweddol i'r cynllun lleol a dyfodol Cymru.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 yn ceisio darparu 885 o anheddau yn ystod ei oes a dwysedd o 30 annedd fesul hectar.

### *CDLl ar y Cyd ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026*

**Dull gofodol –** Dosberthir datblygiadau yn unol â strategaeth anheddu yn seiliedig ar lefelau darpariaeth gwasanaethau, swyddogaeth a maint (poblogaeth) anheddiad ac maent yn amodol ar eu capasiti amgylcheddol, cymdeithasol a seilwaith i ddarparu ar gyfer datblygu. Hierarchaeth sy'n amrywio o: i) Canolfan Isranbarthol (Prif Anheddiad) Bangor i ii) Canolfannau Gwasanaethau Trefol (Amlwch, Caergybi, Llangefni yn Ynys Môn, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli yng Ngwynedd), iii) Canolfannau Gwasanaethau Lleol, iv) Pentrefi, v) Clystyrau (a enwyd) a Nodiwyd.

Cydnabyddir mai yn ne Gwynedd y mae gan Barc Cenedlaethol Eryri Ganolfannau y Bala a Dolgellau sy'n darparu cyfleoedd trawsffiniol i ddiwallu'r angen am dai/cyflogaeth.

**Twf tai –** Cynllunio ar gyfer y dewis twf canolig o 7,665 o dai (511 fesul blwyddyn) a rennir rhwng Ynys Môn (225) a Gwynedd (tu allan i'r Parc Cenedlaethol) (286).

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn darparu ar gyfer oddeutu 55% o'r twf hwn yn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaethau Trefol, oddeutu 20% yn y Canolfannau Gwasanaethau Lleol ac oddeutu 25% yn y Pentrefi a'r Clystyrau.

Mae gan awdurdodau cynllunio cyfagos y potensial i achosi effeithiau 'ar y cyd' i'r safleoedd Ewropeaidd ym Mhowys drwy eu dyraniadau tai a thir cyflogaeth a pholisïau eraill. Gallai datblygiadau ar draws y ffin gael effaith anuniongyrchol ar y safleoedd a gallent eu gwneud yn fwy bregus a chael effaith negyddol sylweddol arnynt pe byddent y gysylltiedig mewn unrhyw ffordd.

Mae'r Cynllun Mabwysiedig wedi ei adolygu a daeth yr Adroddiad Adolygu (Mawrth 2022) i'r casgliad y byddai angen Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Diwygiedig (llyw.cymru) a Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Diwygiedig (llyw.cymru)

### *Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 Rhanbarthol*

**Dull gofodol** – Twf sy'n canolbwyntio ar Ganolfannau Gwasanaethau Trefol a Chanolfannau Gwasanaethau Gwledig, gan gydnabod bod peth cyfle o hyd i leoliadau heblaw'r Canolfannau hyn.

7 Canolfan Gwasanaethau Trefol, gan gynnwys Aberystwyth a gydnabyddir fel anheddiad o bwysigrwydd cenedlaethol ac fel canolfan strategol ar gyfer Canolbarth Cymru, 5 tref arall yng Ngheredigion (Aberaeron (Llwyncelyn), Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Tregaron, Llandysul) ac, er ei fod wedi ei leoli ychydig dros y ffin yn Sir Gaerfyrddin, mae Castellnewydd Emlyn (Adpar) hefyd yn gweithredu fel Canolfan Gwasanaethau Trefol. 15 Canolfan Gwasanaethau Gwledig (gan gynnwys aneddiadau mawr megis Aber-porth/Parcllyn, Llan-non a Thal-y-bont).

Mae gan bob un o'r 22 Ganolfan Gwasanaethau Grŵp Anheddu, felly mae pob grŵp yn cynnwys Canolfan Gwasanaethau Trefol neu Ganolfan Gwasanaethau Gwledig, Aneddiadau Cysylltiedig (91 i gyd) a Lleoliadau Eraill. Disgwylir i Ganolfan Gwasanaethau pob Grŵp Anheddu gymryd y rhan fwyaf o'r twf ar gyfer y Grŵp hwnnw.

**Twf tai** – Oddeutu 6,544 o anheddau (gan gynnwys 10% wrth gefn) a ddosbarthwyd – o leiaf 51% mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol, 24% mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ac uchafswm o 25% (neu mewn unrhyw ddigwyddiad dim mwy na 1,522 o unedau) yn yr 'Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill' ar safleoedd nas dyrannwyd.

Mae gan awdurdodau cynllunio cyfagos y potensial i achosi effeithiau 'ar y cyd' i'r safleoedd Ewropeaidd ym Mhowys drwy eu dyraniadau tai a thir cyflogaeth a pholisïau eraill. Gallai datblygiadau ar draws y ffin gael effaith anuniongyrchol ar y safleoedd a gallent eu gwneud yn fwy bregus a chael effaith negyddol sylweddol arnynt pe byddent y gysylltiedig mewn unrhyw ffordd.

***Cynllun Datblygu Lleol Newydd Ceredigion (CDLl2) 2018-2033 Strategaeth a Ffefrir 2019 (Yn Dod i'r Amlwg)***

Lluniodd Cyngor Ceredigion y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2 sy'n dod i'r amlwg, yn 2019, a dyma'r ddogfen ddiweddaraf sy'n nodi'r cyfeiriad y mae'r Cynllun Datblygu Lleol hwn yn ei gymryd. Ym mis Hydref 2021, mae'r gwaith o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd hwn wedi ei oedi tra bod data dŵr hanfodol a data eraill yn cael eu casglu er mwyn sicrhau ei fod yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

Dyma weledigaeth y Strategaeth a Ffefrir:

> *'Erbyn 2033, bydd Ceredigion yn Sir o gymunedau bywiog, dwyieithog ac ymgysylltiol y bydd pobl yn dewis byw, astudio a gweithio ynddi, ac ymweld â hi, sy'n ymroddedig i gydnerthedd ei heconomi, ei diwylliant, ei threftadaeth, yr amgylchedd ac adnoddau naturiol, ac i iechyd a llesiant.'*

Cyfeirir datblygiadau at y meysydd canlynol, gan ddibynnu ar eu haddasrwydd i'r ardal:

- Canolfannau Gwasanaethau Trefol – Aberaeron (Llwyncelyn/ Ffos-y-ffin), Aberystwyth/ Llanbadarn Fawr/ Waun-fawr/ Penparcau/, Rhydyfelin/ Comins-coch, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Castellnewydd Emlyn (Adpar) a Thregaron.
- Canolfannau Gwasanaethau Gwledig – Aber-porth/Parcllyn, Bow Street, Brynhoffnant Cenarth, Felin-fach/ Ystrad Aeron, Llannarth, Llanilar, Llan-non, Llanrhystud, Llanybydder (Sir Gaerfyrddin), Ceinewydd / Cross Inn, Penrhyn-coch, Ponterwyd, Pontrhydfendigaid a Thal-y-bont, Y Borth.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn rhagweld y byddai angen i Gynllun Datblygu Lleol newydd greu 3,000 o anheddau newydd erbyn 2033.

***Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2006-2021 Rhanbarthol***

**Dull gofodol** – Mae'r CDLl yn ceisio cyfuno'r patrwm anheddu gofodol presennol a fframweithiau cynllun datblygu blaenorol, gan barhau i adlewyrchu a hybu cynaliadwyedd. Yng nghanolfannau trefol sefydledig Llanelli, Caerfyrddin, a grŵp aneddiadau Rhydaman/Cross Hands y mae'r pwyslais ar dai a chyflogaeth. Nodir yr aneddiadau hyn fel 'Ardaloedd Twf' ac fe'u hategir gan hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy (Canolfannau Gwasanaethau, Canolfannau Gwasanaethau Lleol, yna Cymunedau Cynaliadwy (aneddiadau llai wedi eu grwpio'n gyffredinol)) lle y darperir ar gyfer twf cymesur.

**Twf tai –** 15,197 o anheddau (1,013 uned fesul blwyddyn) a 1,043 uned arall (oddeutu 7%) sy'n rhoi darpariaeth dai gyffredinol o 16,240 o unedau. Dyrennir digon o dir i fodloni'r gofyniad gweddilliol o 13,260 o anheddau yn unol â'r Fframwaith Anheddu a ganlyn:

Ardaloedd Twf (8,247); Canolfannau Gwasanaethau (1,354); Canolfannau Gwasanaethau Lleol (1,666); Cymunedau Cynaliadwy (1,993).

Mae gan awdurdodau cynllunio cyfagos y potensial i achosi effeithiau 'ar y cyd' i'r safleoedd Ewropeaidd ym Mhowys drwy eu dyraniadau tai a thir cyflogaeth a pholisïau eraill. Gallai datblygiadau ar draws y ffin gael effaith anuniongyrchol ar y safleoedd a gallent eu gwneud yn fwy bregus a chael effaith negyddol sylweddol arnynt pe byddent y gysylltiedig mewn unrhyw ffordd.

### *Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2018-2033 (Yn Dod i'r Amlwg)*

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd, ac mae wedi llunio Cynllun Adneuo yn 2020. Byddai'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei lywodraethu gan y weledigaeth a ganlyn:

> *'Bydd Sir Gaerfyrddin 2033 yn lle i ddechrau, byw a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a ffyniannus, lle caiff ei nodweddion diwylliannol ac amgylcheddol cyfoethog (gan gynnwys yr iaith Gymraeg) eu gwerthfawrogi a'u parchu o safbwynt preswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.*
>
> *Bydd ganddi gymunedau ffyniannus, cydlynus a chynaliadwy a fydd yn rhoi mwy o gyfleoedd, ymyriadau a chysylltiadau i bobl, lleoedd a sefydliadau yn rhannau gwledig a threfol ein Sir.*
>
> *Bydd ganddi economi gref sy'n adlewyrchu ei safle fel ysgogwr hyderus ac uchelgeisiol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.'*

Mae'r Cynllun Adneuo yn cadarnhau y bydd y Cynllun Lleol newydd yn ceisio darparu'r tai angenrheidiol a'r twf economaidd sydd ei angen i wella'r ardal, gan ddiogelu hefyd ei natur wledig a helpu i drawsnewid yr ardal tuag at gyflawni nodau Llywodraethau Cymru ar gyfer bod yn wlad carbon isel.

Mae'r Cynllun Adneuo yn nodi y byddai angen datblygu 10,160 o gartrefi newydd ac o leiaf 77.93 hectar o dir cyflogaeth yn ystod oes y cynllun.

### *Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot 2011-2026*

**Dull gofodol** – nod rhanbarthol Castell-nedd Port Talbot yw cefnogi Dinas a Sir Abertawe drwy lywio twf tuag at aneddiadau allweddol a nodwyd yng Nghastell-nedd, Port Talbot a Phontardawe a chefnogi cymunedau yn y Cymoedd

Mae gan y CDLl ddwy strategaeth wahanol ar sail ardal, a) Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (y ddwy brif dref drefol a chefnogi cymunedau Castell-nedd a Phort Talbot); a b) Ardal Strategaeth y Cymoedd (Cwmafan, Dyffryn Aman, Cwm Dulais, Cwm Nedd, Pontardawe a Chwm Tawe). Hierarchaeth aneddiadau 6 haen – trefi, canolfannau ardal, canolfannau lleol mawr, canolfannau lleol bach, pentrefi ac aneddiadau noswylio.

**Twf tai –** ar sail senario twf economaidd a ragwelir a thwf uchelgeisiol o 3,850 o swyddi ar gyfer yr ardal, mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer 9,150 o unedau preswyl newydd ychwanegol, (8,000 ynghyd â rhai wrth gefn). Dosrennir tai newydd rhwng Castell-nedd (48.4%), Port Talbot (27.2%), 23.2% i'r Cymoedd (gan gynnwys 9.7 % i Bontardawe).

Mae gan y Coridor Arfordirol 2 ardal adfywio strategol – Coed Darcy, Castell-nedd (pentref trefol a chanddo 4,000 o gartrefi newydd, 2,150 yn ystod cyfnod y CDLl) a Harbourside, Port Talbot (520 o unedau). Yn ardal y Cymoedd, mae Pontardawe a Blaenau Cwm Nedd wedi eu nodi fel ardaloedd twf strategol.

Mae gan awdurdodau cynllunio cyfagos y potensial i achosi effeithiau 'ar y cyd' i'r safleoedd Ewropeaidd ym Mhowys drwy eu dyraniadau tai a thir cyflogaeth a pholisïau eraill. Gallai datblygiadau ar draws y ffin gael effaith anuniongyrchol ar y safleoedd a gallent eu gwneud yn fwy bregus a chael effaith negyddol sylweddol arnynt pe byddent y gysylltiedig mewn unrhyw ffordd.

Mae Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei baratoi – Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd 2021-2036 – Cyngor Castell-nedd Port Talbot (npt.gov.uk).

***Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf 2006-2021***

**Dull gofodol** – Strategaeth Hybrid – Strategaeth y Gogledd o fynd i'r afael â dirywiad. Tonypandy, Porth, Treorci, Treherbert, Glynrhedynog, Tylorstown, Aberpennar, Aberdâr a Hirwaun

Yn ne'r Fwrdeistref Sirol, ar dwf cynaliadwy sydd o fudd i Rondda Cynon Taf yn gyffredinol y mae'r pwyslais. Mae Ardal Strategaeth y De yn cynnwys Pontypridd, Llantrisant (gan gynnwys Tonysguboriau), Tonyrefail a Llanharan.

Yr hierarchaeth aneddiadau: Prif Drefi, Aneddiadau Allweddol ac Aneddiadau Llai, gyda chyfleoedd datblygu newydd sy'n canolbwyntio ar Brif Drefi ac Aneddiadau Allweddol y Fwrdeistref Sirol er mwyn cefnogi ac atgyfnerthu'r swyddogaeth bwysig y mae'r canolfannau hyn yn ei chwarae.

Bydd nifer o safleoedd strategol yn arwain at ddatblygu rhwng 5,000 a 5,450 o anheddau newydd, 63 hectar o dir cyflogaeth, 23,400$m^2$ net o lawr manwerthu newydd ac at ddarparu swm sylweddol o fannau newydd agored / gwyrdd.

**Twf tai** – 14,385 o anheddau newydd (959 fesul blwyddyn) dros gyfnod y cynllun.

Mae gan gynlluniau datblygu awdurdodau cynllunio lleol gerllaw y potensial i achosi effeithiau 'ar y cyd' i'r safleoedd Ewropeaidd ym Mhowys drwy eu dyraniadau tai a thir cyflogaeth a pholisïau eraill. Gallai datblygiadau gael effaith anuniongyrchol ar y safleoedd a gallent eu gwneud yn fwy bregus a chael effaith negyddol sylweddol arnynt pe byddent y gysylltiedig mewn unrhyw ffordd.

Mae cynllun datblygu lleol diwygiedig yn cael ei baratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLl) 2022-2037 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

***Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy 2006-2021 Rhanbarthol***

**Dull gofodol** – gwasgaru datblygiadau o amgylch y Sir wrth ganolbwyntio ar y lleoliadau hynny sy'n rhoi'r cyfleoedd gorau i gyflawni datblygu cynaliadwy. Pwyslais ar y tair prif dref: Y Fenni, Cas-gwent a Threfynwy, ynghyd ag is-ranbarth Glan Hafren.

Yr hierarchaeth aneddiadau:

- Prif Drefi: Y Fenni, Cas-gwent a Threfynwy;
- Is-ranbarth Glan Hafren (coridor yr M4): aneddiadau Caer-went, Cil-y-coed, Magwyr, Porthsgiwed, Rogiet, Sudbrook a Gwndy;
- Aneddiadau Eilaidd Gwledig: Brynbuga, Rhaglan, Penperllenni a Llan-ffwyst;
- Prif Bentrefi;
- Pentrefi Llai (dim ffin datblygu).

**Twf tai** – 4,950 o anheddau gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 10%. Bodlonwyd yn bennaf drwy safleoedd tai strategol.

Prif Drefi = 2,066 o anheddau (42%)

Is-ranbarth Glan Hafren = 1,614 (23%)

Aneddiadau eilaidd gwledig = 495 (7.5%)

Ardal Wledig = 782 (27.5%)

Mae gan gynlluniau datblygu awdurdodau cynllunio lleol gerllaw y potensial i achosi effeithiau 'ar y cyd' i'r safleoedd Ewropeaidd ym Mhowys drwy eu dyraniadau tai a thir cyflogaeth a pholisïau eraill. Gallai datblygiadau gael effaith anuniongyrchol ar y safleoedd a gallent eu gwneud yn fwy bregus a chael effaith negyddol sylweddol arnynt pe byddent y gysylltiedig mewn unrhyw ffordd.

***Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd Sir Fynwy 2018-2033 (Yn Dod i'r Amlwg) Y Strategaeth a Ffefrir***

Ar hyn o bryd, mae Sir Fynwy wrthi'n llunio Cynllun Datblygu Lleol Newydd a chyhoeddodd y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl Newydd hwn ym mis Mehefin 2021. Mae'r strategaeth yn rhoi mewnwelediad cryf i'r hyn y bydd y CDLl Newydd yn ei gynnwys o ran ei weledigaeth, ei amcanion, a'i bolisïau cynllunio. Mae'n bwysig nodi y bydd angen diweddaru niferoedd y tai a nodir yn y Strategaeth a Ffefrir yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ôl i'r Strategaeth a Ffefrir gael ei chyhoeddi. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweithio ar ddiweddaru'r Strategaeth a Ffefrir.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi y dylai CDLl Newydd greu 3,658 o anheddau a chreu 7,215 o swyddi ychwanegol yn ystod ei oes. Mae hefyd yn dweud y bydd angen cymysgedd amrywiol o dir a safleoedd i fodloni'r gofynion hyn, gan fodloni dyletswydd y Cyngor hefyd i ddiogelu'r amgylchedd a phontio'r ardal i fod yn garbon isel.

***Cynllun Datblygu Blaenau Gwent 2006-2021***

**Dull gofodol** – Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar adfywio'r ardal drwy adeiladu rhwydwaith o hybiau ardal o amgylch prif hyb Glyn Ebwy, gan gydnabod bod rhaniad rhwng y gogledd a'r de o ran cyfleoedd am dwf. Mae creu rhwydwaith integredig o hybiau modern ac adfywiedig yn rhoi cyfle i drawsnewid yr ardal. Mae'n creu dull o gydlynu buddsoddiadau ac yn sicrhau bod manteision twf ac adfywio yn cael eu rhannu'n eang. Mae sicrhau cysylltedd da rhwng prif hyb Glyn Ebwy a hybiau ardal Tredegar, Bryn-mawr ac Abertyleri yn hanfodol i ddarparu hyn, ac mae hynny yn ei dro yn sicrhau bod pob hyb yn hygyrch i'r ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu.

**Twf tai** – Her allweddol i'r ardal yw atal y boblogaeth sy'n lleihau. Rhan fawr o'r Strategaeth hon yw galluogi'r twf yn y boblogaeth, o 68,914 i 70,849. Bydd angen 3,500 o gartrefi newydd rhwng 2006 a 2021 i ddarparu ar gyfer y twf hwn. Mae rhan fawr o'r twf hwn yn ganlyniad i'r cynnydd mewn aelwydydd un person. Bydd dros 80% o'r tai newydd yn cael eu darparu yn Ardal Strategaeth y Gogledd gydag 56% ohonynt yng Nglyn Ebwy, mewn dau safle strategol yn bennaf, sef Coridor Gogleddol Glyn Ebwy a'r 'Gweithfeydd'. Bydd Tredegar yn darparu ar gyfer 23% o'r tai, a bydd Glyn Ebwy Uchaf yn darparu ar gyfer 14% ohonynt.

***Cynllun Datblygu Lleol Newydd Blaenau Gwent 2018-2033 (Yn Dod i'r Amlwg) Y Strategaeth a Ffefrir***

Mae Cyngor Blaenau Gwent wrthi'n llunio Cynllun Datblygu Lleol newydd a lluniodd Strategaeth a Ffefrir ym mis Ionawr 2020. Byddai'n rhaid i Gynllun Datblygu Lleol newydd ymgodymu â'r heriau canlynol:

- Her 1: Twf economaidd
- Her 2: Swyddogaethau newydd ar gyfer canol trefi
- Her 3: Gwella cyrhaeddiad a sgiliau addysgol
- Her 4: Twf poblogaeth a gwella'r cynnig tai
- Her 5: Creu rhwydwaith o gymunedau sydd wedi eu cysylltu'n dda
- Her 6: Cefnogi trafnidiaeth Gynaliadwy
- Her 7: Hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol i bawb
- Her 8: Creu lle sy'n cefnogi ei amgylchedd gwyrdd
- Her 9: Defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Her 10: Ansawdd Amgylcheddol
- Her 11: Dylunio cynaliadwy a darparu ynni adnewyddadwy
- Her 12: Creu lleoedd gydag ymdeimlad unigryw o hunaniaeth

Llywodraethir y Strategaeth a Ffefrir gan y weledigaeth ganlynol:

Drwy gydweithio'n weithredol, erbyn 2033, bydd Blaenau Gwent yn dod yn rhwydwaith o gymunedau dyffryn cynaliadwy, bywiog a chysylltiedig sy'n cefnogi llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol â'r hyn a ganlyn:

• economi carbon isel sy'n ffynnu lle mae gan bobl y sgiliau, yr wybodaeth a'r cyfleoedd i gyflawni gwell ansawdd bywyd;

• preswylwyr sy'n byw mewn cymunedau iach a diogel sydd wedi eu cysylltu'n dda, mewn amrywiaeth o gartrefi o ansawdd a mynediad gwell at wasanaethau;

• mae eu hamgylchedd naturiol unigryw, eu hunaniaeth diwylliannol a hanesyddol yn cael eu diogelu a'u gwella gan greu lle y mae pobl yn dymuno byw a gweithio ynddo, ac ymweld ag ef.

Nodwyd y dylai Cynllun Datblygu Lleol newydd ddarparu cyfanswm o 2,115 o anheddau newydd (141 fesul blwyddyn) a 1,500 o swyddi newydd fel isafswm) yn ystod ei oes.

### *Cynllun Datblygu Merthyr Tudful 2006-2021*

**Dull gofodol** – Merthyr Tudful yw'r awdurdod unedol lleiaf yng Nghymru gyda llai na 9,000 hectar o dir yng nghylch gwaith y Cynllun Datblygu Lleol. O'r herwydd, mae nifer y trefi a'r pentrefi yn y Fwrdeistref Sirol braidd yn gyfyngedig ac mae llawer o aneddiadau yn adlewyrchu swyddogaeth breswyl yn bennaf. Er hynny, mae trefi a phentrefi y Fwrdeistref Sirol yn arddangos amrywiaeth o nodweddion lleol ac, yn rhan o'r dadansoddiad swyddogaethol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, bu'n bosibl rhannu'r Fwrdeistref Sirol yn 3 parth amlwg, sef y sector gogleddol, cymunedau canol y cwm a'r sector deheuol.

**Twf tai** – Yn ystod cyfnod cynllun 2006-2021, dyrennir tir yn ar gyfer darparu oddeutu 3,964 o anheddau newydd er mwyn darparu ar gyfer anghenion disgwyliedig y boblogaeth.

### *Cynllun Datblygu Lleol Newydd Merthyr Tudful 2016-2031 (Cyflwynwyd)*

Cyflwynodd Cyngor Merthyr Tudful ei Gynllun Datblygu Lleol Newydd i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio ym mis Ionawr 2019, i'w adolygu. Llywodraethir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd gan y weledigaeth a ganlyn:

'Cryfhau sefyllfa Merthyr Tudful fel canolfan ranbarthol ar gyfer Blaenau'r Cymoedd oddi fewn i Ranbarth Dinesig Caerdydd, i annog lefel gynaliadwy o dwf yn y boblogaeth a bod yn lle i ymfalchïo ynddo ble:

- Mae pobl yn dysgu a datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgais;
- Mae pobl yn byw, gweithio, ac yn cael bywyd diogel, iach a chyflawn; a[c]
- Mae pobl yn ymweld, mwynhau a dychwelyd iddo.'

Mae'r Cynllun yn ceisio darparu 2,820 o gartrefi newydd a 30.65 hectar o dir cyflogaeth.

# Atodiad C Diffiniadau o Arwyddocâd

**Amcan 1 yr ACI - Darparu cartrefi o ansawdd da a seilwaith cymunedol i ddiwallu anghenion a nodwyd**
Cwestiynau Arwain:

- Diwallu'r anghenion tai a nodwyd, gan gynnwys gofynion fforddiadwy ac arbenigol?
- Sicrhau cymysgedd priodol o feintiau, mathau a deiliadaethau annedd sy'n diwallu anghenion pob sector o'r gymuned?
- Darparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n caniatáu mynediad rhwydd i amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau lleol?
- Hybu'r broses o ddatblygu amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol hygyrch o safon uchel, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol?

| Sgôr | Dosbarthiad | Meini Prawf Asesu |
|---|---|---|
| ++ | Cadarnhaol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn darparu cynnydd sylweddol i gyflenwad tai a byddai'n darparu mynediad at dai gweddus, fforddiadwy i drigolion sydd ag anghenion gwahanol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn gwneud defnydd o/gwella adeiladau presennol neu gartrefi sy'n anaddas, gwag.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn hybu gwaith dylunio o ansawdd uchel.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn darparu digon o leiniau i fodloni'r gofynion ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a Siewmyn. |
| + | Cadarnhaol | Byddai'r polisi/cynnig yn darparu cynnydd i gyflenwad tai a byddai'n darparu mynediad at dai gweddus, fforddiadwy i drigolion sydd ag anghenion gwahanol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn gwneud defnydd o/gwella adeiladau presennol neu gartrefi sy'n anaddas, gwag.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn hybu gwaith dylunio o ansawdd uchel.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn darparu digon o leiniau i fodloni'r gofynion ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a Siewmyn. |
| 0 | Niwtral | Ni fyddai'r polisi/cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan. |
| - | Negyddol | Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau'r nifer o dai fforddiadwy, gweddus sydd ar gael. |
| -- | Negyddol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau'n sylweddol y nifer o dai fforddiadwy, gweddus sydd ar gael. |
| ~ | Dim perthynas | Nid oes perthynas glir rhwng y polisi/cynnig â chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |
| ? | Ansicr | Mae gan y polisi/cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad. |

**Amcan 2 yr ACI - Creu a chefnogi economi a gweithlu sy'n gryf, yn gydnerth ac yn gadarn**
Cwestiynau Arwain:

- Darparu digon o dir i fusnesau dyfu?
- Cefnogi'r broses o greu swyddi newydd sy'n hygyrch?
- Sicrhau bod capasiti cyfleusterau addysgol yn tyfu ar yr un raddfa â'r twf yn y boblogaeth?
- Gwella bywiogrwydd a chydnerthedd cymunedau?
- Diogelu'r ardaloedd cyflogaeth presennol?
- Creu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, gan ei hybu a manteisio'n sensitif ar asedau amgylcheddol, diwylliannol, treftadaeth a hamdden?
- Creu cyfleoedd ar gyfer gwelliannau i'r economi wledig ac arallgyfeirio gwledig (gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth, busnesau bach a chanolig, busnesau micro a datblygu cysylltedd digidol)?

| Sgôr | Dosbarthiad | Meini Prawf Asesu |
|---|---|---|
| ++ | Cadarnhaol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn annog buddsoddiad mewn busnesau, pobl a seilwaith yn sylweddol, a fyddai'n arwain at economi fwy amrywiol, gan gynyddu gymaint â phosibl hyfywedd yr economi leol ac yn lleihau'r nifer sy'n allgymudo<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at greu sefydliadau addysgol newydd a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau hirdymor. |
| + | Cadarnhaol | Byddai'r polisi/cynnig yn annog buddsoddiad mewn busnesau, pobl a seilwaith<br>Byddai'r polisi/cynnig yn darparu cyfleoedd cyflogaeth hygyrch.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn helpu i amrywio'r economi wledig.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn darparu datblygiad preswyl yn agos at safle cyflogaeth fawr<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cefnogi sefydliadau addysgol presennol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cefnogi twf economaidd yn y sector carbon isel. |
| 0 | Niwtral | Ni fyddai'r polisi/cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan. |
| - | Negyddol | Byddai'r polisi/cynnig yn cael effeithiau negyddol ar fusnesau, yr economi leol a chyflogaeth leol |
| -- | Negyddol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn cael effeithiau negyddol sylweddol ar fusnes, yr economi leol a chyflogaeth leol (e.e. byddai polisi/cynnig yn arwain at gau neu adleoli busnesau lleol presennol)<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at golli'r sefydliadau addysgol presennol heb ddarpariaeth newydd mewn mannau eraill ym Mhowys. |
| ~ | Dim perthynas | Nid oes perthynas glir rhwng y polisi/cynnig â chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |
| ? | Ansicr | Mae gan y polisi/cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad. |

**Amcan 3 yr ACI - Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol**

Cwestiynau Arwain:

- elpu i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai â'r angen mwyaf?
- Yn mynd i'r afael ag ardaloedd lle ceir amddifadedd a/neu ddirywiad, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol?
- Yn helpu i ddarparu gwell cyfleoedd addysg a chyrhaeddiad?

| Sgôr | Dosbarthiad | Meini Prawf Asesu |
|---|---|---|
| ++ | Cadarnhaol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn gwella atyniad Powys yn sylweddol fel lle i fuddsoddi, i fyw, ac i weithio ynddo, ac ymweld ag ef.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn creu cyfleusterau a gwasanaethau newydd, neu'n gwella'n sylweddol y cyfleusterau a'r gwasanaethau presennol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn gwella cyflyrau cymdeithasol ac amgylcheddol yn sylweddol mewn ardaloedd difreintiedig ac yn cefnogi adfywiad.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn sicrhau bod datblygiadau preswyl newydd yn cael eu lleoli'n agos at amrywiaeth eang o wasanaethau a chyfleusterau (e.e. o fewn 800m i amrywiaeth eang o wasanaethau.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd aneddiadau yn sylweddol. |
| + | Cadarnhaol | Byddai'r polisi/cynnig yn gwella atyniad Powys fel lle i fuddsoddi, i fyw, ac i weithio ynddo, ac ymweld ag ef.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn gwella cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn gwella cyflyrau cymdeithasol ac amgylcheddol mewn ardaloedd difreintiedig.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn sicrhau bod datblygiadau preswyl newydd yn cael eu lleoli'n agos at rai gwasanaethau a chyfleusterau (e.e. o fewn 800m i wasanaeth allweddol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Byddai'r polisi/cynnig yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd aneddiadau. |
| 0 | Niwtral | Ni fyddai'r polisi/cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan. |
| - | Negyddol | Byddai'r polisi/cynnig yn tanseilio atyniad Powys fel lle i fuddsoddi, i fyw, ac i weithio ynddo, ac ymweld ag ef.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau hygyrchedd, ac ansawdd y cyfleusterau a'r gwasanaethau cymunedol presennol, a'r graddau y maent ar gael.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at leoli datblygiad preswyl newydd oddi wrth wasanaethau a chyfleusterau presennol (e.e. dros 2,000m oddi wrth amrywiaeth eang o wasanaethau).<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cael effaith andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd aneddiadau. |
| -- | Negyddol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn tanseilio atyniad Powys yn sylweddol fel lle i fuddsoddi, i fyw, ac i weithio ynddo, ac i ymweld ag ef, gan arwain at y boblogaeth yn llifo allan a dadfuddsoddiad.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at golli cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol heb ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd yn eu lle mewn mannau eraill ym Mhowys.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cael effaith andwyol sylweddol ar fywiogrwydd a hyfywedd aneddiadau.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at ddatblygiad preswyl newydd nad yw'n hygyrch i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol. |
| ~ | Dim perthynas | Nid oes perthynas glir rhwng y polisi/cynnig â chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |
| ? | Ansicr | Mae gan y polisi/cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad. |

**Amcan 4 yr ACI - Diogelu, hybu a gwella'r Gymraeg a diwylliant Cymru**

Cwestiynau Arwain:

- Effeithio ar y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg a/neu gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol (effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol)?
- Effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?
- Effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?
- Effeithio ar wasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati.)

| Sgôr | Dosbarthiad | Meini Prawf Asesu |
|---|---|---|
| ++ | Cadarnhaol Sylweddol | Mae'r polisi/cynnig yn ymgorffori mesurau priodol i ddiogelu, hybu a gwella'r defnydd o'r Gymraeg, ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfleuster neu wasanaeth cymunedol dwyieithog newydd neu'n gwella'r mynediad at gyfleusterau neu wasanaethau cymunedol presennol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. |
| + | Cadarnhaol | Mae'r polisi/cynnig yn ymgorffori mesurau priodol i ddiogelu, hybu a gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ac o ran addysg a gwasanaethau. |
| 0 | Niwtral | Nid yw'r safle mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.<br>Mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd is, ni fyddai'r cynnig yn cael effeithiau niweidiol neu lai o effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. |
| - | Negyddol | Nid yw'r polisi/cynnig yn ymgorffori mesurau priodol a fyddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. |
| -- | Negyddol Sylweddol | Mae'r polisi/cynnig yn ymgorffori agweddau a allai gael effeithiau niweidiol neu lai o effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. |
| ~ | Dim perthynas | Nid oes perthynas glir rhwng y polisi/cynnig â chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |
| ? | Ansicr | Mae gan y polisi/cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad. |

**Amcan 5 yr ACI - Gwella iechyd a llesiant pob sector o'r gymdeithas**

Cwestiynau Arwain:

- Cyfrannu at wella'r gallu i gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd ynysig/gwledig?
- Cyfrannu tuag at leihad mewn anghydraddoldeb iechyd ymhlith grwpiau gwahanol yn y gymuned, gan gynnwys plant a phobl hŷn yn benodol?
- Cyfrannu tuag at ffyrdd iach o fyw ac yn hybu llesiant, gan gynnwys cerdded a beicio?
- Cyfrannu tuag at wella mynediad i fannau gwyrdd naturiol, bywyd gwyllt, mannau agored, gan gynnwys cyfleoedd i chwarae, ac ar gyfer hamdden ac adloniant?
- Cyfrannu tuag at gynnydd mewn seilwaith gwyrdd?
- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio i leihau troseddau ac ofn troseddau?

| Sgôr | Dosbarthiad | Meini Prawf Asesu |
|---|---|---|
| ++ | Cadarnhaol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn cael effeithiau cryf a pharhaus ar ffyrdd iach o fyw ac yn gwella llesiant drwy weithgarwch corfforol, gweithgarwch hamdden, gwell ansawdd amgylcheddol, ac ati.<br>Ystyrir grwpiau gwahanol yn y gymdeithas.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn sicrhau bod datblygiadau preswyl newydd yn cael eu lleoli'n agos at amrywiaeth o gyfleusterau gofal iechyd (e.e. o fewn 800m i feddygfa).<br>Byddai'r polisi/cynnig yn sicrhau bod datblygiadau preswyl newydd yn cael eu lleoli'n agos at amrywiaeth o gyfleusterau gofal iechyd (e.e. o fewn 800m i feddygfa a man agored).<br>Byddai'r polisi/cynnig yn darparu cyfleusterau gofal iechyd newydd a/neu fan agored.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau'r lefel troseddau'n sylweddol drwy ddylunio a mesurau diogelwch eraill. |
| + | Cadarnhaol | Byddai'r polisi/cynnig yn hybu ffyrdd iach o fyw ac yn gwella llesiant drwy weithgarwch corfforol, gweithgarwch hamdden, gwell ansawdd amgylcheddol, ac ati. Ystyrir grwpiau gwahanol yn y gymdeithas.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn sicrhau bod datblygiadau preswyl newydd yn cael eu lleoli'n agos at gyfleuster gofal iechyd (e.e. o fewn 800m i feddygfa).<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cydnabod, yn diogelu, yn hybu ac yn gwella'r Gymraeg a diwylliant Cymru.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau'r lefel troseddau'n drwy ddylunio a mesurau diogelwch eraill. |
| 0 | Niwtral | Ni fyddai'r polisi/cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan. |
| - | Negyddol | Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau mynediad at gyfleusterau gofal iechyd newydd a man agored.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn darparu datblygiad preswyl dros 800m oddi wrth feddygfa a/neu fan agored.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at gynnydd yn y troseddau a adroddir ac ofn troseddau yn yr ardal.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cael effeithiau a allai waethygu iechyd pobl. |
| -- | Negyddol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at golli cyfleusterau gofal iechyd a man agored heb i rai newydd gael eu darparu yn eu lle mewn mannau eraill ym Mhowys.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at gynnydd sylweddol yn y troseddau a adroddir ac ofn troseddau.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cael effeithiau sylweddol a fyddai'n achosi dirywiad iechyd yn y gymuned (h.y. cynnydd mewn llygredd) |
| ~ | Dim perthynas | Nid oes perthynas glir rhwng y polisi/cynnig â chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |
| ? | Ansicr | Mae gan y polisi/cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad. |

**Amcan 6 yr ACI - Gwneud y defnydd gorau o dir sydd eisoes wedi ei ddatblygu ac adeiladau presennol, a diogelu tir amaethyddol gradd uwch**

Cwestiynau Arwain:

- Creu cyfleoedd i ddatblygu tir llwyd lle na fydd hyn yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar Gynefinoedd Mosaig Agored?
- Diogelu'r tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas rhag cael ei ddatblygu?

| Sgôr | Dosbarthiad | Meini Prawf Asesu |
|---|---|---|
| ++ | Cadarnhaol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn annog gwaith datblygu sylweddol ar dir llwyd.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at gael gwared â halogiad tir / pridd presennol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. |
| + | Cadarnhaol | Byddai'r polisi/cynnig yn annog gwaith datblygu ar dir llwyd. |
| 0 | Niwtral | Ni fyddai'r polisi/cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan. |
| - | Negyddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at ddatblygu ar faes glas neu byddai'n creu gwrthdaro o ran defnydd tir.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at golli tir amaethyddol. |
| -- | Negyddol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at halogi tir. |
| ~ | Dim perthynas | Nid oes perthynas glir rhwng y polisi/cynnig â chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |
| ? | Ansicr | Mae gan y polisi/cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad. |

**Amcan 7 yr ACI - Gwarchod, diogelu a gwella ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr**

Cwestiynau Arwain.

- Lleihau'r defnydd o ddŵr?
- Sicrhau y darperir cyflenwad digonol o ddŵr, gan ystyried y rhagamcanion cyfredol a'r rhagamcanion ar gyfer y dyfodol o'r dŵr sydd ar gael a'r defnydd o ddŵr?
- Lleihau'r potensial i halogi cyrff dŵr a chyrsiau?
- Lleihau'r potensial i arferion amaethyddol gyfrannu tuag at lygru

| Sgôr | Dosbarthiad | Meini Prawf Asesu |
|---|---|---|
| ++ | Cadarnhaol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at leihad sylweddol mewn dŵr gwastraff, dŵr wyneb ffo a llygryddion sy'n cael eu rhyddhau a fyddai'n gwella'n sylweddol ansawdd y dŵr daear a/neu'r dŵr wyneb a byddai'r holl dargedau dŵr (gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i ansawdd biolegol a chemegol) yn cael eu cyflawni/rhagorir arnynt.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at leihad sylweddol yn y galw am ddŵr.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith adnoddau dŵr. |
| + | Cadarnhaol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at leihad mewn dŵr gwastraff, dŵr wyneb ffo a/neu lygryddion sy'n cael eu rhyddhau a fyddai'n gwella ansawdd y dŵr daear neu'r dŵr wyneb a byddai rhai targedau dŵr (gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i ansawdd biolegol a chemegol) yn cael eu cyflawni/rhagorir arnynt.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at leihad yn y galw am ddŵr. |
| 0 | Niwtral | Ni fyddai'r polisi/cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan. |
| - | Negyddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at gynnydd yng nghyfaint y dŵr gwastraff, dŵr wyneb ffo a'r llygryddion sy'n cael eu rhyddhau a fyddai'n amharu ar ansawdd y dŵr daear neu ddŵr wyneb.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at gynnydd yn y galw am ddŵr. |

| | | |
|---|---|---|
| -- | Negyddol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at gynnydd sylweddol yng nghyfaint y dŵr gwastraff, dŵr wyneb ffo a'r llygryddion sy'n cael eu rhyddhau a fyddai'n amharu ar ansawdd y dŵr daear neu ddŵr wyneb ac ni fyddai targedau dŵr yn cael eu cyflawni.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at amhariad yn y dosbarthiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr presennol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am ddŵr<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at fynd y tu hwnt i'r capasiti seilwaith rheoli dŵr gwastraff presennol heb gymryd camau lliniaru priodol. |
| ~ | Dim perthynas | Nid oes perthynas glir rhwng y polisi/cynnig â chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |
| ? | Ansicr | Mae gan y polisi/cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad. |

**Amcan 8 yr ACI - Minimeiddio neu leihau ffynonellau ac effeithiau llygredd aer**
Cwestiynau Arwain:

- Lleihau'r angen i deithio?
- Annog pobl i deithio drwy ddulliau cynaliadwy (teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus)?
- Osgoi unrhyw effeithiau andwyol ar ansawdd yr aer ac i bobl sy'n dod i gysylltiad ag ansawdd aer gwael?
- Gwella ansawdd yr aer mewn ardaloedd y nodir eu bod o bryder?
- Hybu a hwyluso'r defnydd o gerbydau trydan?
- Hybu a hwyluso gwelliannau i rwydweithiau seilwaith gwyrdd er mwyn hwyluso cynnydd o ran swm y NO2 a llygryddion eraill sy'n cael eu sugno a'u gwasgaru?

| Sgôr | Dosbarthiad | Meini Prawf Asesu |
|---|---|---|
| ++ | Cadarnhaol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn gwella ansawdd yr aer yn sylweddol ac yn arwain at gyflawni targedau ansawdd aer/rhagori arnynt. |
| + | Cadarnhaol | Byddai'r polisi/cynnig yn gwella ansawdd yr aer. |
| 0 | Niwtral | Ni fyddai'r polisi/cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan. |
| - | Negyddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at amhariad yn ansawdd yr aer. |
| -- | Negyddol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at amhariad yn ansawdd yr aer. |
| ~ | Dim perthynas | Nid oes perthynas glir rhwng y polisi/cynnig â chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |
| ? | Ansicr | Mae gan y polisi/cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad. |

**Amcan 9 yr ACI - Er mwyn lleihau'r gwastraff a gynhyrchir, annog pobl i ailddefnyddio ac ailgylchu a hybu defnydd effeithlon o adnoddau mwynol**
Cwestiynau Arwain:

- Hybu'r broses o adfer tir halogedig ac atal halogedigaeth bellach?
- Creu cyfleoedd i gynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu a'i ailddefnyddio?
- Hybu cyfleoedd i ddefnyddio deunyddiau sydd wedi eu hailgylchu ac eilaidd wrth adeiladu?
- Hybu'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy sydd o ffynonellau lleol?
- Creu cyfleoedd i ddiogelu adnoddau mwynol gwarchodedig?

| Sgôr | Dosbarthiad | Meini Prawf Asesu |
|---|---|---|
| ++ | Cadarnhaol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau swm y gwastraff a fyddai'n cael ei gynhyrchu drwy atal, lleihau ac ailddefnyddio.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau swm y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi drwy ailgylchu ac adfer ynni.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cefnogi/annog buddsoddiad mewn cyfleusterau rheoli gwastraff. |
| + | Cadarnhaol | Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau'n sylweddol swm y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi drwy ailgylchu ac adfer ynni.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn annog y defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy. |
| 0 | Niwtral | Ni fyddai'r polisi/cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan. |
| - | Negyddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at fwy o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at fwy o alw am adnoddau lleol. |
| -- | Negyddol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at lawer mwy o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cynyddu'r galw am adnoddau lleol yn sylweddol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at ddatblygiad amhriodol o fewn Ardal Diogelu Mwynau. |
| ~ | Dim perthynas | Nid oes perthynas glir rhwng y polisi/cynnig a chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |
| ? | Ansicr | Mae gan y polisi/cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad. |

**Amcan 10 yr ACI - Cefnogi cydnerthedd Powys i effeithiau posibl newid hinsawdd, gan gynnwys llifogydd a digwyddiadau eithafol eraill**

Cwestiynau Arwain:

- Osgoi datblygiadau mewn ardaloedd lle bo perygl o lifogydd, gan ystyried effeithiau tebygol newid hinsawdd yn y dyfodol?
- Cynyddu cydnerthedd yr amgylchedd adeiledig a naturiol i effeithiau newid hinsawdd?
- Sicrhau bod y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn cael eu hystyried mewn datblygiadau newydd?
- Gwella ac ehangu rhwydweithiau seilwaith gwyrdd er mwyn cefnogi'r broses o addasu i'r newid yn yr hinsawdd?
- Rheoli dŵr ffo yn gynaliadwy, gan leihau dŵr wyneb ffo?

| Sgôr | Dosbarthiad | Meini Prawf Asesu |
|---|---|---|
| ++ | Cadarnhaol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau'n sylweddol y risg llifogydd i seilwaith neu gymunedau newydd neu bresennol mewn cysylltiad â'r 1% (1 mewn 100) tebygolrwydd digwyddiad blynyddol ar gyfer llifogydd gyda lwfans ar gyfer newid hinsawdd a'r 0.1% (1 mewn 1,000) tebygolrwydd digwyddiad blynyddol gyda lwfans ar gyfer newid hinsawdd (Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio). |
| + | Cadarnhaol | Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau'r risg llifogydd i seilwaith neu gymunedau newydd neu bresennol mewn cysylltiad â'r 1% (1 mewn 100) tebygolrwydd digwyddiad blynyddol ar gyfer llifogydd gyda lwfans ar gyfer newid hinsawdd a'r 0.1% (1 mewn 1000) tebygolrwydd digwyddiad blynyddol gyda lwfans ar gyfer newid hinsawdd (Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio). |
| 0 | Niwtral | Ni fyddai'r polisi/cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan. Rhagwelir na fydd y polisi yn achosi nac yn gwaethygu llifogydd yn y crynhoad. |
| - | Negyddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at fwy o risg llifogydd mewn cysylltiad â'r 1% (1 mewn 100) tebygolrwydd digwyddiad blynyddol ar gyfer llifogydd gyda lwfans ar gyfer newid hinsawdd |

| | | |
|---|---|---|
| | | a'r 0.1% (1 mewn 1000) tebygolrwydd digwyddiad blynyddol gyda lwfans ar gyfer newid hinsawdd (Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio). |
| -- | Negyddol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at fwy o risg llifogydd mewn cysylltiad â'r 1% (1 mewn 100) tebygolrwydd digwyddiad blynyddol ar gyfer llifogydd gyda lwfans ar gyfer newid hinsawdd a'r 0.1% (1 mewn 1000) tebygolrwydd digwyddiad blynyddol gyda lwfans ar gyfer newid hinsawdd (Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio). |
| ~ | Dim perthynas | Nid oes unrhyw berthynas glir rhwng y polisi/cynnig a chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |
| ? | Ansicr | Mae gan y polisi/cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad. |

Noder: Mae'r diffiniadau o lifogydd o'r môr yn wahanol i'r rhai sy'n ymwneud â llifogydd o afonydd; mae ardal y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys ardal fach o arfordir er nad oes unrhyw aneddiadau yn yr ardal hon.

**Amcan 11 yr ACI - Lleihau cyfraniad allyriadau nwyon tŷ gwydr i newid yn yr hinsawdd**
Cwestiynau Arwain.

- Cynyddu nifer y datblygiadau newydd sy'n bodloni neu'n rhagori ar y meini prawf dylunio cynaliadwy?
- Lleihau'r defnydd o ynni o ffynonellau nad ydynt yn adnewyddadwy?
- Cynhyrchu ynni o ffynonellau carbon isel neu ddi-garbon?
- Lleihau'r angen i deithio neu nifer y teithiau a wneir?
- Hybu'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy, gan gynnwys cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus?
- Sicrhau nad yw datblygiadau'n cyfrannu at gynnydd pellach mewn defnydd ynni uchel na theithiau nad ydynt yn gynaliadwy?
- Gwella'r ddarpariaeth o atebion sy'n seiliedig ar natur er mwyn addasu a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd?

| Sgôr | Dosbarthiad | Meini Prawf Asesu |
|---|---|---|
| ++ | Cadarnhaol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau'n sylweddol yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n dod o Bowys. Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau'n sylweddol y defnydd o ynni neu'n cynyddu'n sylweddol faint o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei ddefnyddio/cynhyrchu. |
| + | Cadarnhaol | Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n dod o Bowys.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cynyddu cydnerthedd/lleihau bregusrwydd i effeithiau newid yn yr hinsawdd.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau'r defnydd o ynni neu'n cynyddu faint o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei ddefnyddio/cynhyrchu.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cefnogi/annog dylunio cynaliadwy. |
| 0 | Niwtral | Ni fyddai'r polisi/cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan. |
| - | Negyddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at gynnydd yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n dod o Bowys.<br>Ni fyddai'r polisi/cynnig yn cynyddu cydnerthedd/lleihau bregusrwydd i effeithiau newid yn yr hinsawdd. |
| -- | Negyddol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at gynnydd sylweddol yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n dod o Bowys.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cynyddu bregusrwydd i effeithiau newid yn yr hinsawdd. |
| ~ | Dim perthynas | Nid oes unrhyw berthynas glir rhwng y polisi/cynnig a chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |
| ? | Ansicr | Mae gan y polisi/cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad. |

**Amcan 12 yr ACI - Hybu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio**
Cwestiynau Arwain:

- Lleihau'r angen i deithio drwy batrymau defnydd tir a datblygu cynaliadwy?
- Annog newid moddol i fathau mwy cynaliadwy o deithio?
- Galluogi gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth?
- Hybu'r nifer sy'n manteisio ar drafnidiaeth carbon isel?
- Cyfrannu tuag at y rhwydwaith gwefru cerbydau trydan?
- Hwyluso gweithio gartref a gweithio o bell?
- Darparu gwelliannau i dagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd presennol a/neu eu lleihau nhw?

| Sgôr | Dosbarthiad | Meini Prawf Asesu |
|---|---|---|
| ++ | Cadarnhaol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau'n sylweddol yr angen i deithio, traffig ffyrdd a thagfeydd (e.e. mae datblygiad newydd o fewn pellter cerdded o 400m i'r holl wasanaethau).<br>Byddai'r polisi/cynnig yn creu cyfleoedd/cymhellion dros deithio/cludo pobl/nwyddau yn gynaliadwy.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau allgymudo'n sylweddol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth a/neu wasanaethau. |
| + | Cadarnhaol | Byddai'r polisi/cynnig yn lleihau'r angen i deithio (e.e. mae datblygiad newydd o fewn 800m i un gwasanaeth neu fwy).<br>Byddai'r polisi/cynnig yn annog defnyddio mathau cynaliadwy o deithio/cludo pobl/nwyddau yn gynaliadwy. |
| 0 | Niwtral | Ni fyddai'r polisi/cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan. |
| - | Negyddol | Byddai'r polisi/cynnig yn cynyddu'r angen i ddefnyddio mathau llai cynaliadwy o deithio, yn cynyddu traffig ffordd a thagfeydd.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn darparu datblygiadau newydd sydd yn bellach nag 800m oddi wrth wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus/llwybrau beicio. |
| -- | Negyddol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn cynyddu'r angen i ddefnyddio mathau llai cynaliadwy o deithio yn sylweddol, yn cynyddu traffig ffordd a thagfeydd yn sylweddol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at golli gwasanaethau a/neu seilwaith trafnidiaeth. |
| ~ | Dim perthynas | Nid oes unrhyw berthynas glir rhwng y polisi/cynnig a chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |
| ? | Ansicr | Mae gan y polisi/cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad. |

**Amcan 13 yr ACI - Cadw a gwella adnoddau treftadaeth Powys, gan gynnwys asedau adeiledig ac archeolegol**
Cwestiynau Arwain.

- Gwarchod a gwella arwyddocâd adeiladau a strwythurau o ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys sydd wedi eu dynodi a rhai nad ydynt wedi eu dynodi, a'u lleoliad?
- Gwarchod ac yn gwella diddordeb arbennig, cymeriad ac ymddangosiad Ardaloedd Cadwraeth a'u lleoliadau?
- Sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu cydnabod fel nodweddion annatod o dirwedd ddiwylliannol a hanesyddol Cymru?
- Gwarchod ac yn gwella olion archeolegol, ac ardaloedd sy'n sensitif o safbwynt archeolegol?

| Sgôr | Dosbarthiad | Meini Prawf Asesu |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| ++ | Cadarnhaol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn diogelu ac yn gwella safleoedd, ardaloedd a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol, diwylliannol, archeolegol a phensaernïol â dynodiadau cenedlaethol (gan gynnwys eu lleoliad).<br>Bydd y polisi/cynnig yn defnyddio adeiladau, mannau a lleoedd hanesyddol drwy addasu'n sensitif ac ailddefnyddio, gan ganiatáu mynediad i'r asedau unigryw hyn.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at ased/asedau'n cael ei dynnu/eu tynnu oddi ar Gofrestr yr asedau sydd Mewn Perygl. |
| + | Cadarnhaol | Byddai'r polisi/cynnig yn diogelu ac yn gwella safleoedd, ardaloedd a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol, diwylliannol, archeolegol a phensaernïol â dynodiadau cenedlaethol (gan gynnwys eu lleoliad).<br>Bydd y polisi/cynnig yn cynyddu mynediad i adeiladau/mannau/lleoedd hanesyddol/diwylliannol/archeolegol a phensaernïol. |
| 0 | Niwtral | Ni fyddai'r polisi/cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan. |
| - | Negyddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at ddirywiad safleoedd, ardaloedd a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol, diwylliannol, archeolegol a phensaernïol sydd â dynodiadau lleol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cyfyngu ar fynediad i adeiladau/mannau/lleoedd hanesyddol/diwylliannol/archeolegol/pensaernïol dros dro. |
| -- | Negyddol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at ddirywiad safleoedd, ardaloedd a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol, diwylliannol, archeolegol a phensaernïol sydd â dynodiadau lleol neu'n arwain at ddinistrio asedau treftadaeth (cenedlaethol neu leol). |
| ~ | Dim perthynas | Nid oes unrhyw berthynas glir rhwng y polisi/cynnig a chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |
| ? | Ansicr | Mae gan y polisi/cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad. |

## Amcan 14 yr ICA - Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth a hybu gwelliannau i'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol.

Cwestiynau Arwain:

- Lleihau effeithiau ar fioamrywiaeth a darparu cynnydd net pan fo hynny'n bosibl?
- Diogelu a gwella rhwydweithiau ecolegol, gan gynnwys y rhai sy'n croesi ffiniau gweinyddol?
- Diogelu safleoedd sy'n werthfawr yn ddaearegol, gan gynnwys eu lleoliad?

| Sgôr | Dosbarthiad | Meini Prawf Asesu |
|---|---|---|
| ++ | Cadarnhaol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar safleoedd, cynefinoedd neu rywogaethau dynodedig cenedlaethol (e.e. gwella cynefinoedd, creu cynefin ychwanegol neu gynyddu poblogaethau rhywogaethau gwarchodedig).<br>Byddai'r polisi/cynnig yn creu cynefin newydd ac yn ei gysylltu â chynefinoedd presennol neu'n gwella cynefinoedd presennol yn sylweddol i gefnogi bioamrywiaeth leol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cael effeithiau cadarnhaol mawr ar safleoedd daearegol bwysig a ddiogelir.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn gwella rhwydwaith seilwaith gwyrdd Powys yn sylweddol. |
| + | Cadarnhaol | Byddai'r polisi/cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar safleoedd, cynefinoedd neu rywogaethau dynodedig rhanbarthol neu leol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn gwella cynefinoedd presennol i gefnogi bioamrywiaeth leol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cael effeithiau cadarnhaol ar safleoedd daearegol bwysig a ddiogelir.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn gwella rhwydwaith seilwaith gwyrdd Powys. |
| 0 | Niwtral | **Ni fyddai'r polisi/cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan.** |
| - | Negyddol | Byddai'r polisi/cynnig yn cael effaith negyddol ar safleoedd, cynefinoedd neu rywogaethau dynodedig rhanbarthol neu leol (e.e. colli cynefinoedd yn y byrdymor, colli rhywogaethau ac effeithiau dros dro ar weithrediad ecosystemau).<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at aflonyddu ar gynefinoedd presennol yn y byrdymor ond ni fyddai'n cael effeithiau hirdymor ar fioamrywiaeth leol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cael mân effeithiau negyddol ar safleoedd daearegol bwysig a ddiogelir.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cael effaith andwyol ar rwydwaith seilwaith gwyrdd Powys. |

| | | |
|---|---|---|
| **--** | Negyddol Sylweddol | Byddai'r polisi/cynnig yn cael effeithiau negyddol ar safleoedd dynodedig, cynefinoedd a/neu rywogaethau a warchodir yn genedlaethol (h.y. ar nodweddion o ddiddordeb ac uniondeb y safle, drwy atal unrhyw amcanion cadwraeth rhag cael eu cyflawni neu arwain at ostyngiad hirdymor ym mhoblogaeth rhywogaeth â blaenoriaeth). Gallai'r effeithiau hyn gael eu lliniaru'n rhesymol.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn arwain at effeithiau negyddol hirdymor sylweddol ar safleoedd heb eu dynodi (e.e. drwy golledion sylweddol o ran cynefin yn arwain at golli strwythur a gweithrediad ecosystem yn yr hirdymor).<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cael effeithiau negyddol sylweddol ar safleoedd daearegol bwysig a ddiogelir.<br>Byddai'r polisi/cynnig yn cael effaith andwyol sylweddol ar rwydwaith seilwaith gwyrdd Powys. |
| **~** | Dim perthynas | Nid oes unrhyw berthynas glir rhwng y polisi/cynnig a chyflawniad yr amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |
| **?** | Ansicr | Mae gan y polisi/cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud asesiad. |


# Atodiad D Cefndir i'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

### Cefndir[301]

*Mae sectorau cynllunio gofodol ac iechyd yn unedig o ran y nod o integreiddio iechyd a llesiant yn well mewn polisi cynllunio defnydd tir lleol ond hefyd i gefnogi a darparu cyfleoedd i swyddogion cynllunio gofodol ymgysylltu a rhyngweithio â rhanddeiliaid a chymunedau craidd. Gall hyn helpu i gryfhau cynlluniau ond hefyd i fodloni gofynion ymgynghori a gofynion y Ddeddf Llesiant (Llywodraeth Cymru, 2015).*

*Mae HIA yn un o'r dulliau allweddol y gellir eu defnyddio ynghyd â, neu'n ychwanegol at, fathau eraill o ddulliau asesu effaith fel AAS ac AC a gall gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar adegau priodol o fewn proses ddatblygu'r CDLl (gweler y Ffigur isod).*

### Proses AEI yn dangos camau allweddol mewn polisi cynllunio a Rheoli Datblygu




301 Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (2021) Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl): Pecyn Cymorth ar gyfer Ymarfer yn: https://phw.nhs.wales/publications/publications1/asesur-effaith-ar-iechyd-hia-a-chynlluniau-datblygu-lleol-cdll-pecyn-cymorth-ar-gyfer-ymarfer/

*Nodwyd bod HIA yn gwneud 'cyfraniad ystyrlon at y broses o lunio'r cynllun (Llywodraeth Cymru, 2020a). Cyfarwyddir y system cynllunio gofodol i 'nodi mesurau rhagweithiol ac ataliol i leihau anghydraddoldebau iechyd' (Llywodraeth Cymru, 2020a).*

*Cyn mabwysiadu CDLl ac wrth ei baratoi, gall cynnal HIA sicrhau: bod y CDLl yn gwneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol / cyfleoedd posibl i iechyd a llesiant yn sgil y cynllun; lliniaru unrhyw effaith negyddol neu ganlyniadau negyddol anfwriadol; chwilio am synergeddau yn y broses; a gwneud y mwyaf o'r egwyddor datblygu cynaliadwy.*

**Ystyriaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn Cynlluniau Gofodol: Meysydd blaenoriaeth yr amgylchedd adeiledig a naturiol sy'n hybu camau iechyd a llesiant a chamau ar lefel strategol**[302]

*Seilwaith cynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth i gerdded a beicio ac sy'n gwella diogelwch ar y ffyrdd*

- Sicrhau bod cynlluniau Datblygu Lleol, Canllawiau Cynllunio Ategol a chynlluniau lleol (tai, manwerthu, masnachol a sector gyhoeddus) yn darparu seilwaith sy'n rhoi blaenoriaeth i gerdded a beicio
- Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn lleol ac yn genedlaethol
- Sicrhau bod cynlluniau a strategaethau trafnidiaeth yn cynnwys datblygu a gweithredu ar gyflwyno seilwaith teithio llesol a systemau trafnidiaeth integredig

*Seilwaith gwyrdd hygyrch sy'n cael ei gynnal a'i gadw, a mannau agored gwyrdd a glas*

- Sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol, Canllawiau Cynllunio Atodol a chynlluniau lleol (tai, manwerthu, masnachol a sector gyhoeddus) yn darparu seilwaith gwyrdd a mannau agored gwyrdd/glas.
- Sicrhau bod Cynlluniau Trafnidiaeth a Mannau agored yn darparu a hwyluso mynediad at seilwaith gwyrdd
- Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 gan gynnwys seilwaith gwyrdd mewn canllawiau dylunio a chynllunio llwybrau

*Amgylchedd manwerthu a thyfu bwyd lleol sy'n gwella mynediad i ddewisiadau bwyd iach*

- Sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol, Canllawiau Cynllunio Ategol a chynlluniau lleol (tai, manwerthu, masnachol a sector cyhoeddus) yn cynnwys mannau ble y gellir tyfu bwyd a gwella'r dewis yn yr amgylchedd manwerthu bwyd
- Sicrhau bod dyluniad ysgolion a mannau gwaith yn darparu mannau ble y gellir tyfu bwyd
- Sicrhau bod strategaethau Mannau Agored yn sefydlu a chynnal, er enghraifft, gerddi cymunedol a rhandiroedd mewn parciau

*Darparu gwasanaethau cymunedol, iechyd a gofal cymdeithasol mewn cyfleusterau lleol*

- Sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol, Canllawiau Cynllunio Ategol a chynlluniau lleol yn darparu cyfleusterau ar gyfer darparu gwasanaethau lleol

[302] Creu lleoedd a mannau iachach.pdf (wales.nhs.uk)

- Dylanwadu ar strategaethau a pholisïau'r Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd ac Awdurdodau lleol i gynnwys cyflwyno gwasanaethau o seilwaith o gyfleusterau lleol ar y cyd

*Lefelau isel o lygredd aer*

- Cefnogi datblygiad a gweithrediad strategaethau aer glân
- Sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol, Canllawiau Cynllunio Ategol yn darparu a chynnal seilwaith sy'n cefnogi teithio llesol a thrafnidiaeth allyriadau isel.
- Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Sicrhau bod Cynlluniau Trafnidiaeth a Mannau agored yn darparu a hwyluso mynediad at seilwaith gwyrdd
- Sicrhau bod Cynlluniau Teithio yn datblygu a darparu systemau teithio cwbl integredig

*Dylunio adeiladau sy'n hybu iechyd a llesiant*

- Sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol, Canllawiau Cynllunio Ategol yn darparu canllawiau ar ddyluniad adeiladau sy'n hybu iechyd a llesiant
- Dylanwadu ar ddyluniad cartrefi, tai, gweithleoedd, ysbytai a chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol
- Sicrhau bod Strategaeth Tai yn darparu cartrefi fforddiadwy, sy'n defnyddio ynni'n effeithiol ac sy'n gwneud y gorau o gyfleoedd seilwaith gwyrdd

Ymgorfforir y materion hyn yn Fframwaith yr ACI a'r Diffiniadau o Arwyddocâd (**Atodiad C**).

# Atodiad E Meini Prawf Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn ofyniad cyfreithiol fel y cadarnheir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[303]. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i ymgysylltu â’r gymuned leol ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb pan maent yn datblygu polisïau cynllun, ac i ystyried sylwadau a gyflwynwyd iddynt wrth benderfynu ar gais cynllunio. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ystyried sut y gallai eu polisïau, eu penderfyniadau, eu prosesau a’u gweithrediad effeithio ar grwpiau difreintiedig a lleiafrifol, a dylent sicrhau bod effeithiau o’r fath yn cael eu lleihau a’u dileu. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi ‘Dyletswydd Gyffredinol’ ar bob corff cyhoeddus i roi ‘sylw dyladwy’ i’r hyn a ganlyn:

- Dileu unrhyw achosion o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf
- Hybu cyfle cyfartal rhwng y rhai sydd â ‘nodweddion gwarchodedig’ a’r rhai nad oes ganddynt
- Meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sydd â ‘nodweddion gwarchodedig’ a’r rhai nad oes ganddynt

Proses yw Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb sydd wedi ei gynllunio i sicrhau nad yw polisi, prosiect na chynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp penodol ar sail nodweddion penodol, a ddiffinnir fel:

- Oedran
- Anabledd
- Ethnigrwydd/Hil
- Rhywedd/Rhyw
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Crefydd neu gredoau
- Cyfeiriadedd rhywiol

**Grwpiau yr effeithir arnynt:**

1. Pobl o wahanol rywedd *(Dynion/menywod/nodi rhywedd)*

303 Llywodraeth EM 2010 (2010, diweddariad diweddaraf 2022) ‘Deddf Cydraddoldeb 2010’. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15, aed at y wefan ar 19.07.2022.

2. Pobl o wahanol hiliau neu grwpiau ethnig *(Du, Gwyn, Asiaidd, Cymysg / Etifeddiaeth Ddeuol, Sipsiwn/Teithwyr ac ati)*

3. Pobl sydd â math o anabledd meddwl neu gorfforol (gweladwy ac anweledig): *e.e. nam ar y clyw, nam ar y golwg, anawsterau lleferydd, anawsterau dysgu, anawsterau symudedd, problemau iechyd meddwl, salwch hirdymor ac ati.*

4. Pobl o wahanol grwpiau oedran *e.e. plant, pobl ifanc yn eu harddegau, oedolion ifanc, pobl canol oed, neu bobl hŷn.*

5. Pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, anrhywiol neu heterorywiol.

6. Pobl o wahanol grwpiau crefyddol neu gred *e.e. Cristion, Bwdhyddion, Hindŵiaid, Iddewon, Moslemiaid, Sikhiaid, Anghrefyddol, neu gredoau eraill, e.e. credoau athronyddol megis dyneiddwyr.*

7. Pobl sydd wedi newid eu rhywedd neu sydd yn y broses o wneud hynny (h.y. trawsryweddol)

8. Menywod beichiog neu bobl sydd newydd gael baban (gellir diffinio mamolaeth/tadolaeth fel 26 wythnos ar ôl genedigaeth, ac mae'n cynnwys ystyriaeth am fwydo ar y fron.) Dim ond i'r gofyniad i roi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu y mae'n berthnasol)

9. Grwpiau eraill a allai ei chael hi'n anodd cael gafael ar bolisi / swyddogaeth, neu wneud defnydd o bolisi / swyddogaeth. *Er enghraifft: pobl sydd ar incwm isel / pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig / rhieni sengl / gofalwyr a phobl sy'n derbyn gofal / pobl sydd wedi troseddu yn y gorffennol / pobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor / pobl sy'n gaeth i'r tŷ / pobl sydd â hanes o gam-drin domestig / pobl nad ydynt yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf / pobl nad ydynt yn gallu cael gafael ar gyfrifiadur ac ati.*

Cefnogir y Ddeddf Cydraddoldeb gan ragor o ddeddfwriaeth sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb fel y nodir isod:

- Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000[304] – Estynnodd ddarpariaethau Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 i awdurdodau lleol a'r heddlu ac felly mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried eu heffeithiau posibl ar grwpiau lleiafrifol oherwydd eu hil a sicrhau nad ydynt o dan anfantais annheg.
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005[305] – Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried eu heffeithiau posibl ar y rhai sydd ag anabledd ac yn enwedig unigolion sydd ag anableddau corfforol a/neu feddyliol difrifol hirdymor.
- Deddf Cydraddoldeb, 2006 (Cydraddoldeb Rhywiol)[306] – Mae'r Ddeddf hon yn rhoi diogelwch i grefydd/credoau, cyfeiriadedd rhywiol a rhywedd/rhyw pobl.

[304] Llywodraeth EM (2000) 'Race Relations (Amendment) Act 2000'. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/34, aed at y wefan ar 19.07.2022.
[305] Llywodraeth EM (2005) 'Disability Discrimination Act 2005'. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/13
[306] Llywodraeth EM (2006) 'Equality Act 2006'. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/3

Proses ailadroddol yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a fydd yn cael ei hadolygu ar bob cam o'r broses AC a'i diweddaru yn unol â hynny, drwy'r camau canlynol:

Cam 1: Sgrinio

Cam 2: Cwmpasu

Cam 3: Ystyried Data a Gwybodaeth

Cam 4: Asesu Effeithiau Tebygol

Cam 5: Adolygu'r Effeithiau Tebygol

## Cam 1: Sgrinio

| Cwestiynau Allweddol | Sylwadau |
|---|---|
| Beth ydych chi'n edrych i'w gyflawni yn y gweithgaredd hwn? | |
| Pwy fydd yn effeithio arno ar y cyfan? | |
| A oes gan y gweithgaredd y potensial i achosi effaith andwyol neu i wahaniaethu yn erbyn gwahanol grwpiau yn y gymuned? | |
| A oes gan y gweithgaredd botensial i wneud cyfraniad cadarnhaol o ran cydraddoldeb? | |

## Cam 2: Cwmpasu'r Asesiad

| Cwestiynau Allweddol | Sylwadau |
|---|---|
| Beth yw nod neu bwrpas cyffredinol y swyddogaeth/polisi/gwasanaeth? | |
| Pa ganlyniadau ydych yn dymuno eu cyflawni â'r swyddogaeth/polisi/gwasanaeth hwn ac i bwy? | |
| Pwy fydd yn effeithio arno ar y cyfan? | |
| Pwy sy'n diffinio neu bwy a ddiffiniodd y swyddogaeth/polisi/gwasanaeth? | |
| Pwy sy'n gweithredu'r swyddogaeth/gwasanaeth/polisi? | |
| Pa ffactorau allai gyfrannu at y canlyniadau a nodir yn gynharach, neu dynnu oddi wrthynt? | |

## Cam 3: Ystyried data a gwybodaeth

| Cwestiynau Allweddol | Sylwadau |
|---|---|
| Beth ydych eisoes yn ei wybod am bwy sy’n defnyddio’r swyddogaeth/gwasanaeth/polisi? | |
| Pa ymgynghoriad gyda defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi digwydd ar y swyddogaeth / gwasanaeth / polisi a beth oedd y canfyddiadau allweddol? | |
| Os o gwbl, pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen i asesu effaith y swyddogaeth/gwasanaeth/polisi? | |
| Sut ydych yn bwriadu casglu’r wybodaeth ychwanegol? | |

## Cam 4: Asesu’r Effeithiau Tebygol

| Maes Anghydraddoldeb Posibl | Effeithiau Tebygol |
|---|---|
| 1. Pobl o wahanol rywedd *(Dynion/menywod/ nodi rhywedd)* | |
| 2. Pobl o wahanol hiliau neu grwpiau ethnig *(Du, Gwyn, Asiaidd, Cymysg / Etifeddiaeth Ddeuol, Sipsiwn/Teithwyr ac ati)* | |
| 3. Pobl sydd â math o anabledd meddwl neu gorfforol (gweladwy ac anweledig): *e.e. nam ar y clyw, nam ar y golwg, anawsterau lleferydd, anawsterau dysgu, anawsterau symudedd, problemau iechyd meddwl, salwch hirdymor ac ati.* | |
| 4. Pobl o wahanol grwpiau oedran *e.e. plant, pobl ifanc yn eu harddegau, oedolion ifanc, pobl canol oed, neu bobl hŷn.* | |
| 5. Pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, anrhywiol neu heterorywiol. | |
| 6. Pobl o wahanol grwpiau crefyddol neu gred *e.e. Cristion, Bwdhyddion, Hindŵiaid, Iddewon, Moslemiaid, Sikhiaid, Anghrefyddol, neu gredoau eraill, e.e. credoau athronyddol megis dyneiddwyr.* | |
| 7. Pobl sydd wedi newid eu rhywedd neu sydd yn y broses o wneud hynny (h.y. trawsryweddol) | |
| 8. Menywod beichiog neu bobl sydd newydd gael baban (gellir diffinio mamolaeth/tadolaeth fel 26 wythnos ar ôl genedigaeth, ac mae’n cynnwys ystyriaeth am fwydo ar y fron). Dim ond i’r gofyniad i roi sylw dyladwy i’r angen i ddileu gwahaniaethu y mae’n berthnasol) | |
| 9. A oes unrhyw grwpiau eraill a allai ei chael hi’n anodd cael gafael ar bolisi / swyddogaeth, neu wneud defnydd o bolisi / swyddogaeth? *Er enghraifft: pobl sydd ar incwm isel / pobl sy’n byw mewn ardaloedd gwledig / rhieni sengl / gofalwyr a phobl sy’n derbyn gofal / pobl sydd wedi troseddu yn y gorffennol / pobl sy’n ddi-waith yn yr hirdymor / pobl sy’n gaeth i’r tŷ / pobl sydd â hanes o gam-drin domestig / pobl nad ydynt yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf / pobl nad ydynt yn gallu cael gafael ar gyfrifiadur ac ati.* | |

| | |
|---|---|
| 10. A allai'r polisi hwn wahaniaethu ar sail priodas neu bartneriaeth sifil? | |
| 11. A oes unrhyw effaith negyddol bosibl na ellir ei lleihau neu ei dileu? Os oes, a oes modd ei chyfiawnhau? E.e. ar sail hybu cyfle cyfartal i grŵp gwarchodedig arall. | |

## Cam 5: Adolygu a chraffu ar yr effaith

| Cwestiwn Allweddol | Sylwadau |
|---|---|
| Pa gasgliadau y gallwch ddod iddynt am unrhyw effaith wahaniaethol a sut yr effeithir ar bobl yn andwyol neu'n gadarnhaol? | |
| Pa gamau y gallwch eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau a nodir? | |
| Os na ellir gwneud newidiadau, pa resymau sydd i gyfiawnhau hyn? | |
| Sut y gallai unrhyw un o'r newidiadau mewn cysylltiad â'r effaith andwyol gael effaith andwyol bellach ar unrhyw grŵp arall? | |
| Pa broses o wneud penderfyniadau y mae angen i'r newidiadau hyn fynd drwyddi h.y. a oes angen iddynt gael eu cymeradwyo gan Bwyllgor/Cyngor? | |
| Sut fyddwch yn parhau i fonitro effaith y swyddogaeth/gwasanaeth/polisi ar grwpiau amrywiol? | |
| Pryd fyddwch yn adolygu'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb? | |

# Atodiad F Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd

## Cyflwyniad

Mae fframwaith arfarnu safleoedd arfaethedig Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig (ACI) a nodir isod yn rhan o asesiad safleoedd ehangach sy'n cynnwys proses hidlo a fydd yn eithrio'r safleoedd hynny sy'n methu â bodloni meini prawf sylfaenol megis risg llifogydd, materion priffyrdd neu wrthdaro clir ag asedau bioamrywiaeth. Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) Mawrth 2020 yn awgrymu y dylai'r broses yn ei chyfanrwydd alluogi'r cwestiynau canlynol i gael eu hateb:

- A yw'r safle mewn lleoliad cynaliadwy yn unol â'r drefn chwilio safleoedd a nodir yn Polisi Cynllunio Cymru 11?
- Yn gyffredinol, a yw'r safle'n rhydd o gyfyngiadau ffisegol, megis perchenogaeth tir, seilwaith, mynediad, cyflwr y ddaear, bioamrywiaeth, tirwedd, treftadaeth, problemau risgiau llifogydd a llygredd?
- A oes modd darparu'r safle (a oes modd datblygu'r safle yn ystod cyfnod y cynllun, neu wneud cynnydd sylweddol fel arall)?
- A yw datblygiad y safle yn ddichonol yn ariannol? Sef, a yw'r safle'n ddeniadol i'r farchnad (y sector preifat a/neu'r sector cyhoeddus), a yw'r safle'n gallu darparu'r lefelau eang o dai fforddiadwy, gofynion polisi / adran 106 eraill a'r costau seilwaith a nodir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol wrth ddarparu adenillion digonol i'r datblygwr/tirfeddiannwr?

Byddai safleoedd sy'n bodloni'r meini prawf hidlo cychwynnol yn ddarostyngedig i asesiad o'i gymharu â fframwaith arfarnu safleoedd ACI. Bydd yr wybodaeth a gesglir drwy'r broses asesu darpar safleoedd, ynghyd â ffynonellau eraill o dystiolaeth, yn llywio ACI y safleoedd hynny yn uniongyrchol. Mae safleoedd sy'n ymddangos fel petaent yn perfformio'n wael o'u cymharu â fframwaith yr ACI yn debygol o gael eu heithrio rhag ystyriaeth bellach.

Defnyddir offer System Gwybodaeth Ddaearyddol i ymgymryd â'r arfarniad o ddewisiadau safle, gan ddibynnu ar y nodwedd a'r mesuriadau sydd eu hangen, drwy'r pellter llinell syth o nodwedd i ddewis safle a'r ganran sy'n gorgyffwrdd ag unrhyw nodweddion mewn dewis safle, gan ddefnyddio mesuriadau a gymerwyd o ffin agosaf y dewis safle a'r nodwedd.

Noda Tabl G0 y system sgorio arfaethedig i'w defnyddio ar y cyd â'r meini prawf arfarnu sy'n benodol i Wrthrychau a nodir yn Nhablau F1–F15 isod.

**Tabl F0 System Sgorio ar gyfer Asesu Safle ACI**

| Symbol | Sgôr | Disgrifiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol arwyddocaol | Mae'r cynnig yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r amcan. | Amh. |
| + | Mân effaith gadarnhaol | Mae'r cynnig yn cyfrannu at gyflawni'r amcan, ond nid yn sylweddol. | Ystyried unrhyw fesurau gwella ychwanegol. |
| 0 | Niwtral/dim effaith | Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflawni'r amcan. | Ystyried a allai ymyrraeth ddod ag effeithiau cadarnhaol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Mân effaith negyddol | Mae'r cynnig yn amharu ar y broses o gyflawni'r amcan, ond nid yn sylweddol. | Ystyried mesurau lliniaru priodol a chyfleoedd i wella. |
| -- | Effaith negyddol arwyddocaol | Mae'r cynnig yn amharu'n sylweddol ar y broses o gyflawni'r amcan. | Asesu dichonoldeb (ymarferoldeb a chost) mesurau lliniaru i leihau difrifoldeb yr effeithiau.<br>Pan nad yw lliniaru digonol yn ymarferol, ailystyried y cynnig. |
| ? | Effaith ansicr | Mae gan y cynnig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibynnol ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, mae'n bosibl nad oes digon o wybodaeth ar gael i wneud arfarniad. | Gwneud awgrymiadau i'w gweithredu.<br>Mae angen gwybodaeth ychwanegol. |

## Fframwaith Arfarnu Safleoedd ACI arfaethedig

### Amcan 1 yr ACI – Darparu cartrefi o ansawdd da a seilwaith cymunedol i ddiwallu anghenion a nodwyd

### Cwestiynau Arfarnu Safle

- A oes gan y safle y capasiti i ddarparu o leiaf 5 annedd?
- A yw'r lleoliad arfaethedig wedi ei gysylltu'n ffisegol i anheddiad presennol y gellir ei wasanaethu gan unrhyw seilwaith angenrheidiol (e.e. drwy uwchraddio)?
- A oes gan y safle/datblygiad arfaethedig y potensial i ddarparu cyfleusterau cymunedol?

**Tabl F1 Amcan 1 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Mae gan y safle gapasiti (dros 50 annedd), yn amodol ar yr hierarchaeth anheddu) i ddarparu cartrefi newydd, mae wedi ei gysylltu'n dda yn ffisegol i anheddiad presennol a gallai ddarparu/cefnogi cyfleusterau cymunedol presennol (yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau a'r meini prawf hygyrchedd yn y troednodyn)* |
| + | Mae gan y safle gapasiti (5-49 annedd), yn amodol ar yr hierarchaeth anheddu) i ddarparu cartrefi newydd ac mae wedi ei gysylltu'n dda i anheddiad presennol (yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau a'r meini prawf hygyrchedd yn y troednodyn)* |
| 0 | Gallai'r safle ddarparu cartrefi newydd heb unrhyw rinweddau eraill/cynigir y safle at ddefnydd cyflogaeth |
| - | Gallai'r safle ddarparu cartrefi a gwasanaethau newydd; fodd bynnag, nid yw'r safle wedi ei gysylltu'n ffisegol i anheddiad presennol (yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau a'r meini prawf hygyrchedd yn y troednodyn)* |
| -- | Nid yw'r safle wedi ei gysylltu'n dda i anheddiad presennol, ni ellid ei wasanaethu ac ni fyddai'n darparu cyfleusterau cymunedol (yn ôl yr |

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| | hierarchaeth aneddiadau a'r meini prawf hygyrchedd yn y troednodyn)* |
| ? | Effaith ansicr |

*Gweler tudalen F16 ar gyfer y troednodyn.

**Amcan 2 yr ACI – Creu a chefnogi economi a gweithlu sy'n gryf, yn gydnerth ac yn gadarn**

## Cwestiynau Arfarnu Safle

- A fydd y cynigion datblygu yn darparu cyfleusterau cyflogaeth ac/neu'n cefnogi anghenion busnesau i ehangu, ail-leoli, amrywio ac ati?
- A yw'r cynigion yn darparu cyfleoedd cyflogaeth a/neu'r potensial i uwchsgilio'r gweithlu lleol?

**Tabl G2 Amcan 2 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Bydd y safle'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a fydd o fudd i'r ardal ac yn ategu'r ddarpariaeth bresennol |
| + | Bydd y safle'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at yr amcan nac yn amharu arno. |
| - | Bydd datblygiad(au) ar y safle yn arwain at golli tir cyflogaeth dynodedig |
| -- | Bydd datblygiad(au) ar y safle yn arwain at golli tir cyflogaeth dynodedig a busnesau yn yr ardal leol |
| ? | Effaith ansicr |

**Amcan 3 yr ACI – Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol**

## Cwestiynau Arfarnu Safle

- A fydd datblygu'r safle hwn yn cynnig cwmpas penodol i ddatblygu cymuned sy'n fwy cynaliadwy? (e.e. a ellir sicrhau gwelliannau i'r seilwaith ffisegol neu gymdeithasol/)
- A yw'r Cyngor Tref a Chymuned yn cefnogi'r cynnig?

**Tabl G3 Amcan 3 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Mae'n debygol y bydd y datblygiad yn arwain at welliant sylweddol o ran darparu a/neu fynediad at ddarpariaeth gyflogaeth / addysg / gwasanaeth e.e. drwy gyfleusterau cymunedol newydd |
| + | Mae gan y datblygiad y potensial am welliant o ran darparu a/neu'r mynediad at ddarpariaeth gyflogaeth / addysg / gwasanaeth e.e. drwy gyfleusterau cymunedol newydd |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at yr amcan nac yn amharu arno. |
| - | Nid oes cyfleoedd am welliannau o ran darparu a/neu fynediad at ddarpariaeth gyflogaeth / addysg / gwasanaeth |
| -- | Byddai'r datblygiad yn arwain at golli cyfleusterau cymunedol |
| ? | Effaith ansicr |

**Amcan 4 yr ACI – Diogelu, hybu a gwella'r Gymraeg a Diwylliant Cymru**

## Cwestiynau Arfarnu Safle

- A yw'r cynnig wedi ei leoli mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch neu ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd is?
- A oes gan y lleoliad a/neu raddfa a/neu gamau'r cynnig y potensial i gael effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg?
- A yw'r cynnig yn bodloni amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaethau i ddiwallu anghenion lleol, yn enwedig darparu tai fforddiadwy a thai arbenigol?
- A yw'r cynnig yn creu ac yn cefnogi economi a gweithlu cryf, amrywiol a chydnerth?
- A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad cymdeithasol neu weithle yn feunyddiol?
- Pa gyfleoedd y mae'r cynnig yn eu darparu ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg a hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned?
- A yw'r cynnig yn darparu cyfleuster neu wasanaeth cymunedol dwyieithog newydd, neu'n gwella'r mynediad at gyfleusterau neu wasanaethau cymunedol presennol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg?
- Mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd is, a fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

**Tabl F4 Amcan 4 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Mae datblygu'r safle'n ymgorffori mesurau priodol i ddiogelu, hybu a gwella'r defnydd o'r Gymraeg, ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfleuster neu wasanaeth cymunedol dwyieithog newydd neu'n gwella'r mynediad at gyfleusterau neu wasanaethau cymunedol presennol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. |

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| + | Mae datblygu'r safle'n ymgorffori mesurau priodol i ddiogelu, hybu a gwella'r defnydd o'r Gymraeg. |
| 0 | Nid yw'r safle mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd is. Mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd is, ni fydd y cynnig yn cael effeithiau niweidiol neu lai o effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. |
| - | Mae gan y safle gapasiti ar gyfer 5 neu fwy o anheddau a llai na 10 annedd, neu ar gyfer mathau eraill o ddatblygiadau, byddai gan yr adeilad arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu'n golygu safle ag arwynebedd o hyd at 1 hectar, ac mae mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch heb ddarparu mesurau lliniaru a gwella. |
| -- | Mae gan y safle gapasiti ar gyfer 10 neu fwy o anheddau, neu ar gyfer mathau eraill o ddatblygiadau, byddai gan yr adeilad arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy neu'n golygu safle ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy, ac mae mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch heb ddarparu mesurau lliniaru a gwella. |
| ? | Effaith ansicr |

**Amcan 5 yr ACI – Gwella iechyd a llesiant pob sector o'r gymdeithas**

## Cwestiynau Arfarnu Safle

- A yw'r safle wedi ei leoli er mwyn annog iechyd a llesiant, gan gynnwys mynediad at ofal iechyd, gweithgarwch corfforol, teithio llesol, man gwyrdd naturiol hygyrch a rhyngweithio ac ymgysylltu â'r gymuned?
- A allai'r safle gyfrannu at ddarpariaeth o gyfleusterau a mannau sy'n hybu iechyd a llesiant?

**Tabl F5 Amcan 5 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Bydd datblygu'r safle yn arwain at uwchraddio a/neu ddarparu cyfleusterau gofal iechyd, cyfleusterau chwaraeon, llwybr teithio llesol, a man gwyrdd naturiol neu led-naturiol hygyrch. |
| + | Mae'r safle o fewn 1,000 metr i gyfleuster gofal iechyd a chyfleuster **chwaraeon (gweler y meini prawf hygyrchedd dangosol yn y troednodyn)** ac o fewn 720 metr i fan gwyrdd naturiol neu led-naturiol hygyrch (yn ôl Safonau Fields in Trust).<br>Neu<br>mae'r safle o fewn pellter cerdded (800 metr) i drafnidiaeth gyhoeddus neu lwybr teithio llesol sy'n cysylltu'r cyfleusterau neu'r mannau hyn. |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at yr amcan nac yn amharu arno. |
| - | Nis defnyddir |
| -- | Nid oes unrhyw fynediad i gyfleusterau gofal iechyd, cyfleusterau chwaraeon a man gwyrdd naturiol neu led-naturiol hygyrch drwy drafnidiaeth gyhoeddus neu deithio llesol. |

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ? | Effaith ansicr |

*Gweler tudalen 55 ar gyfer y troednodyn.

**Amcan 6 yr ACI – Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau presennol, a diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas**

## Cwestiwn Arfarnu Safle

- A fydd datblygu'r safle hwn yn osgoi colli'r tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas?
- A fydd y safle yn defnyddio tir sydd eisoes wedi'i ddatblygu lle y bo'n addas ar gyfer datblygiad lle na fydd hyn yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar Gynefinoedd Mosaig Agored?

**Tabl F6 Amcan 6 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Tir a ddatblygwyd o'r blaen yw'r holl safle |
| + | Tir a ddatblygwyd o'r blaen yw'r safle yn rhannol ac mae'n cynnwys tir amaethyddol gradd isel (Gradd 3b, 4 a 5) |
| 0 | Tir glas yw'r safle yn rhannol (> 50%) ac mae'n cynnwys tir amaethyddol gradd isel (Gradd 3b, 4 a 5) |
| - | Tir glas yw'r safle yn rhannol (> 50%) ac mae'n dir amaethyddol gradd uchel (Gradd 1, 2 a 3a) |
| -- | Tir glas yw'r holl safle ac mae'n cynnwys tir amaethyddol gradd uchel (Gradd 1, 2 a 3a) |
| ? | Effaith ansicr |

**Amcan 7 yr ACI – Gwarchod, diogelu a gwella ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr**

## Cwestiwn Arfarnu Safle

- A ddisgwylir y bydd modd datblygu'r safle heb effaith andwyol ar ansawdd dŵr neu adnoddau dŵr?

**Tabl F7 Amcan 7 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Nis defnyddir |
| + | Gallai'r cynnig gyfrannu at y broses o warchod a gwella ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, e.e. drwy ymgorffori mesurau oddi ar y safle |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at yr amcan nac yn amharu arno. |
| - | Gallai'r cynnig gael effaith andwyol ar ansawdd dŵr, e.e. drwy'r potensial am ollyngiadau, neu ddefnydd o adnoddau dŵr. |

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| -- | Nis defnyddir |
| ? | Effaith ansicr |

**Amcan 8 yr ACI – Minimeiddio neu leihau ffynonellau ac effeithiau llygredd aer**

## Cwestiwn Arfarnu Safle

- A fydd cynigion datblygu'n annog pobl i deithio drwy ddulliau cynaliadwy (teithio llesol a/neu drafnidiaeth gyhoeddus) yn unol â'r hierarchaeth deithio genedlaethol?
- A fydd cynigion datblygu'n cynnwys risg annerbyniol o niwed i iechyd pobl neu'r amgylchedd naturiol oherwydd llygredd aer?

**Tabl F8 Amcan 8 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Nis defnyddir |
| + | Byddai datblygiad y safle yn darparu cyfleoedd i hybu teithio cynaliadwy a gwireddu'r hierarchaeth deithio genedlaethol.<br>Ni fydd y cynnig datblygu'n arwain at unrhyw gynnydd o ran lefelau llygredd aer. |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at yr amcan nac yn amharu arno. |
| - | Ni fydd datblygu'r safle yn cyfrannu tuag at wireddu'r hierarchaeth deithio genedlaethol. |
| -- | Bydd y cynnig datblygu'n cynnwys risg annerbyniol o niwed i iechyd pobl neu'r amgylchedd naturiol. |
| ? | Effaith ansicr |

**Amcan 9 yr ACI – Er mwyn lleihau'r gwastraff a gynhyrchir, annog pobl i ailddefnyddio ac ailgylchu a hybu defnydd effeithlon o adnoddau mwynol**

## Cwestiwn Arfarnu Safle

Ni fu'n bosibl nodi meini prawf lefel sy'n benodol i'r safle ar gyfer yr Amcan ACI hwn.

**Tabl F9 Amcan 9 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Nis defnyddir |

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| + | Nis defnyddir |
| 0 | Ystyrir ei fod yn niwtral ar draws prosiectau oherwydd y gallai pob prosiect gyfrannu at yr amcan hwn i ryw raddau drwy ddylunio a rheoli gwastraff. |
| - | Nis defnyddir |
| -- | Nis defnyddir |
| ? | Nis defnyddir |

**Amcan 10 yr ACI – Cefnogi cydnerthedd Powys i effeithiau posibl newid hinsawdd, gan gynnwys llifogydd a digwyddiadau eithafol eraill**

## Cwestiwn Arfarnu Safle

- A yw'r safle yn rhydd o risg llifogydd neu a brofwyd y gellir rheoli unrhyw risg llifogydd yn dderbyniol?
- A fydd datblygu'r safle yn gwella ac yn ymestyn rhwydweithiau seilwaith gwyrdd i gefnogi'r gwaith o addasu i newid yn yr hinsawdd?

**Tabl F10 Amcan 10 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Nis defnyddir |
| + | Nid yw'r safle mewn ardal y nodwyd ei bod yn wynebu risg o lifogydd o afonydd neu lifogydd arfordirol ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.<br>Byddai'r safle yn gwella ac yn ymestyn rhwydweithiau seilwaith gwyrdd i gefnogi'r gwaith o addasu i newid yn yr hinsawdd |
| 0 | Nis defnyddir |
| - | Mae'r safle ar gyfer datblygiad bregus iawn mewn Ardal a Amddiffynnir a/neu Barth 2, mae ar dir a ddatblygwyd o'r blaen ac yn cael ei gefnogi gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n nodi bod canlyniadau posibl digwyddiad llifogydd ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol yn unol â'r meini prawf yn adran 11 o TAN 15 (2021). |
| -- | Mae'r safle ar gyfer datblygiad bregus iawn o fewn Parth 3, neu mae mewn Ardal a Amddiffynnir neu Barth 2, ar dir a ddatblygwyd o'r blaen ond nid yw'n cael ei gefnogi gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n dangos ei fod yn bodloni'r meini prawf yn adran 11 o TAN 15 (2021). |
| ? | Effaith ansicr |

### Amcan 11 yr ACI – Lleihau cyfraniad allyriadau nwyon tŷ gwydr i newid yn yr hinsawdd

#### Cwestiwn Arfarnu Safle

- A yw'r safle'n darparu cwmpas ar gyfer lleihau ynni/ynni adnewyddadwy?

**Tabl F11 Amcan 11 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Byddai datblygu'r safle yn cyfrannu'n sylweddol at yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir a/neu'n hybu mesurau cynaliadwyedd ehangach, e.e. drwy allforio ynni a gynhyrchir i'r grid. |
| + | Byddai datblygu'r safle'n cyfrannu at yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir a/neu fesurau cynaliadwyedd ehangach |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at yr amcan nac yn amharu arno. |
| - | Nis defnyddir |
| -- | Nis defnyddir |
| ? | Effaith ansicr |

### Amcan 12 yr ACI – Hybu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio

#### Cwestiwn Arfarnu Safle

- A yw lleoliad y safle yn annog newid i ddefnyddio ffurfiau mwy cynaliadwy o deithio (e.e. a yw'n ganolog ac yn hygyrch i wasanaethau lleol a/neu'r rhwydwaith drafnidiaeth gyhoeddus heb rwystrau ffisegol i fynediad diogel ar droed neu wrth feicio)?

**Tabl F12 Amcan 12 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Mae'r safle yn bodloni un o'r meini prawf canlynol: mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau cymunedol â mynediad diogel i gerddwyr (yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau a'r meini prawf hygyrchedd dangosol yn y troednodyn) |
| + | Mae'r safle o fewn pellter cerdded i drafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau cymunedol â mynediad diogel i gerddwyr (yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau a'r meini prawf hygyrchedd dangosol yn y troednodyn) |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at yr amcan nac yn amharu arno. |
| - | Nid yw'r safle o fewn pellter cerdded i drafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau cymunedol ac nid oes mynediad diogel i gerddwyr (yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau a'r meini prawf hygyrchedd dangosol yn y troednodyn) |

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| -- | Mae'r safle >800m i drafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau cymunedol a llwybr teithio llesol (yn ôl yr hierarchaeth aneddiadau a'r meini prawf hygyrchedd dangosol yn y troednodyn) |
| ? | Effaith ansicr |

**Amcan 13 yr ACI – Cadw a gwella adnoddau treftadaeth Powys, gan gynnwys asedau adeiledig ac archeolegol**

## Cwestiwn Arfarnu Safle

- A yw'r datblygiad yn debygol o effeithio'n gadarnhaol ar ddiwylliant, arwahanrwydd lleol, a synnwyr o le, gan gynnwys diogelu asedau hanesyddol a'u lleoliad?

**Tabl F13 Amcan 13 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Bydd datblygu'r safle yn arwain at ddiogelu a gwella asedau hanesyddol, e.e. drwy ddarparu defnydd buddiol ar gyfer ased presennol. |
| + | Mae gan ddatblygu'r safle'r potensial i wella ased hanesyddol e.e. drwy ei leoliad (o fewn 250m) |
| 0 | Ni fydd datblygu'r safle yn cyfrannu at yr amcan nac yn amharu arno. |
| - | Mae'r safle'n cynnwys neu o fewn lleoliad (o fewn 250m) ased hanesyddol o bwysigrwydd lleol / rhanbarthol (gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth ac asedau nas dynodir) ac mae'n debygol o effeithio ar arwyddocâd yr ased |
| -- | Mae'r safle'n cynnwys ased hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol (adeiladau rhestredig Gradd I, II* a II, gerddi a pharciau cofrestredig neu henebion cofrestredig Gradd I, II* a II) ac mae'n debygol o effeithio ar arwyddocâd yr ased |
| ? | Mae'r effeithiau ar leoliad yr ased hanesyddol yn ansicr |

**Amcan 14 yr ACI – Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth a hybu gwelliannau i'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol**

## Cwestiynau Arfarnu Safle

- A yw'r safle'n rhydd o gyfyngiadau amgylcheddol / sensitifrwydd megis cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau bregus, neu agosrwydd atynt?
- A oes cyfleoedd penodol ar gyfer bioamrywiaeth neu fudd ecolegol neu welliant geoamrywiaeth ar y safle hwn (e.e. potensial i greu ardaloedd gwyrdd, coridorau cynefinoedd ac ati, neu gwmpas i wella ansawdd dŵr, aer, neu bridd?)

**Tabl F14 Amcan 14 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Nis defnyddir |

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| + | Mae'r safle yn rhydd o gyfyngiadau bioamrywiaeth / geoamrywiaeth a bydd yn cyfrannu at wella bioamrywiaeth / geoamrywiaeth ar y safle ac yn y cyffiniau |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at yr amcan nac yn ei waethygu |
| - | Gallai'r safle' gael effaith andwyol ar safleoedd dynodedig rhanbarthol neu leol (Safle Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol, Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur) a/ neu gynefinoedd/ rhywogaethau â blaenoriaeth. |
| -- | Mae'r safle nesaf at/neu'n debygol o gael effaith andwyol ar safle a warchodir yn rhyngwladol (ACA, AGA, Ramsar) neu a warchodir yn genedlaethol (GNG, SoDdGA, Coetir Hynafol), safle dynodedig neu rywogaeth a warchodir. |
| ? | Effaith ansicr |

**Amcan 15 yr ACI – Gwarchod ansawdd ac amrywiaeth tirweddau a threfluniau dynodedig a lleol**

## Cwestiwn Arfarnu Safle

- A yw datblygu'r safle yn debygol o effeithio ar ddibenion neu leoliad tirweddau dynodedig h.y. Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol?
- A oes modd ymgorffori â chydymdeimlad y cynigion datblygu yn y dirwedd a'r amgylchedd lleol heb niwed i gymeriad nac ymddangosiad yr ardal?  (yn enwedig wrth ystyried safle i ddatblygu ar dir glas a/neu ar gyrion anheddiad pan fo datblygiad yn ymestyn i gefn gwlad agored).

**Tabl F15 Amcan 15 yr ACI Meini Prawf ar gyfer Arfarnu Safleoedd**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Mae datblygiad y safle yn diogelu ac mae ganddo'r potensial i wella cymeriad y dirwedd / anheddiad lleol fel y penderfynir trwy LANDMAP ac Asesiad o Gymeriad Tirwedd Lleol Powys. |
| + | Mae datblygiad y safle yn diogelu cymeriad y dirwedd / anheddiad fel y penderfynir trwy LANDMAP ac Asesiad o Gymeriad Tirwedd Lleol Powys. |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at yr amcan nac yn amharu arno. |
| - | Byddai datblygu'r safle yn cyfaddawdu cymeriad y dirwedd leol / anheddiad fel y penderfynir trwy LANDMAP ac Asesiad o Gymeriad Tirwedd Lleol Powys. |
| -- | Mae'r safle wedi'i leoli o fewn 2,000m ar gyfer preswyl, neu 10,000m ar gyfer diwydiannol neu gynhyrchu a dosbarthu ynni) i ffin Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac mae datblygu'r safle yn debygol o effeithio ar ddiben neu leoliad y tirweddau dynodedig hyn. |
| ? | Effaith ansicr |

**Troednodyn: Meini Prawf Hygyrchedd Dangosol**

| Cyfleuster | Safonau Hygyrchedd Rhesymol (Uchafswm) |
|---|---|
| Ysgol Gynradd | 600 metr |
| Ysgol Uwchradd | 2000 metr |
| Gwasanaethau Iechyd | 1000 metr |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | 800 metr |
| Caeau Chwaraeon / Caeau Chwarae / Canolfannau Hamdden | 1000 metr |
| Manwerthu – siopau sy'n darparu nwyddau sylfaenol i ddiwallu anghenion o ddydd i ddydd (canolfannau tref, lleol a chymdogaeth) | 1000 metr - 2000 metr |
| Cyflogaeth – Pellter i safleoedd cyflogaeth lleol / dyraniadau presennol | Hyd at 5000 metr |

Addaswyd o Sustainable Settlements: A Guide for Planners, Designers and Developers (Barton, Davis a Guise, 1995) a Shaping Neighbourhoods – for local health and global sustainability (2010)